Dogfen ir Cyhoedd

Mr Dylan Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| **PWYLLGOR GWAITH** | | **THE EXECUTIVE** |
| **DYDD IAU 22 MAI 2025 10.00 o'r gloch** | | **THURSDAY 22 MAY 2025 10.00 am** |
| **YSTAFELL BWYLLGOR, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI AC YN RHITHIOL DRWY ZOOM** | | **COMMITTEE ROOM, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI AND VIRTUALLY VIA ZOOM** |
| Swyddog Pwyllgor | **Ann Holmes 01248 752518** | Committee Officer |

**AELODAU/MEMBERS**

**Plaid Cymru/The Party of Wales**

Neville Evans, Carwyn E Jones, Dyfed Wyn Jones, Gary Pritchard, Alun Roberts, Nicola Roberts, Robin Wyn Williams

**Y Grŵp Annibynnol/The Independent Group**

Dafydd Roberts, Dafydd Rhys Thomas

COPI ER GWYBODAETH / COPY FOR INFORMATION

I Aelodau'r Cyngor Sir / To the Members of the County Council

Bydd aelod sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith yn cael gwahoddiad i'r cyfarfod i siarad (ond nid i bleidleisio) os ydy o/hi wedi gofyn am gael rhoddi eitem ar y rhaglen dan Reolau Gweithdrefn y Pwyllgor Gwaith. Efallai bydd y Pwyllgor Gwaith yn ystyried ceisiadau gan aelodau sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith i siarad ar faterion eraill.

A non-Executive member will be invited to the meeting and may speak (but not vote) during the meeting, if he/she has requested the item to be placed on the agenda under the Executive Procedure Rules. Requests by non-Executive members to speak on other matters may be considered at the discretion of The Executive.

***Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cytunedig yr Awdurdod***

**R H A G L E N**

1 **YMDDIHEURIADAU**

2 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn datganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

3 **MATERION BRYS ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU EI SWYDDOG APWYNTIEDIG**

Dim materion brys ar adeg anfon y rhaglen hon.

4 **COFNODION** (Tudalennau 1 - 4)

Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion drafft y cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 29 Ebrill 2025.

5 **BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH** (Tudalennau 5 - 12)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Democratiaeth.

6 **ADRODDIAD YMGYSYLLTU – DARPARIAETH ADDYSG ÔL-16** (Tudalennau 13 - 106)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc.

7 **STRATEGAETH MODERNEIDDIO CYMUNEDAU DYSGU A DATBLYGU'R GYMRAEG** (Tudalennau 107 - 198)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc.

# Y PWYLLGOR GWAITH

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd yn yr Ystafell Bwyllgor ac yn rhithwir ar Zoom ar 29 Ebrill, 2025

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Gary Pritchard (Arweinydd) (Cadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Neville Evans, Carwyn Jones, Alun Roberts, Dafydd Roberts, Nicola Roberts, Dafydd Rhys Thomas, Robin Williams. |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr<br>Dirprwy Brif Weithredwr<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro<br>Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc<br>Pennaeth Democratiaeth<br>Prif Swyddog Datblygu Economaidd (THJ)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH)<br>Swyddog Gwe-ddarlledu (FT) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd Dyfed Wyn Jones (Aelod Portffolio dros Blant, Pobl Ifanc a Theuluoedd), Mr Fôn Roberts (Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol). |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorwyr Glyn Haynes, Trefor Lloyd Hughes MBE, Derek Owen, Mr Gethin Jones (Swyddog Cyfathrebu) Mr Steffan Davies (Swyddog Digidol a Chyfryngau Cymdeithasol) (ar gyfer eitem 8) |

---

### 1. YMDDIHEURIADAU

Cyflwynwyd a nodwyd yr ymddiheuriadau y cyfeirir atynt uchod.

### 2. DATGAN DIDDORDEB

Bu i Mr Dylan Williams, y Prif Weithredwr, ddatgan diddordeb personol ond nad oedd yn rhagfarnu mewn perthynas ag eitem 8 ar yr agenda oherwydd mai ef ar hyn o bryd yw unig gyfarwyddwr Porthladd Rhydd Ynys Môn yn rhinwedd ei swydd fel Prif Weithredwr Cyngor Sir Ynys Môn.

### 3. MATERION BRYS A ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU EI SWYDDOG PENODEDIG

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

### 4. COFNODION

Cyflwynwyd, i'w cadarnhau, cofnodion cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 25 Mawrth 2025.

**Penderfynwyd cadarnhau cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 25 Mawrth 2025 fel rhai cywir.**

## 5. BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Democratiaeth a oedd yn cynnwys Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y cyfnod rhwng Mai a Rhagfyr 2025 i'w gadarnhau.

Rhoddodd y Pennaeth Democratiaeth ddiweddariad i'r Pwyllgor Gwaith am y newidiadau i'r Blaen Raglen Waith. Roedd y rhain yn cynnwys ychwanegu Hunanasesiad Corfforaethol Drafft 2024/25, y Ddogfen Gyflawni Flynyddol 2025/26 a Phrofion Modd - Grant Cyfleusterau i'r Anabl at agenda cyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 24 Mehefin 2025. Hefyd, mae'r Hunanasesiad Corfforaethol a'r Adroddiad Perfformiad a Lles Blynyddol 2024/25 wedi'i ychwanegu at agenda cyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 23 Medi 2025.

**Penderfynwyd cadarnhau Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith wedi'i diweddaru ar gyfer y cyfnod rhwng Mai a Rhagfyr 2025 gyda'r newidiadau a amlinellwyd yn y cyfarfod.**

## 6. ADRODDIAD BLYNYDDOL A CHYFRIFON YR YMDDIRIEDOLAETH ADDYSG BELLACH 2023/24

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 a oedd yn cynnwys Ystâd Elusennol David Hughes ac Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn ar gyfer 2023/24 i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith. Yn ôl y Comisiwn Elusennau mae'n ofynnol i'r cyfrifon blynyddol gael eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith fel corff cyfrifol yr Ymddiriedolaethau.

Cyflwynodd y Cynghorydd Robin Williams, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Cyllid a Thai, yr adroddiad gan amlinellu cefndir Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn, ei statws cyfreithiol a'r gwahanol elfennau ynddi. Mae'r adroddiad hefyd yn darparu crynodeb o berfformiad ariannol yr Ymddiriedolaeth yn 2023/24 ac yn diweddaru aelodau ar y cynnydd a wnaed i ddosbarthu mwy o gronfeydd yr Ymddiriedolaeth i ddiwallu dibenion elusennol yr Ymddiriedolaeth. Ym mis Hydref 2019 penderfynodd y Pwyllgor Gwaith ddyrannu swm untro o £55,280 i bob ysgol uwchradd, wedi'i ariannu gan Gronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn 1/3 (Gyfyngedig), i dalu costau Anogwyr Dysgu. Hefyd penderfynodd y Pwyllgor Gwaith i ddyrannu swm ychwanegol o £8,000 i bob ysgol uwchradd i ddarparu grantiau i fyfyrwyr dan anfantais ariannol. Pwrpas y grantiau oedd helpu myfyrwyr i gael lleoedd mewn colegau a phrifysgolion a / neu brynu llyfrau ac offer sydd eu hangen i ddilyn cyrsiau yn ystod y flwyddyn gyntaf. Ariannwyd cyfanswm y gost o £40,000 gan Gronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn 2/3 (Gyfyngedig). Mae adran 5 o'r adroddiad yn manylu ar sut y defnyddiodd ysgolion y cronfeydd hyn yn 2023/24.

Tynnodd y Cynghorydd Robin Williams sylw at y ffaith bod Cronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach yn dibynnu ar Ystâd Elusennol David Hughes i gynhyrchu gwarged sy'n cael ei drosglwyddo wedyn i'r Gronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach. Er bod yr enillion ar y buddsoddiadau masnachu yn dda, mae perfformiad eiddo buddsoddi'r ystâd Elusennol yn wael iawn, gan ddangos enillion negyddol yn 2022/23 a 2023/24. Y rheswm am hyn yw oherwydd bod cytundebau tenantiaeth yn gyfyngedig ac wedi ein hatal rhag cynyddu rhenti'n sylweddol dros amser ynghyd â chostau cynnal a chadw cynyddol oherwydd bod cyflwr yr eiddo'n dirywio. O ganlyniad i'r enillion gwael ar eiddo, nid yw Ystâd Elusennol David Hughes wedi
llwyddo i gyfrannu at Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn yn y 2 flynedd ddiwethaf gan nad oedd unrhyw warged. Mae hyn yn golygu nad yw'r Ymddiriedolaeth wedi gallu darparu cymorth i ddisgyblion presennol a chyn-ddisgyblion pum ysgol uwchradd y

DRAFT

Cyngor, sef ei phrif bwrpas. Heb newid mewn strategaeth mewn perthynas ag ystâd elusennol David Hughes, mae'r sefyllfa hon yn debygol o barhau. Nodwyd yr her hon yn flaenorol ym mis Mawrth 2024 pan ddirprwywyd awdurdod i Swyddogion gan y Pwyllgor Gwaith i edrych ar opsiynau ar gyfer cynyddu incwm o'r ystâd i ddiogelu hyfywedd hirdymor Cronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn er budd pobl ifanc Ynys Môn. Fodd bynnag, oherwydd materion capasiti, nid oes unrhyw gynnydd wedi'i wneud i weithredu'r argymhelliad hwn. Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith awdurdodi comisiynu cymorth allanol i gynnal yr adolygiad angenrheidiol.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 nad yw eiddo buddsoddi Ystâd Elusennol David Hughes yn cynhyrchu digon o incwm i dalu costau atgyweirio o ddydd i ddydd na chynhyrchu gwarged. Bydd yn cyrraedd pwynt yn y pen draw lle bydd angen buddsoddiad cyfalaf sylweddol i sicrhau bod eiddo’n addas i’w gosod. Mae'r adroddiad yn amlinellu nodau'r adolygiad arfaethedig, a fydd yn archwilio'r cytundebau tenantiaeth presennol, y gofynion refeniw a buddsoddi cyfalaf a'r polisi buddsoddi presennol i nodi opsiynau ar gyfer cynhyrchu mwy o enillion ar fuddsoddiadau'r Ymddiriedolaeth sy'n ymwneud ag Ystâd Elusennol David Hughes ac Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn. Bydd cyfrifon Cronfeydd Ymddiriedolaeth Addysg Bellach ar gyfer 2023/24 yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Comisiwn Elusennau ar ôl iddynt gael eu llofnodi ar ôl cwblhau'r archwiliad.

Pwysleisiodd y Cadeirydd bwysigrwydd y Cyngor fel unig ymddiriedolwr Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn o ran sicrhau bod ei ddibenion yn cael eu cyflawni'n effeithiol, sef, darparu cymorth i ddisgyblion presennol a chyn-ddisgyblion pum ysgol uwchradd y Cyngor. Er mwyn cyflawni hyn, mae'n hanfodol sicrhau'r llif incwm mwyaf posibl o Ystâd Elusennol David Hughes i'r Ymddiriedolaeth.

Cytunodd y Pwyllgor Gwaith bod angen cynnal yr adolygiad a holodd beth oedd yr amserlen ar gyfer ei gwblhau ac adrodd arno.

Dywedodd y Prif Weithredwr fod cyfarfod gyda gwasanaethau Cyllid ac Eiddo wedi'i gynnal lle cytunwyd i sefydlu gweithgor i weithredu o dan gylch gorchwyl clir. Bydd y grŵp yn cynnwys y Prif Weithredwr, Swyddog Adran 151 a swyddogion gwasanaeth Eiddo. Rhagwelir y bydd yr adolygiad yn cael ei gynnal mewn dwy ran. Bydd y cam cyntaf yn canolbwyntio ar sefydlu gwybodaeth sylfaenol a fydd yn cynnwys mewnbwn arbenigol ynghylch prisio tir mewn perthynas â'r ystâd. Bydd yr ail gam yn archwilio cyfleoedd buddsoddi posibl. Y nod yw cynnal y cam cyntaf erbyn yr haf.

**Penderfynwyd –**

- **Cymeradwyo Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Drafft Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn ar gyfer y flwyddyn 2023/24 (Atodiad A yr adroddiad).**

- **Dirprwyo’r awdurdod i’r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/ Swyddog Adran 151 lofnodi’r Adroddiad Blynyddol a’r Cyfrifon Terfynol a’u hanfon at y Comisiwn Elusennol ar ôl cwblhau’r archwiliad yn foddhaol.**

- **Awdurdodi’r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 i gomisiynu adolygiad allanol o weithrediad ac opsiynau buddsoddi’r Ymddiriedolaethau.**

## 7. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

Dan Adran 100 (A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, ystyriwyd a phenderfynwyd gwahardd y wasg a’r cyhoedd o’r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol, oherwydd y

posibilrwydd y caiff gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth eithriedig fel y diffinnir ym mharagraff 14 o Atodlen 12A y Ddeddf a'r Prawf Budd y Cyhoedd.

**8. PORTHLADD RHYDD – DIWEDDARIAD A CHYMERADWYO'R CYTUNDEB**

Cyflwynwyd, i'w ystyried, adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd a oedd yn gofyn i'r Pwyllgor Gwaith lofnodi Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth arfaethedig rhwng y partïon perthnasol mewn perthynas â Phorthladd Rhydd Ynys Môn.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Prif Swyddog Datblygu Economaidd a ailgyflwynodd y cefndir gan gadarnhau bod fersiwn drafft o Achos Busnes Llawn (Abl) Ynys Môn wedi'i gyflwyno i Lywodraethau San Steffan a Llywodraeth Cymru ar 17 Ionawr 2025 ac yn dilyn adborth ysgrifenedig ar 11 Mawrth, ailgyflwynwyd yr Abl drafft gyda'r disgwyliad y byddai'n cael ei lofnodi ddechrau mis Ebrill 2025. Ar ôl cymeradwyo ABLl, rhaid cytuno i lofnodi Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth. Pwrpas y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yw nodi'r telerau, yr egwyddorion a'r arferion sy'n llywodraethu'r berthynas waith rhwng y partïon perthnasol - Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru, Cyngor Sir Ynys Môn a Phorthladd Rhydd Ynys Môn, a'r gofynion sy'n weddill. Llofnodi'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yw'r cam olaf cyn daw'r Porthladd Rhydd yn weithredol. Mae'n ffurfioli'r ymrwymiadau allweddol a wnaed gan y Porthladd Rhydd yn yr ABLl ac yn amlinellu pa gefnogaeth y gall ei ddisgwyl gan Lywodraethau'r DU a Chymru. Mae'r Cyngor wedi adolygu a gwneud sylwadau ar y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ddrafft ac mae'n aros am fersiwn derfynol Llywodraeth Cymru. Unwaith y bydd y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth wedi'i adolygu gan Brif Weithredwr y Cyngor, y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 a'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro, bydd y Cyngor yn bwrw ymlaen i'w lofnodi. Yn amodol ar gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith, bydd yn cael ei lofnodi cyn diwedd mis Mai fel bod y Porthladd Rhydd yn gwbl weithredol erbyn 1 Mehefin 2025.

Wrth fynd i'r afael ag ymholiadau'r Pwyllgor Gwaith ynghylch cynnydd ac amserlenni, diweddarodd y Prif Swyddog Datblygu Economaidd aelodau ar ddatblygiadau llywodraethu gan gynnwys statws cytundebau aelodau a thirfeddianwyr. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y bwrdd cysgodol ym mis Ionawr 2025 gyda rhanddeiliaid allweddol i ddechrau newid i weithredu Porthladd Rhydd. Hefyd rhoddodd y Prif Weithredwr y wybodaeth ddiweddaraf am Safleoedd Treth dynodedig y Porthladd Rhydd a materion cysylltiedig.

**Penderfynwyd –**

- **Cymeradwyo'r cam o lofnodi'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth arfaethedig rhwng Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru, Cyngor Sir Ynys Môn fel y Corff Atebol a Phorthladd Rhydd Ynys Môn fel y Corff Llywodraethu.**
- **Mewn perthynas â phenderfyniadau blaenorol y Pwyllgor Gwaith ar 19 Mawrth 2024 "Porthladd Rhydd Ynys Môn – Trefniadau Llywodraethu," ac ar 23 Mai 2024 "Cytuno ar Drefniadau ar gyfer Sefydlu Porthladd Rhydd Ynys Môn," bod yr awdurdod dirprwyedig yn cael ei addasu a'i roi i'r Dirprwy Brif Weithredwr yn hytrach na'r Prif Weithredwr.**

**Y Cynghorydd Gary Pritchard**
**Cadeirydd**

Cyngor Sir Ynys Môn

| | |
|---|---|
| Adroddiad i: | Pwyllgor Gwaith |
| Dyddiad: | 22 Mai 2025 |
| Pwnc / Testun: | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith |
| Deilydd(ion) Portffolio: | Y Cynghorydd Gary Pritchard |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | Lynn Ball, Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro |
| Awdur yr Adroddiad: | Dyfan Sion, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd |
| Aelodau Lleol: | Amherthnasol |

## A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau

Yn unol â'i Gyfansoddiad, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi blaen raglen waith a'i diweddaru'n rheolaidd. Cyhoeddir blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn fisol er mwyn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith:

gadarnhau'r blaen raglen waith atodol ar gyfer y cyfnod **Mehefin 2025 – Ionawr 2026;**

adnabod unrhyw faterion ar gyfer cael mewnbwn penodol ac ymgynghoriad gyda Phwyllgorau Sgriwtini'r Cyngor;

nodi bod blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei diweddaru'n fisol a'i chyflwyno fel eitem safonol yn fisol i'r Pwyllgor Gwaith.

## B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?

-

## C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith cyn cyhoeddi pob diweddariad er mwyn cryfhau atebolrwydd a threfniadau blaengynllunio.

## Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Ydy'.



Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

| D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Amherthnasol. |

Dd – Asesu'r effeithiau posibl (os yn berthnasol):

| | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol? Os felly, sut? | |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy. | |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai'r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut. | |
| 5 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | |
| 7 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | |

| E | Gyda phwy yr ymgynghoroch? | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol) | Mae blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei thrafod yn fisol yng nghyfarfodydd y Tîm Arweinyddiaeth. |
| 2 | Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol) | Gweler uchod. |
| 3 | Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol) | Gweler uchod. |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | |
| 5 | Eiddo | |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth (TG) | |
| 7 | Caffael | |



Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

| E | Gyda phwy yr ymgynghoroch? | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 8 | Sgriwtini | Dan amgylchiadau arferol, cynhelir cyd-drafodaeth yn fisol ar raglenni gwaith y Pwyllgor Gwaith a'r ddau Bwyllgor Sgriwtini, a hynny er mwyn sicrhau aliniad rhyngddynt. |
| 9 | Aelodau Lleol | Ddim yn berthnasol. |

| F - Atodiadau: |
|---|
| Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith: Mehefin 2025 – Ionawr 2026 |

| Ff – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am ragor o wybodaeth): |
|---|
| |



Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

# Cyngor Sir Ynys Môn

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith

## Cyfnod: Mehefin 2025 – Ionawr 2026

Mae'r flaen raglen waith hon yn rhestru'r holl benderfyniadau y mae'r Pwyllgor Gwaith yn bwriadu eu gwneud a pha fusnes y bydd y pwyllgorau sgriwtini yn ei ystyried ynghyd â phryd y bydd y materion hynny'n cael eu trafod.  Mae hefyd yn rhestru unrhyw argymhellion y mae'r Pwyllgor Gwaith yn bwriadu eu gwneud mewn perthynas â phenderfyniadau y mae'n rhaid eu gwneud gan y Cyngor llawn.

Mae modd i benderfyniadau gweithredol gael ei gwneud gan y Pwyllgor Gwaith llawn yn gweithredu fel corff cyfunol neu gan aelodau unigol o'r Pwyllgor Gwaith yn gweithredu trwy hawliau dirprwyiedig.



Mae'r flaen raglen waith yn cael ei hadolygu'n rheolaidd ac fe gyhoeddir diweddariad yn fisol.  Nid yw'r ffaith nad yw penderfyniad wedi'i gynnwys yn y flaen raglen waith yn atal materion brys neu rai na ragwelwyd rhag cael eu hystyried.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

Diweddarwyd ddiwethaf ar 13 Mai 2025

## Mehefin 2025

| Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig | Y mater i'w ystyried | Aelod Portffolio | Dyddiad i sgriwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|
| Cyfarfod 24 Mehefin 2025 | Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith | Cyng Gary Pritchard | |
| | Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Chwarter 4, 2024/25 | Cyng Carwyn Jones | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 17.6.25 |
| | Hunanasesiad Corfforaethol Drafft 2024/25 | Cyng Carwyn Jones | |
| | Dogfen Gyflawni Blynyddol 2025/26 | Cyng Carwyn Jones | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 17.6.25 |
| | Monitro Cyllideb Refeniw – Chwarter 4, 2024/25 | Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid |
| | Monitro Cyllideb Gyfalaf – Chwarter 4, 2024/25 | Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid |
| | Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai – Chwarter 4, 2024/25 | Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid |
| | Prawf Modd – Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl | Cyng Robin Williams | |
| Penderfyniad dirprwyiedig – Mehefin 2025 | Adroddiad blynyddol Safonau'r Gymraeg 2024/25 | Cyng Dafydd Roberts | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio – 18.6.25 |

## Gorffennaf 2025

| Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig | Y mater i'w ystyried | Aelod Portffolio | Dyddiad i sgriwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|
| Cyfarfod 17 Gorffennaf 2025 | Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith | Cyng Gary Pritchard | |

## Medi 2025

| Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig | Y mater i'w ystyried | Aelod Portffolio | Dyddiad i sgriwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|
| Cyfarfod 23 Medi 2025 | Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith | Cyng Gary Pritchard | |
| | Hunanasesiad Corfforaethol ac Adroddiad Perfformiad a Llesiant Blynyddol 2024/25 | Cyng Carwyn Jones | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 17.9.25<br>Cyngor llawn 25.9.25 |
| | Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Chwarter 1, 2025/26 | Cyng Carwyn Jones | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 17.9.25 |
| | Monitro Cyllideb Refeniw – Chwarter 1, 2025/26 | Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Adnoddau 11.9.25 |
| | Monitro Cyllideb Gyfalaf – Chwarter 1, 2025/26 | Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Adnoddau 11.9.25 |
| | Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai – Chwarter 1, 2025/26 | Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Adnoddau 11.9.25 |
| | Cynllun Tai Gofal Ychwanegol Porthaethwy | Cyng Alun Roberts<br>Cyng Robin Williams | |

## Hydref 2025

| Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig | Y mater i'w ystyried | Aelod Portffolio | Dyddiad i sgriwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|
| Cyfarfod 21 Hydref 2025 | Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith | Cyng Gary Pritchard | |
| | Cynllun Strategol Digidol Ysgolion | Cyng Dafydd Roberts | |

## Tachwedd 2025

| Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig | Y mater i'w ystyried | Aelod Portffolio | Dyddiad i sgriwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|
| Cyfarfod 25 Tachwedd 2025 | Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith | Cyng Gary Pritchard | |
| | Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Chwarter 2, 2025/26 | Cyng Carwyn Jones | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 18.11.25 |
| | Monitro Cyllideb Refeniw – Chwarter 2, 2025/26 | Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Adnoddau 6.11.25 |
| | Monitro Cyllideb Gyfalaf – Chwarter 2, 2025/26 | Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Adnoddau 6.11.25 |
| | Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai – Chwarter 2, 2025/26 | Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Adnoddau 6.11.25 |

## Rhagfyr 2025

| Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig | Y mater i'w ystyried | Aelod Portffolio | Dyddiad i sgriwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|
| Cyfarfod 16 Rhagfyr 2025 | Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith | Cyng Gary Pritchard | |

## Ionawr 2026

| Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig | Y mater i'w ystyried | Aelod Portffolio | Dyddiad i sgriwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|
| Cyfarfod 27 Ionawr 2026 | Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith | Cyng Gary Pritchard | |

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad i'r: | **Pwyllgor Gwaith** |
| Dyddiad: | **22 Mai 2025** |
| Pwnc / Testun: | **Adroddiad Ymgysylltu – Darpariaeth Addysg ôl-16** |
| Deilydd(ion) Portffolio: | **Cynghorydd Dafydd Roberts**<br>**Deilydd Portffolio Addysg a'r Iaith Gymraeg** |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | **Aaron C Evans**<br>**Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc** |
| Awdur yr Adroddiad:<br>Tel:<br>E-bost: | **Arwyn Hughes**<br>**ArwynHughes3@ynysmon.gov.wales**<br>**Rheolwr Rhaglen (Corfforaethol)** |
| Aelodau Lleol: | **Pawb** |

## A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau

Nodwyd bod yr adolygiad o addysg ôl-16 ar Ynys Môn a'r ailstrwythuro posib ohono yn fater sydd angen ystyriaeth o fewn Rhaglen Amlinellol Strategol y Cyngor ar gyfer Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, ac fel rhan o Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Iaith Gymraeg y Cyngor. Mae'n debygol y bydd nifer y dysgwyr sy'n mynychu addysg ôl-16 yn ysgolion Ynys Môn yn lleihau yn y tymor hwy, felly gallai fod yn her ariannu darpariaeth ôl-16 effeithiol o fewn yr adnoddau cyfyngedig, yn enwedig lle mae:

- niferoedd ôl-16 yn isel
- canran uchel o gyrsiau sydd â grŵp dysgu bach.

Mae'r Cyngor wedi cynnal ymarferiad ymgysylltu cyhoeddus ar ddyfodol darpariaeth addysg ôl-16 o 20 Ionawr hyd 7 Mawrth 2025. Nod y Cyngor yw cryfhau hawl i ddysgu a phrofiad dysgwyr ar Ynys Môn, er enghraifft drwy gynyddu'r dewisiadau sydd ar gael i ddysgwyr a sicrhau addysg ôl-16 o ansawdd uchel. Cynhaliwyd ymarferiad ymgysylltu cyhoeddus o 20 Ionawr 2025 hyd 7 Mawrth 2025 i gasglu adborth gan randdeiliaid mewn perthynas â darpariaeth addysg ôl-16 ar gyfer Ynys Môn.

Derbyniwyd cyfanswm o 779 o ymatebion a chynhaliwyd nifer o gyfarfodydd wyneb yn wyneb. Ar ôl ystyried yr adborth yn ofalus, argymhellir i'r Pwyllgor Gwaith mai'r ffordd fwyaf priodol ymlaen o ystyried yr adborth o'r ymarferiad ymgysylltu cyhoeddus yw:

1. '**Datblygu perthynas waith agosach rhwng y darparwyr presennol**'.
2. Awdurdodi swyddogion i baratoi **'Cynllun Strategol ar gyfer datblygu perthynas waith agosach rhwng y darparwyr ôl-16 presennol'**, a fydd yn ceisio mynd i'r afael â neu liniaru'r heriau sy'n wynebu darpariaeth addysg ôl-

| |
|---|
| 16 ar Ynys Môn ar hyn o bryd, ac i gryfhau hawl i ddysgu a phrofiad dysgwyr ôl-16. |

| B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn? |
|---|
| Gofynnwyd i randdeiliaid roi eu hadborth ar yr opsiynau isod a rhoddwyd cyfle iddynt hefyd gynnig opsiynau amgen.<br><br>Yr opsiynau cychwynnol a gyflwynwyd oedd<br><br>**OPSIWN 1** - Dim Newid – Cadw'r ddarpariaeth bresennol yn union fel y mae.<br>**OPSIWN 2** - Datblygu perthynas waith agosach rhwng y darparwyr presennol.<br>**OPSIWN 3** - Lleihau nifer yr ysgolion sy'n darparu addysg ôl-16.<br>**OPSIWN 4** - Un darparwr i ddarparu holl addysg ôl-16.<br><br>Gofynnwyd i randdeiliaid raddio'r opsiynau.<br>Dangosodd canlyniadau'r ymgysylltu â'r cyhoedd fod 79% o'r ymatebwyr wedi dewis naill ai opsiwn 1 neu opsiwn 2 fel yr opsiwn a ffafrir ganddynt, gydag opsiwn 2 yn sgorio orau wrth ystyried y drefn raddio yn gyffredinol.<br>Felly, mae dewis Opsiwn 2 fel yr opsiwn a ffafrir yn gyson â chanlyniad yr ymgysylltu â'r cyhoedd ac mae hefyd yn rhoi cyfle i geisio mynd i'r afael â'r heriau presennol sy'n wynebu darpariaeth ôl-16. |

| C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith? |
|---|
| Y Pwyllgor Gwaith sy'n gyfrifol am faterion trefniadaeth ysgolion. |

| Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Ydy – Mae'n gyson â'r Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Iaith Gymraeg a fabwysiadwyd gan y Pwyllgor Gwaith ym mis Gorffennaf 2023 a'r Rhaglen Amlinellol Strategol (RhAS) – Rhaglen Dreigl 2024 – 2033. |

| D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| |

| |
|---|
| Ydy - Nid oes unrhyw gostau cyfalaf yn gysylltiedig â'r penderfyniad hwn.<br><br>Mae ôl-16 yn cael ei ariannu gan grant drwy'r Grant ôl-16 a ddyrennir i'r Cyngor gan Medr - y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil |

| Dd – Asesu'r effeithiau posibl (os yn berthnasol): | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Byddai'r penderfyniad yn gyfle i geisio mynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu darpariaeth ôl-16 ar hyn o bryd, a amlygir yn rhan A, a allai gryfhau hawl i ddysgu a phrofiad dysgwyr ar Ynys Môn, a gwella cynaliadwyedd darpariaeth ôl-16.<br>Mae'n cyfrannu tuag at gyflawni ein nod strategol o sicrhau darpariaeth effeithiol ar gyfer heddiw a chenedlaethau'r dyfodol. |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol? Os felly, sut? | Gan fod ôl-16 yn cael ei ariannu gan grant, a'i ddirprwyo'n llawn i ysgolion, ni ragwelir unrhyw effaith ariannol i'r Cyngor.<br><br>Gallai datblygu perthynas waith agosach ymhellach rhwng y darparwyr presennol ddarparu cyfleoedd i wneud y ddarpariaeth ôl-16 yn fwy cost-effeithiol. |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy. | Hysbyswyd y rhanddeiliaid canlynol am gyhoeddiad y Ddogfen Ymgysylltu:<br>• Pob Ysgol Gynradd, Ysgol Uwchradd, ac Ysgol Arbennig ar Ynys Môn<br>• Cyrff llywodraethu pob ysgol ar Ynys Môn<br>• Grŵp Llandrillo Menai<br>• Pob Aelod Etholedig<br>• Yr Aelod Seneddol Lleol<br>• Yr Aelod Lleol o Senedd Cymru<br>• Aelodau Rhanbarthol Senedd Cymru<br>• Estyn<br>• MEDR – Medr yw'r corff cyllido a rheoleiddio hyd braich newydd a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer addysg ac ymchwil ôl-16 yng Nghymru, gan gynnwys dosbarthiadau chweched ysgolion a |

| | | |
|---|---|---|
| | | cholegau.<br>• Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu<br>• Llywodraeth Cymru<br>• Comisiynydd yr Iaith Gymraeg<br>• Pob Cyngor Tref a Chymuned<br>• Undebau llafur athrawon a staff.<br><br>Cynhaliwyd sesiynau ymgysylltu wyneb yn wyneb yn y pum ysgol uwchradd gyda:<br>• Dysgwyr Blynyddoedd 7-13<br>• Staff a Llywodraethwyr<br>• Rhieni / Gwarcheidwaid<br><br>Yn ogystal â gyda Dysgwyr Grŵp Llandrillo Menai (Campws Llangefni). |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai'r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut. | Cynhaliwyd ymarferiad ymgysylltu cyhoeddus o 20 Ionawr 2025 hyd 7 Mawrth 2025 i gasglu adborth gan randdeiliaid mewn perthynas â'r ddarpariaeth addysg ôl-16 ar gyfer Ynys Môn.<br>Derbyniwyd cyfanswm o 779 o ymatebion. |
| 5 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Gweler Atodiad 9 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, y Gymuned a'r Iaith Gymraeg. |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | Gallai canlyniad yr adolygiad effeithio ar gyfleoedd ôl-16 ar draws yr ynys gyfan. Rhoddir cyfle i bob disgybl ar Ynys Môn symud ymlaen i ôl-16. Felly mae'n debygol y gallai rhai pobl sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol gael eu heffeithio.<br><br>Mae effaith canlyniad yr adolygiad ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol wedi'i lliniaru drwy sicrhau bod darpariaeth ôl-16 yn parhau ym mhob safle ysgol / coleg. |
| 7 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Gweler Atodiad 9 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, y Gymuned a'r Iaith Gymraeg |

| E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol) | Wedi'i gynnwys yn y ddogfen hon. |
| 2 | Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol) | Wedi'i gynnwys yn y ddogfen hon. |
| 3 | Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol) | Wedi'i gynnwys yn y ddogfen hon. |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | |
| 5 | Eiddo | Ddim yn berthnasol |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth (TG) | Ddim yn berthnasol |
| 7 | Caffael | Nid oes unrhyw weithgareddau caffael yn gysylltiedig â'r cynnig hwn. |
| 8 | Sgriwtini | Trafodwyd y cynnig gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar 21 Mai 2025 a chyflewyd eu sylwadau ar lafar i'r Pwyllgor Gwaith. |
| 9 | Aelodau Lleol | |

## F - Atodiadau:

- Adroddiad Ymgysylltu: Darpariaeth Addysg Ôl-16
- Atodiadau'r Adroddiad Ymgysylltu: Atodiad 1 – Atodiad 8
- Asesiadau Effaith: Cydraddoldeb / Yr Iaith Gymraeg / Y Gymuned – Atodiad 9

## Ff – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth):

Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Gymraeg
Dogfen Ymgysylltu ôl-16

Ynys Môn
THE ISLE OF
Anglesey

# Adroddiad Ymgysylltu – Darpariaeth Addysg Ôl-16

## 20 Ionawr 2025 – 7 Mawrth 2025

CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

www.ynysmon.llyw.cymru
www.anglesey.gov.wales

1. Crynodeb Gweithredol .......... 3
2. Cefndir / Cyd-destun .......... 4
3. Ymatebion i'r Arolwg (Gan Bawb a Ymatebodd) .......... 6
4. Ymatebion i'r Arolwg (Gan Ddysgwyr / Pobl Ifanc yn unig) .......... 11
5. Sesiynau Ymgysylltu â Dysgwyr .......... 13
6. Crynodeb .......... 14
7. Argymhelliad .......... 15

## 1. Crynodeb Gweithredol

Cynhaliwyd ymarferiad ymgysylltu cyhoeddus o 20 Ionawr 2025 hyd at 7 Mawrth 2025 er mwyn casglu adborth gan randdeiliaid mewn perthynas â darpariaeth addysg ôl-16 ar gyfer Ynys Môn.

Gofynnwyd i randdeiliaid roi eu hadborth ar yr OPSIYNAU isod a rhoddwyd cyfle iddynt hefyd gynnig opsiynau amgen, y byddai'r Cyngor yn hapus i'w hystyried.

Yr opsiynau cychwynnol a gyflwynwyd oedd:

**OPSIWN 1** - Dim Newid – Cadw'r ddarpariaeth bresennol yn union fel y mae.

**OPSIWN 2** - Datblygu perthynas waith agosach rhwng y darparwyr presennol.

**OPSIWN 3** - Lleihau nifer yr ysgolion sy'n darparu addysg ôl-16.

**OPSIWN 4** - Un darparwr i ddarparu holl addysg ôl-16.

Roedd gan y Cyngor ddiddordeb arbennig mewn clywed barn dysgwyr a phobl ifanc cyfredol a oedd wedi astudio mewn lleoliadau ôl-16 ar Ynys Môn yn ddiweddar. Gwnaethpwyd pob ymdrech i annog pobl ifanc i gymryd rhan.

Derbyniwyd cyfanswm o **779 o ymatebion**, 30% gan Ddysgwr / Pobl Ifanc 16-21 oed.

Mae'r ymateb i'r arolwg yn amlygu bod **ffafriaeth tuag at gadw addysg ôl-16 gyda'r darparwyr presennol**, gyda 79% o'r ymatebwyr (84% o Bobl Ifanc o dan 21) yn dewis naill ai Opsiwn 1 neu Opsiwn 2 fel yr opsiwn a ffafrir ganddynt.

Dengys yr ymateb mai'r ffactorau pwysicaf ar gyfer yr ymatebwyr yn gyffredinol, ac ar gyfer pobl ifanc, wrth ystyried dyfodol addysg ôl-16 yw

- bod addysg ôl-16 ar gael yn lleol,
- ansawdd yr addysgu,
- a'r amrywiaeth o ddewisiadau pwnc ôl-16 sydd ar gael yn lleol.

Ar ôl dadansoddi'r adborth a dderbyniwyd yn ystod y broses ymgysylltu yn ofalus, argymhellir i'r Pwyllgor Gwaith mai'r ffordd fwyaf priodol ymlaen, o ystyried yr adborth o'r ymarferiad ymgysylltu cyhoeddus, yw:

1. '**Datblygu perthynas waith agosach rhwng y darparwyr presennol**'
2. Awdurdodi swyddogion i baratoi **'Cynllun Strategol ar gyfer datblygu perthynas waith agosach rhwng y darparwyr ôl-16 presennol'**, a fydd yn ceisio mynd i'r afael â neu liniaru'r heriau sy'n wynebu darpariaeth addysg ôl-16 ar Ynys Môn ar hyn o bryd, ac i gryfhau hawliau a phrofiad dysgwyr ôl-16.

## 2. Cefndir / Cyd-destun

Bu i'r Cyngor gynnal ymarferiad ymgysylltu cyhoeddus ar ddyfodol darpariaeth addysg ôl-16 o 20 Ionawr 2025 hyd at 7 Mawrth 2025. Nod y Cyngor yw cryfhau hawliau a phrofiad dysgwyr ar Ynys Môn, er enghraifft trwy gynyddu'r dewisiadau sydd ar gael i ddysgwyr a sicrhau addysg ôl-16 o ansawdd uchel.

Penderfynodd y Cyngor gynnal ymgysylltiad cyhoeddus ar hyn o bryd yn hytrach nag ymgynghoriad ffurfiol. Gwnaed hyn i gynnwys mwy o randdeiliaid ac i gael sgwrs ehangach i ddeall gwahanol safbwyntiau a barn. Bydd yr adborth hwn yn cael ei ddefnyddio i helpu i lywio camau nesaf y Cyngor ac o bosibl i wneud unrhyw benderfyniadau i wella dyfodol darpariaeth ôl-16 ar Ynys Môn.

**Gallai rhanddeiliaid ymateb i'r arolwg ymgysylltu, naill ai:**

- Trwy gwblhau arolwg ar-lein
- Trwy e-bost
- Trwy argraffu copi caled o ffurflen ymateb a'i hanfon drwy'r post i'r Cyngor.

Cynhaliwyd sesiynau ymgysylltu wyneb yn wyneb hefyd fel a ganlyn:

| **Grŵp Llandrillo Menai (Campws Coleg Menai – Llangefni - gyda dysgwyr o gampws Bangor yn ymuno ar-lein)** | **Dyddiad ac Amser** | **Nifer y mynychwyr yn fras:** |
|---|---|---|
| Dysgwyr | 04/02/2025<br>9.15 - 10.15 | 25 |

| **Ysgol Gyfun Llangefni** | **Dyddiad ac Amser** | **Nifer y mynychwyr yn fras:** |
|---|---|---|
| Dysgwyr - Blwyddyn 7-13 | 04/02/2025<br>14.15 – 15.15 | 18 |
| Staff a Llywodraethwyr | 04/02/2025<br>16.45 – 17.45 | 6 |
| Rhieni / Gwarcheidwaid | 04/02/2025<br>18.00 – 19.00 | 3 |

| **Ysgol Uwchradd Caergybi** | **Dyddiad ac Amser** | **Nifer y mynychwyr yn fras:** |
|---|---|---|
| Dysgwyr - Blwyddyn 7-13 | 05/02/2025<br>14.15 – 15.15 | 13 |
| Staff a Llywodraethwyr | 05/02/2025<br>16.45 – 17.45 | 35 |
| Rhieni / Gwarcheidwaid | 05/02/2025<br>18.00 – 19.00 | 5 |

| Ysgol Syr Thomas Jones | Dyddiad ac Amser | Nifer y mynychwyr yn fras: |
|---|---|---|
| Dysgwyr - Blwyddyn 7-13 | 06/02/2025<br>14.15 – 15.15 | 60 |
| Staff a Llywodraethwyr | 06/02/2025<br>16.45 – 17.45 | 22 |
| Rhieni / Gwarcheidwaid | 06/02/2025<br>18.00 – 19.00 | 8 |

| Ysgol David Hughes | Dyddiad ac Amser | Nifer y mynychwyr yn fras: |
|---|---|---|
| Dysgwyr - Blwyddyn 7-13 | 10/02/2025<br>14.15 – 15.15 | 50 |
| Staff a Llywodraethwyr | 10/02/2025<br>16.45 – 17.45 | 19 |
| Rhieni / Gwarcheidwaid | 10/02/2025<br>18.00 – 19.00 | 8 |

| Ysgol Uwchradd Bodedern | Dyddiad ac Amser | Nifer y mynychwyr yn fras: |
|---|---|---|
| Dysgwyr - Blwyddyn 7-13 | 11/02/2025<br>09.30 – 10.30 | 34 |
| Staff a Llywodraethwyr | 11/02/2025<br>16.45 – 17.45 | 15 |
| Rhieni / Gwarcheidwaid | 11/02/2025<br>18.00 – 19.00 | 8 |

Diben y sesiynau hyn oedd codi ymwybyddiaeth o'r adolygiad ôl-16 parhaus a rhoi cyfle i randdeiliaid ofyn unrhyw gwestiynau. Eglurwyd **na fyddai** adborth a dderbyniwyd yn ystod y sesiynau yn cael ei gofnodi, ac y byddai angen i randdeiliaid gyflwyno eu hadborth trwy un o'r dulliau a amlinellwyd uchod.

Cyhoeddwyd y Ddogfen Ymgysylltu ar wefan y Cyngor http://www.ynysmon.llyw.cymru a hysbyswyd y rhanddeiliaid/partïon â diddordeb a restrir yn Atodiad 1.

Er mwyn annog pobl ifanc i gymryd rhan, anfonwyd llythyrau at ddysgwyr, Rhieni / Gwarcheidwaid drwy'r ysgolion a Choleg Menai. Roedd yna hefyd bostiadau rheolaidd ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol y Cyngor. Cyrhaeddodd cyfrifon cyfryngau cymdeithasol y Cyngor dros 115,000 o bobl gyda 1,200 o gliciau cyswllt. Anogwyd pobl ifanc hefyd i gymryd rhan gan dîm Ieuenctid y Cyngor, a thîm Môn Actif.

## 3. Ymatebion i'r Arolwg (Gan Bawb a Ymatebodd)

### 3.1 Pwy ymatebodd?

Derbyniwyd cyfanswm o **779 o ymatebion**, ac mae'r tabl isod yn rhoi dadansoddiad pellach:


| Ymatebion i'r Arolwg | Canran |
|---|---|
| Rhiant / Gwarcheidwad | 45% |
| Dysgwr / Person Ifanc 16-21 oed | 30% |
| Staff Ysgol / Coleg | 15% |
| Preswylydd | 5% |
| Llywodraethwr Ysgol | 3% |
| Cynghorydd Tref/Cymuned | 1% |
| Arall | 1% |
| Aelod Etholedig | 0% |
| **Cyfanswm** | **100%** |

Roedd ymatebwyr 'eraill' yn cynnwys cyn-athrawon, ac asiantaethau cymorth.

### 3.2 Beth oedd eu barn?

Mae'r adran hon yn rhoi eu hymatebion i'r cwestiwn canlynol:

**Cwestiwn - A ydych yn cytuno bod angen adolygu'r ddarpariaeth addysg ôl-16 ar Ynys Môn?**
Roedd 54% o'r ymatebion yn cytuno/cytuno'n gryf fod angen adolygu'r ddarpariaeth addysg ôl-16 ar Ynys Môn gyda 21% yn anghytuno/ anghytuno'n gryf gyda'r angen am adolygiad.



**Cwestiwn - Pa un o'r canlynol sydd bwysicaf i chi?**

Gofynnwyd i'r ymatebwyr raddio'r ffactorau yn y tabl isod, gydag 1 y pwysicaf a 7 y lleiaf pwysig. Cyfrifwyd cyfanswm y sgoriau ar gyfer pob ffactor, a dangosir y safle cyffredinol yn y tabl isod.

| **Pa un o'r canlynol sydd bwysicaf i chi?**<br>1 = y pwysicaf 7 = y lleiaf pwysig | **Gradd** |
|---|---|
| **Addysg ôl-16 ar gael yn lleol** | **1** |
| **Ansawdd yr addysgu** | **2** |
| **Amrywiaeth o ddewisiadau pwnc ôl-16 ar gael yn lleol** | **3** |
| Ansawdd yr adnoddau a'r cyfleusterau sydd ar gael ar gyfer astudio ôl-16 | 4 |
| Teithio cyfyngedig yn ystod y diwrnod ysgol i safleoedd eraill i fynychu rhai cyrsiau | 5 |
| Cyrsiau ar gael yn ddwyieithog | 6 |
| Cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol | 7 |

Ceir dadansoddiad pellach yn **Atodiad 2**.

**Cwestiwn - Graddiwch yr opsiynau ar gyfer darpariaeth ôl-16**

Gofynnwyd i'r ymatebwyr raddio'r opsiynau yn y tabl isod gydag 1 yr un sy'n cael ei ffafrio fwyaf a 4 yr un sy'n cael ei ffafrio leiaf.

Cyfrifwyd cyfanswm y sgoriau ar gyfer pob opsiwn, a dangosir y safle cyffredinol yn y tabl isod.

| **Graddiwch yr opsiynau canlynol** | **Gradd** |
|---|---|
| **Opsiwn 2** - Datblygu perthynas waith agosach rhwng y darparwyr presennol. | 1 |
| **Opsiwn 1** - Dim Newid – Cadw'r ddarpariaeth bresennol yn union fel y mae. | 2 |
| **Opsiwn 3** - Lleihau nifer yr ysgolion sy'n darparu addysg ôl-16. | 3 |
| **Opsiwn 4** - Un darparwr i ddarparu holl addysg ôl-16. | 4 |

Ceir dadansoddiad pellach yn **Atodiad 3.**

Mae'r dadansoddiad yn amlygu bod ffafriaeth gyffredinol tuag at gadw addysg ôl-16 gyda'r darparwyr presennol.

## 3.3 Sylwadau pellach a dderbyniwyd

Fel rhan o'r broses ymgysylltu, gofynnwyd hefyd i randdeiliaid roi sylwadau i gefnogi eu dewisiadau. Gofynnwyd y cwestiynau canlynol:

- Eglurwch eich dewisiadau [ar gyfer graddio opsiynau]?
- Yn eich barn chi, pa effeithiau fyddai ar yr iaith Gymraeg, sut y gellir cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu liniaru effeithiau negyddol?
- Unrhyw sylwadau pellach?

### 3.3.1 Eglurwch eich dewisiadau ar gyfer graddio opsiynau

Atebodd cyfanswm o 348 o ymatebwyr y cwestiwn hwn, mae’r tabl isod yn dangos y 5 thema a nodwyd.

| | | |
|---|---|---|
| Thema 1 | Yn gefnogol i'r ddarpariaeth ôl-16 barhau gyda'r darparwyr presennol. | Tua 200 o ymatebion |
| Thema 2 | Angen mwy o fuddsoddiad mewn addysg ôl-16 – gan gynnwys adeiladau ysgol, adnoddau ac amrywiaeth o gyrsiau. | Tua 60 o ymatebion |
| Thema 3 | Yn gefnogol i leihau nifer y darparwyr ôl-16. | Tua 50 o ymatebion |
| Thema 4 | Cysylltiedig â Chludiant. | Tua 50 o ymatebion |
| Thema 5 | Yr Iaith Gymraeg. | Tua 10 o ymatebion |

Mae’r negeseuon mwyaf cyffredin a dderbyniwyd mewn perthynas â phob un o’r Themâu wedi’u nodi isod:

- Thema 1 - Nododd rhanddeiliaid eu bod yn hapus gyda'r ddarpariaeth bresennol. Mae athrawon eisoes yn adnabod y disgyblion, eu cefndiroedd a'u galluoedd cyn iddynt symud ymlaen i ôl-16 ac mae disgyblion yn gyfforddus yn eu cynefin.
- Thema 2 - Nododd rhanddeiliaid fod angen mwy o fuddsoddiad yn y sector Ôl-16, a thynnwyd sylw at y 3 prif agwedd fel a ganlyn:
    - Mwy o ddewisiadau cyrsiau ar gael i ddysgwyr
    - Mae angen gwella ansawdd asedau ac adnoddau ysgolion
    - Dylai'r cyrsiau a gynigir ystyried cyfleoedd cyflogaeth lleol yn y dyfodol.
- Thema 3 - Byddai cael llai o ddarparwyr yn darparu model ôl-16 mwy cost-effeithlon, gan ganiatáu i ôl-16 gael gwell adnoddau.
- Thema 4 – Nododd rhanddeiliaid y byddai'n anodd neu y byddent anfodlon teithio i ddarparwr ôl-16 gwahanol. Roedd sylwadau hefyd ynghylch y trefniadau cludiant presennol i fynychu cyrsiau partneriaeth yn cynnwys:
    - Tacsis yn annibynadwy,
    - Gormod o ofyniad i deithio yn ystod y diwrnod ysgol

    - Mae angen gwella'r cyfathrebu a'r amserlennu rhwng gwahanol ddarparwyr.
- Thema 5 – Nododd rhai rhanddeiliaid eu bod wedi dewis opsiwn 1 neu opsiwn 2 fel eu dewis, gan y byddai'n cynnal neu'n gwella'r defnydd o'r Gymraeg.

Mae dadansoddiad pellach o'r Themâu allweddol i'w weld yn **Atodiad 4.**

### 3.3.2 Yn eich barn chi, pa effeithiau fyddai ar y Gymraeg, sut y gellir cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu liniaru effeithiau negyddol?

Atebodd cyfanswm o 480 o ymatebwyr y cwestiwn hwn, mae'r tabl isod yn dangos y 5 Thema a nodwyd.

| | | |
|---|---|---|
| Thema 1 | Awgrymiadau ar sut i hybu'r defnydd o'r Gymraeg | Tua 240 o ymatebion |
| Thema 2 | Pryderon am yr effaith ar y Gymraeg pe bai nifer y darparwyr yn lleihau | Tua 130 o ymatebion |
| Thema 3 | Ni fydd unrhyw effaith ar y Gymraeg | Tua 110 o ymatebion |
| Thema 4 | Mae gormod o ffocws ar y Gymraeg | Tua 80 o ymatebion |
| Thema 5 | Gallai lleihau nifer y darparwyr gael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg | Tua 40 o ymatebion |

Mae dadansoddiad pellach o'r Themâu allweddol i'w weld yn **Atodiad 4**.

Y negeseuon mwyaf cyffredin a dderbyniwyd gan randdeiliaid mewn perthynas â'r Themâu a grybwyllwyd uchod oedd:

- Thema 1 – Angen cynnal neu gynyddu nifer y cyrsiau ôl-16 a ddarperir yn ddwyieithog.
- Thema 2 – Roedd pryderon pe byddai nifer y darparwyr yn lleihau, na fyddai'r ddarpariaeth ddwyieithog cystal. Roedd pryderon hefyd pe bai dysgwyr yn symud at ddarparwr amgen, y byddent yn fwy tebygol o drosglwyddo i ddefnyddio'r Saesneg yn lle'r Gymraeg, oherwydd colli cysylltiad â ffrindiau Cymraeg eu hiaith, neu ddysgwyr Cymraeg ddim mor hyderus yn siarad Cymraeg â staff a chyd-ddysgwyr nad ydynt mor gyfarwydd / hyderus â nhw.
- Thema 3 - Dywedodd y rhanddeiliaid nad oeddent yn meddwl y byddai effaith ar y Gymraeg, waeth pa opsiwn a ddewisir.
- Thema 4 – Datganodd rhanddeiliaid fod angen i'r Cyngor ac ysgolion fod yn ofalus nad yw gorganolbwyntio ar y Gymraeg yn cael effaith andwyol ar safon addysg.
- Thema 5 – Mae rhanddeiliaid yn credu y gallai mwy o ddisgyblion ôl-16 ddod at ei gilydd gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg.

### 3.3.3 Unrhyw Sylwadau Pellach?

Atebodd cyfanswm o 169 o ymatebwyr y cwestiwn hwn, mae’r tabl isod yn dangos y 5 Thema a nodwyd.


| | | |
|---|---|---|
| Thema 1 | Yn gefnogol i'r ddarpariaeth ôl-16 barhau gyda'r darparwyr presennol. | Tua 50 o ymatebion |
| Thema 2 | Cysylltiedig â Chludiant. | Tua 20 o ymatebion |
| Thema 3 | Yr Iaith Gymraeg. | Tua 15 o ymatebion |
| Thema 4 | Yn gefnogol i leihau nifer y darparwyr ôl-16. | Tua 10 o ymatebion |
| Thema 5 | Mae angen buddsoddiad pellach. | Tua 10 o ymatebion |
| | Arall | Tua 20 o ymatebion |

Mae dadansoddiad pellach i’w weld yn **Atodiad 4**.

## 4. Ymatebion i'r Arolwg (Gan Ddysgwyr / Pobl Ifanc yn unig)


Roedd y Cyngor yn awyddus i geisio barn dysgwyr a phobl ifanc oedd wedi cael profiad ôl-16 ar Ynys Môn yn ddiweddar neu a fydd yn cael y profiad yn fuan. Mae'r adran ganlynol yn crynhoi barn dysgwyr / pobl ifanc o dan 21 yn unig. Mae'r data hwn wedi'i dynnu o'r ymatebion cyffredinol a drafodwyd yn Adran 2.

Ymatebodd cyfanswm o 236 o bobl ifanc (dan 21 oed) i'r arolwg, gyda 196 ohonynt yn ddysgwyr cyfredol. O'r 196 a ymatebodd, roedd 61% yn y chweched dosbarth / ôl-16 ac 20% yn ddysgwyr blwyddyn 11 fel y gwelir isod.




Roedd eu hymatebion i gwestiynau'r arolwg fel a ganlyn:

**Cwestiwn – A ydych yn cytuno bod angen adolygu'r ddarpariaeth addysg ôl-16 ar Ynys Môn?**



Roedd 46% o'r ymatebion yn cytuno/cytuno'n gryf fod angen adolygu'r ddarpariaeth addysg ôl-16 ar Ynys Môn gyda 23% yn anghytuno/ anghytuno'n gryf gyda'r angen am adolygiad.

**Cwestiwn - Pa un o'r canlynol sydd bwysicaf i chi?**

Gofynnwyd i'r ymatebwyr raddio'r ffactorau canlynol gydag 1 y pwysicaf a 7 y lleiaf pwysig. Cyfrifwyd cyfanswm y sgoriau ar gyfer pob ffactor, a dangosir y safle cyffredinol yn y tabl isod.

| **Pa un o'r canlynol sydd bwysicaf i chi?**<br>1 = y pwysicaf 7 = y lleiaf pwysig | **Gradd** |
|---|---|
| **Addysg ôl-16 ar gael yn lleol** | **1** |
| **Amrywiaeth o ddewisiadau pwnc ôl-16 ar gael yn lleol** | **2** |
| **Ansawdd yr addysgu** | **3** |
| Ansawdd yr adnoddau a'r cyfleusterau sydd ar gael ar gyfer astudio ôl-16 | 4 |
| Teithio cyfyngedig yn ystod y diwrnod ysgol i safleoedd eraill i fynychu rhai cyrsiau | 5 |
| Cyrsiau ar gael yn ddwyieithog | 6 |
| Cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol | 7 |

Mae dadansoddiad pellach wedi'i ddarparu yn **Atodiad 5**.

**Cwestiwn - Graddiwch yr opsiynau canlynol:**

Gofynnwyd i'r ymatebwyr raddio'r opsiynau a ganlyn gydag 1 yr un sy'n cael ei ffafrio fwyaf a 4 yr un sy'n cael ei ffafrio leiaf.

Cyfrifwyd cyfanswm y sgoriau ar gyfer pob opsiwn, a dangosir y safle cyffredinol yn y tabl isod.

| **Graddiwch yr opsiynau canlynol** | **Gradd** |
|---|---|
| **Opsiwn 2** - Datblygu perthynas waith agosach rhwng y darparwyr presennol. | 1 |
| **Opsiwn 1** - Dim Newid – Cadw'r ddarpariaeth bresennol yn union fel y mae. | 2 |
| **Opsiwn 3** - Lleihau nifer yr ysgolion sy'n darparu addysg ôl-16. | 3 |
| **Opsiwn 4** - Un darparwr i ddarparu holl addysg ôl-16. | 4 |

Mae dadansoddiad pellach wedi'i ddarparu yn **Atodiad 6**.

Mae'r dadansoddiad yn amlygu bod ffafriaeth gyffredinol tuag at gadw addysg ôl-16 gyda'r darparwyr presennol.

## 5. Sesiynau Ymgysylltu â Dysgwyr

Cynhaliodd y Cyngor sesiwn ymgysylltu wyneb yn wyneb unigol gyda dysgwyr o bob ysgol a Choleg Menai (Llangefni a Bangor). Cymerodd dros 200 o ddysgwyr (Blwyddyn 7-13) ran yn y sesiynau ymgysylltu.

Mae crynodeb o bob sesiwn i'w weld yn **Atodiad 7**. Cytunwyd bod y rhain yn adlewyrchiad cywir o'r drafodaeth gan staff yr ysgolion a'r coleg.

Yn ystod y sesiynau ymgysylltu, gofynnwyd i ddysgwyr flaenoriaethu eu 3 uchaf o blith y ffactorau canlynol:

- Ôl-16 ar gael yn lleol
- Amrywiaeth o ddewisiadau pwnc ôl-16 ar gael yn lleol
- Teithio cyfyngedig yn ystod y diwrnod ysgol i safleoedd eraill i fynychu rhai cyrsiau
- Cyrsiau ar gael yn ddwyieithog
- Ansawdd yr adnoddau a'r cyfleusterau sydd ar gael ar gyfer astudio ôl-16
- Ansawdd yr addysgu
- Cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol
- Arall

Crynhoir y canlyniadau yn **Atodiad 8:**

## 6. Crynodeb

**Er hwylustod, mae'r opsiynau wedi'u cynnwys yma:**
OPSIWN 1 - Dim Newid – Cadw'r ddarpariaeth bresennol yn union fel y mae.
OPSIWN 2 - Datblygu perthynas waith agosach rhwng y darparwyr presennol.
OPSIWN 3 - Lleihau nifer yr ysgolion sy'n darparu addysg ôl-16.
OPSIWN 4 - Un darparwr i ddarparu holl addysg ôl-16.

**Mae'r data a gafwyd o ganlyniadau'r arolwg:**

- yn amlygu bod **ffafriaeth tuag at gadw addysg ôl-16 gyda'r darparwyr presennol**, gyda 79% o ymatebwyr (84% o Bobl Ifanc - o dan 21) yn dewis naill ai Opsiwn 1 neu Opsiwn 2 fel yr opsiwn a ffafrir ganddynt.
- yn dangos mai'r ffactorau pwysicaf i'r ymatebwyr yn gyffredinol, ac i bobl ifanc, wrth ystyried dyfodol addysg ôl-16 yw bod addysg ôl-16 ar gael yn lleol, ansawdd yr addysgu, a'r amrywiaeth o ddewisiadau pwnc ôl-16 sydd ar gael yn lleol.
- Wrth gyfrifo'r safleoedd graddio o'r arolwg i gyd, Opsiwn 2 – **'Datblygu perthynas waith agosach rhwng y darparwyr presennol'** yw'r opsiwn sydd yn y safle cyntaf yn gyffredinol.

**Mae negeseuon allweddol o'r sylwadau pellach a dderbyniwyd wedi'u rhestru isod:**

- Roedd bron i hanner yr ymatebwyr a roddodd sylwadau i egluro sut y graddiwyd yr opsiynau ganddynt, o'r farn bod ysgolion lleol yn gallu cynnig cymorth bugeiliol mwy effeithiol, oherwydd eu bod eisoes yn adnabod y disgyblion, eu cefndir a'u hamgylchiadau. Gall hyn hwyluso'r newid i Ôl-16.
- Mae ymatebwyr eisiau gweld nifer y cyrsiau a ddarperir yn ddwyieithog o leiaf yn cael eu cynnal, ac yn cynyddu os yn bosibl.
- Roedd gwahaniaeth barn o ran yr effaith y byddai gwahanol opsiynau yn ei chael ar y Gymraeg, gyda rhai yn nodi na fyddent yn disgwyl unrhyw effaith, tra bod eraill yn credu y gallai tynnu ôl-16 oddi wrth ddarparwyr presennol gael effaith negyddol ar y Gymraeg.
- Byddai rhai dysgwyr ifanc yn ei chael hi'n anodd neu'n amharod i deithio i ddarparwr ôl-16 arall, pe bai ôl-16 yn cael ei dynnu oddi wrth eu darparwr lleol.
- Amlygwyd diffygion yn y trefniadau presennol i fynychu cyrsiau partneriaeth, y mae angen mynd i'r afael â hwy.

**Ar ôl dadansoddi'r ymatebion a dderbyniwyd fel rhan o'r ymarferiad ymgysylltu cyhoeddus yn ofalus, daw'r Cyngor i'r casgliad mai'r opsiwn a ffafrir yw 'Datblygu perthynas waith agosach rhwng y darparwyr presennol'. Byddai pob ysgol uwchradd ar Ynys Môn felly yn aros fel ysgolion 11-18.**

## 7. Argymhelliad

Argymhellir i'r Pwyllgor Gwaith mai'r ffordd fwyaf priodol ymlaen, o ystyried yr adborth o'r ymgysylltiad cyhoeddus, yw:

1. **'Datblygu perthynas waith agosach rhwng y darparwyr presennol'**
2. Awdurdodi swyddogion i baratoi **'Cynllun Strategol ar gyfer datblygu perthynas waith agosach rhwng y darparwyr ôl-16 presennol'**, a fydd yn ceisio mynd i'r afael â neu liniaru'r heriau sy'n wynebu darpariaeth addysg ôl-16 ar Ynys Môn ar hyn o bryd, ac i gryfhau hawliau a phrofiad dysgwyr ôl-16.

# Darpariaeth Addysg Ôl-16

## Atodiadau i'r Adroddiad Ymgysylltu

### Atodiad 1

**Rhestr o'r rhanddeiliaid a gafodd wybod am gyhoeddiad y Ddogfen Ymgysylltu:**

- Pob Ysgol Gynradd, Ysgol Uwchradd ac Ysgol Arbennig ar Ynys Môn
- Cyrff llywodraethu holl ysgolion Ynys Môn
- Grŵp Llandrillo Menai
- Pob Aelod Etholedig
- Yr Aelod Seneddol Lleol
- Yr Aelod Lleol o Senedd Cymru
- Aelodau Rhanbarthol Senedd Cymru
- Estyn
- MEDR
- Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu
- Llywodraeth Cymru
- Comisiynydd y Gymraeg
- Pob Cyngor Tref a Chymuned
- Undebau llafur athrawon a staff


## Atodiad 2

**Dadansoddiad Pellach ar gyfer:**

**"Pa un o'r ffactorau canlynol sydd bwysicaf i chi wrth ystyried dyfodol ôl-16?" - Pob ymateb**


***Siart 1***

Mae'r graff isod yn dangos canran yr ymatebwyr a ddewisodd y canlynol fel y **ffactor unigol pwysicaf**.




***Siart 2***

Mae'r graff isod yn dangos canran yr ymatebwyr a ddewisodd y canlynol o fewn **eu 3 ffactor pwysicaf**.




***Siart 3***

Mae'r graff isod yn dangos canran yr ymatebwyr a ddewisodd y ffactorau canlynol fel y ffactor lleiaf pwysig.



# ATODIAD 3

## Dadansoddiad Pellach ar gyfer “Graddio'r Opsiynau” – Pob ymateb

Gofynnwyd i'r ymatebwyr restru'r opsiynau canlynol gan nodi 1 ar gyfer yr opsiwn a ffafrir fwyaf a 4 ar gyfer yr opsiwn a ffafrir leiaf.


Mae'r tabl isod yn crynhoi'r canlyniad.

***Tabl 1***

| Opsiynau | 1af | 2il | 3ydd | 4ydd |
|---|---|---|---|---|
| **Opsiwn 1:** Dim Newid – Cadw'r ddarpariaeth bresennol yn union fel y mae. | 40% | 27% | 12% | 21% |
| **Opsiwn 2:** Datblygu perthynas waith agosach rhwng y darparwyr presennol. | 39% | 44% | 14% | 3% |
| **Opsiwn 3:** Lleihau nifer yr ysgolion sy'n darparu addysg ôl-16. | 9% | 19% | 51% | 21% |
| **Opsiwn 4:** Un darparwr i ddarparu holl addysg ôl-16. | 12% | 10% | 23% | 56% |


***Siart 2***

Mae’r siart isod yn dangos y ganran o ymatebwyr a ddewisodd yr opsiwn fel yr **opsiwn a ffafrir fwyaf**.



***Siart 3***

Mae'r siart isod yn dangos canran yr ymatebwyr a ddewisodd yr opsiwn fel **yr opsiwn a ffafrir leiaf.**




Mae Tabl 1 yn dangos, er mai Opsiwn 1 oedd yr opsiwn a ffafriwyd gan y rhan fwyaf o ymatebwyr (40%, ychydig o flaen Opsiwn 2 gyda 39%), Opsiwn 1 oedd yr opsiwn a ffafriwyd leiaf gan 21% o ymatebwyr, o gymharu â dim ond 3% a ddewisodd Opsiwn 2 fel yr opsiwn a oedd yn cael ei ffafrio leiaf.

Mae Tabl 1 yn dangos bod 83% o ymatebwyr wedi gosod Opsiwn 2 yn y ddau opsiwn a ffafrir fwyaf ganddynt, o gymharu â 67% o ymatebwyr a osododd Opsiwn 1 yn eu dau uchaf.

**ATODIAD 4**

**Dadansoddiad Pellach o'r Adborth Ansoddol a Dderbyniwyd Gan Ymatebwyr**

Eglurwch eich dewisiadau ar gyfer graddio'r Opsiynau

| Eglurwch eich dewisiadau [ar gyfer graddio'r opsiynau] – Atebodd cyfanswm o 348 o ymatebwyr y cwestiwn hwn | |
|---|---|
| **THEMA 1 – YN GEFNOGOL I'R DDARPARIAETH ÔL-16 BARHAU GYDA'R DARPARWYR PRESENNOL – Awgrymwyd gan tua 200 o Ymatebwyr** | |
| **Nifer y sylwadau** | **Y math o sylwadau a wnaed** |
| 172 | Nododd rhanddeiliaid eu bod yn hapus gyda'r ddarpariaeth bresennol. Mae athrawon eisoes yn adnabod y disgyblion, eu cefndiroedd a'u galluoedd cyn iddynt symud ymlaen i ôl-16 ac mae disgyblion yn gyfforddus yn eu hamgylchedd. Gall ysgolion felly gynnig cymorth bugeiliol effeithiol, ac mae disgyblion ôl-16 yn chwarae rhan hanfodol ym mywyd yr ysgol, ac yn cael effaith gadarnhaol ar ddisgyblion ym mlynyddoedd 7-11. Dyma enghraifft o ymateb sy'n dangos hyn:<br><br>"*Bydd colli'r 6ed dosbarth o ysgolion yn golygu colli modelau rôl i blant iau. Mae gweld disgyblion 6ed dosbarth yn rhoi cymhelliant i blant iau i ymdrechu â pharhau â'u haddysg. Mae'r 6ed hefyd yn hanfodol wrth gefnogi athrawon i roi cyfleoedd i blant iau e.e., 'steddfod ysgol, diwrnod mabolgampau, diwrnod Plant Mewn Angen a.y.y.b.*<br>*Mae addysgu mewn ysgol yn rhoi llawer o gefnogaeth a chymorth i blant. Mae athrawon mewn ysgolion yn adnabod y disgyblion a'u rhieni ers 5 mlynedd ac felly'n deall eu hanghenion i'r dim, yn eu hannog i lwyddo a gwireddu eu breuddwydion*" |
| 33 | Bydd lleihau nifer y darparwyr yn gwneud y pontio o flwyddyn 11 i ôl-16 yn fwy anodd, gan na fydd dysgwyr yn gyfarwydd â staff a'u hamgylchedd. Bydd rhai yn teimlo nad ydynt yn barod i adael amgylchedd eu hysgol, lle maent yn gyfforddus ac yn hyderus. Mae hyn yn debygol o arwain at lai o ddysgwyr yn symud ymlaen i ôl-16, ac mae hefyd yn debygol o gael effaith negyddol ar flynyddoedd 7-11 mewn ysgolion nad oes ganddynt ddarpariaeth ôl-16, h.y., Rhieni yn dewis mynd â'u plant i ysgolion lle gallant barhau i ôl-16 yn yr un ysgol. |
| 14 | Nododd rhai y gallai datblygu cydweithio rhwng darparwyr sicrhau arbedion effeithlonrwydd, a/neu gynyddu arbenigedd tra'n caniatáu i ôl-16 aros gyda'r darparwyr presennol. Fodd bynnag, soniodd rhai ymatebwyr eu bod yn teimlo fel rhywun 'o'r tu allan' wrth fynychu cyrsiau partneriaeth, a'u bod yn teimlo bod dysgwyr o'r darparwr lletyol yn cael eu blaenoriaethu ar draul y dysgwyr sy'n teithio i fynychu'r cwrs o ysgol/coleg gwahanol. |
| 9 | Er bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a nododd eu bod am gadw ôl-16 gyda'r darparwyr presennol wedi gwneud sylwadau mewn cyd-destun cyffredinol, ac eisiau iddo aros gyda'r holl ddarparwyr, dim ond rhai a nododd eu bod am i ôl-16 aros yn eu hysgol ardal leol. Roedd hyn yn bennaf gan randdeiliaid yn gysylltiedig ag Ysgol Uwchradd |

| | |
|---|---|
| | Caergybi, gydag ychydig yn gysylltiedig ag Ysgol David Hughes. Roedd eu rhesymu fel a ganlyn:<br><br>**Ysgol Uwchradd Caergybi**<br>• Maint y boblogaeth<br>• Cysylltiadau trafnidiaeth da<br>• Ardal ddifreintiedig – yn ei gwneud yn anos cymudo i ddarparwyr eraill.<br>• Meddylfryd canol dinas sy'n golygu eu bod yn llai tebygol o deithio i ddarparwr arall.<br><br>*“Mae ardal Caergybi yn unigryw o ran ei bod yn gymuned ddifreintiedig, yn dref porthladd efo problemau dinesig "inner city" eu naws gan gynnwys tlodi a phroblemau cymdeithasol. Mae angen mawr i ystyried anghenion cymdeithasol ac economaidd yn ogystal ag addysgiadol. Mae peryg i’r plant yma golli allan yn gyfangwbl os na fydd rhyw fath o ddarpariaeth yma yn y dref iddynt. Maent fel pawb arall wedi dioddef oherwydd Covid ond AR BEN HYNNY wedi dioddef o RAAC, ddaru effeithio yr un fath ar y plant yn Ysgol Uwchradd Caergybi, ond dim ar weddill y Sir, na'r rhanbarth.”*<br><br>**Ysgol David Hughes**<br>• Nododd rhai y dylai ôl-16 aros yn Ysgol David Hughes, gan fod ganddi'r ddarpariaeth ôl-16 mwyaf (o ran niferoedd disgyblion), ac yn ddigon mawr i fod yn hunangynhaliol, sy'n golygu bod y rhan fwyaf o gyrsiau eisoes yn cael eu cynnig ar y safle. |
| 5 | Roedd rhai yn pryderu y gallai lleihau nifer y darparwyr effeithio ar ansawdd yr addysgu. Roedd pryderon ynghylch:<br>• Gallai'r athrawon gorau ddewis symud i addysgu mewn ysgol sydd â darpariaeth ôl-16, a fyddai'n cael effaith negyddol ar ansawdd y dysgu yn yr ysgol 11-16.<br>• O leihau nifer y darparwyr yn sylweddol, fe allai fod yn anodd penodi staff o safon ar gyfer y darparwyr ôl-16, gan fod yr athrawon gorau eisoes yn cael eu cyflogi mewn ysgolion. |

| Eglurwch eich dewisiadau [ar gyfer graddio’r opsiynau]<br>Atebodd cyfanswm o 348 o ymatebwyr y cwestiwn hwn | |
|---|---|
| **THEMA 2 – MAE ANGEN MWY O FUDDSODDI MEWN ADDYSG ÔL-16<br>59 O YMATEBION.** | |
| **Nifer y sylwadau** | **Y math o sylwadau a wnaed** |
| 59 | Amlygwyd 3 prif agwedd:<br>• Dylai mwy o ddewisiadau cwrs fod ar gael i ddysgwyr. Dywedodd rhai y byddai lleihau nifer y darparwyr yn caniatáu i hyn ddigwydd, tra bod eraill eisiau gweld mwy o ddewisiadau cwrs gan bob un o'r darparwyr presennol.<br>• Ansawdd Adeiladau Ysgol / adnoddau angen eu gwella<br>• Dylai'r cyrsiau a gynigir ystyried cyfleoedd cyflogaeth lleol yn y dyfodol. |

| Eglurwch eich dewisiadau [ar gyfer graddio’r opsiynau] –<br>Atebodd cyfanswm o 348 o ymatebwyr y cwestiwn hwn | |
|---|---|
| **THEMA 3 – YN GEFNOGOL I LEIHAU NIFER Y DARPARWYR ÔL-16<br>52 O YMATEBION.** | |
| **Nifer y sylwadau** | **Y math o sylwadau a wnaed** |
| 35 | Byddai cael llai o ddarparwyr yn darparu model ôl-16 mwy cost-effeithiol, gan ganiatáu i addysg ôl-16 gael gwell adnoddau.<br>*“Fel y mae addysg ôl-16 ar hyn o bryd, mae ysgolion yn cael trafferth gyda’r swm o arian y maent yn ei dderbyn tuag at y chweched dosbarth. Pe bai nifer y darparwyr yn llai, gallai’r arian gael ei ddefnyddio i gynnig addysgu ac adnoddau o ansawdd uwch.”* |
| 27 | Dywedodd rhai eu bod yn credu y gellid gwella ansawdd yr addysgu pe bai llai o ddarparwyr ôl-16. Roedd y sylwadau’n cynnwys y canlynol:<br>• Bydd yn caniatáu mwy o gyfleoedd i athrawon addysgu eu pynciau arbenigol, gan y byddai angen llai o staff ar gyfer darpariaeth ôl-16.<br>• Gall fod yn heriol i addysgu dysgwyr iau a hŷn am yn ail.<br>• Tegwch – Byddai pob dysgwr yn cael yr un ansawdd o addysgu (gan ymatebwyr a oedd yn ffafrio’r opsiwn i ddarparu addysg ôl-16 gan un darparwr). |
| 6 | Byddai cael llai o ddarparwyr yn rhoi mwy o gyfleoedd i gymdeithasu â phobl newydd o'r un oedran/diddordebau. Dywedodd rhai y byddai symud at ddarparwr ôl-16 gwahanol yn ‘garreg gamu’ dda i helpu pobl i baratoi ar gyfer y dyfodol, er enghraifft Prifysgol neu weithle. |

| Eglurwch eich dewisiadau [ar gyfer graddio'r opsiynau]<br>Atebodd cyfanswm o 348 o ymatebwyr y cwestiwn hwn | |
|---|---|
| **THEMA 4 – CYSYLLTIEDIG Â CHLUDIANT<br>83 O YMATEBION.** | |
| **Nifer y sylwadau** | **Y math o sylwadau a wnaed** |
| 44 | Nodwyd y byddai'n anodd neu y byddent yn anfodlon teithio i ddarparwr ôl-16 gwahanol. Dywedodd rhai y byddai'r diwrnod ysgol yn hirach i ddisgyblion oherwydd y gofyniad i deithio ymhellach. |
| 43 | Sylwadau am y trefniadau cludiant presennol i fynychu cyrsiau partneriaeth (cyrsiau a ddarperir gan un ysgol/coleg lle mae dysgwyr o ysgolion/coleg eraill hefyd yn mynychu).<br><br>Mae'r sylwadau yn cynnwys:<br>• Mae gormod o ofynion teithio yn ystod y diwrnod ysgol.<br>• Gall tacsis fod yn annibynadwy<br>• Mae angen gwella'r cyfathrebu a'r amserlennu rhwng gwahanol ddarparwyr. Cafwyd enghreifftiau lle mae dysgwyr wedi teithio i safle arall i ddilyn cwrs partneriaeth, dim ond i ddarganfod bod y cwrs wedi'i ganslo. Yna mae'n rhaid i'r dysgwr aros ar safle darparwr y cwrs partneriaeth nes bod y cludiant yn dychwelyd ar gyfer y daith yn ôl. |
| 4 | Ni ddylid trosglwyddo costau cludiant i deuluoedd. |

| Eglurwch eich dewisiadau [ar gyfer graddio'r opsiynau]<br>Atebodd cyfanswm o 348 o ymatebwyr y cwestiwn hwn | |
|---|---|
| **THEMA 5 – YR IAITH GYMRAEG<br>9 O YMATEBION.** | |
| **Nifer y sylwadau** | **Y math o sylwadau a wnaed** |
| 9 | Dywedodd yr ymatebwyr hyn mai un o'r rhesymau dros sut yr oeddent yn graddio'r opsiynau oedd cynnal neu wella'r defnydd o'r Gymraeg. Roedd 7/9 o'r ymatebwyr hyn yn ffafrio Opsiwn 1 (Dim Newid – Cadw'r ddarpariaeth bresennol fel y mae), neu Opsiwn 2 (Datblygu perthynas waith agosach rhwng y darparwyr presennol ymhellach). Rhoddir sylw i fwy o fanylion am yr effaith ar y Gymraeg yn y cwestiwn nesaf. |

Yn eich barn chi, pa effeithiau fyddai ar y Gymraeg, sut y gellir cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu liniaru effeithiau negyddol??

| Yn eich barn chi, pa effeithiau fyddai ar y Gymraeg, sut y gellir cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu liniaru effeithiau negyddol?<br>Atebodd cyfanswm o 480 o ymatebwyr y cwestiwn hwn | |
|---|---|
| **THEMA 1 – Awgrymiadau ar sut i hybu'r defnydd o'r Gymraeg<br>240 O YMATEBION.** | |
| **Nifer y sylwadau** | **Y math o sylwadau a wnaed** |
| 139 | Angen cynnal neu gynyddu nifer y cyrsiau a gyflwynir yn ddwyieithog, fel y gall disgyblion astudio yn eu dewis iaith. |
| 51 | Angen sicrhau bod darparwyr yn annog dysgwyr i siarad Cymraeg, a sicrhau nad oes unrhyw farnu/stigma wrth ddysgu. Creu cymhellion i ddysgwyr astudio trwy gyfrwng y Gymraeg. |
| 50 | Awgrymodd rhai y gellid cynnig mwy o weithgareddau i hyrwyddo'r Gymraeg. Mae rhai enghreifftiau a awgrymwyd yn cynnwys:<br>• Mwy o ffocws ar ddiwylliant Cymreig yn y BAC<br>• Teithiau i Brifysgolion Cymru<br>• Cydweithio gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol<br>• Gweithgareddau Allgyrsiol Cymraeg<br>• Disgyblion sy'n siarad Cymraeg i gefnogi dysgwyr Cymraeg.<br>• Gwersi Cymraeg i rieni a dysgwyr<br>• Hyrwyddo manteision dysgu drwy'r Gymraeg |
| 33 | Angen sicrhau bod staff ysgolion/colegau yn siaradwyr Cymraeg, sy'n gallu addysgu'n ddwyieithog. Tra bod rhai o'r farn mai dim ond staff sy'n siarad Cymraeg y dylid eu penodi, roedd eraill yn anghytuno, ac yn credu y byddai ymrwymiad i ddysgu Cymraeg yn ddigonol, er mwyn sicrhau y gellid penodi'r athrawon gorau. |
| 24 | Mae dysgwyr eisoes wedi penderfynu pa iaith y maent am ymgymryd â'u haddysg erbyn y cam y byddant yn symud ymlaen i ôl-16. Y ffordd i gynyddu nifer y dysgwyr ôl-16 Cymraeg fyddai hybu ac annog defnydd o'r Gymraeg ar gamau cynharach yn eu haddysg, h.y., Lleoliadau Meithrin, Ysgolion Cynradd, Cyfnod Allweddol 3 a Chyfnod Allweddol 4. |
| 1 | Dywedodd un ymatebwr ei fod yn credu y dylai un ysgol Uwchradd fod yn ysgol Uwchradd uniaith Gymraeg, fel bod gan ysgolion sail gryfach ar gyfer defnyddio'r Gymraeg yn unig mewn gwersi. |
| 1 | "*Rhan yn unig o'r darlun yw addysg ôl-16. Erbyn i ddisgyblion gyrraedd yr oed hwnnw, dylai'r mwyafrif helaeth fod yn rhugl mewn sustem addysg drwyadl Gymraeg. Felly er* |

| | |
|---|---|
| | *mwyn cael effaith gadarnhaol, rhaid i'r ddarpariaeth addysg cyn-16 fod yn effeithiol. Y ffordd orau o sicrhau hyn yw dynodi ysgolion Môn yn ysgolion Cymraeg.*<br>*Gellir darllen manylion polisi addysg y Gymdeithas drwy ddilyn y ddolen hon*: https://cymdeithas.cymru/dogfen/deddfaddysggymraeg" (Cymdeithas Y Iaith). |

| **Yn eich barn chi, pa effeithiau fyddai ar y Gymraeg, sut y gellir cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu liniaru effeithiau negyddol??**<br>**Atebodd cyfanswm o 480 o ymatebwyr y cwestiwn hwn** | |
|---|---|
| **THEMA 2**<br>**Pryderon ynghylch yr effaith ar yr Iaith Gymraeg pe bai nifer y darparwyr yn cael ei leihau**<br>**126 O YMATEBION.** | |
| **Nifer y sylwadau** | **Y math o sylwadau a wnaed** |
| 126 | Roedd rhai o'r farn y byddai lleihau nifer y darparwyr ôl-16 yn cael effaith andwyol ar y Gymraeg. Eu rhesymau dros wneud y datganiad hwn oedd:<br>• Mae'r iaith Gymraeg yn dioddef mewn cymunedau pan gaiff gwasanaethau eu dileu.<br>• Mae disgyblion ôl-16 yn chwarae rhan weithredol wrth hyrwyddo'r iaith Gymraeg mewn ysgolion (blwyddyn 7-11) ac yn y gymuned.<br>• Byddai tynnu ôl-16 o ysgolion yn arwain at lai o deuluoedd yn byw yn y gymuned, a mwy o bobl yn symud o bell i'r ardal i ymddeol.<br>• Efallai y bydd dysgwyr Cymraeg neu ddisgyblion sydd wedi dysgu Cymraeg yn llai cyfforddus i siarad yn Gymraeg gyda staff nad ydynt mor gyfarwydd / hyderus â nhw.<br>• Wrth i fwy o ddisgyblion ddod at ei gilydd, maent yn fwy tebygol o newid i ddefnyddio'r Saesneg yn lle'r Gymraeg.<br>• Drwy symud i ddarparwr arall, gallai dysgwyr golli cysylltiad â ffrindiau sy'n siarad Cymraeg.<br>• Gallai arwain at ysgolion yn colli staff sy'n dysgu'r Gymraeg. |

| Yn eich barn chi, pa effeithiau fyddai ar y Gymraeg, sut y gellir cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu liniaru effeithiau negyddol?<br>Atebodd cyfanswm o 480 o ymatebwyr y cwestiwn hwn | |
|---|---|
| **THEMA 3<br>Ni Fydd Unrhyw Effaith ar yr Iaith Gymraeg<br>110 O YMATEBION.** | |
| **Nifer y sylwadau** | **Y math o sylwadau a wnaed** |
| 110 | Roedd yr ymatebwyr hyn o'r farn na fyddai unrhyw effaith ar yr iaith Gymraeg.<br><br>*“Ni ddylai fod yna ddim gwahaniaeth yn y ddarpariaeth Gymraeg pa opsiwn bynnag a ddewisir. Methiant fyddai peidio sicrhau adnoddau digonol i alluogi pob disgybl i fod yn rhugl yn y Gymraeg, ac yn medru darllen a sgwennu yn y Gymraeg.<br>Gwelwn y cwestiwn hwn yn amherthnasol, heblaw fod yna ragdybiaeth fod rhai opsiynau yn llai ffafriol i'r Gymraeg”* |

| Yn eich barn chi, pa effeithiau fyddai ar y Gymraeg, sut y gellir cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu liniaru effeithiau negyddol?<br>Atebodd cyfanswm o 480 o ymatebwyr y cwestiwn hwn | |
|---|---|
| **THEMA 4<br>Mae gormod o ganolbwyntio ar yr Iaith Gymraeg<br>82 O YMATEBION.** | |
| **Nifer y sylwadau** | **Y math o sylwadau a wnaed** |
| 38 | Mae angen bod yn ofalus nad yw gorganolbwyntio ar y Gymraeg yn cael effaith andwyol ar safonau addysg. |
| 33 | Ni ddylid 'gorfodi'r iaith ar ddisgyblion mewn ysgolion, neu fel arall byddant yn gwrthryfela.<br>*“Mae gwthio wedi bod ar yr iaith erioed, mewn ffordd llai na chadarnhaol, y mwyaf y caiff ei gwthio, y mwyaf fydd pobl yn gwrthod cydymffurfio. Dylai fod yn rhywbeth sy'n digwydd yn naturiol.”* |
| 30 | Mae angen ystyried gyrfa neu addysg yn y dyfodol y tu hwnt i ôl-16, pe bai myfyrwyr yn symud ymlaen i brifysgolion neu weithleoedd yn Lloegr. |

| Yn eich barn chi, pa effeithiau fyddai ar y Gymraeg, sut y gellir cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu liniaru effeithiau negyddol??<br>Atebodd cyfanswm o 480 o ymatebwyr y cwestiwn hwn | |
|---|---|
| **THEMA 5**<br>**Gallai lleihau nifer y darparwyr gael effaith gadarnhaol ar yr Iaith Gymraeg**<br>**43 O YMATEBION.** | |
| **Nifer y sylwadau** | **Y math o sylwadau a wnaed** |
| 43 | Mae rhai'n credu y gallai lleihau nifer y darparwyr gael effaith gadarnhaol ar yr iaith Gymraeg, am y rhesymau canlynol:<br>• Gallai mwy o ddisgyblion yn dod at ei gilydd gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg.<br>• Gallai cynnig mwy o gyrsiau gan y darparwyr sy'n weddill gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg sy'n astudio drwy'r darparwyr hynny.<br>• Haws recriwtio staff addysgu sy'n siarad Cymraeg ar gyfer y darparwyr ôl-16 sy'n weddill, gan y byddai angen llai o staff.<br>• Byddai'r darparwyr sy'n weddill yn derbyn mwy o gyllid, y gellid ei ddefnyddio i gynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg / Ddwyieithog. |

## Unrhyw Sylwadau Pellach?

<table>
<tr><th colspan="2">Unrhyw Sylwadau Pellach?<br>Atebodd 169 o ymatebwyr y cwestiwn hwn</th></tr>
<tr><th colspan="2">THEMA 1 – YN GEFNOGOL I'R DDARPARIAETH ÔL-16 BARHAU GYDA'R DARPARWYR PRESENNOL<br>50 O YMATEBION.</th></tr>
<tr><th>Nifer y sylwadau</th><th>Y math o sylwadau a wnaed</th></tr>
<tr><td>50</td><td>Gwnaeth rhai sylwadau eu bod yn gefnogol i'r ddarpariaeth ôl-16 barhau gyda'r darparwyr presennol. Roedd y sylwadau a wnaed yn cynnwys:<ul><li>Gallai lleihau darparwyr ôl-16 effeithio ar staff addysgu, er enghraifft, staff yn dewis symud i ddarparwr arall, lle byddai darpariaeth ôl-16 yn parhau.</li><li>Gwnaeth rhai sylwadau eu bod yn well ganddynt gael grwpiau llai gan fod perthynas waith agosach rhwng dysgwyr a'u hathrawon.</li><li>Mae cefnogaeth fugeiliol fwy effeithiol os gall dysgwyr barhau i dderbyn ôl-16 mewn ysgolion lle mae'r athrawon eisoes yn eu hadnabod nhw a'u hamgylchiadau personol.</li><li>Mae disgyblion ôl-16 yn fodelau rôl o fewn ysgolion, y mae dysgwyr iau yn edrych i fyny atynt.</li><li>Bydd lleihau darpariaeth ôl-16 yn cael effaith negyddol ar nifer y disgyblion sy'n symud ymlaen i flwyddyn 12 a 13.</li><li>Gall tynnu ôl-16 o ysgolion gael effaith negyddol ar nifer y disgyblion (blwyddyn 7-11) yn yr ysgol honno.</li><li>Mae lleihau darparwyr ôl-16 yn debygol o gael effaith negyddol yn amgylcheddol.</li><li>Mae yna lawer o Weithgareddau Allgyrsiol mewn ysgolion, gall fod yn anodd i ddysgwyr gymryd rhan os na chaiff ôl-16 ei ddarparu yn eu cymuned leol.</li></ul></td></tr>
</table>

<table>
<tr><th colspan="2">Unrhyw Sylwadau Pellach?<br>Atebodd 169 o ymatebwyr y cwestiwn hwn</th></tr>
<tr><th colspan="2">THEMA 2 – CYSYLLTIEDIG Â CHLUDIANT<br>17 O YMATEBION.</th></tr>
<tr><th>Nifer y sylwadau</th><th>Y math o sylwadau a wnaed</th></tr>
<tr><td>11</td><td>Pryderon ynghylch cludiant i ac o ddarparwr amgen. Roedd rhai yn pryderu nad oedd y cysylltiadau trafnidiaeth presennol ar Ynys Môn yn ddigonol, tra bod gan eraill bryderon ynghylch yr amser neu'r gost ychwanegol i deithio i ddarparwr amgen.</td></tr>
<tr><td>6</td><td>Pryderon ynghylch y trefniadau cludiant presennol i ac o gyrsiau partneriaeth. Gellid gwella'r trefniadau a'r cyfathrebu ar gyfer cyrsiau partneriaeth.</td></tr>
</table>

| Unrhyw Sylwadau Pellach?<br>Atebodd 169 o ymatebwyr y cwestiwn hwn | |
|---|---|
| **THEMA 3 – YR IAITH GYMRAEG<br>15 O YMATEBION.** | |
| **Nifer y sylwadau** | **Y math o sylwadau a wnaed** |
| 6 | Roedd rhai yn pryderu y gallai lleihau nifer y darparwyr gael effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg. |
| 1 | Gellid gwella'r gefnogaeth sydd ar gael i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. |
| 8 | Roedd rhai yn credu fod gormod o bwyslais ar yr iaith Gymraeg eisoes.<br>*"Mae'r Gymraeg yn foethusrwydd na all Cymru ei fforddio"*<br>*"Welsh is a luxury Wales cannot afford"* |

| Unrhyw Sylwadau Pellach?<br>Atebodd 169 o ymatebwyr y cwestiwn hwn | |
|---|---|
| **THEMA 4 – YN GEFNOGOL I LEIHAU NIFER Y DARPARWYR ÔL-16<br>11 O YMATEBION.** | |
| **Nifer y sylwadau** | **Y math o sylwadau a wnaed** |
| 11 | Gwnaeth rhai sylwadau eu bod yn cefnogi lleihau nifer y darparwyr ôl-16. Roedd y sylwadau a wnaed yn cynnwys:<br>• Nid yw'r ddarpariaeth bresennol yn gynaliadwy<br>• Bydd lleihau nifer y darparwyr yn darparu gwell cost-effeithlonrwydd.<br>• Bydd lleihau nifer y darparwyr yn dod â mwy o gyllid i'r darparwyr sy'n weddill, gan ganiatáu i ddarpariaeth ac adnoddau ôl-16 gael eu gwella. |

| Unrhyw Sylwadau Pellach?<br>Atebodd 169 o ymatebwyr y cwestiwn hwn | |
|---|---|
| **THEMA 5 – MAE ANGEN MWY O FUDDSODDI<br>13 O YMATEBION.** | |
| **Nifer y sylwadau** | **Y math o sylwadau a wnaed** |
| 10 | Mae angen buddsoddi yn adeiladau/adnoddau ysgolion.<br>*“Buddsoddi a chynnal yr adeiladau presennol. Dydy hi ond yn deg i'n plant allu dysgu mewn sefydliadau sy'n addas i’r diben. Byddai hefyd yn amgylchedd gwell i'r athrawon weithio ynddo.”* |
| 3 | Dylai dewis ehangach o gyrsiau fod ar gael:<br>*“Rwy'n credu efallai y dylai ysgolion gynnig mwy o gyrsiau tebyg i BTEC”* |


| Unrhyw Sylwadau Pellach?<br>Atebodd 169 o ymatebwyr y cwestiwn hwn | |
|---|---|
| **SYLWADAU ERAILL A WNAED NAD YDYNT YN DOD O DAN Y THEMÂU UCHOD<br>22 O YMATEBION.** | |
| **Nifer y sylwadau** | **Y math o sylwadau a wnaed** |
| 8 | Ni ddarparwyd gwybodaeth ddigonol yn y dogfennau ymgysylltu. |
| 9 | Mae’n bwysig bod ôl-16 yn aros yng Nghaergybi. |
| 4 | Dylai’r Cyngor edrych ar arfer gorau o fannau eraill, a dylai geisio mewnbwn gan ei bartneriaid, megis Llywodraeth Cymru, MEDR, a Chynghorau eraill.<br><br>*“Mae cyfle yma i sicrhau fod Môn ar flaen y gad wrth ddarparu addysg ôl-16.*<br><br>*“Byddai'n fuddiol ymchwilio i'r modelau mwyaf effeithiol yn rhyngwladol er mwyn eu hefelychu a'u haddasu i gwrdd ag anghenion lleol.*<br>*Mae systemau addysg mewn gwledydd eraill llawer mwy datblygedig (e.e., Japan, Sweden)”* |
| 1 | Awgrymwyd y dylai cynghorydd gyrfa fynd i ysgolion i siarad â dysgwyr o flwyddyn 9 ymlaen. |
| 1 | Awgrymwyd y gallai staff addysgu CA3 a CA4 mewn ysgolion 3 diwrnod yr wythnos, ac addysgu ôl-16 mewn safle arall am 2 ddiwrnod yr wythnos.<br><br>Awgrymwyd hyn gan aelod o staff ysgol, fel ffordd o ddatblygu perthynas waith agosach rhwng y darparwyr presennol. |

<u>**ATODIAD 5**</u>

**Dadansoddiad Pellach ar gyfer "Pa un o'r ffactorau canlynol sydd bwysicaf i chi wrth ystyried dyfodol ôl-16?" – Dysgwyr a Phobl Ifanc (Dan 21)**


Mae'r siart isod yn dangos canran yr ymatebwyr a ddewisodd y canlynol fel **y ffactor pwysicaf**.

***Siart 1***





***Siart 2***

Mae'r graff isod yn dangos canran yr ymatebwyr a ddewisodd y canlynol o fewn **eu 3 ffactor pwysicaf**.



***Siart 3***

Mae'r graff isod yn dangos canran yr ymatebwyr a ddewisodd y ffactorau canlynol fel y ffactor lleiaf pwysig



## ATODIAD 6


### Dadansoddiad Pellach ar gyfer "Rhestru'r Opsiynau" – Dysgwyr a Phobl Ifanc (Dan 21)

***Tabl 1***

| Opsiynau | 1af | 2il | 3ydd | 4ydd |
|---|---|---|---|---|
| **Opsiwn 1:** Dim Newid – Cadw'r ddarpariaeth bresennol yn union fel y mae. | 47% | 25% | 12% | 16% |
| **Opsiwn 2:** Datblygu perthynas waith agosach rhwng y darparwyr presennol. | 37% | 47% | 12% | 4% |
| **Opsiwn 3:** Lleihau nifer yr ysgolion sy'n darparu addysg ôl-16. | 7% | 18% | 42% | 33% |
| **Opsiwn 4:** Un darparwr i ddarparu holl addysg ôl-16. | 9% | 10% | 34% | 47% |


***Siart 2***

Mae'r siart isod yn dangos y ganran o ymatebwyr a ddewisodd yr opsiwn fel yr **opsiwn a ffafrir fwyaf**



***Siart 3***

Mae'r siart isod yn dangos canran yr ymatebwyr a ddewisodd yr opsiwn fel **yr opsiwn a ffafrir leiaf**.




Mae Tabl 1 yn dangos, er mai Opsiwn 1 oedd yr opsiwn a ffafriwyd gan y rhan fwyaf o ymatebwyr (47%), Opsiwn 1 oedd yr opsiwn a ffafriwyd leiaf ar gyfer 16% o ymatebwyr.

Mae Tabl 1 yn dangos bod 84% o ymatebwyr wedi gosod Opsiwn 2 yn y ddau opsiwn a ffefrir orau ganddynt, o gymharu â 72% o ymatebwyr osododd Opsiwn 1 yn eu dau uchaf.

**ATODIAD 7**

**Coleg Menai – Dysgwyr**

**4 Chwefror 2025**

**Presennol** – Cynrychiolwyr y Cyngor a ‘r Coleg a 16 o ddysgwr yn Llangefni a dysgwyr ym Mangor (Hybrid).

**Gofynnwyd i’r dysgwyr am eu barn ar y gwahanol opsiynau**

DIM NEWID, CADW’R DDARPARIAETH GYFREDOL YN UNION FEL Y MAE

**Eu hymateb**

Aneglur ar adegau sut mae rhai pynciau a ddilynir yn yr ysgol yn drosglwyddadwy i’r hyn yr oeddent am ei ddilyn yn y brifysgol (dewisiadau pwnc yn well)

Nodwyd fod adegau ble mae pryder wedi bod ynglŷn ag ansawdd athro/athrawes yr ysgolion gan nad oedd yr athro/athrawes wastad yn arbenigwr pwnc. Yn y Coleg mae’r tiwtoriaid yn arbenigwyr pwnc.

Dysgwyr yn gwerthfawrogi gwasanaethau cefnogi sydd ar gael yn y coleg, a pa mor rhwydd ydy cael y gefnogaeth yna pan fo angen.

Dim llawer o gyfleoedd yn lleol mewn perthynas â rhai pynciau ar lefel TGAU e.e. cyfryngau creadigol. Anodd cael lle ar y cwrs os na chaiff ei gynnig ar lefel TGAU.

Grwpiau bach ar hyn o bryd. Gall fod yn fuddiol o ran cael perthynas agos â'r athro. Pe bai grwpiau'n rhy fawr, byddent yn colli'r berthynas agos hon ac yn dod yn amhersonol.

Ddim yn hoffi’r opsiwn yma – Dim digon o bres i gynnig adnoddau da.

Hoffi'r ffaith bod gennych chi ddewis i symud rhwng safleoedd i ddilyn cyrsiau. Ond mae gwahaniaeth yn ansawdd yr adnoddau rhwng gwahanol safleoedd.

DATBLYGU PERTHYNAS WAITH AGOSACH RHWNG Y DARPARWYR PRESENNOL

**Eu hymateb**

Dan yr argraff bod ysgolion yn cydweithio yn agos gyda’i gilydd yn barod.

Fasa’n dda cael ysgolion a’r Coleg yn gweithio’n agosach gyda’i gilydd

Rhai dysgwyr efallai mewn ysgolion ddim yn gwybod beth sydd yn digwydd yn y Coleg. Nododd un nad oedd yn rhwydd cael gwybodaeth am ddarpariaeth a chyrsiau’r Coleg drwy’r ysgol.

Mae perthynas dda yn barod rhwng Y Coleg a’r Ysgolion ond yn awyddus gweld os oes modd cryfhau ymhellach.

Gall fod yn straen teithio i fynychu cyrsiau gan ei fod yn gallu effeithio ar berfformiad e.e. dim amser i gael cinio oherwydd teithio.

LLEIHAU NIFER YR YSGOLION SY'N DARPARU ADDYSG ÔL-16

**Eu hymateb**

Creu straen os yn gorfod teithio gan fod y 6ed ddim ar gael yn lleol.

UN DARPARWR I DDARPARU HOLL ADDYSG ÔL-16

**Eu hymateb**

Gallai ansawdd yr addysgu fod yn well gan y byddai'r cyflwyniad bob amser wedi ei anelu tuag at ddysgwyr ôl-16. Mae ansawdd yr addysgu yn bwysig iawn.

Gallai ddarparu adnoddau gwell.

Yn mwynhau pa mor wahanol yw'r coleg o'i gymharu â'r hyn yr oedd wedi arfer ag ef cyn hynny- llechen lân.

Ansawdd y cyfleusterau yn y coleg, yn enwedig labordai ac ati. Dysgwyr yn nodi yma fod cael labordai o ansawdd uchel gydag adnoddau arbenigol yn cynnig cyfleoedd - canmoliaeth i'r adnoddau yn y Coleg. Dysgwyr hefyd yn cyfeirio at yr adnoddau TGCh.

Mwy o ymgysylltu â gwasanaethau cymorth, iechyd meddwl ac ati yn y coleg. Cymorth lles a chwnsela ar unwaith fel enghreifftiau o arfer dda yn y coleg.

Yn mwynhau cael ei holl gyrsiau ar un campws yn y Coleg.

SYLW CYFFREDINOL

Amrywiaeth yr ieithoedd y caiff cyrsiau eu haddysgu ynddynt. Wedi canfod dysgu yn y Gymraeg yn her - mae'n bwysig i ddysgwyr gael eu cefnogi. Teimlwyd mai datblygu perthynas waith agosach gyda cholegau, ysgolion a phrentisiaethau neu ddileu pob chweched dosbarth mewn ysgolion a dechrau eto oedd yr opsiynau go iawn.

**Ysgol Gyfun Llangefni – Dysgwyr**

**4 Chwefror 2025**

**Presennol –** Cynrychiolwyr y Cyngor a'r Ysgol ynghyd a 18 o ddysgwyr o Ysgol Gyfun Llangefni.

**Gofynnwyd i'r dysgwyr am eu barn ar y gwahanol opsiynau.**

<u>DIM NEWID, CADW'R DDARPARIAETH BRESENNOL YN UNION FEL Y MAE</u>

**Eu hymateb**

Addysg ôl-16 ddim yn gynaliadwy fel y mae.

Os bydd llai o bobl yn mynd i'r 6ed Dosbarth, gallai cadw'r ddarpariaeth fel y mae arwain at y nifer o gyrsiau yn lleihau neu ddim yn cael eu cynnal o gwbl.

Os bydd dim byd yn newid, bydd dim yn gwella.

<u>DATBLYGU PERTHYNAS WAITH AGOSACH RHWNG Y DARPARWYR PRESENNOL</u>

**Eu hymateb**

Mae'r opsiwn yma yn cynnig datrysiad tymor byr. e.e., mynd i safle arall i ddilyn rhai cyrsiau.

Ella bydd rhai dysgwyr ddim yn dewis y cwrs maen nhw wir eisiau ei wneud os ydynt yn gorfod mynd i safle arall i'w fynychu (h.y., cwrs Partneriaeth).

Os yr opsiwn yma fydd yn cael ei argymell, bydd angen gwella dealltwriaeth o ansawdd y dysgu (yn enwedig ar-lein) a beth sydd ar gael mewn ysgolion eraill.

<u>LLEIHAU'R NIFER O YSGOLION SY'N DARPARU ADDYSG ÔL-16</u>

**Eu hymateb**

Bosib bydd rhai dysgwyr sydd eisiau mynychu 6ed Dosbarth mewn ysgol yn gorfod teithio'n bellach i fynd i'r ysgol (os ydy o wedi ei dynnu o'u hysgol nhw). Efallai bydd rhai yn dewis peidio mynd i'r 6ed Dosbarth os ddim ar gael yn eu hysgol leol, fydd yn arwain at lai o bobl ifanc yn cael cymhwyster.

Angen gwneud yn siŵr bod digon o le mewn ysgol(ion) eraill os ydy 6ed Dosbarth yn cael ei dynnu o rai ysgolion.

Gall hyn arwain at well cyfleusterau mewn rhai ysgolion i gymharu ag eraill.

Anodd dewis pa ysgol(ion) fyddai'n colli'r chweched, a pa rhai fydd angen ei gadw.

Llai o bres i'r Ysgol fydd yn colli 6ed Dosbarth.

Ddim yn gwybod beth ydy safon addysg mewn ysgolion eraill.

Gorfod gwahanu oddi wrth ffrindiau. Ffrindiau yn mynd i 6ed Dosbarth mewn ysgol arall.

Tebygol byddai disgyblion yn mynd i'r Coleg yn hytrach na 6ed Dosbarth mewn ysgol arall.

UN DARPARWR I DDARPARU HOLL ADDYSG ÔL-16

**Eu hymateb**

Gallai greu dosbarthiadau mawr a gall hynny greu fwy o straen i staff.

Gall fod yn anoddach i ddysgwr ofyn cwestiwn mewn dosbarth mwy.

Mwy o amrywiaeth pynciau ar y safle.

Gallai dod â phawb at ei gilydd ar un safle greu cyfleoedd i leihau'r nifer o grwpiau dysgu mawr, ond i gynnal mwy o grwpiau.

Colled i'r ysgol petai dim 6ed Dosbarth yno gan fod y dysgwyr yma yn chwarae rhan yn yr ysgol.

Sut i staffio Canolfan ôl-16?

Efallai byddai safon addysg yn dirywio mewn ysgol oherwydd diffyg staff arbenigol ôl-16? Athrawon gorau yn yr Ysgolion, felly ddim yn y ganolfan.

Angen trefnu trafnidiaeth ddigonol i'r Ganolfan Ol-16 ar gyfer yr opsiwn yma.

**Ysgol Uwchradd Caergybi – Dysgwyr**

**5 Chwefror 2025**

**Presennol –** Cynrychiolwyr y Cyngor a'r Ysgol ynghyd a ddysgwyr o Ysgol Uwchradd Caergybi.

**Gofynnwyd i'r dysgwyr am eu barn ar y gwahanol opsiynau:**

DIM NEWID, CADW'R DDARPARIAETH BRESENNOL YN UNION FEL Y MAE

**Eu hymateb**

Adborth cryf i gadw'r 6ed Dosbarth yn Ysgol Uwchradd Caergybi.

DATBLYGU PERTHYNAS WAITH AGOSACH RHWNG Y DARPARWYR PRESENNOL

**Eu hymateb**

- Cytuno bod angen datblygu'r berthynas a'r cyfathrebu gyda darparwyr eraill, yn enwedig o ran darpariaeth ar y cyd.
- Byddai angen mynd i'r afael â phroblemau a wynebir gan ddysgwyr o ran darpariaeth ar y cyd e.e., cyrsiau'n cael eu canslo ar fyr rybudd, trafnidiaeth ddim yn cyrraedd, cyrsiau dwyieithog ddim yn gwbl ddwyieithog.
- Mae rhai cyrsiau dwyieithog yn cael eu haddysgu'n bennaf trwy gyfrwng y Gymraeg, gan arwain at rai dysgwyr Saesneg eu hiaith yn tynnu'n ôl o'r cwrs.
- Awgrymu gwell cyfathrebu rhwng yr holl Benaethiaid/darparwyr cyrsiau.
- Mae angen gwell isadeiledd i gael profiad gwell o addysgu ar-lein ar safle'r ysgol.

LLEIHAU'R NIFER O YSGOLION SY'N DARPARU ADDYSG ÔL-16

**Eu hymateb**

Dim cefnogaeth i leihau nifer yr ysgolion sy'n darparu addysg ôl-16, y rhesymau yw:

- Sut mae penderfynu pa 6ed Dosbarth sy'n cau?
- Problemau teithio, yn dibynnu pa 6ed dosbarth sy'n cau, e.e., cost ychwanegol ac amser teithio i ddysgwyr.
- Cynnydd yn yr ôl troed carbon (oherwydd mwy o deithio).
- Gallai godi materion ynghylch iaith yn dibynnu ar gategori iaith yr ysgol.

UN DARPARWR I DDARPARU HOLL ADDYSG ÔL-16

**Eu hymateb**

Dim cefnogaeth i gael un darparwr ar yr ynys am y rhesymau canlynol:

- Problemau teithio yn dibynnu ar y lleoliad e.e., cost ychwanegol ac amser teithio ychwanegol i bob dysgwr i fynd â nhw i un lleoliad.
- Cynnydd yn yr ôl troed carbon (oherwydd mwy o deithio).
- Gallai fod yn broblem recriwtio athrawon i un lleoliad/safle.
- Dywedodd un disgybl, "Pe bai'n rhaid i mi deithio o fewn Ynys Môn byddai'n haws cael y trên i Fangor a mynd i Ysgol Friars".

**Ysgol Syr Thomas Jones - Dysgwyr**

**6 Chwefror 2025**

**Presennol:** Cynrychiolwyr y Cyngor a'r Ysgol ynghyd a Dysgwyr Blwyddyn 7 i Blwyddyn 13 - Oddeutu 60 yn bresennol

**Gofynnwyd i'r dysgwyr am eu barn ar y gwahanol opsiynau.**

<u>DIM NEWID, CADW'R DDARPARIAETH BRESENNOL YN UNION FEL Y MAE</u>

**Eu hymateb**

- Yr opsiwn a ffafrir - llai o deithio, mwy o gymorth a chefnogaeth mewn dosbarthiadau.
- 'Y gorau i'r amgylchedd' – Ôl troed carbon.
- Mae bod yn gyfarwydd yn bwysig, (mae athrawon yn eich adnabod yn well, yn adnabod eich personoliaeth).

<u>DATBLYGU PERTHYNAS WAITH AGOSACH RHWNG Y DARPARWYR PRESENNOL</u>

**Eu hymateb**

- Posib lleihau teithio ymhellach – trwy gyflwyno gwersi ar-lein/hybrid.
- Mae angen gwell rheolaeth ar wersi (1 wers un diwrnod, 2 ar ddiwrnod arall) - mae angen rheolaeth amser ar gyfer disgyblion; nid yw teithio dros amser cinio yn deg. Efallai na fydd mor effeithiol oherwydd teithio.

<u>LLEIHAU'R NIFER O YSGOLION SY'N DARPARU ADDYSG ÔL-16</u>

**Eu hymateb**

- Gallai achosi anawsterau teithio, yn enwedig i'r rhai sydd ddim yn byw yn agos at 6ed Dosbarth.
- Teimlo bod cydbwysedd da rhwng athrawon a disgyblion nawr. Gallai fod llai o gysylltiad ag athrawon pe bai'r opsiwn hwn yn dod i fodolaeth oherwydd maint dosbarthiadau mwy.
- Ddim yn deg cau rhai 6ed a rhai yn aros ar agor.
- Gallai costau teithio achosi anawsterau ariannol i deuluoedd.
- Risg bod rhieni ddim yn anfon eu plant i'r ysgol os does dim 6ed Dosbarth yno.
- Pe bai dim ond un ysgol uwchradd sy'n darparu cwrs yn cau, beth fyddai'n digwydd wedyn?
- Gallai athrawon sydd ond yn addysgu pynciau 6ed dosbarth golli eu swyddi.
- Os tynnu Chweched Dosbarth o un o'r ysgolion, bydd dysgwyr sydd yn mynychu ysgol arall oherwydd hynny yn teimlo fel "*outsider*".

UN DARPARWR I DDARPARU HOLL ADDYSG ÔL-16

**Eu hymateb**

- Byddai ansawdd yr addysgu yn dda?
- Disgyblion 6ed Dosbarth yn helpu gweddill yr ysgol, "*role model*" i Bl.7. Basa hyn yn cael ei golli petai Ysgolion yn colli eu 6ed Dosbarth.
- Teimlo bod y Cyngor yn ein gorfodi i ddilyn llwybr penodol, a bod gennym lai o ryddid i wneud dewisiadau.
- Effaith ar yr iaith Gymraeg pe baem yn cael gwared ar chweched dosbarth mewn Ysgolion.
- Poeni os bydd y 6ed Dosbarth yn mynd, bydd nifer y disgyblion yn lleihau yng ngweddill yr ysgol.

**Casgliad ar y diwedd**

1. Ddim eisiau mynd hefo opsiwn 3 a 4.
2. Eisiau i'r 6ed aros yn yr Ysgol a gwella'r bartneriaeth.

**Ysgol David Hughes - Dysgwyr**

**10 Chwefror 2025**

**Presennol -** Cynrychiolwyr y Cyngor a'r Ysgol ynghyd a 50 o ddysgwyr.

**Gofynnwyd i'r dysgwyr am eu barn ar y gwahanol opsiynau.**

DIM NEWID, CADW'R DDARPARIAETH BRESENNOL YN UNION FEL Y MAE

**Eu hymateb**

- Bydd y broblem yn gwaethygu, a bydd yn anoddach delio efo hi
- Ddim yn opsiwn

DATBLYGU PERTHYNAS WAITH AGOSACH RHWNG Y DARPARWYR PRESENNOL

**Eu hymateb**

- Byddai'n achosi mwy o deithio
- Gallai cynnig dysgu hybrid / e-ddysgu leihau teithio ac arbed costau.
- Nid yw ansawdd dysgu ar-lein cystal ag wyneb yn wyneb, sy'n brofiad gwell. Mae gwersi'n teimlo'n amhersonol, ac yn fwy anodd cael cymorth os ydyn nhw'n dysgu'n rhithwir. Hefyd, gallai hybrid fod yn her os na all technoleg ei gefnogi'n effeithiol.
- Angen i ysgolion ddatblygu amserlenni ar y cyd h.y., os yn methu dilyn cwrs yn YDH, gallu dewis y cwrs mewn ysgol gyfagos.

LLEIHAU'R NIFER O YSGOLION SY'N DARPARU ADDYSG ÔL-16

**Eu hymateb**

- Gallai problemau newydd ddatblygu - Dosbarthiadau'n llenwi, gormod o ddisgyblion.
- Risg y byddai dim digon o lefydd yn y 6ed Dosbarth mewn ysgolion. A fyddai'r broses mynediad i'r 6ed Dosbarth mewn ysgol yn fwy cystadleuol?
- Byddai'n arwain at hyd yn oed mwy o deithio i rai dysgwyr fyddai heb 6ed Dosbarth yn eu hysgol leol mwyach. Gallai hyn arwain at gostau ychwanegol i deuluoedd, oni bai bod cludiant am ddim yn cael ei ddarparu i ddisgyblion ôl-16.
- Gallai hefyd olygu cael 2 ddisgybl mewn gwahanol ysgolion, gallai fod yn anodd ac anghyfleus i rieni e.e., un plentyn yn B8 mewn ysgol ond un arall mewn ysgol wahanol oherwydd bod y ddarpariaeth 6ed Dosbarth wedi ei symud.
- Angen sicrwydd na fyddai lleihau'r nifer o ysgolion yn arwain at lai o gyrsiau gan ysgolion.
- Sut fasa chi'n dewis pa ysgolion sydd yn cau?
- Efallai y byddai rhai rhieni yn anfon eu plant o Bl.7 i ysgol gyda 6ed Dosbarth yn lle eu hysgol leol (os nad oes 6ed Dosbarth ar gael yno)

UN DARPARWR I DDARPARU HOLL ADDYSG ÔL-16

**Eu hymateb**

- Mae disgyblion 6ed Dosbarth yn chwarae rôl ychwanegol mewn ysgol. Bydd hyn yn cael ei golli o'r ysgolion.
- Posibilrwydd y byddai dysgwyr Môn, sydd yn mynychu YDH, yn mynd i ysgol yng Ngwynedd gan mai yn fanno mae'r ysgol gyda 6ed Dosbarth agosaf.
- Costio llawer o arian os byddwn yn adeiladu adeilad newydd.
- Disgyblion ddim mor gyfforddus i siarad hefo staff newydd. Wedi datblygu perthynas hefo'r staff dros y blynyddoedd.
- Disgyblion fengach yn colli allan drwy beidio cael chweched dosbarth yn yr ysgol h.y., "*role model*"
- Mae'r opsiwn hwn yn amhoblogaidd gyda rhieni
- Dydy dysgwyr ddim yn cefnogi'r opsiwn hwn.
- Eisiau mynd i'r 6ed Dosbarth ac eisiau cario 'mlaen yn yr ysgol. Ddim yn teimlo'n barod i adael yr ysgol ar ôl Bl.11
- Sut fyddai staffio'r chweched yn gweithio?
- Annog y coleg i gynnig mwy o gyrsiau er mwyn lleihau'r teithio.

**Ysgol Uwchradd Bodedern – Dysgwyr**

**11 Chwefror 2025**

**Presennol:** Cynrychiolwyr y Cyngor a'r Ysgol ynghyd a 34 o ddysgwyr.

**Gofynnwyd i'r dysgwyr am eu barn ar y gwahanol opsiynau:**

<u>DIM NEWID, CADW'R DDARPARIAETH BRESENNOL YN UNION FEL Y MAE</u>

**Eu hymateb**

- Ddim yn opsiwn. Mae'n rhaid newid.
- Tydi disgyblion ddim yn gwybod pa gyfleoedd sydd ar gael mewn ysgolion eraill / coleg, pan maen nhw'n gwneud eu dewisiadau.

<u>DATBLYGU PERTHYNAS WAITH AGOSACH RHWNG Y DARPARWYR PRESENNOL</u>

**Eu hymateb**

- Angen i ysgolion rannu gwybodaeth gyda'i gilydd, fel bod dysgwyr yn gwybod beth sydd ar gael mewn ysgolion eraill.
- Bydd colli amser "addysg" os yw dysgwyr yn teithio rhwng safleoedd yn ystod y dydd.
- Mae angen i bob ysgol rannu mwy o wybodaeth am y cyrsiau sydd ganddynt ar gael, a'u hamserlenni. Angen gwella'r cyfathrebu rhwng yr ysgolion, a gyda disgyblion o ysgolion eraill.

<u>LLEIHAU'R NIFER YSGOLION SY'N DARPARU ADDYSG ÔL-16</u>

**Eu hymateb**

- Byddai mwy o deithio i rai dysgwyr os dydy 6ed Dosbarth ddim ar gael yn eu hysgol nhw. Does dim lle i fwy o ddysgwyr chweched yn Ysgol Uwchradd Bodedern.
- Ddim yn deg i ddysgwyr o'r ysgolion fyddai'n colli'r chweched.

<u>UN DARPARWR I DDARPARU HOLL ADDYSG ÔL-16</u>

**Eu hymateb**

- Mwy cymdeithasol. Mwy o gyfleoedd i gymdeithasu efo pobl ifanc o'r un oedran a diddordebau. Cyfle i gwrdd â phobl wahanol a pharatoi ar gyfer Prifysgol, ac yn gyfle am gychwyn a phrofiadau newydd.
- Y cynnig mwyaf effeithlon – galluogi athrawon yn y Ganolfan i ffocysu ar addysg Ôl-16 yn unig. Byddai gan athrawon y ganolfan Ôl-16 angerdd am y cyrsiau penodol maen nhw'n ddysgu, gan y gallan nhw ganolbwyntio ar eu pynciau arbenigol.

- Pe bai ysgolion yn colli 6ed Dosbarth, gellid defnyddio'r lle gwag mewn ysgolion at ddibenion eraill e.e., defnydd cymunedol ac ati.
- Colli perthynas agos hefo athrawon.
- Mae cael 6ed Dosbarth mewn ysgol yn fuddiol i ddysgwyr 'fengach. Byddai hyn yn cael ei golli ar draws ysgolion.

**SYLWADAU CYFFREDINOL**

- Byddai rhai dysgwyr blwyddyn 10/11 eisiau aros yn yr ysgol, ac eraill yn ffafrio mynd i'r Coleg.
- Ar hyn o bryd mae cyfyngiadau yn y cyrsiau mae dysgwyr yn gallu eu dewis. Mae pynciau yn yr un golofn pan mae dysgwyr yn gwneud eu dewisiadau, a hyd yn oed pan yn ymholi i ddilyn y cwrs mewn ysgol arall, mae 'clashes' yn yr amserlenni. Mae angen ystyried lles y dysgwyr.

# ATODIAD 8

## Y Ffactorau Pwysicaf i Ddysgwyr Wrth Ystyried Dyfodol Ôl-16

Yn ystod y sesiynau Ymgysylltu, gofynnwyd i ddysgwyr flaenoriaethu eu 3 uchaf o'r ffactorau canlynol:

1. Addysg ôl-16 ar gael yn lleol
2. Amrywiaeth o ddewisiadau pwnc ôl-16 ar gael yn lleol
3. Teithio cyfyngedig yn ystod y diwrnod ysgol i safleoedd eraill i fynychu rhai cyrsiau
4. Cyrsiau ar gael yn ddwyieithog
5. Ansawdd yr adnoddau a'r cyfleusterau sydd ar gael ar gyfer astudio ôl-16
6. Ansawdd yr addysgu
7. Cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol
8. Arall

**Ysgol Syr Thomas Jones**

| | Y ffactorau pwysicaf i ddysgwyr wrth ystyried dyfodol ôl-16 | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **1** | **2** | **3** | **4** | **5** | **6** | **7** | **8** |
| **Blaenoriaeth 1** | 22 | 9 | 5 | 10 | 3 | 25 | 2 | 4 |
| **Blaenoriaeth 2** | 8 | 10 | 6 | 13 | 8 | 23 | 5 | 1 |
| **Blaenoriaeth 3** | 15 | 7 | 7 | 11 | 9 | 15 | 6 | 1 |
| **Cyfanswm** | **45** | **26** | **18** | **34** | **20** | **63** | **13** | **6** |
| **Sgôr wedi'i bwysoli*** | **97** | **54** | **34** | **67** | **34** | **136** | **22** | **15** |
| **Safle** | **2** | **4** | **6** | **3** | **5** | **1** | **7** | **8** |

** Blaenoriaeth 1 yn cael pwysoliad o 3, Blaenoriaeth 2 yn cael pwysoliad o 2, Blaenoriaeth 3 yn cael pwysoliad o 1.*

**Ysgol Uwchradd Caergybi**

| | Y ffactorau pwysicaf i ddysgwyr wrth ystyried dyfodol ôl-16 | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **1** | **2** | **3** | **4** | **5** | **6** | **7** | **8** |
| **Blaenoriaeth 1** | 9 | 0 | 0 | 2 | 0 | 2 | 0 | 0 |
| **Blaenoriaeth 2** | 2 | 2 | 2 | 2 | 1 | 4 | 1 | 0 |
| **Blaenoriaeth 3** | 1 | 3 | 3 | 1 | 1 | 0 | 2 | 1 |
| **Cyfanswm** | **12** | **5** | **5** | **5** | **2** | **6** | **3** | **1** |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Sgôr wedi'i bwysoli*** | **32** | **7** | **7** | **11** | **3** | **14** | **4** | **1** |
| **Safle** | **1** | **4** | **4** | **3** | **7** | **2** | **6** | **8** |

**Ysgol Gyfun Llangefni**

| | **Y ffactorau pwysicaf i ddysgwyr wrth ystyried dyfodol ôl-16** | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **1** | **2** | **3** | **4** | **5** | **6** | **7** | **8** |
| **Blaenoriaeth 1** | 1 | 3 | 0 | 0 | 2 | 11 | 0 | 1 |
| **Blaenoriaeth 2** | 5 | 3 | 0 | 1 | 5 | 4 | 0 | 0 |
| **Blaenoriaeth 3** | 1 | 7 | 1 | 2 | 1 | 1 | 5 | 0 |
| **Cyfanswm** | **7** | **13** | **1** | **3** | **8** | **16** | **5** | **1** |
| **Sgôr wedi'i bwysoli*** | **14** | **22** | **1** | **4** | **17** | **42** | **5** | **3** |
| **Safle** | **4** | **2** | **8** | **6** | **3** | **1** | **5** | **7** |

**Ysgol David Hughes**

| | **Y ffactorau pwysicaf i ddysgwyr wrth ystyried dyfodol ôl-16** | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **1** | **2** | **3** | **4** | **5** | **6** | **7** | **8** |
| **Blaenoriaeth 1** | 8 | 7 | 2 | 4 | 6 | 18 | 4 | 0 |
| **Blaenoriaeth 2** | 9 | 10 | 3 | 5 | 9 | 10 | 7 | 1 |
| **Blaenoriaeth 3** | 4 | 3 | 1 | 9 | 8 | 7 | 10 | 1 |
| **Cyfanswm** | **21** | **20** | **6** | **18** | **23** | **35** | **21** | **2** |
| **Sgôr wedi'i bwysoli*** | **46** | **44** | **13** | **31** | **44** | **81** | **36** | **3** |
| **Safle** | **2** | **3** | **7** | **6** | **5** | **1** | **4** | **8** |

**Ysgol Uwchradd Bodedern**

| | **Y ffactorau pwysicaf i ddysgwyr wrth ystyried dyfodol ôl-16** | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **1** | **2** | **3** | **4** | **5** | **6** | **7** | **8** |
| **Blaenoriaeth 1** | 6 | 9 | 2 | 4 | 5 | 12 | 1 | 0 |
| **Blaenoriaeth 2** | 5 | 5 | 2 | 0 | 13 | 9 | 2 | 0 |
| **Blaenoriaeth 3** | 4 | 5 | 1 | 4 | 4 | 8 | 0 | 0 |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm** | **15** | **19** | **5** | **8** | **22** | **29** | **3** | **0** |
| **Sgôr wedi'i bwysoli*** | **32** | **42** | **11** | **16** | **45** | **62** | **7** | **0** |
| **Safle** | **4** | **3** | **6** | **5** | **2** | **1** | **7** | **8** |

**Coleg Menai**

| | **Y ffactorau pwysicaf i ddysgwyr wrth ystyried dyfodol ôl-16** | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **1** | **2** | **3** | **4** | **5** | **6** | **7** | **8** |
| **Blaenoriaeth 1** | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 16 | 0 | 0 |
| **Blaenoriaeth 2** | 1 | 6 | 0 | 2 | 4 | 1 | 0 | 0 |
| **Blaenoriaeth 3** | 3 | 3 | 1 | 2 | 6 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **5** | **9** | **1** | **4** | **10** | **17** | **0** | **0** |
| **Sgôr wedi'i bwysoli*** | **8** | **15** | **1** | **6** | **14** | **50** | **0** | **0** |
| **Safle** | **4** | **2** | **6** | **5** | **3** | **1** | **7** | **7** |

Cynnig i:

**“Datblygu perthynas waith agosach rhwng y darparwyr addysg ôl-16 presennol”**

# ASESIAD EFFAITH

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

| | |
|---|---|
| **Dyddiad cychwyn yr asesiad** | Ebrill 2025 |
| **Y swyddog sy'n gyfrifol am yr asesiad** | Aaron C Evans, Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc |
| **Dyddiad adolygu** | Mae hon yn ddogfen waith a chaiff ei hadolygu'n rheolaidd. |

**Mae copïau caled o’r adroddiad hwn ar gael ar gais drwy anfon e-bost i**

**Ysgolionmon@ynysmon.llyw.cymru**

# CYNNWYS

1. CYFLWYNIAD ... 3
2. ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB ... 4
2.1 Cefndir - Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ... 5
2.2 Casglu gwybodaeth – Safonau'r Gymraeg a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ... 7
2.3 Casglu gwybodaeth – Deddf Hawliau Dynol 1998 (Rhestrir yr 16 hawl sylfaenol yn Adran 7). ... 7
2.4 Casglu Gwybodaeth – Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 – gweler Adran 8 ... 7
2.5 Casglu Gwybodaeth – Ymgysylltu / Ymgynghori ... 8
2.6 Asesu'r effaith debygol ac adnabod camau lliniaru ... 9
2.7 Canlyniad yr asesiad ... 13
2.8 Cynllun Gweithredu ... 16
3. ASESIAD O'R EFFAITH AR YR IAITH GYMRAEG ... 17
3.1 - Cydymffurfiaeth â'r Polisi Iaith Gymraeg ... 18
3.2 - Yr effaith ar ddefnyddwyr yr iaith Gymraeg ... 19
3.3 Yr effaith ar gymunedau Cymraeg eu hiaith ... 21
3.4 Cyfraniad tuag at safonau'r Gymraeg, polisïau iaith, strategaethau a chanllawiau eraill perthnasol ynglŷn â'r iaith Gymraeg ... 22
3.5 Yr effeithiau sydd wedi eu nodi a'u hasesu ... 23
3.6 Ymgynghori ... 25
3.7 Ar ôl yr ymgynghoriad, y cynigion terfynol, a monitro parhaus ... 26
4 ASESIAD O'R EFFAITH AR Y GYMUNED ... 28
4.1 Cyfleusterau a gwasanaethau a ddarperir gan yr ysgolion / coleg ... 28
5 CASGLIAD ... 34
*6 Gwybodaeth bellach - Cymru Fwy Cyfartal – y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol* ... 35
*7 Gwybodaeth bellach - Hawliau Dynol* ... 37
*8 Gwybodaeth bellach - Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015* ... 38

## 1. CYFLWYNIAD

Mae'r Cyngor eisoes wedi cynnal ymarferiad ymgysylltu anffurfiol â rhanddeiliaid ar y ddarpariaeth addysg ôl-16 ar Ynys Môn. Roedd y cyfnod ymgysylltu rhwng 20 Ionawr 2025 a 7 Mawrth 2025.

Fel rhan o'r ymgysylltu hwn, cynhaliwyd sesiynau wyneb yn wyneb gyda dysgwyr, staff, llywodraethwyr a rhieni/gwarcheidwaid. Derbyniwyd cyfanswm o 779 o ymatebion fel rhan o'r broses ymgysylltu, oedd yn cynnwys 236 o bobl ifanc o dan 21 oed.

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys yr adborth a dderbyniwyd gan randdeiliaid yn ystod y broses ymgysylltu.

Canlyniad yr adolygiad o'r ddarpariaeth addysg ôl-16 sy'n cael ei ystyried yw:
**"Datblygu perthynas waith agosach rhwng y darparwyr addysg ôl-16 presennol"**

Data
Roedd y data a'r dystiolaeth a gasglwyd at ddibenion yr asesiadau yn seiliedig ar y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) Ionawr 2025*.
*NODER: Mae CYBLD 2025 yn dal yn ei fformat drafft ar hyn o bryd ac nid yw wedi'i gyhoeddi eto.

Cynnwys
Mae'r ddogfen yn cynnwys:
Adran 2 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb
Adran 3 – Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg
Adran 4 – Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned
Adran 5 – Casgliad

**Mae hon yn ddogfen waith a bydd yn cael ei hadolygu'n rheolaidd.**

| **Hanes adolygu:** | | |
|---|---|---|
| **Fersiwn** | **Dyddiad** | **Crynodeb o'r newidiadau** |
| 0.1 | Ebrill 2025 | Fersiwn cyntaf |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |

## 2. ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

**Deddf Cydraddoldeb 2010**

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gosod Dyletswydd Gyffredinol ar gyrff cyhoeddus wrth gyflawni eu swyddogaethau i roi sylw dyledus i'r canlynol:

- Dileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth ac ymddygiad arall a waherddir gan y Ddeddf.
- Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt.
- Meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt.

Mae'r Ddeddf yn ymwneud â sicrhau tegwch ac mae'n diogelu'r naw nodwedd ganlynol (a elwir hefyd yn 'grwpiau gwarchodedig'):

- Oedran
- Anabledd
- Rhyw
- Ailbennu rhywedd
- Priodas a phartneriaeth sifil
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Hil
- Crefydd neu gred, gan gynnwys diffyg cred.
- Cyfeiriadedd rhywiol

**Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011**

Cyflwynodd Llywodraeth Cymru y Rheoliadau uchod i helpu cyrff cyhoeddus yng Nghymru gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol. Mae dyletswyddau penodol yn cynnwys gofyniad i asesu effaith ei bolisïau a'i arferion ar grwpiau a warchodir gan y Ddeddf. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i'r awdurdod ystyried tystiolaeth berthnasol i ddeall effaith debygol neu wirioneddol ei bolisïau a'i arferion ar grwpiau gwarchodedig a rhoi 'sylw dyledus' (h.y., rhoi pwysau priodol) i ganlyniadau asesiadau o'r fath.

Bydd ystyriaethau cydraddoldeb yn cael eu hystyried wrth lunio cynllun strategol ar gyfer datblygu perthynas waith agosach rhwng y darparwyr addysg ôl-16 presennol, ac yn ystod ei weithrediad. Bydd yr effaith wirioneddol yn cael ei monitro. Bydd y ddogfen asesiad effaith cydraddoldeb yn cael ei diweddaru'n rheolaidd i sicrhau bod pawb yn cael ystyriaeth deg.

| 2.1 Cefndir - Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb | | |
|---|---|---|
| **Beth sy’n cael ei asesu?** | Y cynnig sy’n cael ei asesu yw **“Datblygu perthynas waith agosach rhwng y darparwyr addysg ôl-16 presennol”** | |
| **Ydy’r cynnig hwn yn un newydd neu’n un sy’n bodoli eisoes?** | Mae'r Cyngor eisoes wedi cynnal ymarferiad ymgysylltu anffurfiol gyda rhanddeiliaid ar y ddarpariaeth ôl-16 ar Ynys Môn.<br>Roedd datblygu perthynas waith agosach rhwng y darparwyr presennol yn un o bedwar opsiwn a ystyriwyd. Ni chyflwynwyd unrhyw gynnig penodol i randdeiliaid.<br><br>Ar ôl ystyried adborth o’r ymgysylltu, mae swyddogion yn argymell ‘Datblygu perthynas waith agosach rhwng y darparwyr addysg ôl-16 presennol’ fel yr opsiwn a ffafrir. | |
| **Beth yw nodau a diben y cynnig hwn?** | Cryfhau hawl i ddysgu a phrofiad dysgwyr ôl-16. | |
| **Pwy sydd yn gyfrifol am y cynnig sy’n cael ei asesu?** | Aaron C Evans, Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau, a Phobl Ifanc | |
| **Pwy yw’r Swyddog Arweiniol ar gyfer cynnal yr asesiad yma?** | Arwyn Hughes, Rheolwr Rhaglen (Corfforaethol) | |
| **Pwy arall sy’n cymryd rhan yn yr asesiad yma?** | Gwyndaf Parry - Cynllunio Corfforaethol, Rheolwr Perfformiad a Rhaglen<br>Alun Roberts - Rheolwr Rhaglen (Corfforaethol) | |
| **Oes yna gyswllt rhwng y cynnig hwn a meysydd gwaith eraill?** | Oes – Mae canlyniad yr adolygiad hwn yn gyson ag amcanion y Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Iaith Gymraeg. | |
| Ydy’r cynnig yn berthnasol i sut mae’r Awdurdod yn cydymffurfio â dyletswydd gyffredinol y sector gyhoeddus mewn | Dileu gwahaniaethu ac aflonyddu | ✓ |
| | Hyrwyddo cyfle cyfartal | ✓ |

| 2.1 Cefndir - Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb | | |
|---|---|---|
| perthynas â phobl a warchodir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010?<br>Fel rheol, mae unrhyw gynnig sy'n cael effaith ar bobl yn debygol o fod yn berthnasol ar draws pob grŵp gwarchodedig. | Meithrin perthnasoedd da | ✓ |
| | Diogelu a hyrwyddo hawliau dynol | ✓ |
| Ydy'r cynnig yn benderfyniad strategol? Os felly, mae'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol yn berthnasol. (Beth yw'r ddylestwydd? Ceir eglurhad yn Adran 6) | Gallai canlyniad yr adolygiad effeithio ar gyfleoedd ôl-16 ar draws yr ynys gyfan. Rhoddir cyfle i bob dysgwr ar Ynys Môn symud ymlaen i Ôl-16. Mae'n debygol felly y gallai rhai pobl sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol gael eu heffeithio.<br><br>Mae effaith canlyniad yr adolygiad ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol wedi'i liniaru drwy sicrhau bod darpariaeth ôl-16 yn parhau ar bob safle ysgol/coleg.<br><br>Bydd unrhyw newidiadau pellach yn cael eu penderfynu fel rhan o'r Cynllun Strategol arfaethedig ar ddarpariaeth ôl-16 ar Ynys Môn. | |
| **Pwy fyddai'n cael ei effeithio gan y cynnig/ion (yn negyddol neu'n gadarnhaol, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol)?** | Gweler uchod | |

## 2.2 Casglu gwybodaeth – Safonau’r Gymraeg a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

| | |
|---|---|
| A yw’r cynnig hwn yn sicrhau nad yw’r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na’r Saesneg yn unol â Pholisi Iaith Gymraeg y Cyngor Sir? | Ydy – Asesir hyn ar wahân yn adran Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg y ddogfen hon. |
| Oes cyfle yma i gynnig mwy o gyfleoedd i bobl ddysgu a / neu ddefnyddio’r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd? | Oes – Gallai’r cynnig arwain at fwy o hawl i ddysgu, a mwy o amrywiaeth o gyrsiau ar gael i ddysgwyr. Gallai hyn olygu bod mwy o ddysgwyr yn aros i astudio ôl-16 mewn Ysgolion/Coleg ar Ynys Môn. Mae 4 o'r 5 ysgol ar Ynys Môn yn ysgolion cyfrwng Cymraeg categori 3 sy'n cynnig ystod eang o'u meysydd dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r ysgol uwchradd arall ar Ynys Môn ar hyn o bryd yn trosglwyddo i fod yn ysgol categori 3 Cyfrwng Cymraeg. Mae Grŵp Llandrillo Menai hefyd wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth cwbl ddwyieithog.<br><br>Mae'r rhan fwyaf o'r cyrsiau a ddarperir gan Grŵp Llandrillo Menai a'r ysgolion yn ddwyieithog. |
| A fydd y maes gwaith hwn yn gwneud cynnig rhagweithiol i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg i ddefnyddwyr? | Ydy – Asesir hyn ar wahân yn adran Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg y ddogfen hon. |
| A fydd y cynnig hwn yn debygol o warchod a hyrwyddo’r Gymraeg o fewn y gymuned? | Bydd – Fel rhan o’r ymgysylltu ar Ddarpariaeth Addysg Ôl-16, dywedodd llawer o ymatebwyr fod ysgolion a dysgwyr ôl-16 yn chwarae rhan hollbwysig wrth ddiogelu a hyrwyddo’r Gymraeg o fewn cymunedau. Mae’r cynnig hwn yn sicrhau bod darpariaeth ôl-16 yn aros o fewn pob un o’r darparwyr presennol. |

## 2.3 Casglu gwybodaeth – Deddf Hawliau Dynol 1998 (Rhestrir yr 16 hawl sylfaenol yn Adran 7).

| | |
|---|---|
| Oes yna unrhyw faterion sydd angen ystyriaeth o ran Hawliau Dynol? Os oes, beth yw’r materion hyn? | Nid oes unrhyw faterion Hawliau Dynol wedi'u nodi. |

## 2.4 Casglu Gwybodaeth – Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 – gweler Adran 8

| | | |
|---|---|---|
| Ydy’r cynnig yn cyflawni unrhyw rai o’r saith nod llesiant cenedlaethol a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015? | Cymru lewyrchus | Ydy |
| | Cymru gydnerth | Ydy |
| | Cymru iachach | Ydy |
| | Cymru sy’n fwy cyfartal | Ydy |
| | Cymru o gymunedau cydlynus | Ydy |

| | | |
|---|---|---|
| | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | Ydy |
| | Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang | Ydy |
| | | |
| **2.5 Casglu Gwybodaeth – Ymgysylltu / Ymgynghori** | | |
| Beth sydd wedi ei wneud hyd yn hyn o ran ymgysylltu ac ymgynghori mewn perthynas â'r cynnig hwn? | Mae'r Cyngor wedi cynnal proses ymgysylltu anffurfiol ar y ddarpariaeth addysg ôl-16 rhwng 20 Ionawr 2025 a 7 Mawrth 2025.<br><br>Fel rhan o'r ymgysylltu hwn, cynhaliwyd sesiynau wyneb yn wyneb gyda dysgwyr, staff, llywodraethwyr a Rhieni / Gwarcheidwaid. Derbyniwyd cyfanswm o 779 o ymatebion fel rhan o'r broses ymgysylltu, a oedd yn cynnwys 236 o bobl ifanc o dan 21 oed.<br><br>Canlyniad y broses ymgysylltu yw'r argymhelliad i 'Ddatblygu perthynas waith agosach rhwng y darparwyr addysg ôl-16 presennol'. | |
| Pa wybodaeth arall ydych chi wedi ei defnyddio fel rhan o'ch asesiad? Rhowch fanylion: | Mae'r wybodaeth ganlynol am y darparwyr wedi'i chynnwys:<br>Cydbwysedd rhyw, data ethnigrwydd, defnydd cymunedol o adeiladau ysgol/coleg, a gwybodaeth am ddarpariaeth ôl-16 a gasglwyd gan Benaethiaid, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i: Cyrsiau a gynigir (ar ac oddi ar y safle), iaith y ddarpariaeth, maint grwpiau, costau. | |
| Oes yna unrhyw fylchau yn y wybodaeth a gasglwyd hyd yma?<br>Os oes, sut fydd y rhain yn cael sylw? | Ni nodwyd unrhyw fylchau ar hyn o bryd; fodd bynnag, mae'r asesiad effaith hwn yn ddogfen fyw a fydd yn parhau i gael ei hadolygu wrth i'r Cynllun Strategol arfaethedig i "ddatblygu perthynas waith agosach rhwng y darparwyr addysg ôl-16 presennol " fynd rhagddo. | |

**2.6 Asesu'r effaith debygol ac adnabod camau lliniaru**

Nodwch isod unrhyw effaith debygol o safbwynt cydraddoldeb ar y grwpiau unigol, ynghyd ag adnabod pa gamau y gellir eu cymryd i leihau neu wella'r effeithiau hyn. *Er mwyn penderfynu ar natur yr effaith debygol, dewiswch un o'r canlynol – **Negyddol / Cadarnhaol / Dim effaith**

| Y grŵp gwarchodedig | *Yr effaith debygol | Manylion am yr effaith | Camau i liniaru effaith negyddol |
|---|---|---|---|
| **Oedran** | Dim effaith | Mae gan yr Awdurdod Lleol ddyletswydd statudol i ddarparu addysg llawn amser i blant a phobl ifanc 4-16 oed. Mae pob Ysgol Uwchradd ar Ynys Môn ar hyn o bryd yn derbyn disgyblion o 11-18 oed. Ni fyddai unrhyw newid yn ystod oedran y dysgwyr a dderbynnir yn Ysgolion Uwchradd Ynys Môn neu Grŵp Llandrillo Menai oherwydd y cynnig hwn. | Amherthnasol gan na ragwelir unrhyw effaith negyddol. |
| **Anabledd** | Dim effaith | Ar hyn o bryd mae amrywiaeth o ran pa mor hygyrch yw adeiladau ysgolion uwchradd. Ni fydd unrhyw newid i adeiladau'r ysgolion o dan y cynnig hwn, ond disgwylir i gyflwr yr ystâd adeiladau ysgolion uwchradd gael ei flaenoriaethu fel rhan o Raglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu'r Cyngor.<br><br>Byddai dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol yn parhau i gael cymorth ychwanegol i ymateb i'w hanghenion addysgol unigol. | Amherthnasol gan na ragwelir unrhyw effaith negyddol. |

<table>
<tr>
<td>Rhyw</td>
<td>Dim effaith</td>
<td>Mae'r tabl isod yn dangos y rhaniad rhyw presennol ym mhob ysgol / coleg:<br><br>Rhaniad rhyw presennol (Ionawr 2025):
<table>
<tr><th>Ysgol/Coleg</th><th>Gwrywaidd</th><th>Benywaidd</th></tr>
<tr><td>Ysgol Syr Thomas Jones</td><td>50%</td><td>50%</td></tr>
<tr><td>Ysgol Uwchradd Caergybi</td><td>50%</td><td>50%</td></tr>
<tr><td>Ysgol Gyfun Llangefni</td><td>51%</td><td>49%</td></tr>
<tr><td>Ysgol David Hughes</td><td>48%</td><td>52%</td></tr>
<tr><td>Ysgol Uwchradd Bodedern</td><td>48%</td><td>52%</td></tr>
<tr><td>Coleg Menai – Llangefni*</td><td>58%</td><td>42%</td></tr>
<tr><td>Coleg Menai – Bangor*</td><td>44%</td><td>56%</td></tr>
<tr><td>Coleg Glynllifon*</td><td>22%</td><td>78%</td></tr>
</table>
* Dysgwyr 16-19 oed sy'n byw ar Ynys Môn yn unig<br><br>Ni fyddai disgwyl i'r rhaniad rhyw ym mhob un o'r uchod newid o ganlyniad i'r cynnig.</td>
<td>Amherthnasol gan na ragwelir unrhyw effaith negyddol.</td>
</tr>
<tr>
<td>Ailbennu Rhywedd</td>
<td>Dim effaith</td>
<td>Nid yw Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) Ionawr 2025 yn cadw data ar yr agwedd hon.<br>Nid oes tystiolaeth bod gwahaniaethu ar sail ailbennu rhywedd yn digwydd.</td>
<td>Os bydd materion yn codi, ymdrinnir â hwy yn sensitif.</td>
</tr>
<tr>
<td>Beichiogrwydd a Mamolaeth</td>
<td>Dim effaith</td>
<td>Mae'r cynnig yn annhebygol o effeithio ar ddysgwyr neu staff o ran yr agwedd hon.</td>
<td>Mae gan weithwyr cymwys hawl i:<br>- absenoldeb mamolaeth yn unol â Chynllun Absenoldeb Mamolaeth y Cyngor;<br>- absenoldeb mabwysiadu yn unol â Chynllun Absenoldeb Mabwysiadu'r Cyngor;<br>- absenoldeb tadolaeth yn unol â Chynllun Absenoldeb Tadolaeth y Cyngor.</td>
</tr>
</table>

<table>
<tr><td></td><td></td><td></td><td>Gall gweithwyr cymwys hefyd ofyn am absenoldeb rhiant a rennir yn unol â'r polisïau uchod.<br><br>Mewn achosion lle mae dysgwyr yn dod yn rhieni ifanc neu’n fenywod ifanc beichiog, byddai darparwyr yn cadw at ‘Ganllawiau Statudol Llywodraeth Cymru i helpu i atal plant a phobl ifanc rhag colli ysgol’ er mwyn darparu cymorth i oresgyn rhwystrau i ddysgu.</td></tr>
<tr><td>Hil / Ethnigrwydd / Cenedligrwydd</td><td>Dim effaith</td><td>Data CYBLD Ionawr 2025 (Ôl-16 yn unig):<br><table>
<tr><th>Ysgol/Coleg</th><th>Cenedligrwydd</th></tr>
<tr><td>Ysgol Syr Thomas Jones</td><td>95% Gwyn Prydeinig</td></tr>
<tr><td>Ysgol Uwchradd Caergybi</td><td>91% Gwyn Prydeinig</td></tr>
<tr><td>Ysgol Gyfun Llangefni</td><td>95% Gwyn Prydeinig</td></tr>
<tr><td>Ysgol David Hughes</td><td>92% Gwyn Prydeinig</td></tr>
<tr><td>Ysgol Uwchradd Bodedern</td><td>93% Gwyn Prydeinig</td></tr>
<tr><td>Coleg Menai – Llangefni*</td><td>83% Gwyn Prydeinig</td></tr>
<tr><td>Coleg Menai – Bangor*</td><td>89% Gwyn Prydeinig</td></tr>
<tr><td>Coleg Glynllifon*</td><td>97% Gwyn Prydeinig</td></tr>
</table>
* Dysgwyr 16-19 oed sy'n byw ar Ynys Môn yn unig</td><td>Mae dysgwyr o gefndiroedd ethnig eraill yn mynychu'r ysgolion a'r coleg, ni fyddant yn cael eu trin yn wahanol ar sail eu tarddiad ethnig. Os bydd aelodau staff o gefndiroedd ethnig eraill, ni fyddant yn cael eu trin yn wahanol ar sail eu tarddiad ethnig.</td></tr>
<tr><td>Crefydd neu Gred</td><td>Dim effaith</td><td>Nid yw CYBLD Ionawr 2025 yn cadw data ar yr agwedd hon.</td><td>Nid oes tystiolaeth bod gwahaniaethu ar sail crefydd neu gred yn digwydd.<br>Dewis personol yw rhannu gwybodaeth am grefydd neu gred gyda’r ysgol/coleg.<br>Os bydd materion yn codi, ymdrinnir â hwy yn sensitif.</td></tr>
<tr><td>Cyfeiriadedd Rhywiol</td><td>Dim effaith</td><td>Nid yw CYBLD Ionawr 2025 yn cadw data ar yr agwedd hon.</td><td>Nid oes tystiolaeth bod gwahaniaethu ar sail cyfeiriadedd rhywiol yn digwydd.</td></tr>
</table>

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Dewis personol yw rhannu gwybodaeth am gyfeiriadedd rhywiol gyda'r ysgol/coleg. Os bydd materion yn codi, ymdrinnir â hwy yn sensitif. |
| **Priodas neu Bartneriaeth Sifil** | Dim effaith | Mae'r cynnig yn annhebygol o effeithio ar ddysgwyr neu staff yn yr agwedd hon. | Nid oes tystiolaeth bod gwahaniaethu ar sail priodas/neu bartneriaeth sifil yn digwydd o fewn yr ysgolion. Os bydd materion yn codi, ymdrinnir â hwy yn sensitif. |
| | | | |
| **Yr iaith Gymraeg** | Dim effaith / Cadarnhaol | Gallai'r cynnig arwain at fwy o hawl i ddysgu a mwy o amrywiaeth o gyrsiau ar gael i ddysgwyr. Gallai hyn olygu bod mwy o ddysgwyr yn aros i astudio ôl-16 yn Ysgolion / Coleg Ynys Môn. Mae 4 o'r 5 ysgol ar Ynys Môn yn ysgolion cyfrwng Cymraeg categori 3 sy'n cynnig ystod eang o'u meysydd dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r ysgol uwchradd arall ar Ynys Môn ar hyn o bryd yn trosglwyddo i fod yn ysgol categori 3 Cyfrwng Cymraeg. Mae Grŵp Llandrillo Menai hefyd wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth cwbl ddwyieithog.<br><br>Mae'r rhan fwyaf o gyrsiau a ddarperir gan y Coleg a gan ysgolion yn ddwyieithog. | Byddai disgwyl i Ysgolion/Colegau gynnal neu gynyddu canran y cyrsiau a ddarperir yn ddwyieithog a thrwy gyfrwng y Gymraeg. |
| **Hawliau Dynol** | Dim effaith | Nid yw CYBLD Ionawr 2025 yn cadw data ar yr agwedd hon. | Nid oes tystiolaeth bod gwahaniaethu ar sail hawliau dynol yn digwydd gyda staff ysgol neu ddysgwyr. Os bydd materion yn codi, ymdrinnir â hwy yn sensitif. |

| Cwblhewch y rhan yma os yw'r cynnig yn fater strategol | | | |
|---|---|---|---|
| **Y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol** | **Yr effaith debygol** | **Manylion am yr effaith (gan gynnwys tystiolaeth i gefnogi'r canfyddiadau)** | **Camau i liniaru effaith negyddol** |
| **A yw'r cynnig yn debygol o achosi anghydraddoldebau o ran canlyniadau o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol?** | Wedi ei gynnwys uchod | Mae'n bosibl y gallai'r cynnig olygu bod angen teithio ychwanegol i fynychu cyrsiau partneriaeth. Fel arall, gallai'r cynnig arwain at lai o angen i deithio. Nid yw'r effaith debygol yn hysbys ar hyn o bryd. Mae'r asesiad effaith yn ddogfen fyw a fydd yn parhau i gael ei hadolygu wrth i'r Cynllun Strategol arfaethedig i "ddatblygu perthynas waith agosach rhwng y darparwyr addysg ôl-16 presennol" fynd rhagddo. | |

**Canlyniad yr asesiad:**

**Dim newid mawr -** Mae'r asesiad yn dangos bod y cynnig yn gadarn; nid oes unrhyw botensial hysbys ar gyfer gwahaniaethu nac effaith niweidiol. Manteisiwyd ar bob cyfle i hyrwyddo cydraddoldeb.

| **2.7 Canlyniad yr asesiad** | |
|---|---|
| Nodwch y prif effeithiau sydd wedi cael eu hadnabod a sut y bwriedir lliniaru'r effeithiau negyddol o ran cydraddoldeb, yr iaith Gymraeg ac, os yn berthnasol, anfantais economaidd-gymdeithasol | Nid oes unrhyw effaith negyddol wedi'i nodi. Yn gyffredinol, disgwylir i'r cynnig gael effaith niwtral ("dim effaith") ar gydraddoldeb a'r iaith Gymraeg, gan y byddai darpariaeth ôl-16 yn aros o fewn pob un o'r darparwyr fel y mae ar hyn o bryd.<br><br>Gallai fod effaith gadarnhaol ar yr Iaith Gymraeg, os bydd mwy o ddysgwyr yn parhau i astudio ôl-16 oherwydd bod ystod ehangach o gyrsiau ôl-16 ar gael. Bydd angen gwerthuso hyn ymhellach wrth i'r Cynllun Strategol ar gyfer datblygu'r berthynas waith rhwng y darparwyr ôl-16 presennol fynd rhagddo.<br>Mae cynnal darpariaeth ôl-16 o fewn pob un o'r darparwyr presennol yn helpu i warchod y Gymraeg o fewn ysgolion a chymunedau, ac yn helpu i liniaru unrhyw effaith ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. |

| **2.7 Canlyniad yr asesiad** | |
|---|---|
| Disgrifiwch unrhyw weithredu a wnaed, neu a fwriedir, i wneud y mwyaf o hyrwyddo cydraddoldeb a'r iaith Gymraeg, nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac, os yn berthnasol, i sicrhau gwell canlyniadau i'r rhai sy'n wynebu anfantais economaidd. | Pe bai'r cynnig yn cael ei wireddu, byddai disgwyl y buddion a ganlyn:<br>- Darparu model cyflawni ôl-16 sy'n fwy cynaliadwy a chost-effeithiol.<br>- Darparu effaith gadarnhaol gyffredinol ar y Gymraeg, fel y manylir yn yr Asesiad Iaith Gymraeg<br>- Lliniaru'r effeithiau ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd gymdeithasol, trwy sicrhau bod ôl-16 yn parhau'n lleol |
| A fyddai unrhyw elfen o'r cynnig yn mynd yn groes i nodau llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015? | Na |
| A oes angen edrych ar beth y gellid ei wneud yn wahanol, neu ail-ystyried y cynnig yn gyfan gwbl, o ganlyniad i gynnal yr asesiad hwn? | Na |
| Oes yna strategaeth ar gyfer delio gydag unrhyw effeithiau negyddol, sydd ddim yn anghyfreithlon ond na ellir eu hosgoi na'u lliniaru? | Nid oes unrhyw effeithiau negyddol wedi'u nodi ar hyn o bryd. Mae'r asesiad effaith yn ddogfen fyw a gaiff ei hadolygu, wrth i'r Cynllun Strategol ar gyfer datblygu'r berthynas waith rhwng y darparwyr ôl-16 presennol fynd rhagddo. |
| A fydd y cynnig yn cael ei fabwysiadu / anfon ymlaen i'w gymeradwyo? Pwy fydd yn gwneud y penderfyniad? | Bydd – Bydd y Pwyllgor Gwaith yn penderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'r argymhelliad:<br>1. I '**Ddatblygu perthynas waith agosach rhwng y darparwyr addysg ôl-16 presennol**<br>2. I awdurdodi swyddogion i baratoi Cynllun Strategol ar gyfer **'datblygu perthynas waith agosach rhwng y darparwyr addysg ôl-16 presennol'**, a fydd yn mynd i'r afael â neu'n lliniaru'r heriau sy'n wynebu darpariaeth addysg ôl-16 ar Ynys Môn ar hyn o bryd, ac i gryfhau hawl i ddysgu a phrofiad dysgwyr ôl-16. |
| Oes yna drefniadau monitro mewn lle?<br>Beth yw'r trefniadau hynny? | Mae trefniadau llywodraethu yn cynnwys gweithdrefnau sy'n sicrhau cydymffurfiaeth â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion, monitro a herio cynnydd a rheoli risgiau. |

| 2.7 Canlyniad yr asesiad | |
|---|---|
| | Mae'r Asesiad Effaith hwn yn ddogfen fyw, a fydd yn parhau i gael ei diweddaru yn ôl yr angen. |

**Casgliad -** Mae'r asesiad yn dangos bod y cynnig yn gadarn; **nid oes unrhyw botensial hysbys ar gyfer gwahaniaethu nac effaith niweidiol.** Manteisiwyd ar bob cyfle i hyrwyddo cydraddoldeb

Mae effaith bosibl y cynnig ar yr iaith Gymraeg yn cael ei hasesu ar wahân yn yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg (Adran 3).

## 2.8 Cynllun Gweithredu

| Cyf | Gweithredu arfaethedig | Swyddog arweiniol | Amserlen |
|---|---|---|---|
| 1 | Datblygu Cynllun Strategol ar gyfer **“Datblygu perthynas waith agosach rhwng y darparwyr addysg ôl-16 presennol”** | Aaron C Evans | I’w gadarnhau. |

## 3. ASESIAD O'R EFFAITH AR YR IAITH GYMRAEG

Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi mabwysiadu'r egwyddor na ddylai'r Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac y dylai trigolion yr ynys allu byw eu bywydau trwy gyfrwng y Gymraeg os dymunant. Mae'r un disgwyliad yn berthnasol o ran y Gymraeg ym mhob un o'r ysgolion, sy'n rhoi cyfle i bob disgybl yn y Sir ennill y sgiliau priodol i fod yn hyderus ddwyieithog

Gan fod y cynnig hwn yn edrych ar sut y byddai gweithredu polisïau, strategaethau neu ganllawiau allweddol y Cyngor yn effeithio ar y Gymraeg; a sut y byddai'r cynnig yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg neu'n cael effaith niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg; **cynhelir asesiad effaith mwy cynhwysfawr ar y Gymraeg yma.**

| **3.1 - Cydymffurfiaeth â'r Polisi Iaith Gymraeg**<br><br>**NODER: Mae gan bob ysgol ei Pholisïau Iaith Gymraeg lleol eu hun, sydd ar wahân i Bolisi Iaith Gymraeg y Cyngor** | |
|---|---|
| A yw'r cynnig arfaethedig yn ddylanwadol o ran delio â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg?<br><br>• A fydd gweithgareddau megis gohebu drwy lythyr, cyfathrebu dros y ffôn, cyfarfodydd cyhoeddus a chyfarfodydd eraill yn cydymffurfio â'r polisi iaith?<br><br>• A fydd unrhyw ddatblygiad TG newydd yn cydymffurfio â'r polisi? | Ydy, gweler isod.<br><br>Bydd – bydd pob gohebiaeth a chyfathrebiad yn parhau i gydymffurfio â'r Polisi Iaith Gymraeg.<br><br>Bydd – bydd unrhyw ddatblygiadau TG newydd yn parhau i gydymffurfio â'r Polisi Iaith Gymraeg. |
| A yw'r cynnig yn debygol o effeithio ar wyneb cyhoeddus y sefydliad?<br>• A fydd unrhyw arwyddion yn cydymffurfio â'r polisi iaith?<br><br>• A fydd unrhyw gyhoeddiadau a ffurflenni yn cydymffurfio?<br><br>• A fydd unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd neu ymgyrchoedd marchnata yn cydymffurfio?<br><br>• A fydd hysbysebion recriwtio staff yn cydymffurfio? | Bydd – bydd pob arwydd yn cydymffurfio â'r polisi iaith.<br><br>Bydd – bydd cyhoeddiadau a ffurflenni yn cydymffurfio.<br><br>Bydd – bydd unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd neu ymgyrchoedd marchnata yn cydymffurfio.<br><br>Bydd – bydd hysbysebion recriwtio staff yn cydymffurfio. |
| A yw'r cynnig yn debygol o gael effaith ar weithrediad y polisi iaith?<br><br>• A fydd y cynnig yn creu swyddi newydd?<br><br>• A fydd y trefniadau staffio yn hwyluso gweithrediad y polisi iaith??<br><br>• A fydd y cynnig yn cynnig hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg? | Mae'n annhebygol y bydd y cynnig yn arwain at greu swyddi ychwanegol, fodd bynnag, fe allai'r cynnig arwain at rai newidiadau a allai effeithio ar staff addysgu. Daw hyn yn gliriach wrth i'r cynllun strategol ddatblygu. Mae'r asesiad effaith hwn yn ddogfen fyw, a fydd yn parhau i gael ei diweddaru. Bydd unrhyw swyddi addysgu newydd yn cael eu creu yn unol â'r strwythur staffio a ddatblygir gan gyrff llywodraethu'r ysgolion.<br><br>Bydd gweithdrefnau recriwtio yn nodi'r gofyn i lefel cymhwysedd yn y Gymraeg fod yn lefel 5 (Cwbl gymwys) ar gyfer pob swydd, fodd bynnag, dylai ymgeiswyr bob amser gael eu cefnogi gyda chynllun datblygu cytûn mewn cytundeb â'r ysgol a'r awdurdod lleol.<br><br>Bydd - byddai'r Gwasanaeth Dysgu mewn cydweithrediad â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn darparu ystod eang o |

| 3.1 - Cydymffurfiaeth â'r Polisi Iaith Gymraeg<br><br>NODER: Mae gan bob ysgol ei Pholisïau Iaith Gymraeg lleol eu hun, sydd ar wahân i Bolisi Iaith Gymraeg y Cyngor | |
|---|---|
| • A fydd unrhyw drefniadau gyda thrydydd parti yn cydymffurfio â'r polisi iaith?<br><br>• A fydd y cynnig yn cynnwys unrhyw dargedau neu ddangosyddion ynglŷn â'r Gymraeg?<br><br>• Sut caiff perfformiad ei fonitro a'i fesur? | gefnogaeth a hyfforddiant o ran hyfedredd yn y Gymraeg.<br><br>Bydd – bydd trefniadau gyda thrydydd parti yn cydymffurfio â'r polisi iaith.<br><br>Bydd – Canran y dysgwyr sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig yn y Gymraeg ar ddiwedd cyfnodau allweddol a chanran y dysgwyr sy'n siarad Cymraeg gartref.<br><br>Yn ôl data a gasglwyd gan y Gwasanaeth Dysgu megis canran y dysgwyr sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig yn y Gymraeg ar ddiwedd camau cynnydd 2, 3 a 4. Cesglir data eraill megis canran y dysgwyr sy'n siarad Cymraeg gartref fel rhan o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) a gynhelir ym mis Ionawr bob blwyddyn. |

| 3.2 - Yr effaith ar ddefnyddwyr yr iaith Gymraeg | |
|---|---|
| • A fydd y cynnig hwn yn cynnig dewis iaith i ddefnyddwyr??<br><br>• A fydd modd i ddefnyddwyr ddewis unrhyw elfen o'r gwasanaeth yn Gymraeg? | Mae YSTJ, YGLL, YDH ac YUB yn ysgolion cyfrwng Cymraeg categori tri (o ran categori iaith). https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-12/canllawiau-ar-gategoreiddio-ysgolion-yn-ol-y-ddarpariaeth-cyfrwng-cymraeg.pdf<br><br>Mae YUC ar hyn o bryd yn trosglwyddo i fod yn ysgol Categori 3 Cyfrwng Cymraeg.<br><br>Nid yw colegau yn cael eu categoreiddio fel y caiff ysgolion, ond disgrifir Grŵp Llandrillo Menai fel un sydd wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth cwbl ddwyieithog.<br><br>Bydd – bydd defnyddwyr gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor yn cael cynnig dewis iaith.<br><br>Bydd – bydd defnyddwyr yn gallu dewis gwasanaeth Cymraeg gan y Cyngor.<br><br>Wrth i'r Cynllun Strategol ar gyfer " Datblygu perthynas waith agosach rhwng y darparwyr addysg ôl-16 presennol" ac wrth i drefniadau gael eu rhoi ar waith, byddai unrhyw dargedau neu ddangosyddion cysylltiedig yn unol ag amcanion ehangach y Cyngor, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i: |

| 3.2 - Yr effaith ar ddefnyddwyr yr iaith Gymraeg | |
|---|---|
| | • Cynllun y Cyngor 2023-28;<br>• Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Gymraeg;<br>• Cynllun Strategol Cymraeg Mewn Addysg (CSGA);<br>• Polisi Iaith Gymraeg Ysgolion. |
| • Oes perygl i'r cynnig gam wahaniaethu yn erbyn defnyddwyr Cymraeg?<br><br>• A yw anghenion siaradwyr Cymraeg wedi'u hystyried yn y cynnig?<br><br>• A yw siaradwyr Cymraeg yn debygol o dderbyn yr un safon o wasanaeth a'r hyn a dderbynnir yn Saesneg?<br>• A yw trefniadau iaith Gymraeg yn debygol o arwain at oedi yn y gwasanaeth? | Na – Rhaid i unrhyw opsiwn a ystyrir gydymffurfio â pholisi iaith Gymraeg y Cyngor a gofynion statudol perthnasol eraill.<br><br>Ydynt - Mae'r ymgysylltu hwn yn un ffrwd waith a nodwyd yn ein Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Gymraeg. Anghenion dysgwyr Cymraeg eu hiaith yw un o brif yrwyr y strategaeth. Fel rhan o'r broses ymgysylltu gofynnodd y Cyngor 'Pa effeithiau ydych chi'n meddwl fyddai ar y Gymraeg?', a 'Sut gellir cynyddu effeithiau cadarnhaol ar y Gymraeg, neu leihau effeithiau negyddol?'. Mae'r ymatebion wedi'u crynhoi yn yr adroddiad Ymgysylltu.<br><br>Ydynt – bydd yr un safon o wasanaeth yn cael ei ddarparu i bob dysgwr.<br><br>Na – ni fydd trefniadau iaith Gymraeg yn arwain at oedi yn y gwasanaeth. |
| • A fydd y cynnig yn debygol o wneud y Gymraeg yn fwy gweledol?<br>• A yw'n debygol o gynyddu defnydd drwy gynhyrchu deunyddiau ac arwyddion Cymraeg?<br><br>• A yw'n debygol o ddylanwadu ar eraill i wneud mwy o ddefnydd gweledol o'r Gymraeg e.e., busnesau? | Ni ragwelir unrhyw newid sylweddol.<br><br>Ni ragwelir unrhyw newid arwyddocaol yn amlygrwydd y Gymraeg. Byddai unrhyw arwyddion a deunyddiau ysgrifenedig yn parhau i gydymffurfio â'r polisi iaith Gymraeg. Bydd yn parhau i hybu ac annog y defnydd o'r Gymraeg a gall arwain at baratoi deunyddiau Cymraeg.<br>Bydd arwyddion dwyieithog yn parhau i gael eu gweld yn yr ardal leol. |
| • A fydd y gwasanaeth Cymraeg ynghlwm â'r cynnig yn hygyrch?<br><br>• A fydd gwasanaeth yr un mor hawdd i'w gael yn Gymraeg a Saesneg?<br>• A fydd gwasanaethau ar gael yr un pryd? | Bydd – gweler uchod<br><br>Bydd y Cyngor yn sicrhau bod gwasanaethau yr un mor hawdd i'w derbyn yn Gymraeg ac yn cydymffurfio â'i bolisïau a'i strategaethau. |

| 3.3 Yr effaith ar gymunedau Cymraeg eu hiaith | |
|---|---|
| • A yw'r cynnig yn debygol o gyfrannu at ddiogelu'r Gymraeg mewn cymunedau? | Bydd y cynnig yn cydymffurfio ag amcanion strategol y Cyngor a'r nod o gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ar yr ynys. |
| • A yw'n debygol o gyfrannu tuag at ymdrechion i ddelio gyda heriau newid demograffeg a mudo - fel cynnig cyfleoedd i bobl ifanc aros yn eu cymunedau? | Mae'r ddogfen ymgysylltu yn amlygu newidiadau mewn demograffeg leol. Mae data cyfrifiad 2021 yn awgrymu bod nifer y genedigaethau wedi gostwng ar Ynys Môn yn ddiweddar, sy'n debygol o arwain at lai o ddysgwyr ôl-16 yn y tymor hir. Amlygodd yr adborth o'r ymgysylltu y risg y gallai tynnu ôl-16 oddi wrth unrhyw ddarparwr arwain at lai o ddysgwyr ôl-16. Amlygodd hefyd fod darparu ôl-16 yn lleol yn ffactor pwysig i ddysgwyr a theuluoedd. Drwy ddatblygu ymhellach y berthynas waith glos rhwng y darparwyr presennol, bydd ôl-16 yn aros gyda phob darparwr. Mae'r cynnig hwn felly yn lliniaru'r risg hon. |
| • A yw'n debygol o gyfrannu tuag at yr economi leol mewn cymunedau Cymraeg? | Bydd cadw ôl-16 gyda phob un o'r darparwyr presennol yn anochel yn cynyddu niferoedd/defnydd yn yr ardaloedd hyn. |
| • A fydd yn darparu gwasanaethau cyfrwng Cymraeg – megis gwarchod plant? | Amherthnasol gan fod canlyniad yr adolygiad yn ymwneud â dysgwyr ôl-16. |
| • A yw'r cynnig yn cymryd camau i hybu a hyrwyddo'r Gymraeg? | Mae canlyniadau'r arolwg yn cydnabod bod dysgwyr ôl-16 yn chwarae rhan hollbwysig wrth hyrwyddo'r Gymraeg o fewn gweddill yr ysgol, ac o fewn cymunedau lleol. Mae cadw ôl-16 gyda phob un o'r darparwyr presennol yn sicrhau bod hyn yn parhau ym mhob ardal. |
| • A yw'r cynnig yn cyfrannu at weithgareddau cymunedol cyfrwng Cymraeg?<br><br>• A yw'n cynnig cyfleoedd i bobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg tu allan i oriau'r ysgol? | Ydy - Bydd yn haws i ddysgwyr ôl-16 gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol cyfrwng Cymraeg os bydd ôl-16 yn parhau o fewn eu cymuned leol. Mae'r arolwg yn cydnabod bod dysgwyr ôl-16 yn fodelau rôl o fewn gweithgareddau allgyrsiol, megis Eisteddfodau, cystadlaethau dadlau, a rolau arwain. |
| • A yw'n darparu gwasanaeth newydd fydd hefyd ar gael yn Gymraeg? E.e., darpariaeth neu weithgaredd hamdden neu chwaraeon. | Yn rhannol – Ni fydd gwasanaethau newydd o reidrwydd ar gael o ganlyniad uniongyrchol i'r cynnig. Fodd bynnag, gallai'r cynnig arwain at weithgareddau allgyrsiol newydd oherwydd bod dysgwyr ôl-16 yn aros yn eu cymunedau lleol. |

| 3.3 Yr effaith ar gymunedau Cymraeg eu hiaith | |
|---|---|
| • A yw'n cyfrannu neu'n ychwanegu gwerth at weithgareddau eraill yn y maes iaith – e.e., gwaith y Fenter Iaith Leol, yr Urdd ac ati? | Ni ddisgwylir unrhyw newid arwyddocaol yn y cyd-destun hwn o ganlyniad i'r cynnig. |

| 3.4 Cyfraniad tuag at safonau'r Gymraeg, polisïau iaith, strategaethau a chanllawiau eraill perthnasol ynglŷn â'r iaith Gymraeg | |
|---|---|
| Polisïau iaith mudiadau partner neu gyrff cyhoeddus cyfagos:<br><br>• A yw'r awdurdod yn gweithio mewn partneriaeth ar y cynnig?<br><br>• Pa sefydliadau eraill sy'n debygol o gael eu heffeithio gan y datblygiad?<br><br>• Oes gan y sefydliadau hynny safonau iaith neu bolisïau iaith?<br><br>• A yw'r cynnig yn cyfrannu at y cynlluniau hyn? | Mae Ynys Môn a Gwynedd yn gweithio mewn partneriaeth trwy 'Gonsortiwm Addysg Ôl-16 Ynys Môn a Gwynedd' i ddarparu hyfforddiant ôl-16 effeithiol a chost-effeithlon. Mae GLIM hefyd yn rhanddeiliad amlwg. Hysbyswyd amrywiol randdeiliaid a sefydliadau allanol (megis, ond heb fod yn gyfyngedig i, rieni, staff, cyrff llywodraethu, Llywodraeth Cymru, Estyn, cynghorau cymuned a thref ac ati) pan oedd y broses ymgysylltu yn fyw. Cynhaliwyd sesiynau ymgysylltu wyneb yn wyneb gyda dysgwyr, staff, llywodraethwyr a rhieni/gwarcheidwaid hefyd gan y Cyngor.<br><br>Efallai y bydd mwy o gyfle i gydweithio gyda GLIM fel darparwr ôl-16 presennol ar Ynys Môn.<br><br>Mae GLIM a Chonsortiwm Addysg Ôl-16 Ynys Môn a Gwynedd yn ddarostyngedig i safonau'r Gymraeg ac mae ganddo ei gynlluniau a'i strwythurau llywodraethu ei hun mewn perthynas â'r iaith.<br><br>Ni ragwelir unrhyw effaith arwyddocaol |
| Strategaethau iaith Gymraeg perthnasol:<br><br>• A fydd y cynnig yn cyfrannu at Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2021 - 2026 a fabwysiadwyd gan y Cyngor hwn ar 7 Rhagfyr 2021?<br><br>• Sut mae'r cynnig yn cyfrannu at weledigaeth Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050? | Byddai'r cynnig yn cyfrannu at y strategaethau canlynol drwy gynnal cyfleoedd i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg drwy addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog:<br><br>• Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2021-26 Maes blaenoriaeth un: Plant, pobl ifanc a theuluoedd Strategaeth-Hybur-Gymraeg-2021-i-2026.pdf<br>• Cynllun y Cyngor 2023-28 Cynllun y Cyngor 2023 - 2028 |

| 3.4 Cyfraniad tuag at safonau'r Gymraeg, polisïau iaith, strategaethau a chanllawiau eraill perthnasol ynglŷn â'r iaith Gymraeg | |
|---|---|
| | • Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Cynllun-Strategol-y-Gymraeg-mewn-Addysg-2022-i-2032.pdf<br>• Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr |

| 3.5 Yr effeithiau sydd wedi eu nodi a'u hasesu | |
|---|---|
| | |
| Yr effeithiau cadarnhaol | Yr effeithiau cadarnhaol a ragwelir yw:<br>• Trwy gadw ôl-16 gyda'r holl ddarparwyr presennol, gall dysgwyr ôl-16 barhau i hyrwyddo'r Gymraeg o fewn ysgolion ac o fewn cymunedau lleol.<br>• Mae cadw ôl-16 gyda'r holl ddarparwyr presennol yn lleihau'r risg o deuluoedd Cymraeg eu hiaith yn symud o'r ardal oherwydd tynnu ôl-16 o ysgolion lleol.<br>• Trwy ddatblygu perthynas waith agosach rhwng y darparwyr addysg ôl-16 presennol, gallai fod deilliannau cost-effeithlon fyddai'n caniatáu i fwy o adnoddau gael eu cyfeirio at wella'r ddarpariaeth ddwyieithog bresennol.<br>• Fel rhan o'r ymgysylltu, nododd rhai pe bai ôl-16 yn cael ei dynnu o ysgolion lleol, efallai na fyddai dysgwyr Cymraeg mor hyderus yn siarad Cymraeg gyda staff eraill nad ydynt mor gyfarwydd â nhw. Mae cadw ôl-16 gyda'r holl ddarparwyr presennol yn helpu i liniaru'r risg hon.<br>• Mae cadw darpariaeth ôl-16 o fewn pob ysgol leol yn lliniaru'r risg y bydd dysgwyr ôl-16 yn colli cysylltiad â'u ffrindiau Cymraeg eu hiaith. |
| Yr effeithiau negyddol | Yr effeithiau negyddol a ragwelir yw:<br>• Gallai dysgwyr Cymraeg eu hiaith roi'r gorau i ddefnyddio'r Gymraeg ar gyrsiau partneriaeth, os nad ydynt yn gyfarwydd (ac yn hyderus) â staff newydd a dysgwyr o ysgolion / colegau eraill.<br>• Gallai fod achosion lle nad yw darpariaeth ddwyieithog / cyfrwng Cymraeg mor gryf gan ddarparwyr sy'n cyflwyno cyrsiau partneriaeth ag ydyw yn yr ysgol lle mae'r dysgwr wedi'i gofrestru. |

| 3.5 Yr effeithiau sydd wedi eu nodi a'u hasesu | |
|---|---|
| | Bydd y Cynllun Strategol ar gyfer datblygu perthynas waith agosach rhwng y darparwyr presennol yn ystyried sut y gellir lliniaru'r risgiau hyn. |
| Cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg e.e., statws, defnyddio gwasanaethau Cymraeg, defnyddio'r Gymraeg mewn bywyd bob dydd, defnyddio mwy ar y Gymraeg yn y gwaith? | Mae YSTJ, YGLL, YDH ac YUB yn ysgolion cyfrwng Cymraeg categori 3 (o ran categori iaith). Mae canllawiau Llywodraeth Cymru ar gategorïau ysgolion yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn nodi:<br>Cymraeg yw prif iaith cyfathrebu mewnol. Mae cyfathrebu â rhieni a gofalwyr naill ai yn Gymraeg, yn Saesneg neu'n ddwyieithog yn ôl yr angen. Mae'r rhain yn ysgolion ag ethos Cymraeg cryf yn greiddiol iddynt, gan gefnogi a galluogi dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob cyd-destun cymdeithasol yn yr ysgol a thu allan iddi. Bydd dysgwr yn y categori hwn o ysgolion yn gallu siarad, darllen, ysgrifennu a gwrando yn y Gymraeg a'r Saesneg yn ôl oedran a gallu. Mae ysgolion cyfrwng Cymraeg categori tri yn cynnig ystod eang o'u meysydd dysgu a phrofiad (MDPh) drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae o leiaf 60% o ddysgwyr yn ymgymryd ag o leiaf 70% o weithgareddau eu hysgol (cwricwlaidd ac allgyrsiol) yn Gymraeg. Disgwylir i ysgolion categori tri barhau i adlewyrchu cyd-destun ieithyddol yr ardal wrth weithio tuag at gynyddu eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg dros amser.<br><br>Mae YUC ar hyn o bryd yn trosglwyddo i fod yn ysgol Categori 3 Cyfrwng Cymraeg.<br><br>Nid yw colegau yn cael eu categoreiddio fel y caiff ysgolion, ond disgrifir Grŵp Llandrillo Menai fel un sydd wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth cwbl ddwyieithog. |
| Tystiolaeth / data a ddefnyddiwyd i gefnogi'ch asesiad: | • Dogfen Ymgysylltu – Darpariaeth Addysg ôl-16<br>• Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Gymraeg<br>• Cynllun y Cyngor 2023-28<br>• Y Swyddfa Ystadegau Gwladol<br>• CYBLD 2025 (Drafft)<br>• Ymatebion a dderbyniwyd o'r ymgysylltu â'r cyhoedd |

| 3.6 Ymgynghori | |
|---|---|
| Yn ystod yr ymgynghoriad, pa gwestiynau ydych chi'n dymuno eu gofyn am yr effeithiau ar yr iaith Gymraeg? | Gan nad yw'r cynnig yn cael ei ystyried yn 'Newidiad Rheoleiddiedig' (oherwydd nad yw ôl-16 yn cael ei dynnu o unrhyw leoliad) yn ôl Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018, nid oes angen Ymgynghoriad Statudol.<br><br>Mae ymarferiad ymgysylltu cyhoeddus eisoes wedi'i gynnal i geisio barn rhanddeiliaid ar opsiynau amrywiol ac unrhyw opsiynau eraill yr hoffent i'r Cyngor eu hystyried.<br><br>Fel rhan o'r broses ymgysylltu, gofynnwyd y cwestiynau canlynol:<br><br>"Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r opsiynau a ystyriwyd yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg."<br><br>"Pa effeithiau ydych chi'n meddwl fyddai yna?"<br><br>"Sut gellir cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu leihau effeithiau negyddol?" |
| Gyda phwy ydych chi'n ymgynghori?<br>Sut mae grwpiau buddiant o ran y Gymraeg yn debygol o ymateb? | Fel y nodwyd uchod, nid oes angen ymgynghoriad statudol.<br><br>Ymatebodd Cymdeithas yr Iaith i'r cynnig. Dyfynnir eu hymateb isod:<br><br>**Pa effeithiau ydych chi'n meddwl fyddai yna ar y Gymraeg?**<br>*"Ni ddylai fod yna ddim gwahaniaeth yn y ddarpariaeth Gymraeg pa opsiwn bynnag a ddewisir. Methiant fyddai peidio sicrhau adnoddau digonol i alluogi pob disgybl i fod yn rhugl yn y Gymraeg, ac yn medru darllen a sgwennu yn y Gymraeg.*<br>*Gwelwn y cwestiwn hwn yn amherthnasol, heblaw fod yna ragdybiaeth fod rhai opsiynau yn llai ffafriol i'r Gymraeg."*<br><br>**Sut gellir cynyddu effeithiau cadarnhaol ar y Gymraeg, neu leihau effeithiau negyddol?**<br>*"Rhan yn unig o'r darlun yw addysg ôl-16. Erbyn i ddisgyblion gyrraedd yr oed hwnnw, dylai'r mwyafrif helaeth fod yn rhugl mewn sustem addysg drwyadl Gymraeg. Felly er mwyn cael effaith gadarnhaol, rhaid i'r ddarpariaeth addysg cyn-16 fod yn effeithiol. Y ffordd* |

| **3.6 Ymgynghori** | |
|---|---|
| | *orau o sicrhau hyn yw dynodi ysgolion Môn yn ysgolion Cymraeg.*<br>*Gellir darllen manylion polisi addysg y Gymdeithas drwy ddilyn y ddolen hon: https://cymdeithas.cymru/dogfen/deddfaddysggymraeg"* |
| Yn dilyn yr ymgynghoriad, pa newidiadau ydych chi wedi'u gwneud er mwyn rhoi sylw i'r materion ieithyddol a godwyd? | Nid oes angen ymgynghoriad statudol.<br><br>Rhagwelir y bydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol yn gyffredinol ar yr iaith Gymraeg.<br><br>Bydd y Cyngor yn ystyried sut y gellir lliniaru unrhyw effeithiau negyddol posibl fel rhan o'r Cynllun Strategol ar gyfer Datblygu Perthynas Waith Agosach Rhwng y Darparwyr Presennol. |

| **3.7 Ar ôl yr ymgynghoriad, y cynigion terfynol, a monitro parhaus** | |
|---|---|
| Crynhowch eich cynigion terfynol, gan restru'r effeithiau tebygol ar y Gymraeg, a sut byddwch chi'n hyrwyddo/lliniaru'r rhain. Cofnodwch eich cydymffurfiaeth â safonau'r Gymraeg. | Yr effeithiau cadarnhaol a ragwelir yw:<br><br>• Trwy gadw'r ddarpariaeth ôl-16 gyda'r holl ddarparwyr presennol, gall dysgwyr ôl-16 barhau i hyrwyddo'r Gymraeg o fewn ysgolion ac o fewn cymunedau lleol.<br>• Mae cadw ôl-16 gyda'r holl ddarparwyr presennol yn lleihau'r risg o deuluoedd Cymraeg eu hiaith yn symud o'r ardal oherwydd tynnu ôl-16 o ysgolion lleol.<br>• Trwy ddatblygu perthynas waith agosach rhwng y darparwyr ôl-16 presennol, gallai fod yn gost-effeithiol, gan ganiatáu i fwy o adnoddau gael eu cyfeirio at wella'r ddarpariaeth ddwyieithog bresennol.<br>• Fel rhan o'r ymgysylltu, nododd rhai pe bai ôl-16 yn cael ei dynnu o ysgolion lleol, efallai na fyddai dysgwyr Cymraeg mor hyderus yn siarad Cymraeg â staff eraill nad ydynt mor gyfarwydd â nhw. Mae cadw ôl-16 gyda'r holl ddarparwyr presennol yn helpu i liniaru'r risg hon.<br>• Mae cadw darpariaeth ôl-16 o fewn pob ysgol leol yn lliniaru'r risg y bydd dysgwyr ôl-16 yn colli cysylltiad â'u ffrindiau ysgol Cymraeg eu hiaith.<br><br>Yr effeithiau negyddol a ragwelir yw: |

| 3.7 Ar ôl yr ymgynghoriad, y cynigion terfynol, a monitro parhaus | |
|---|---|
| | • Gallai dysgwyr Cymraeg roi'r gorau i ddefnyddio'r Gymraeg ar gyrsiau partneriaeth, os nad ydynt yn gyfarwydd (ac yn hyderus) â staff newydd a dysgwyr o ysgolion eraill / y coleg.<br>• Gallai fod achosion lle nad yw'r ddarpariaeth ddwyieithog / cyfrwng Cymraeg mor gryf gan rai darparwyr sy'n cyflwyno cyrsiau partneriaeth ag ydyw yn yr ysgol lle mae'r dysgwr wedi'i gofrestru.<br><br>Bydd y Cynllun Strategol ar gyfer datblygu perthynas waith agosach rhwng y darparwyr presennol yn ystyried sut y gellir lliniaru unrhyw risgiau. |
| Sut y byddwch yn monitro'r effeithiau parhaus yn ystod gweithredu'r polisi? | Defnyddir y cynllun gweithredu ar ddiwedd yr asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb i nodi unrhyw gamau a gynllunnir ar ôl cwblhau'r asesiad. |

# 4 ASESIAD O'R EFFAITH AR Y GYMUNED

Mae'r adran hon yn ystyried effaith bosibl y cynnig i **"Ddatblygu perthynas waith agosach rhwng y darparwyr presennol"** ar y gymuned leol

## 4.1 Cyfleusterau a gwasanaethau a ddarperir gan yr ysgolion / coleg

Mae'r cyfleusterau a'r gwasanaethau a ddarperir gan yr ysgolion / coleg yn aml yn cael eu defnyddio y tu allan i oriau ysgol gan ddysgwyr, a'r gymuned leol. Rhestrir rhai enghreifftiau o weithgareddau allgyrsiol isod, a gafwyd o wybodaeth a ddarparwyd gan Benaethiaid pob un o'r ysgolion uwchradd a Choleg Menai.

**Gweithgareddau allgyrsiol sydd ar gael i ddysgwyr:**

| Ysgol Syr Thomas Jones<br>Gweithgaredd | Yn ystod y tymor neu'r gwyliau? | Amlder |
|---|---|---|
| Yr Urdd | Tymor ysgol | Pob wythnos am un tymor ysgol |

| Ysgol Uwchradd Caergybi<br>Gweithgaredd | Yn ystod y tymor neu'r gwyliau? | Amlder |
|---|---|---|
| Pêl-droed / Rygbi / Pêl-rwyd | Tymor ysgol | Wythnosol |
| Clwb Gemau | Tymor ysgol | Wythnosol |
| Cymdeithas Ddadlau | Tymor ysgol | Wythnosol |
| Ymarfer Côr | Tymor ysgol | Wythnosol |
| Gweithdy Drama | Tymor ysgol | Wythnosol |
| Clwb Drama | Tymor ysgol | Wythnosol |
| Pêl-fasged | Tymor ysgol | Wythnosol |
| Clwb Celf | Tymor ysgol | Wythnosol |
| Clwb gwyddoniaeth 'Spell' | Tymor ysgol | Wythnosol |

| Ysgol Gyfun Llangefni<br>Gweithgaredd | Yn ystod y tymor neu'r gwyliau? | Amlder |
|---|---|---|
| Adran Addysg Gorfforol | Tymor ysgol | Dyddiol |

| Ysgol David Hughes<br>Gweithgaredd | Yn ystod y tymor neu'r gwyliau? | Amlder |
|---|---|---|
| Clwb Mandarin | Tymor ysgol | Wythnosol |
| Clwb Chwaraeon | Tymor ysgol | 4 gwaith yr wythnos |

| Ysgol Uwchradd Bodedern<br>Gweithgaredd | Yn ystod y tymor neu'r gwyliau? | Amlder |
|---|---|---|
| Clwb Ieuenctid | Tymor ysgol | Dwywaith yr wythnos |
| Ffermwyr Ifanc | Tymor ysgol | Wythnosol |

| Coleg Menai<br>Gweithgaredd | Yn ystod y tymor neu'r gwyliau? | Amlder |
|---|---|---|
| Taith Adran | Tymor ysgol | Blynyddol |
| Labordy / Profiadau Diwydiannol / Canolfan Technoleg Bwyd | Tymor ysgol | Blynyddol |
| Cynllun Addysg Beirianneg Cymru a'r Seremoni Wobrwyo | Tymor ysgol | Blynyddol |
| Clwb Gwyddoniaeth a Mynediad i Gystadleuaeth Sgiliau Cymru | Tymor ysgol | Wythnosol |
| Ymweld â Phrifysgol Bangor i brofi'r campws a darlithoedd | Tymor ysgol | Blynyddol |
| Cymryd rhan yng nghystadlaethau 'Ysbrydoli Rhagoriaeth Sgiliau yng Nghymru', UK Skills a World Skills | Tymor ysgol | Blynyddol |
| Teithio tramor a Phrofiad Gwaith | Tymor ysgol | Blynyddol |
| Lleoliadau gwaith peirianneg | Tymor ysgol | 150 awr y flwyddyn |
| Gweithdai Peirianneg Meithrin Sgiliau | Tymor ysgol | Wythnosol |
| Ymweliadau "lleoliadau profiad gwaith diwydiannol" â chwmnïau ledled gogledd Cymru | Tymor ysgol | Blynyddol |
| Academi Chwaraeon | Tymor ysgol | Wythnosol |
| Lleoliadau Iechyd Gwirfoddol gyda Chyngor Ynys Môn | Tymor ysgol | |
| Lleoliadau Denu Talent gyda Chyngor Môn | Gwyliau | |
| Lleoliadau Gwaith | Tymor ysgol | 180 / 360 awr y flwyddyn |
| Siaradwyr Gwadd | Tymor ysgol | |
| Sesiynau Panad Gymraeg mewn partneriaeth â'r Coleg Cymraeg | Tymor ysgol | |
| Sgiliau Dysgu Annibynnol - Eisteddfod | Tymor ysgol | Blynyddol |
| Cystadlaethau Sgiliau Cynhwysol Cymru | | |
| Gweithgareddau a chystadlaethau chwaraeon amrywiol Sgiliau Byw'n Annibynnol, e.e., Rygbi Cadair Olwyn Pêl-droed 'Ability Counts', Deuathlon ac ati. | | |
| Gweithgareddau Llesiant, megis:<br>Clwb Gwyddbwyll a Gemau Bwrdd<br>Clybiau Crefftau, Gwau a Llyfrau<br>Sgwrs Dros Banad<br>Clwb *Dungeons and Dragons*<br>Amser campfa, ac amser campfa merched yn unig | | Dyddiol |

| | | |
|---|---|---|
| Tenis Bwrdd, Pêl-fasged, Badminton, Pêl-foli, Pêl-rwyd, Troelli<br>Futsol | | |

**Cyfleusterau a ddefnyddir gan grwpiau lleol:**

| **Ysgol Syr Thomas Jones**<br><br>**Defnyddiwr a chyfleuster** | **Yn ystod y tymor neu'r gwyliau?** | **Amlder** |
|---|---|---|
| Clwb Karate | Tymor ysgol a gwyliau | Dwywaith yr wythnos |
| Clwb Tenis Bwrdd | Tymor ysgol a gwyliau | Dwywaith yr wythnos |
| Clwb Pêl-rwyd | Tymor ysgol a gwyliau | Wythnosol |

| **Ysgol Uwchradd Caergybi**<br><br>**Defnyddiwr a chyfleuster** | **Yn ystod y tymor neu'r gwyliau?** | **Amlder** |
|---|---|---|
| Clybiau pêl-droed - Campfeydd x2 | Tymor ysgol a gwyliau | Wythnosol |

| **Ysgol Gyfun Llangefni**<br><br>**Defnyddiwr a chyfleuster** | **Yn ystod y tymor neu'r gwyliau?** | **Amlder** |
|---|---|---|
| Clwb Ieuenctid Llangefni | Tymor ysgol | Dwywaith yr wythnos |
| Clwb Pêl-droed Ieuenctid Gwalchmai | Tymor ysgol | Wythnosol |
| Clwb Pêl-droed Ieuenctid Llanerch-y-medd | Tymor ysgol | Dwywaith yr wythnos |

| **Ysgol David Hughes**<br><br>**Defnyddiwr a chyfleuster** | **Yn ystod y tymor neu'r gwyliau?** | **Amlder** |
|---|---|---|
| *Menai Bridge Tigers* | Tymor ysgol | 4 gwaith yr wythnos |
| *Tyler French Goalkeeping* | Tymor ysgol | Wythnosol |
| *Unicorn Fitness* | Tymor ysgol | Dwywaith yr wythnos |

| **Ysgol Uwchradd Bodedern**<br><br>**Defnyddiwr a chyfleuster** | **Yn ystod y tymor neu'r gwyliau?** | **Amlder** |
|---|---|---|
| Clwb Pêl-droed Ieuenctid y Fali | Tymor ysgol | Dwywaith yr wythnos |
| Clwb Pêl-droed Ieuenctid Bodedern | Tymor ysgol | Dwywaith yr wythnos |

Darperir gwybodaeth am gyfleusterau yng Ngholeg Menai (Llangefni), sydd ar gael i grwpiau lleol ar y ddolen ganlynol: Cyfleusterau Chwaraeon yn Llangefni | Grŵp Llandrillo Menai

Yn seiliedig ar yr wybodaeth a ddarparwyd gan y Penaethiaid, mae'r cyfleusterau yn lleoliadau pob un o'r darparwyr yn cael eu defnyddio gan nifer o grwpiau o'r gymuned leol.

Os cymeradwyir canlyniad yr adolygiad i **"Ddatblygu perthynas waith agosach rhwng y darparwyr presennol"** ni ddisgwylir unrhyw newid yn y gweithgareddau allgyrsiol a gynhelir yn yr ysgolion/coleg. Yng nghyd-destun y gweithgareddau hyn anogir pob dysgwr, beth bynnag fo'u cefndir i gyfranogi, gyda'r disgwyliad ar ysgolion i wneud trefniadau addas i ddysgwyr llai breintiedig allu cymryd rhan. Bydd y trefniadau hyn yn cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i, glybiau a gynhelir yn ystod yr awr ginio, trefniadau gyda rhieni ar gyfer dewis a darparu cludiant ar ôl ysgol.

Byddai pob ysgol yn parhau i fod yn Ysgol Gymunedol. Os gwireddir y cynnig, byddai disgwyl i weithgareddau a chyfleusterau pob ysgol gael eu cynnal neu eu gwella.

**Pellter ac amser teithio**

Nid oes disgwyl iddo effeithio ar batrymau teithio presennol dysgwyr ôl-16 (i ac o'r ysgol / coleg).

**Yr Effaith ar y Gymuned**

Er mwyn pennu effaith bosibl y cynnig ar y gymuned, asesir y cynnig yn erbyn y meini prawf yn y tabl isod. Mae ei effaith yn cael ei nodi fel 'Cadarnhaol' os bernir ei fod yn fuddiol, 'Negyddol' os bernir ei fod yn niweidiol a 'Dim effaith' os bernir nad yw'r cynnig yn cael effaith arwyddocaol.

<table>
<tr><th>Meini prawf</th><th>Arsylwadau</th><th>Effaith<br>Cadarnhaol<br>Negyddol<br>Dim Effaith</th><th>Mesurau Lliniaru</th></tr>
<tr><td>Dysgwyr sy'n byw y tu allan i'r dalgylch sy'n mynychu'r ysgol</td><td><table>
<tr><th></th><th>Canran dysgwyr ôl-16 yr ysgol sy'n byw o fewn y dalgylch</th><th>Canran y dysgwyr sy'n byw o fewn dalgylch yr ysgol, ond sy'n dewis mynychu ôl-16 mewn ysgol arall ar Ynys Môn</th></tr>
<tr><td>YSTJ</td><td>92%</td><td>20%</td></tr>
<tr><td>YUC</td><td>98%</td><td>38%</td></tr>
<tr><td>YGLL</td><td>83%</td><td>25%</td></tr>
<tr><td>YDH</td><td>77%</td><td>3%</td></tr>
<tr><td>YUB</td><td>40%</td><td>23%</td></tr>
</table></td><td>Dim Effaith</td><td>Ni fyddai unrhyw newid i ddalgylchoedd ysgolion o ganlyniad i'r cynnig hwn.</td></tr>
<tr><td>Gwasanaethau a ddarperir gan yr ysgol ar gyfer y gymuned gan gynnwys gweithgareddau ar ôl ysgol</td><td>Darperir gweithgareddau a gwasanaethau allgyrsiol gan bob darparwr ôl-16. Mae rhai enghreifftiau wedi'u hamlygu uchod.</td><td>Dim Effaith</td><td>Trwy sicrhau bod ôl-16 yn aros gyda phob un o'r darparwyr presennol, mae'r cynnig yn annhebygol o gael unrhyw effaith ar y gweithgareddau allgyrsiol a ddarperir gan ysgolion a cholegau.</td></tr>
</table>

| Meini prawf | Arsylwadau | Effaith<br>Cadarnhaol<br>Negyddol<br>Dim Effaith | Mesurau Lliniaru |
|---|---|---|---|
| Cyfleusterau cymunedol a ddarperir gan yr ysgol | Gan fod pob un o'r ysgolion yn ysgolion cymunedol, mae'r gymuned yn gwneud defnydd sylweddol o'r adeiladau a thir yr ysgol. Mae rhai enghreifftiau wedi'u dangos uchod. Mae cyfleusterau hefyd ar gael ar safle'r coleg, sydd ar gael i grwpiau lleol eu defnyddio. | Dim Effaith | Trwy sicrhau bod ôl-16 yn aros gyda phob un o'r darparwyr presennol, mae'r cynnig yn annhebygol o gael unrhyw effaith ar y cyfleusterau cymunedol a ddarperir. |
| Effeithiau eraill<br>Cludiant | Ar hyn o bryd, gall dysgwyr ôl-16 brynu tocyn bws i deithio i ac o Goleg Menai neu unrhyw un o ysgolion uwchradd Ynys Môn.<br><br>Mae rhai dysgwyr hefyd yn teithio yn ystod y diwrnod ysgol i fynychu cyrsiau partneriaeth (cwrs a ddarperir gan un ysgol/coleg, lle mae dysgwyr o ysgolion/colegau eraill hefyd yn mynychu). Telir am hwn allan o gyllidebau'r ysgol, ac felly nid yw'n gost ariannol i ddysgwyr / teuluoedd. | Dim Effaith | Ni ragwelir unrhyw newid i gludiant cartref - ysgol /coleg oherwydd y cynnig hwn.<br><br>Gallai fod llai o angen teithio i fynychu cyrsiau partneriaeth ôl-16 oherwydd y cynnig hwn - er enghraifft pe bai mwy o gyrsiau'n cael eu darparu drwy ddysgu hybrid neu ar-lein, fodd bynnag nid yw hyn yn hysbys ar hyn o bryd.<br><br>Mae'r asesiad effaith yn ddogfen fyw, a fydd yn cael ei hadolygu a'i diweddaru, wrth i'r 'Cynllun Strategol ar gyfer datblygu perthynas waith agosach rhwng y darparwyr presennol' fynd rhagddo. |
| Effeithiau eraill<br>Effaith ar y gymuned | Mae digon o gapasiti ym mhob un o'r ysgolion uwchradd a'r coleg i ddarparu ar gyfer y dysgwyr ôl-16 a ragwelir. | Dim Effaith | Trwy gadw ôl-16 ym mhob un o'r lleoliadau presennol, ni ragwelir unrhyw effaith ar y gymuned. |

## 5 CASGLIAD

Aseswyd y cynnig i ddechrau o ran ei effaith bosibl ar:

- Cydraddoldeb a hawliau dynol
- Yr iaith Gymraeg
- Y gymuned.

Mae effaith y cynnig ar bob rhan wedi ei hasesu i ddechrau fel a ganlyn:

| **Effaith gyfunol ar:** | **Effaith debygol** |
|---|---|
| Cydraddoldeb | Nid oes unrhyw botensial hysbys ar gyfer gwahaniaethu nac effaith niweidiol ar hyn o bryd. |
| Yr iaith Gymraeg | Ymddengys na fyddai'n cael effaith niweidiol gyffredinol ar yr iaith Gymraeg. |
| Y gymuned | Ychydig neu ddim effaith ganfyddedig ar hyn o bryd. |

**Mae hon yn ddogfen waith a bydd yn cael ei hadolygu'n rheolaidd. Bydd unrhyw effeithiau ychwanegol sy'n codi yn cael eu hadlewyrchu mewn fersiwn ddiwygiedig a gyhoeddir fel rhan o'r Cynllun Strategol ar gyfer datblygu perthynas waith agosach rhwng y darparwyr presennol.**

## *6 Gwybodaeth bellach - Cymru Fwy Cyfartal – y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol (Dyddiad cychwyn y Ddyletswydd: 31 Mawrth 2021)*

**Beth yw'r Ddyletswydd?**

Nod cyffredinol y ddyletswydd yw sicrhau gwell canlyniadau i'r rheini sy'n dioddef anfantais economaidd-gymdeithasol. Wrth wneud penderfyniadau strategol megis penderfynu ar flaenoriaethau a gosod amcanion, rhaid rhoi sylw dyledus i'r angen i leihau anghydraddoldebau o ran canlyniadau sy'n gysylltiedig ag anfantais economaidd-gymdeithasol.

**Pwy sydd yn debygol o brofi anfanteision economaidd-gymdeithasol?**

Mae anfantais economaidd-gymdeithasol yn gallu bod yn anghymesur mewn 'cymunedau buddiant' a 'chymunedau lle', gan arwain at ragor o anghydraddoldeb canlyniadau, sy'n gallu bod yn waeth wrth ystyried 'rhyngblethedd'.

**Cymunedau buddiant** – grwpiau sydd â phrofiad cyffredin, e.e., bod yn ddigartref; neu bobl sydd â'r un hunaniaeth, e.e., unig rieni, gofalwyr. Hefyd pobl sy'n rhannu un neu fwy o'r nodweddion gwarchodedig a restrir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

**Cymunedau lle** – pobl sy'n gysylltiedig â'i gilydd oherwydd lle maent yn byw, yn gweithio, yn ymweld ag ef neu'n treulio cryn dipyn o'u hamser yno.

**Rhyngblethedd** - yn ei hanfod, mae rhyngblethedd yn ymwneud â deall sut y mae nodweddion fel rhyw, hil neu ddosbarth yn gallu rhyngweithio ac arwain at brofiad ac anfantais unigryw mewn sefyllfa benodol. Ni ellir, ac ni ddylid deall mathau penodol o wahaniaethu ar wahân i'w gilydd. Mae mabwysiadu agwedd wirioneddol ryngblethol yn sicrhau nad yw hynny'n digwydd.

**Pryd fydd y Ddyletswydd yn berthnasol?**

Wrth wneud **penderfyniadau strategol**. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu rhai enghreifftiau o benderfyniadau strategol (nid yw'r rhestr yn gynhwysfawr):

- Cyfeiriad a bwriad strategol
- Strategaethau a ddatblygir mewn Byrddau Partneriaethau Rhanbarthol a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus sy'n effeithio ar swyddogaethau cyrff cyhoeddus.
- Cynlluniau tymor canolig i dymor hir (er enghraifft, cynlluniau corfforaethol, cynlluniau darparu a gwella gwasanaethau)
- Pennu amcanion (er enghraifft, amcanion llesiant, amcanion cydraddoldeb, strategaeth y Gymraeg)
- Newid a datblygu gwasanaethau cyhoeddus

- Cynllunio ariannol strategol
- Penderfyniadau ynghylch caffael a chomisiynu
- Datblygu polisïau strategol

## *7 Gwybodaeth bellach - Hawliau Dynol*

Hawliau a rhyddid i bob unigolyn yw hawliau dynol, waeth beth yw eu cenedligrwydd na'u dinasyddiaeth. Mae yna 16 o hawliau sylfaenol yn y Ddeddf Hawliau Dynol - i gyd wedi'u cymryd o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. At bwrpas y Ddeddf, fe gyfeirir atynt fel 'Hawliau'r Confensiwn'. Fe'u rhestrir isod:

(Cyflwyniad yw Erthygl 1 – nid yw wedi'i ymgorffori yn y Ddeddf Hawliau Dynol)

Erthygl 2: Yr hawl i fywyd
Erthygl 3: Gwahardd artaith
Erthygl 4: Gwahardd caethwasiaeth a llafur gorfodol
Erthygl 5: Yr hawl i ryddid a diogelwch
Erthygl 6: Yr hawl i dreial teg
Erthygl 7: Dim cosb heb gyfraith
Erthygl 8: Hawl i barch at fywyd preifat a theuluol
Erthygl 9: Rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd
Erthygl 10: Rhyddid mynegiant
Erthygl 11: Rhyddid cymdeithasiad ac ymgynnull
Erthygl 12: Yr hawl i briodi
Erthygl 14: Gwahardd gwahaniaethu
Erthygl 1 o Brotocol 1: Diogelu eiddo
Erthygl 2 o Brotocol 1: Hawl i gael addysg
Erthygl 3 o Brotocol 1: Hawl i etholiadau rhydd
Erthygl 1 o Brotocol 13: Diddymu'r gosb eithaf.

## *8 Gwybodaeth bellach - Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*

Mae'r Ddeddf hon yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae angen i gyrff cyhoeddus wneud yn siŵr eu bod yn ystyried yr effaith a gaiff eu penderfyniadau ar bobl sy'n byw eu bywydau yng Nghymru yn y dyfodol.
Mae'r ddeddf yn pennu saith o nodau llesiant:

**Cymru lewyrchus:**
Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas.

**Cymru gydnerth:**
Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd).

**Cymru iachach:**
Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol.

**Cymru sy'n fwy cyfartal:**
Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd).

**Cymru o gymunedau cydlynus:**
Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da.

**Cymru â diwylliant bywiog le mae'r Gymraeg yn ffynnu:**
Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden.

**Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang:**
Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang.

This page is intentionally left blank

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad i: | **Pwyllgor Gwaith** |
| Dyddiad: | **Mai 22, 2025** |
| Pwnc / Testun: | **Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Gymraeg – adeilad ysgol uwchradd newydd posib yn ardal Caergybi** |
| Deilydd(ion) Portffolio: | **Y Cynghorydd Dafydd Roberts** |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | **Aaron C. Evans**<br>**Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc** |
| Awdur yr Adroddiad:<br>Tel:<br>E-bost: | **Emrys Bebb**<br><br>**williambebb@ynysmon.llyw.cymru** |
| Aelodau Lleol: | **Y Cynghorydd Glyn Haynes**<br>**Y Cynghorydd Robert Llewelyn Jones**<br>**Y Cynghorydd Jeff M. Evans**<br>**Y Cynghorydd Pip O'Neill**<br>**Y Cynghorydd Trefor Lloyd Hughes**<br>**Y Cynghorydd Keith Roberts**<br>**Y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas**<br>**Y Cynghorydd Gwilym O. Jones**<br>**Y Cynghorydd Ken Taylor**<br>**Y Cynghorydd John I. Jones**<br>**Y Cynghorydd Arfon Wyn**<br>**Y Cynghorydd Douglas M. Fowlie**<br>**Y Cynghorydd Neville Evans** |

## A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau

**Argymhellir bod y Pwyllgor Gwaith yn:**

1. Cymeradwyo'r cynnig i "Adleoli dysgwyr Ysgol Uwchradd Caergybi i adeilad ysgol uwchradd newydd ar gyfer dysgwyr 11–18 oed" ac
2. Awdurdodi swyddogion i gynnal ymgynghoriad statudol ar y cynnig.

**Rhesymau:**

Mae swyddogion wedi ystyried dewisiadau amgen rhesymol ar gyfer y ddarpariaeth addysg uwchradd yn ardal Caergybi. Daw swyddogion i'r casgliad mai adeilad newydd ar gyfer Ysgol Uwchradd Caergybi gwerth tua £66 miliwn yw'r opsiwn ffafredig. Bydd hyn yn sicrhau cynaliadwyedd presennol a hirdymor addysg uwchradd yng Nghaergybi ac Ynys Cybi, a sicrhau bod digon o leoedd uwchradd i gwrdd â'r galw ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

| B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn? |
|---|
| Yn rhan 6 o’r papur cynnig atodol, ystyriwyd 6 opsiwn y cyfeirir atynt fel opsiynau amgen rhesymol. Ystyriwyd 3 opsiwn arall, ond ni chawsant eu hystyried yn opsiynau amgen rhesymol. Mae'r holl opsiynau wedi'u hasesu yn erbyn yr heriau allweddol a nodwyd ar gyfer Ysgol Uwchradd Caergybi. |

| C – Pam fod hwn yn benderfyniad i’r Pwyllgor Gwaith? |
|---|
| Y Pwyllgor Gwaith sy’n gyfrifol am faterion trefniadaeth ysgolion, yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor. |

| Ch – A yw’r penderfyniad hwn yn gyson â’r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Mae'n cyd-fynd â’r Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu’r Gymraeg (a fabwysiadwyd gan y Pwyllgor Gwaith ym mis Gorffennaf 2023). |

| D – A yw’r penderfyniad hwn oddi fewn i’r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Ydi – gweler rhan 7 o’r papur cynnig atodol. |

| Dd – Asesu’r effeithiau posibl (os yn berthnasol): | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae’r penderfyniad yma’n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Bydd y penderfyniad posib hwn yn sicrhau cynaliadwyedd tymor hir addysg uwchradd yn ardal Caergybi ac yn sicrhau bod digon o leoedd ysgol i ddiwallu'r anghenion nawr ac i'r dyfodol. Bydd hefyd yn sicrhau bod adeiladau ysgol newydd yn addas at y diben ac yn cwrdd â safonau BREEAM a safonau rhaglen Moderneiddio Cymunedau Dysgu Llywodraeth Cymru. |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i’r dyfodol? Os felly, sut? | Amlinellir dau ffordd bosib o gyllido’r prosiect yn y papur cynnig.<br>1. Y cynnig yn cael ei ariannu 65:35 gan Lywodraeth Cymru drwy’r rhaglen Moderneiddio Cymunedau Dysgu a’r Cyngor. Bydd buddsoddiad y Cyngor trwy fenthyciad 50 mlynedd, wedi'i ariannu'n rhannol trwy'r derbyniadau cyfalaf. |

| | | |
|---|---|---|
| | | 2. Os yw'r prosiect yn cael ei ariannu drwy'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol (MBC neu MIM), y Cwmni Prosiect (y cwmni sy'n gyfrifol am yr adeiladu) fydd yn gyfrifol am gynnal a chadw'r ysgol am hyd y contract (25 mlynedd). |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy. | Mae'r Cyngor wedi cydweithio gyda nifer o gyrff ar broses ymgysylltu ar addysg ôl-16 ym Môn.<br><br>Cafwyd ymatebion gan ddysgwyr, rhieni / gwarcheidwaid, staff, llywodraethwyr, aelodau etholedig, y cyhoedd a rhanddeiliaid eraill mewn perthynas â'r ddarpariaeth addysg ôl-16 ar gyfer Ynys Môn.<br>Y darparwyr oedd wedi eu cynnwys yn yr ymgysylltiad oedd:<br>• Ysgol Syr Thomas Jones<br>• Ysgol Uwchradd Caergybi<br>• Ysgol Gyfun Llangefni<br>• Ysgol David Hughes<br>• Ysgol Uwchradd Bodedern<br>• Grŵp Llandrillo Menai - Coleg Menai a Choleg Glynllifon<br><br>Yr argymhelliad o'r adroddiad oedd:<br>1. **'Datblygu perthynas waith agosach rhwng y darparwyr presennol'**<br>2. Awdurdodi swyddogion i baratoi **'Cynllun Strategol ar gyfer datblygu perthynas waith agosach rhwng y darparwyr ôl-16 presennol'**, a fydd yn ceisio mynd i'r afael â neu liniaru'r heriau sy'n wynebu darpariaeth addysg ôl-16 ar Ynys Môn ar hyn o bryd, ac i gryfhau hawliau a phrofiad dysgwyr ôl-16.<br>Mae hyn yn rhoi sail gadarn i'r Pwyllgor Gwaith awdurdodi swyddogion i ymgynghori ar y cynnig hwn os bydd y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo hyn.<br>Mae cydweithredu gyda a gwybodaeth a gafwyd gan Estyn, GwE, Cynghorau Cymuned a'r ysgol wedi ffurfio rhan o'r cynnig hwn. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Os bydd y cynnig yn cael ei gymeradwyo a'r prosiect posib yn cael ei gymeradwyo, rhagwelir bydd y Cyngor yn ymgynghori gyda rhanddeiliaid fel y'i rhestrir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion ar gyfer y broses ymgynghori statudol gall ddilyn. |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai'r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut. | Do – cafwyd 779 o ymatebion gan ddinasyddion Môn fel rhan o'r broses ymgysylltu ar y ddarpariaeth addysg ôl-16.<br><br>Er hynny, papur cynnig yw hwn. Bydd y rhanddeiliaid (rhieni / gwarcheidwaid, aelodau staff, llywodraethwyr ysgol ac eraill sydd a diddordeb) yn cael cyfle yn ystod y broses ymgynghori statudol posib fydd yn dilyn i gyfrannu'n rhagweithiol ac i chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd ymlaen fydd yn cael ei gytuno. |
| 5 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Bydd yr Awdurdod yn sicrhau cyfle cyfartal i'r holl ddisgyblion a staff beth bynnag yw eu gallu a'u cefndir. Gweler yr Asesiad Effaith am fwy o wybodaeth. |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | Ni chanfuwyd unrhyw effaith negyddol ond bydd CSYM yn asesu eto unwaith y bydd lleoliad yr adeilad ysgol newydd arfaethedig yn hysbys. |
| 7 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Rhagwelir bydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar yr iaith Gymraeg. |

| E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? Beth oedd eu sylwadau? | | |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol) | Wedi eu ymgorffori yn yr adroddiad hwn. |
| 2 | Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol) | Wedi eu ymgorffori yn yr adroddiad hwn. |
| 3 | Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol) | Wedi eu ymgorffori yn yr adroddiad hwn. |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | Dylid ymdrin ag unrhyw fater Adnoddau Dynol sy'n codi o'r argymhellion yn unol â phrosesau ymgynghori ac AD eraill cydnabyddedig. |

| E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? Beth oedd eu sylwadau? | | |
|---|---|---|
| 5 | Eiddo | Mae swyddogion Eiddo wedi bod yn amcangyfrif costau posib y prosiect a byddent yn parhau i fod yn rhan allweddol o'r tîm yn symud ymlaen os bydd y cynnig yn cael ei dderbyn gan y Pwyllgor Gwaith. |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth (TG) | Os bydd y cynnig yn cael ei gymeradwyo a'r prosiect posib yn cael ei gymeradwyo, byddai achosion busnes yn cael eu paratoi yn unol â canllawiau Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru. Rhagwelir bydd y gwariant posib ar "Ddodrefn, Ffitiadau ac Offer / Technoleg Gwybodaeth" yn unol â meincnod cost Llywodraeth Cymru yn y canllawiau hynny. |
| 7 | Caffael | Dim ar y cam yma. Os fydd y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo'r cynnig, bydd angen penderfynu ar y dull caffael fel amlinellir yn rhan Dd 2 uchod ac yn y papur cynnig atodol. |
| 8 | Sgriwtini | Bydd Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn adrodd yn ôl ar lafar o gyfarfod y Pwyllgor gynhelir ar 21 Mai 2025. |
| 9 | Aelodau Lleol | Dim sylw |

| F - Atodiadau: |
|---|
| Atodiad 1 - Papur Cynnig Ysgol Uwchradd Caergybi<br>Atodiad 2 - Asesiad Effaith. |

| Ff – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth): |
|---|
| • Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018 cod-trefniadaeth-ysgolion-fersiwn-diwygiedig.pdf<br>• Adroddiad ar y broses ymgysylltu ar y ddarpariaeth addysg ôl-16<br>• Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Gymraeg Strategaeth Moderneiddio Cymunedau.pdf<br>• Rhaglen Amlinellol Strategol – Rhaglen Dreigl (RhAS / SOP) Rhaglen Amlinellol Strategol (RhAS) – Rhaglen |

**PAPUR CYNNIG**

**TREFNIADAETH YSGOLION**

**Gwasanaeth Dysgu**

**Ysgol Uwchradd Caergybi**

**Mai 2025**

**Cynnig i:**

**"Adleoli dysgwyr Ysgol Uwchradd Caergybi i adeilad ysgol newydd ar gyfer dysgwyr 11–18 oed"**

**Mae copïau caled o'r ddogfen hon ar gael ar gais drwy anfon e-bost i [ysgolionmon@ynysmon.llyw.cymru](mailto:ysgolionmon@ynysmon.llyw.cymru)**

**Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg /**

**This document is also available in English.**

**Cynnwys**

CRYNODEB GWEITHREDOL ........ 4
1. CEFNDIR A CHYFLWYNIAD ........ 8
2. Y CYNNIG ........ 9
3. Y PRIF YRWYR AR GYFER NEWID ........ 10
4. Y GYRWYR ALLWEDDOL AR GYFER YSGOL UWCHRADD CAERGYBI ........ 12
4.1 Safonau/ Arolygiadau Estyn ........ 12
4.2 Arweinyddiaeth a Rheolaeth ........ 12
4.3 Adeiladau ac Adnoddau ........ 13
4.4 Niferoedd Dysgwyr / Lleoedd Dros Ben ........ 14
4.5 Ariannol ........ 16
4.6 Lles, gofal ac iechyd ........ 17
4.7 Cwricwlwm i Gymru ........ 18
4.8 Yr Iaith Gymraeg ........ 18
4.9 Defnydd Cymunedol ........ 19
4.10 Datgarboneiddio ........ 20
4.11 Darpariaeth Ôl-16 ........ 20
4.12 Materion Cyffredinol ........ 20
5. HERIAU ALLWEDDOL A WYNEBIR GAN YSGOL UWCHRADD CAERGYBI ........ 24
5.1 Sut gallai'r cynnig fynd i'r afael â'r heriau allweddol? ........ 24
5.2 Ystyriaeth i ffactorau penodol ........ 26
6. OPSIYNAU AMGEN RHESYMOL I'R CYNNIG ........ 29
6.1 Adleoli dysgwyr Ysgol Uwchradd Caergybi i adeilad ysgol newydd ar gyfer dysgwyr 11-18 oed 29
6.2 Ffedereiddio Ysgol Uwchradd Caergybi gydag Ysgol Cybi ........ 31
6.3 Ffedereiddio Ysgol Uwchradd Caergybi gydag Ysgol Uwchradd Bodedern ........ 34
6.4 Adnewyddu adeilad presennol Ysgol Uwchradd Caergybi ........ 37
6.5 Un ysgol aml-safle newydd (2 safle - safle presennol Ysgol Uwchradd Caergybi ar ôl ei hadnewyddu ac Ysgol Cybi). ........ 39
6.6 Adeiladu un ysgol uwchradd newydd yn lle Ysgol Uwchradd Caergybi ac Ysgol Uwchradd Bodedern (YUB) ar gyfer dysgwyr 11-18 oed ........ 41
Ffedereiddio Ysgol Uwchradd Caergybi gydag Ysgol Cybi ........ 43
Un ysgol aml-safle newydd (2 safle - safle presennol Ysgol Uwchradd Caergybi ar ôl ei hadnewyddu ac Ysgol Cybi). ........ 43
Adeiladu un ysgol uwchradd newydd yn lle Ysgol Uwchradd Caergybi ac Ysgol Uwchradd Bodedern ar gyfer dysgwyr 11-18 oed ........ 43
6.7 Opsiynau eraill a ystyriwyd ond na chawsant eu hystyried yn opsiynau amgen rhesymol i'r cynnig. 43
7. YR EFFAITH ARIANNOL OS GWEITHREDIR Y CYNNIG ........ 45
7.1 Opsiynau cost ac ariannu bras ar gyfer adeilad newydd yr ysgol ........ 45
7.2 Y Model Buddsoddi Cydfuddiannol (MBC) ........ 45
7.3 Costau Blynyddol i'r Cyngor ........ 45

7.4 Crynodeb o'r Gost Flynyddol i'r Cyngor – Model Buddsoddi Cydfuddiannol. .............................46
7.5 Crynodeb o'r Gost Flynyddol i'r Cyngor – Wedi'i Gyflawni trwy Arian Cyfalaf ............................47
7.6 Costau Tymor Byr ........................................................................................................................47
8. CASGLIAD ........................................................................................................................................47

## CRYNODEB GWEITHREDOL

Mae'r papur hwn yn cyflwyno canlyniadau'r gwaith a wnaed i edrych ar ystod o opsiynau ar gyfer dyfodol Ysgol Uwchradd Caergybi ac mae wedi'i baratoi gan ystyried y Cod Trefniadaeth Ysgolion diwygiedig (011/2018) (cod-trefniadaeth-ysgolion-ail-fersiwn (llyw.cymru)).

Bydd yn cael ei ddefnyddio i geisio cymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith i fwrw ymlaen neu i beidio â bwrw ymlaen â'r cynnig a ffafrir gan y Cyngor ar gyfer ymgynghori.

Mae'r prif yrwyr ar gyfer newid (Adran 3) a nodir yn Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Gymraeg (Gorffennaf 2023) yn cynnwys:

**Safonau** – Darparu'r addysg orau i bobl ifanc yn yr hinsawdd ariannol yr ydym ynddi fel y gall addysg ffynnu yn dilyn Covid-19 ac ymateb i anghenion dinasyddion Ynys Môn yn y dyfodol.

**Arweinyddiaeth a Rheolaeth** – Cynyddu capasiti er mwyn datblygu arweinyddiaeth effeithiol yn ein hysgolion ac i gynllunio olyniaeth.

**Adeiladau ac Adnoddau** – Sicrhau adeiladau ac amgylcheddau dysgu o ansawdd uchel ac addas at y diben.

**Niferoedd Dysgwyr / Lleoedd Dros Ben** – Darparu addysg sy'n cyfateb i ofynion poblogaeth yr ynys. Lleihau lleoedd dros ben er mwyn gwneud defnydd effeithlon o adnoddau.

**Ariannol** – Sicrhau y gall ysgolion weithredu'n effeithiol o fewn y gyllideb sydd ar gael. Anelu at leihau'r ystod gwariant fesul dysgwr, gan sicrhau mwy o gyfle cyfartal ar draws ysgolion.

**Lles, Gofal ac Iechyd** – Gwella mynediad er mwyn sicrhau lles, gofal ac iechyd yn ein hysgolion.

**Cwricwlwm i Gymru** – Sicrhau bod gan ysgolion yr adnoddau a'r gallu i yrru Cwricwlwm i Gymru yn ei flaen yn llwyddiannus.

**Yr Iaith Gymraeg** – Cynnig darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog i'n holl ddysgwyr.

**Defnydd Cymunedol** – ehangu'r defnydd o adeiladau a chyfleusterau ysgolion gan rieni, y gymuned a thrigolion hŷn.

**Datgarboneiddio** – Sicrhau bod ein hysgolion yn gynaliadwy ac yn cyfrannu at agenda Sero Net y Cyngor.

**Darpariaeth Ôl-16** – Cryfhau hawliau a phrofiad dysgwyr ar gyfer dysgwyr ôl-16.

**Byddai angen i unrhyw gynnig moderneiddio ysgolion fynd i'r afael â'r meini prawf uchod.**

Mae **Adran 4** yn asesu'r prif yrwyr newid ar gyfer Ysgol Uwchradd Caergybi fel nodwyd yn y Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Gymraeg (Gorffennaf 2023). Mae casgliadau'r asesiad hwnnw fel a ganlyn:

1. Roedd safonau fel y'u hamlinellwyd yn adroddiad diweddaraf Estyn dyddiedig mis Chwefror 2025.
2. Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, efallai byddai angen adolygu'r strwythur arweinyddiaeth a rheolaeth bresennol os bydd niferoedd dysgwyr yn newid yn y dyfodol.
3. Mae gwariant cynnal a chadw cyfredol a rhagamcannol o bron i £29 miliwn ar adeilad presennol yr ysgol (Medi 2024).
4. Mae adeilad presennol yr ysgol wedi'i raddio fel gradd C (Gweithredol ond angen gwaith atgyweirio neu amnewid mawr yn y tymor byr i'r tymor canolig). Mae presenoldeb Concrit Awyredig Awtoclafiedig Cyfnerth (RAAC) yn llawer o adeiladau'r ysgol yn golygu bod angen mynd i'r afael â'r sefyllfa yn y tymor byr.
5. Dim ond yn rhannol y mae adeilad presennol yr ysgol yn cwrdd â gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae gan yr adeilad presennol broblemau mynediad sylweddol.
6. Fis Medi 2024, roedd 29% o leoedd gwag yn Ysgol Uwchradd Caergybi.
7. Mae 33.5% o ddysgwyr sy'n byw yn y dalgylch yn mynychu ysgolion eraill ar yr ynys ac yng Ngwynedd.
8. Mae'r gost fesul dysgwr yn Ysgol Uwchradd Caergybi yn is na'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion uwchradd ar Ynys Môn. Roedd balansau'r ysgol hefyd yr uchaf o'r 5 ysgol uwchradd yn Ynys Môn ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2023/24 ar 15% o gyllideb yr ysgol. Fodd bynnag, ar 31 Mawrth 2024, roedd gan bob ysgol falansau a oedd yn cyfateb i 5% neu fwy o'u cyllideb ysgol. Mae'r Cyngor yn wynebu sefyllfa ariannol heriol dros y blynyddoedd nesaf, (fel pob Awdurdod Lleol) ac ni ellir eithrio cyllidebau ysgolion o hyn. Bydd ysgolion yn debygol o barhau i ddefnyddio eu balansau i gydbwyso eu cyllidebau dirprwyedig. Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro lefel a defnydd balansau ysgolion.
9. Mae diffyg caeau chwarae ar safle presennol yr ysgol gyda dysgwyr yr ysgol yn defnyddio darpariaeth oddi ar y safle h.y., caeau chwarae Millbank.
10. Mae'r ysgol bresennol yn cynnwys nifer o adeiladau ac mae hyn yn achosi rhai heriau wrth gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru ar y safle rhanedig presennol.
11. Mae'r ysgol ar hyn o bryd yn symud at fod yn ysgol categori 3 o ran addysgu yn y Gymraeg, o fewn y pum mlynedd nesaf. Erbyn iddi drosi i fod yn ysgol categori 3, bydd yr ysgol yn cynnig ystod eang o'i Meysydd Dysgu a Phrofiad (MDaPh) drwy gyfrwng y Gymraeg pan fydd o leiaf 60% o ddysgwyr yn ymgymryd ag o leiaf 70% o weithgareddau eu hysgol (cwricwlaidd ac allgyrsiol) yn Gymraeg.
12. Yn ogystal â dysgwyr yn defnyddio cyfleusterau'r ysgol ar gyfer gweithgareddau allgyrsiol, mae grwpiau cymunedol yn defnyddio cyfleusterau Ysgol Uwchradd Caergybi yn ystod y tymor ac yn ystod gwyliau'r ysgol.
13. Mae Ysgol Uwchradd Caergybi yn y deg uchaf holl asedau'r Cyngor o ran allyriadau carbon.
14. Yn ddiweddar, cynhaliwyd proses ymgysylltu ar ddyfodol y ddarpariaeth addysg ôl-16 ar gyfer pobl ifanc 16-18 oed ar Ynys Môn.
15. Mae cludiant i'r ysgol i ddysgwyr yn unol â Pholisi Cludiant Ysgol y Cyngor.
16. Y safle arfaethedig ar gyfer yr ysgol uwchradd arfaethedig yw ar dir ger Canolfan Hamdden Caergybi, yn amodol ar gaffael tir yn llwyddiannus .Fodd bynnag, rhagwelir y bydd costau cludiant yn cael eu lleihau oherwydd efallai na fydd angen i'r dysgwyr hynny sy'n dymuno cael darpariaeth cyfrwng Cymraeg, gwbl ddwyieithog gael eu cludo allan o ddalgylch eu hysgol i'r ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg agosaf.
17. Os gwireddir y datblygiadau tai a gynigir yn nalgylch yr ysgol, byddai digon o le yn yr ysgol ar gyfer y darpar ddysgwyr ychwanegol.

Mae **Adran 5** yn amlygu'r heriau allweddol sy'n wynebu'r ysgol.

Mae'r heriau allweddol sy'n wynebu Ysgol Uwchradd Caergybi a sut y gellid mynd i'r afael â nhw trwy weithredu'r cynnig, wedi'u rhestru isod.

1. Mae arolygiad strwythurol o adeilad yr ysgol wedi dangos bod diffygion difrifol. Mae adeilad yr ysgol wedi'i gategoreiddio fel "Gweithredol ond angen gwaith atgyweirio neu amnewid mawr yn y tymor byr i'r tymor canolig". Mesurau dros dro oedd y gwaith adfer diweddar ar y Concrid Awyredig Awtoclafiedig Cyfnerth (RAAC).
2. Mae gwariant cynnal a chadw cyfredol a rhagamcannol (Medi 2024) o bron i £29 miliwn ar adeilad presennol yr ysgol.
3. Mae adeilad presennol yr ysgol wedi'i raddio fel gradd C (Gweithredol ond angen gwaith atgyweirio neu amnewid mawr yn y tymor byr i'r tymor canolig).
4. Dim ond yn rhannol y mae adeilad presennol yr ysgol yn cwrdd â gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae gan yr adeilad presennol broblemau mynediad sylweddol.
5. Fis Medi 2024, roedd 29% o leoedd gwag yn Ysgol Uwchradd Caergybi
6. Mae 33.5% o ddysgwyr sy'n byw yn y dalgylch yn mynychu ysgolion eraill ar yr ynys ac yng Ngwynedd.
7. Mae diffyg caeau chwarae ar safle presennol yr ysgol gyda dysgwyr ysgol yn defnyddio caeau chwarae Millbank.
8. Mae'r ysgol bresennol yn cynnwys nifer o adeiladau, ac mae hyn yn achosi rhai heriau wrth gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru ar y safle rhanedig presennol.
9. Mae Ysgol Uwchradd Caergybi ar hyn o bryd wedi'i chategoreiddio fel T3 sy'n addysgu trwy gyfrwng y Saesneg gydag addysgu sylweddol trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r newid categori yn annibynnol ar y cynnig hwn.
10. Yn ogystal â dysgwyr yn defnyddio cyfleusterau'r ysgol ar gyfer gweithgareddau allgyrsiol, mae grwpiau cymunedol yn defnyddio cyfleusterau Ysgol Uwchradd Caergybi yn ystod y tymor ac yn ystod gwyliau'r ysgol.
11. Mae Ysgol Uwchradd Caergybi yn y deg uchaf o holl adeiladau'r Cyngor o ran allyriadau carbon.
12. Yn ddiweddar, cynhaliwyd proses ymgysylltu ar ddyfodol y ddarpariaeth addysg ôl-16 ar gyfer pobl ifanc 16-18 oed ar Ynys Môn.

**Buddion posibl y cynnig**
O'i wireddu, byddai disgwyl i'r cynnig wireddu'r buddion a ganlyn (Adran 5):

1. Byddai'r Cyngor yn osgoi gorfod talu'r gost cynnal a chadw gyfredol a rhagamcannol o bron i £29 miliwn (2024) yn yr hen adeilad.
2. Byddai'n mynd i'r afael â'r mesurau lliniaru presennol oherwydd Concrit Awyredig Awtoclafiedig Cyfnerth (RAAC) yn 30% o adeilad yr ysgol.
3. Byddai gan safle'r ysgol newydd arfaethedig ei gaeau chwarae ei hun.
4. Gallai amgylchedd ysgol wedi'i gynllunio'n dda ynghyd â mannau awyr agored gwyrdd wella iechyd corfforol a meddyliol plant, yn ogystal â gwella lles staff a gwneud iddynt deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi.
5. Bydd adeilad ysgol newydd yn darparu adnoddau modern arbenigol e.e. labordai ac ystafell dechnoleg fwyd a mannau gwyrdd awyr agored i yrru Cwricwlwm Cymru ymlaen.
6. Gan fydd capasiti'r ysgol uwchradd posib newydd yn llai na capasiti'r adeilad presennol, byddai lleoedd dros ben yn Ysgol Uwchradd Caergybi yn cael eu lleihau.

7. Tebygolrwydd cynyddol y bydd dysgwyr yn aros o fewn eu dalgylch oherwydd bod ganddynt fynediad i adeilad ysgol newydd ac adnoddau modern. Ymhellach, mae'r dyddiad y bwriedir cwblhau adeilad yr ysgol yn cyd-fynd â'r diffiniad iaith newydd arfaethedig ar gyfer yr ysgol h.y., cyfrwng Cymraeg.
8. Gan efallai byddai adeilad ysgol uwchradd newydd, efallai bydd dysgwyr sy'n byw yn nalgylch Ysgol Uwchradd Caergybi yn dewis mynychu'r ysgol newydd arfaethedig yn hytrach nag ysgolion uwchradd eraill. Gall hyn yn ei dro arwain at gynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg yng Nghaergybi (ardal lle mae cyfraddau defnydd iaith wedi bod yn is yn hanesyddol, ond sy'n cynyddu yn ôl data cyfrifiad 2011.)[1]
9. Nid oes cost cludiant ychwanegol yn gysylltiedig â'r cynnig.
10. Fel rhan o'r cynnig, rhagwelir y bydd llwybrau teithio llesol newydd yn cael eu cynllunio i annog dysgwyr a'r gymuned sydd angen mynediad i'r safle i ddefnyddio dulliau teithio mwy cynaliadwy.
11. Disgwylir y byddai cael adnoddau cymunedol pwrpasol yn yr adeilad ysgol newydd, yn ogystal â chyd-leoli gwasanaethau eraill, yn ogystal â mynediad at gyfleusterau modern yn denu mwy o ddefnydd cymunedol ac ymgysylltiad / cyfranogiad gan deuluoedd.
12. Bydd adeilad yr ysgol newydd yn ddi-garbon net – ynni gweithredol ac felly bydd allyriadau carbon o'r adeilad newydd yn llai nag o adeilad presennol Ysgol Uwchradd Caergybi.
13. Pe bai'r cynllun yn cael ei gyflawni drwy'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol (MIM, gweler adran 7) byddai'r cynnig yn arwain at arbedion yn y gyllideb atgyweiriadau a chynnal a chadw canolog ar gyfer y 25 mlynedd nesaf.

**Beth sydd wedi cael ei ystyried?**

Mae opsiynau amgen rhesymol i'r cynnig wedi'u hystyried a'u hasesu yn erbyn y prif yrwyr moderneiddio ysgolion **(Adran 6).**

Mae Asesiad Effaith hefyd wedi'i baratoi, sy'n asesu effaith y cynnig ar Gydraddoldeb, y Gymraeg ac ar y Gymuned, yn ogystal â sut mae'r cynnig yn bodloni gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Hawliau Dynol 1998. Mae hon yn ddogfen fyw a fydd yn cael ei diweddaru'n rheolaidd wrth i ni symud ymlaen â'r cynnig.

**Mae ystyried y buddion a'r heriau allweddol y mae Ysgol Uwchradd Caergybi yn eu hwynebu (Adran 5) wedi arwain y Cyngor i gyflwyno'r cynnig canlynol ar gyfer Ysgol Uwchradd Caergybi, sef:**

**"Adleoli dysgwyr Ysgol Uwchradd Caergybi i adeilad ysgol newydd ar gyfer dysgwyr 11-18 oed".**

**Os caiff y cynnig ei weithredu, rhagwelir y bydd adeilad newydd Ysgol Uwchradd Caergybi yn debygol o gael ei gwblhau erbyn 2030 pan fyddai'r dysgwyr yn adleoli iddo. Byddai hyn yn tarfu cyn lleied â phosibl ar ddysgwyr. Byddai adeilad presennol Ysgol Uwchradd Caergybi wedyn yn cau.**

[1] Cyngor Sir Ynys Môn, Cyfrifiad 2021: Siaradwyr Cymraeg Ynys Môn (Ebrill 2023), t.9.

**1. CEFNDIR A CHYFLWYNIAD**

Mae'r Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Gymraeg, a fabwysiadwyd gan y Pwyllgor Gwaith ar 18 Gorffennaf 2023, yn nodi y dylai'r Cyngor ymrwymo i sicrhau bod pob adeilad ysgol, yn addas i'r diben, yn y lleoliad cywir, yn diwallu anghenion dysgwyr ac yn adnodd i'r gymuned.

Mae arolygiad strwythurol o adeilad yr ysgol wedi dangos bod diffygion difrifol.

Mae cyflwr adeilad Ysgol Uwchradd Caergybi wedi ei gategoreiddio fel:

**"Gweithredol ond angen gwaith atgyweirio mawr neu amnewid yn y tymor byr i ganolig".**

Yn dilyn newidiadau yng nghanllawiau Llywodraeth y DU yn Awst 2023 mewn perthynas â Choncrit Awyredig Awtoclafiedig Cyfnerth (RAAC) cynhaliwyd gwaith adfer ar raddfa eang a ddiogelodd strwythur yr ysgol yn y tymor canolig, ond nid yw hwn yn ateb hirdymor.

Mae'r papur hwn yn cyflwyno canlyniadau'r gwaith a wnaed i edrych ar ystod o opsiynau ar gyfer dyfodol Ysgol Uwchradd Caergybi ac mae wedi'i ysgrifennu yn unol â disgwyliadau'r Cod Trefniadaeth Ysgolion diwygiedig (011/2018) a bydd yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith, gan ofyn am ei benderfyniad i symud ymlaen i gyfnod ymgynghori statudol ar y cynnig.

Cyn cyrraedd y cynnig (Adran 2) isod, mae'r Cyngor wedi ystyried y canlynol:

- Y gyrwyr allweddol ar gyfer newid (Adran 3)
- Y gyrwyr newid allweddol ar gyfer Ysgol Uwchradd Caergybi (Adran 4)
- Yr heriau allweddol a wynebir gan Ysgol Uwchradd Caergybi a sut y gallai'r cynnig fynd i'r afael â hwy, (Adran 5)
- Opsiynau amgen rhesymol i'r cynnig (Adran 6)

## 2. Y CYNNIG

Y cynnig yw:
"Adleoli dysgwyr Ysgol Uwchradd Caergybi i adeilad ysgol newydd ar gyfer dysgwyr 11-18 oed".

Nodir y manylion arfaethedig ar gyfer Ysgol Uwchradd Caergybi isod gan bydd ystod oedran yr adeilad ysgol newydd yn parhau i fod yn 11-18:

| **Ystod oedran** | **11-18 oed** |
|---|---|
| **Lleoedd i ddysgwyr** | 900 |
| **Rhif mynediad** | 150 |
| **Lleoliad newydd arfaethedig** | Tir ger Canolfan Hamdden Caergybi, yn amodol ar gaffael tir yn llwyddiannus |
| **Categori** | Cymunedol * |
| **Categori iaith** | Cyfrwng Cymraeg ** |
| **Cyfleusterau arfaethedig** | Byddai'r adeilad ysgol newydd arfaethedig yn darparu ar gyfer dysgwyr 11-18 oed |
| **Y gost a ragwelir ar gyfer y prosiect** | Tua £65.9 miliwn (amcangyfrif) (Cyfalaf Cyfwerth – yn seiliedig ar y prosiect yn cael ei gyflawni a'i ariannu drwy'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol). |

* Y categorïau o ysgolion a gynhelir yng Nghymru yw:

1. Ysgol gymunedol,
2. Ysgol wirfoddol a reolir (fel Ysgol Cybi),
3. Ysgol wirfoddol a gynorthwyir (fel Ysgol y Santes Fair),
4. Ysgol sefydledig (fel Ysgol Caergeiliog) a
5. Ysgol arbennig gymunedol (fel Canolfan Addysg y Bont)

**Ar hyn o bryd mae gan Ynys Môn 4 ysgol uwchradd yng nghategori 3 ac 1 mewn categori trosiannol (T3). **Mae Ysgol Uwchradd Caergybi yn y categori trosiannol hwn ac wedi dechrau ar y broses uchelgeisiol o drosglwyddo i gategori 3 o fewn cynllun pum mlynedd, gan gyrraedd categori 3 erbyn Medi 2029.**

Y diffiniad o ysgol uwchradd Categori 3 yw:
Categori 3 – Bydd ysgol cyfrwng Cymraeg yn cynnig ystod eang o'i Meysydd Dysgu a Phrofiad (MDaPh) drwy gyfrwng y Gymraeg. O leiaf 60% o ddysgwyr yn ymgymryd ag o leiaf 70% o weithgareddau eu hysgol (cwricwlaidd ac allgyrsiol) yn Gymraeg. Disgwylir i ysgolion Categori 3 barhau i adlewyrchu cyd-destun ieithyddol yr ardal wrth weithio tuag at gynyddu eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg dros amser.

Mae hyn yn unol â Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Gymraeg y Cyngor. Un o'r Gyrwyr Newid / Amcanion Strategol yn y Strategaeth yw: "***Y Gymraeg - Cynnig darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog i'n holl ddysgwyr."***

**Yn ogystal, mae'n unol â Cynllun y Cyngor. Un o'r amcanion strategol ynddo yw'r iaith Gymraeg ac un nod ynddo yw: *"Cynyddu'r nifer o blant a phobl ifanc sy'n astudio yn Gymraeg drwy weithredu cynllun strategol y Gymraeg mewn addysg (CSGA)."***

Er bod y broses drosiannol hon yn annibynnol ar y cynnig hwn, os cytunir ar y cynnig, bydd darparu addysg cyfrwng Cymraeg mewn adeilad newydd yn Ysgol Uwchradd Caergybi yn bodloni'r galw gan fod bron pob ysgol gynradd yn nalgylch yr ysgol wedi'i dynodi'n gyfrwng Cymraeg.
Byddai'r cynnig yn rhan o raglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Dysgu Llywodraeth Cymru a Chyngor Sir Ynys Môn.

## 3. Y PRIF YRWYR AR GYFER NEWID

Mae Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Gymraeg (Gorffennaf 2023), yn rhestru'r gyrwyr ar gyfer newid. Trafodir y gyrwyr newid perthnasol mewn perthynas ag unrhyw foderneiddio ysgolion uwchradd isod.

1. Safonau
Darparu'r addysg orau i bobl ifanc yn yr hinsawdd ariannol yr ydym ynddi fel y gall addysg ffynnu yn dilyn Covid-19 ac ymateb i anghenion dinasyddion Ynys Môn yn y dyfodol. Mae'r Cyngor eisiau sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i ddysgwyr drwy sicrhau bod y system yn addas ar gyfer y genhedlaeth hon a chenedlaethau'r dyfodol. Bydd y Cyngor yn edrych ar greu'r amodau fel bod Prifathrawon, athrawon a dysgwyr yn llwyddo.

2. Arweinyddiaeth a Rheolaeth
Cynyddu'r gallu i ddatblygu arweinyddiaeth effeithiol yn ein hysgolion ac i gynllunio olyniaeth. Mae'r Cyngor yn ymdrechu i gael ysgolion sydd ag arweinyddiaeth gref ar bob lefel, gan gynnwys llywodraethwyr.

3. Adeiladau Ysgolion ac Adnoddau
Mae Ynys Môn wedi ymrwymo i sicrhau fod pob adeilad ysgol yn cwrdd â disgwyliadau'r 21ain ganrif, yn addas i'r diben, yn y lleoliad cywir, yn cwrdd ag anghenion dysgwyr ac yn adnodd i'r gymuned.

4. Niferoedd Dysgwyr / Lleoedd Dros Ben
Darparu addysg sy'n cyfateb i ofynion poblogaeth yr ynys. Gostyngiad mewn lleoedd dros ben i wneud defnydd effeithlon o adnoddau.

5. Ariannol
Sicrhau y gall ysgolion weithredu'n effeithiol o fewn y gyllideb sydd ar gael. Anelu at leihau'r ystod gwariant fesul dysgwr, gan sicrhau mwy o gyfle cyfartal ar draws ysgolion.

6. Lles, Gofal ac Iechyd
Gwella mynediad er mwyn sicrhau lles, gofal ac iechyd yn ein hysgolion. Sicrhau bod gan ysgolion amgylcheddau diogel ar gyfer dysgwyr a staff, sydd hefyd yn hyrwyddo parch ac amrywiaeth. Mae ysgolion sydd wedi'u cynllunio'n dda ac sydd wedi datblygu tiroedd yn feddylgar yn cyfoethogi cyfleoedd i ddysgu a chwarae. Mae cysylltiad a chyswllt â natur yn creu emosiynau mwy cadarnhaol a theimladau o fywiogrwydd, a llai o emosiynau negyddol; mae hefyd yn cynnig rhyddhad rhag blinder meddwl, a'r gallu i ganolbwyntio am gyfnod hirach.

7. Cwricwlwm i Gymru
Sicrhau bod gan ysgolion yr adnoddau i yrru'r cwricwlwm newydd yn ei flaen yn llwyddiannus, er mwyn bodloni'r pedwar prif ddiben o ddatblygu:

a. Dysgwyr uchelgeisiol, galluog
b. Cyfranwyr mentrus, creadigol
c. Dinasyddion egwyddorol, gwybodus.
ch. Unigolion iach, hyderus

8. Yr Iaith Gymraeg
Cynnal a gwella darpariaeth ddwyieithog a chyfrwng Cymraeg. Y nod yw datblygu galluoedd dysgwyr fel dysgwyr dwyieithog erbyn diwedd addysg ffurfiol.

9. Defnydd cymunedol
Mae'r Cyngor yn awyddus i wneud y defnydd gorau o adnoddau ac isadeiledd i ddarparu gwasanaethau i'n cymunedau. Mae hyn yn golygu cael asedau hyblyg fel bod modd i'r gymuned (gan gynnwys plant, oedolion a phobl hŷn) ddefnyddio'r ased a'r adnoddau. Bydd hyn yn cefnogi gwytnwch cymunedau ac yn helpu i liniaru effaith tlodi.

10. Datgarboneiddio
Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i fod yn awdurdod di-garbon net. Rhan allweddol o'r daith i gyflawni carbon sero net fydd adolygu defnydd a pherfformiad holl asedau'r Cyngor, gan sicrhau'r ôl troed carbon lleiaf posibl tra'n parhau i ddarparu gwasanaethau i'n cymunedau.

11. Darpariaeth Ôl-16
Mae'r Cyngor yn gweithredu'r Consortiwm Dysgu Ôl-16 gyda Cyngor Gwynedd a Grŵp Llandrillo Menai. Mae'r Consortiwm yn gyfrifol am gomisiynu darpariaeth ôl-16 i gwrdd â gofynion cwricwlwm y cytunwyd arnynt yn lleol ar gyfer addysg a hyfforddiant.
Er bod y Consortiwm Ôl-16 wedi llwyddo i resymoli'r ddarpariaeth, nid yw'r drefn bresennol yn gynaliadwy o ran costau teithio a dosbarthiadau bach. (Gweler yr adroddiad ar yr ymgysylltiad ôl-16 am fwy o fanylion). Yn ogystal, gan fod ysgolion eisoes wedi rhesymoli nifer y cyrsiau nad ydynt yn hyfyw, mae dysgwyr yn treulio amser yn teithio o un ysgol i'r llall.

12. Materion Cyffredinol
Mae'r asesiad hefyd wedi cynnwys materion cyffredinol, er enghraifft, trefniadau teithio, Anghenion Dysgu Ychwanegol, unrhyw ddatblygiadau tai tebygol yn yr ardal a allai effeithio ar niferoedd dysgwyr.

Gall Porthladd Rhydd Ynys Môn fod yn gyfle arbennig i wella economi Gogledd Cymru drwy ddenu mewnfuddsoddiad sylweddol i yrru gweithgarwch economaidd, gan ddarparu swyddi sgiliau uchel, â chyflogau uchel i'r gweithlu lleol. Mae Porthladd Rhydd yn ardal ddynodedig, sy'n cynnig manteision treth, tollau a rheoleiddio arbennig i annog gweithgarwch economaidd a grëir gan lywodraethau'r DU a Chymru. Bydd y cyfleoedd gall y Porthladd Rhydd yn eu creu yn ganolog i sicrhau ffyniant hirdymor cymunedau ar draws Ynys Môn ac yn helpu gwarchod hunaniaeth falch a threftadaeth yr ardal leol. Gall hyn yn ei dro yn creu cyfleoedd i ddysgwyr Ysgol Uwchradd Caergybi ac yn creu swyddi iddynt ac yn lleihau allfudiad o bobl ifanc.

Mae'r adran ganlynol (Adran 4) yn cymhwyso'r gyrwyr newid allweddol perthnasol ar gyfer Ysgol Uwchradd Caergybi.

## 4. Y GYRWYR ALLWEDDOL AR GYFER YSGOL UWCHRADD CAERGYBI

Ystyrir isod y prif yrwyr ar gyfer moderneiddio ysgolion o'r Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Iaith Gymraeg. Yn ogystal, ystyrir materion cyffredinol sydd tu allan i'r gyrwyr allweddol.

### 4.1 Safonau/ Arolygiadau Estyn

Cafodd yr ysgol arolwg Estyn ym mis Chwefror 2025, sydd ar gael yn y ddolen isod:

Adroddiad arolygiad Ysgol Uwchradd Caergybi 2025

Mae'r Cyngor eisiau sicrhau bod holl blant Ynys Môn yn cyflawni eu llawn botensial ac yn cael y profiadau gorau posib. Byddai'n rhaid i unrhyw foderneiddio / ad-drefnu ysgolion o leiaf gynnal yr agweddau da a nodir gan Estyn a hefyd fynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion a amlinellir yn eu hadroddiadau

Disgwylir y byddai angen i strwythur arweinyddiaeth a rheolaeth yr ysgol gyflwyno'r cwricwlwm llawn, beth bynnag fo canlyniad y cynnig.

### 4.2 Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Nid oes gan Bennaeth Ysgol Uwchradd Caergybi unrhyw gyfrifoldebau addysgu, sy'n caniatáu amser i'r Pennaeth ymdrin â materion arweinyddiaeth a rheolaeth.

Nid oes gan y Pennaeth unrhyw ymrwymiadau addysgu penodol a rheolaidd ond gall gamu i mewn i gyflenwi yn ôl yr angen, er enghraifft oherwydd cyfnodau o salwch staff.

Os caiff y cynnig ei weithredu, efallai y bydd angen adolygu'r strwythur arweinyddiaeth a rheolaeth bresennol, os bydd nifer y dysgwyr yn newid yn y dyfodol.

Gan bydd ystod oedran yn Ysgol Uwchradd Caergybi yn aros yn 11-18 oed, bydd rhywfaint o amser rheoli ac arwain y Pennaeth yn parhau i ganolbwyntio ar ddarpariaeth ôl-16.

**4.3 Adeiladau ac Adnoddau**

Mae'r tabl isod yn manylu ar y sefyllfa bresennol o ran gradd cyflwr yr ysgol (2024), y gwariant cynnal a chadw cyfredol a rhagamcannol sydd ei angen i godi'r cyflwr i lefel addas (nid lefel Cymunedau Dysgu Cynaliadwy) a sut mae'r ysgol yn cydymffurfio â gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 o ran hygyrchedd. Mae'r wybodaeth isod ar gyfer Ysgol Uwchradd Caergybi gyfan:

| Ysgol Uwchradd Caergybi | Medi 2024 |
|---|---|
| Adeilad yr Ysgol – arwynebedd y llawr | 12,233 $m^2$ |
| Arwynebedd Safle'r Ysgol | 26,826 $m^2$ |
| Gwariant cynnal a chadw cyfredol a rhagamcannol | £28,985,743* |
| Gwariant cynnal a chadw cyfredol a rhagamcannol fesul $m^2$ (yn seiliedig ar arwynebedd llawr yr adeilad) | £2,369 |
| Gwariant cynnal a chadw cyfredol a rhagamcannol fesul $m^2$ (yn seiliedig ar arwynebedd safle'r ysgol) | £1,081 |
| Gwariant cynnal a chadw cyfredol a rhagamcannol **fesul dysgwr** (yn seiliedig ar niferoedd dysgwyr Medi 2023 a Medi 2024 yn y drefn honno) | £35,092 |
| Gradd Cyflwr** ar 2-12-23 | C |
| Nifer yr ystafelloedd dosbarth symudol ar y safle | Dim |
| Cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010 | Mae gan adeilad yr ysgol broblemau mynediad sylweddol |
| Addasrwydd ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm | Boddhaol, yn perfformio yn ôl y bwriad, ond nid yw'n cefnogi cyflwyno'r cwricwlwm yn effeithiol mewn rhai meysydd. |

*Mae'r cynnydd yn y gwariant cynnal a chadw presennol a'r gwariant rhagamcannol yn bennaf oherwydd y gwaith y bydd ei angen yn y dyfodol i ddisodli RAAC yn dilyn newidiadau i ganllawiau Llywodraeth y DU yn Awst 2023.

**Mae Llywodraeth Cymru yn categoreiddio cyflwr adeiladau ysgol ar raddfa A-D. Isod mae diffiniad o'r categorïau gwahanol:

A – Fel newydd

B – Yn weithredol ddiogel, ac yn dangos mân ddirywiad yn unig.

C – Gweithredol ond angen gwaith atgyweirio neu amnewid mawr yn y tymor byr i'r tymor canolig.

D – Risg difrifol o fethiant.

Mae Ysgol Uwchradd Caergybi wedi ei graddio fel "Gweithredol ond angen gwaith atgyweirio neu amnewid mawr yn y tymor byr i'r tymor canolig".

**4.4 Niferoedd Dysgwyr / Lleoedd Dros Ben**
Mae manylion niferoedd y dysgwyr ar y gofrestr (Medi 2024), niferoedd y dysgwyr am y pedair blynedd diwethaf (CYBLD Ionawr 2024) a rhagamcanion dysgwyr y dyfodol hyd at 2029 (fel y'u darparwyd gan yr ysgol o Fedi 2024) yn yr adran hon. Yn ogystal, mae manylion dysgwyr sy'n teithio rhwng dalgylchoedd wedi'u cynnwys hefyd.

**4.4.1 Niferoedd dysgwyr presennol a blaenorol Ysgol Uwchradd Caergybi am y pedair blynedd diwethaf (yn seiliedig ar ffigurau CYBLD bob Ionawr)**

| | | Niferoedd y dysgwyr | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol Uwchradd Caergybi | Capasiti | Ionawr 2020 | Ionawr 2021 | Ionawr 2022 | Ionawr 2023 | Ionawr 2024 | Medi 2024 |
| Blwyddyn 7-11 | | 703 | 739 | 752 | 733 | 728 | 724 |
| Blwyddyn 12-13 | | 114 | 140 | 131 | 140 | 115 | 102 |
| **Blwyddyn 7-13** | **1,170** | **817** | **879** | **883** | **873** | **843** | **826** |
| % Lleoedd dros ben | | **30.2%** | **24.9%** | **24.5%** | **25.4%** | **27.9%** | **29.4%** |

**4.4.2 Rhagolygon pum mlynedd**

Mae'r rhagamcanion a ddangosir yn y tabl isod (Medi 2024) yn seiliedig ar fformiwla a ddefnyddir gan y Cyngor i gyfrifo rhagolygon:

| Ysgol Uwchradd Caergybi | Capasiti | Rhagamcan Medi 2025 | Rhagamcan Medi 2026 | Rhagamcan Medi 2027 | Rhagamcan Medi 2028 | Rhagamcan Medi 2029 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Blwyddyn 7-11 | | 696 | 699 | 695 | 648 | 626 |
| Blwyddyn 12-13 | | 112 | 101 | 96 | 107 | 105 |
| **Blwyddyn 7-13** | 1170 | 807 | 800 | 790 | 754 | 732 |
| % Lleoedd dros ben | | 31.0% | 31.6% | 32.5% | 35.6% | 37.4% |

**4.4.3 Dysgwyr sy'n teithio rhwng dalgylchoedd.**

Medi 2024 - mae'r tabl isod yn nodi canran y dysgwyr sy'n teithio o'r tu allan i ddalgylch Ysgol Uwchradd Caergybi i fynychu'r ysgol:

| Cyfanswm nifer y dysgwyr all-dalgylch | Cyfanswm Poblogaeth yr Ysgol | Dysgwyr all-dalgylch fel % o'r boblogaeth ysgol |
|---|---|---|
| 37 | 826 | 4.5% |

Mae nifer y plant sy'n mynychu'r ysgol o'r tu allan i'r dalgylch yn isel yn Ysgol Uwchradd Caergybi

Mae'r tabl isod yn dangos pa ysgol uwchradd ar Ynys Môn y mae'r dysgwyr hyn yn ei mynychu:

| | **Medi 2024** | |
|---|---|---|
| **Nifer y dysgwyr sydd wedi'u cofrestru fel rhai sy'n byw yn nalgylch Ysgol Uwchradd Caergybi (YUC)** | **1,436** | |
| **Ysgolion a fynychir** | **Nifer y dysgwyr** | **% bras** |
| **Ysgol Uwchradd Caergybi** | 826 | **57.5%** |
| **Ysgol Uwchradd Bodedern** | 406 | **28.3%** |
| **Ysgol David Hughes** | 13 | **0.9%** |
| **Ysgol Gyfun Llangefni** | 30 | **2.1%** |
| **Ysgol Syr Thomas Jones** | 2 | **0.1%** |
| **Ysgol Friars - Bangor** | 132 | **9.2%** |
| **Ysgolion eraill yng Ngwynedd** | 27 | **1.9%** |

### 4.5 Ariannol

Mae'r tabl isod yn dangos y gost fesul dysgwr ar gyfer Ysgol Uwchradd Caergybi ac ysgolion uwchradd eraill yn Ynys Môn ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25:

| Ysgol | Ysgol Uwchradd Caergybi | Ysgol Syr Thomas Jones | Ysgol Gyfun Llangefni | Ysgol David Hughes | Ysgol Uwchradd Bodedern | Cyfartaledd Uwchradd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cost fesul dysgwr (2024/25) | **£6,428** | £7,323 | £6,605 | £6,368 | £6,853 | **£6,690** |

Ffynhonnell: Gwefan Stats Cymru – Cyllidebau Ysgol Dirprwyedig fesul disgybl, yn ôl sector (£) (llyw.cymru)

Mae'r gost fesul disgybl yn Ysgol Uwchradd Caergybi (£6,428) yn is na'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion uwchradd yn Ynys Môn (£6,690).

Ym Medi 2024, roedd gan 33.4% o ddysgwyr Ysgol Uwchradd Caergybi hawl i brydau ysgol am ddim. Mae'r tabl isod yn dangos sut mae hyn yn cymharu ag ysgolion uwchradd eraill Ynys Môn:

| **Ysgol** | **% y dysgwyr sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim:** |
|---|---|
| Ysgol Uwchradd Caergybi | 33% |
| Ysgol Uwchradd Bodedern | 22% |
| Ysgol Syr Thomas Jones | 20% |
| Ysgol Gyfun Llangefni | 20% |
| Ysgol David Hughes | 10% |

#### 4.5.1 Cyllidebau Ysgolion

| Ysgol | Ysgol Uwchradd Caergybi | Ysgol Syr Thomas Jones | Ysgol Gyfun Llangefni | Ysgol David Hughes | Ysgol Uwchradd Bodedern | Balansau cyfartalog Ysgolion Uwchradd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Sefyllfa Balansau Ysgolion ar 31 Mawrth 2024 | £945,565 | £258,916 | £527,586 | £347,322 | £543,426 | £524,563 |
| % o gyllideb yr ysgol | 15% | 7% | 10% | 5% | 10% | 9% |

Ar 31 Mawrth 2024, roedd gan bob ysgol falansau oedd yn cyfateb i 5% neu fwy o'u cyllideb ysgol. Mae'r Cyngor yn wynebu sefyllfa ariannol heriol dros y blynyddoedd nesaf, (fel pob Awdurdod Lleol) ac ni ellir eithrio cyllidebau ysgolion o hyn. Bydd ysgolion yn debygol o barhau i ddefnyddio eu balansau i gydbwyso eu cyllidebau dirprwyedig. Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro lefel a defnydd balansau ysgolion.

Y balansau ar gyfer Ysgol Uwchradd Caergybi yw'r uchaf o'r 5 ysgol uwchradd ac mae 80% yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion uwchradd Ynys Môn. Felly, os na chaiff y cynnig ei weithredu, mae gan Ysgol Uwchradd Caergybi falansau uwch i'w ddefnyddio na'r ysgolion uwchradd eraill ar Ynys Môn.

**4.6 Lles, gofal ac iechyd**

Mae cysylltiad cryf rhwng adeiladau / amgylcheddau ysgol a lles, gofal ac iechyd. Gall amgylchedd ysgol sydd wedi'i ddylunio'n dda wella iechyd corfforol a meddyliol plant, yn ogystal â gwella lles staff a gwneud iddynt deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae tiroedd ysgol sydd wedi'u cynllunio'n dda ac wedi'u datblygu'n feddylgar yn cyfoethogi'r cyfleoedd i ddysgu a chwarae. Mae cysylltiad a chyswllt â natur yn creu emosiynau mwy cadarnhaol a theimladau o fywiogrwydd, a llai o emosiynau negyddol; mae hefyd yn cynnig rhyddhad rhag blinder meddwl, a'r gallu i ganolbwyntio am gyfnod hirach.

Mewn un rhan, dywedodd adroddiad Estyn yn dilyn yr arolygiad yn Chwefror 2025: ***"Ceir diwylliant diogelu cryf yn yr ysgol. Mae llawer o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel ac mae bron pob un ohonynt yn gwybod ble i fynd i gael cymorth, os oes angen. Mae systemau i adrodd am, ymateb a rheoli pryderon yn gadarn ac yn cael eu deall yn dda. Mae arweinwyr yn ymateb yn gyflym i unrhyw dueddiadau negyddol mewn agweddau neu faterion sy'n dod i'r amlwg trwy roi cyfleoedd dysgu proffesiynol defnyddiol iddynt drafod yr agweddau hyn a chynllunio i fynd i'r afael â nhw. Mae trefniadau hyfforddi ac arferion recriwtio diogel yn addas."***

Gellid gwella lles, gofal ac iechyd dysgwyr pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu.

Nid oes cae chwarae gwyrdd addas sy'n hygyrch i ddysgwyr ar safle presennol Ysgol Uwchradd Caergybi ac mae dysgwyr ar hyn o bryd yn defnyddio'r caeau chwarae yn Millbank. Gallai adeilad ysgol newydd ar gyfer Ysgol Uwchradd Caergybi fynd i'r afael â'r holl ffactorau hyn.

Byddai adeilad ysgol newydd gyda mwy o le, awyrgylch ysgafn ac awyrog, a dyluniad modern yn cynnig nifer o fanteision. Mewn ysgolion lleol newydd a gwblhawyd yn ddiweddar, mae'r gofod gwell wedi caniatáu i'r plant deimlo eu bod wedi ymlacio fwy ac yn gyfforddus mewn amgylchedd dysgu llawer gwell ac wedi gwella llesiant cyffredinol pawb sy'n mynychu'r ysgol. Bu mwy o ymgysylltiad myfyrwyr, gwell ymddygiad a mwy o ymgysylltiad â'r gymuned.

Bydd gan yr adeilad ysgol newydd arfaethedig fwy o arwynebedd fesul dysgwr fel dangosir yn y tabl isod. Bydd hyn yn cyfrannu at wella llesiant y dysgwyr yn yr adeilad arfaethedig newydd:

| | **Ysgol Uwchradd Caergybi** | **Adeilad ysgol newydd** |
|---|---|---|
| Capasiti | 1,170 | 900 |
| Arwynebedd safle'r ysgol (m$^2$) | 26,826 | 55,300* |
| Arwynebedd fesul dysgwr sydd ar gael (m$^2$) | 22.9 | 61.4* |

*Ffynhonnell – Llywodraeth Cymru - Canllawiau Arwynebedd ar gyfer Ysgolion yng Nghymru Cymunedau Dysgu Cynaliadwy – cyhoeddwyd Mawrth 2025

**4.7 Cwricwlwm i Gymru**
Os caiff y cynnig ei roi ar waith, byddai'n sicrhau y bydd cwricwlwm yr ysgol yn parhau i gefnogi ei dysgwyr i fod:

- yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog, sy'n barod i ddysgu gydol eu hoes
- yn gyfranwyr mentrus, creadigol, sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith
- yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus Cymru a'r byd
- yn unigolion iach, hyderus, sy'n barod i fyw bywydau boddhaus fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

Byddai hyn yn wir am bob dysgwr yn yr ysgol.

**4.8 Yr Iaith Gymraeg**
Nod y Cyngor fydd cynnal a gwella'r ddarpariaeth ddwyieithog a chyfrwng Cymraeg yn unol â Strategaeth Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru, Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr Cymraeg, a Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA) y Cyngor ei hun ar gyfer 2022-2032. Y nod yw datblygu galluoedd dysgwyr fel dysgwyr dwyieithog yn llawn erbyn diwedd addysg ffurfiol.

Byddai gwireddu'r cynnig yn cefnogi'r duedd bresennol o welliant yn erbyn deilliannau 3-7 isod yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg y Cyngor.

Deilliant 3 - Mwy o blant yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod o'u haddysg statudol i'r llall.
Deilliant 4 - Mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau a asesir yn y Gymraeg (fel pwnc) a phynciau trwy gyfrwng y Gymraeg.
Deilliant 5 - Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau yn yr ysgol.
Deilliant 6 - Cynnydd yn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i ddysgwyr ag ychwanegol anghenion dysgu (ADY) (yn unol â'r dyletswyddau a osodir gan y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.
Deilliant 7 - Cynyddu nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu'r Gymraeg (fel pwnc) ac addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg

Mae Fforwm Iaith Ynys Môn (fforwm iaith Gymraeg Ynys Môn, sy'n annibynnol ar y Cyngor) yn derbyn gwybodaeth am gynnydd Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA) y Cyngor bob chwarter.

Mae pob ysgol ac awdurdod lleol yng Nghymru yn hysbysu rhieni a Llywodraeth Cymru am yr iaith y maent yn bwriadu ei haddysgu. Yng Nghymru, gall hyn fod yn Gymraeg neu Saesneg, neu drwy gyfuniad o'r ddwy iaith. Ers i'r polisi ar gyfer categoreiddio ysgolion fel hyn gael ei gyflwyno gyntaf yn 2007, mae ysgolion ac awdurdodau lleol wedi arwain ar sut y dylent gategoreiddio eu hysgolion yn ôl faint o'r cwricwlwm a gyflwynir drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae nifer y categorïau ysgolion yn cael eu lleihau i dri yn y sector cynradd a thri yn y sector uwchradd. Byddai ysgol cyfrwng Saesneg yn ysgol Categori 1, ysgol ddwy iaith yn ysgol Categori 2 ac ysgol cyfrwng Cymraeg yn ysgol Categori 3. Rhwng y categorïau hyn mae categorïau trosiannol e.e., T2 (rhwng Cat 1 a Cat 2) a T3 (rhwng Cat 2 a Cat 3).

Un o’r egwyddorion craidd wrth gyflwyno’r trefniadau newydd yw na ddylai ysgolion gynnig llai o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol nag sydd wedi’i wneud yn y gorffennol. Wrth leihau nifer y categorïau, mae opsiwn i ysgolion dyfu eu darpariaeth Gymraeg o fewn y categori hwnnw. Byddai unrhyw newid (lleihad neu gynnydd) yn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn gyfystyr â ‘newid a reoleiddir’ fel y nodir o dan adran 42 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013 ac yn sbarduno proses ymgynghori fel yr amlinellir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018. Datblygu mwy o siaradwyr Cymraeg hyderus yn eu gallu i ddefnyddio’u hiaith mewn cymaint o gyd-destunau â phosibl sydd wrth wraidd Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr. Dyna pam, wrth ddiffinio categori iaith ysgol, rydym wedi rhoi mwy o bwyslais ar gyfleoedd i ddefnyddio a mwynhau’r Gymraeg y tu allan i’r dosbarth.
Ar hyn o bryd, mae tri deg wyth o ysgolion cynradd yng nghategori 3. Ac mae un Ysgol Gynradd Sefydledig yng nghategori 2. Diffiniad Categori 3 ar gyfer ysgolion Cynradd yw:
Cymraeg yw prif iaith cyfathrebu mewnol yr ysgol. Mae cyfathrebu â rhieni a gofalwyr naill ai yn Gymraeg, yn Saesneg neu'n ddwyieithog yn ôl yr angen. Mae hon yn ysgol ag ethos Cymraeg cryf yn greiddiol iddi, gan gefnogi a galluogi dysgwyr i ddefnyddio’r Gymraeg ym mhob cyd-destun cymdeithasol yn yr ysgol a thu allan iddi. Mewn lleoliad trochi Cymraeg addysgir pob dysgwr yn llawn yn y Gymraeg, gyda Saesneg yn cael ei defnyddio ar adegau i sicrhau dealltwriaeth yn ystod trochi cynnar. O 7 oed ymlaen bydd o leiaf 80% o weithgareddau ysgol dysgwyr (cwricwlaidd ac allgyrsiol) yn Gymraeg.

Yn ogystal, mae gan Ynys Môn ar hyn o bryd 4 ysgol Uwchradd yng nghategori 3 ac 1 mewn categori trosiannol (T3). **Mae Ysgol Uwchradd Caergybi yn y categori trosiannol hwn ac wedi dechrau ar y broses uchelgeisiol o drosglwyddo i gategori 3 o fewn cynllun pum mlynedd, gan gyrraedd categori 3 erbyn Medi 2029.**

Er bod y broses drosiannol hon yn annibynnol ar y cynnig hwn, os cytunir ar y cynnig, bydd yn cynyddu’r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Uwchradd Caergybi i fodloni’r galw.

Y diffiniad o ysgol uwchradd Categori 3 yw:
Categori 3 – Bydd ysgol cyfrwng Cymraeg yn cynnig ystod eang o’i Meysydd Dysgu a Phrofiad (MDaPh) drwy gyfrwng y Gymraeg. O leiaf 60% o ddysgwyr yn ymgymryd ag o leiaf 70% o weithgareddau eu hysgol (cwricwlaidd ac allgyrsiol) yn Gymraeg. Disgwylir i ysgolion Categori 3 barhau i adlewyrchu cyd-destun ieithyddol yr ardal wrth weithio tuag at gynyddu eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg dros amser.

**4.9 Defnydd Cymunedol**
Gallai adeilad ysgol newydd ar gyfer Ysgol Uwchradd Caergybi hefyd wneud y defnydd gorau o adnoddau ac isadeiledd i ddarparu gwasanaethau i gymunedau Caergybi a'r cylch. Mae hyn yn golygu cael asedau hyblyg fel bod modd i’r gymuned (gan gynnwys plant, oedolion, a phobl hŷn) ddefnyddio’r ased a’r adnoddau. Bydd rhai cyfleusterau o fewn yr YUC newydd ar gael i’w defnyddio gan y gymuned y tu allan i oriau ysgol. Gallai hyn gefnogi gwytnwch cymunedau a helpu i liniaru effaith tlodi.

Byddai hyn yn galluogi'r Cyngor a'r ysgol newydd bosibl i fod yn Ysgol Fro, gan adeiladu partneriaethau cryf gyda theuluoedd, ymgysylltu â'r gymuned ehangach a chydweithio'n effeithiol â sectorau a gwasanaethau eraill. Byddai hyn yn unol â chanllawiau diweddaraf Llywodraeth Cymru:

Ysgolion Bro [HTML] | LLYW.CYMRU

**4.10 Datgarboneiddio**
Rhan allweddol o'r daith i gyflawni carbon sero net yn y Cyngor fydd adolygu defnydd a pherfformiad holl asedau'r Cyngor, gan sicrhau'r ôl troed carbon lleiaf posibl tra'n parhau i ddarparu gwasanaethau i'n cymunedau. Mae Ysgol Uwchradd Caergybi yn y deg uchaf o holl asedau'r Cyngor o ran allyriadau carbon. Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai'r adeilad ysgol newydd posibl yn mynd i'r afael â'r mater hwn gan y byddai yn ysgol ddi-garbon net.

Gweler data am allyriadau carbon deuocsid yr ysgol isod:

| **Allyriadau Carbon deuocsid (tunnell $CO_2e$ neu $tCO_2e$)** | **2021/22** | **2022/23** | **2023/24** |
|---|---|---|---|
| Trydan | 64 | 59 | 57 |
| Nwy | 159 | 152 | 150 |
| Cyfanswm | **223** | **211** | **207** |

Er bod yr allyriadau carbon deuocsid yn lleihau, mae YUC yn parhau i fod ymhlith y deg uchaf o adeiladau'r Cyngor sydd efo'r allyriadau uchaf.

**4.11 Darpariaeth Ôl-16**
Mae'r Cyngor yn gweithredu Consortiwm Dysgu Ôl-16 gyda Gwynedd a Grŵp Llandrillo Menai, ac mae'r Consortiwm yn gyfrifol am gomisiynu darpariaeth ôl-16 i fodloni gofynion cwricwlwm y cytunwyd arnynt yn lleol ar gyfer addysg a hyfforddiant.

Er bod y Consortiwm Addysg Ôl-16 wedi llwyddo i resymoli'r ddarpariaeth, nid yw'r drefn bresennol yn gynaliadwy o ran costau teithio a dosbarthiadau bach. Yn ogystal, gan fod ysgolion eisoes wedi rhesymoli nifer y cyrsiau nad ydynt yn hyfyw, mae dysgwyr yn treulio cyfnodau rheolaidd yn teithio o un ysgol i'r llall.

**Gweler yr adroddiad ar yr ymgysylltu ôl-16 a gynhaliwyd ym mis Chwefror a mis Mawrth 2025 am ragor o fanylion.**

**4.12 Materion Cyffredinol**
Mae'r adran hon yn cyfeirio at drefniadau Teithio, Anghenion Dysgu Ychwanegol ac unrhyw ddatblygiadau tai tebygol yn yr ardal a allai effeithio ar niferoedd dysgwyr.

**4.12.1 Teithio**

Mae safle arfaethedig ar gyfer yr ysgol uwchradd arfaethedig ar dir ger Canolfan Hamdden Caergybi, yn amodol ar gaffael tir yn llwyddiannus. Gall hyn olygu y bydd amseroedd teithio ychwanegol a chostau ychwanegol i rai dysgwyr. Fodd bynnag, rhagwelir y gall rhai gostau cludiant leihau oherwydd ni fydd angen i'r dysgwyr hynny sy'n dymuno cael darpariaeth cyfrwng Cymraeg, gwbl ddwyieithog gael eu cludo allan o ddalgylch eu hysgol i'r ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg agosaf.

Mae gan y Cyngor ddyletswydd i ddarparu cymorth teithio yn unol â Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008. Mae'r Cyngor yn darparu cludiant ysgol am ddim i ddysgwyr ysgol uwchradd amser llawn sy'n byw 3 milltir neu fwy o'r ysgol y maent yn byw yn ei dalgylch (ac eithrio dysgwyr 6ed dosbarth / myfyrwyr addysg bellach). Gwybodaeth bellach ar gael yn y polisi cludiant ysgol: https://www.ynysmon.llyw.cymru/cy/Trigolion/Ysgolion-a-dysgu/Cludiant-ysgol/Polisi-Cludiant-Ysgol.aspx

Mae’r rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu yn gysylltiedig â **Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013**. Mae’r Ddeddf yn gosod uchelgais clir i wella llwybrau cerdded a beicio i’n helpu i fodloni ein hamcanion amgylcheddol ac iechyd. Os bydd y cynnig yn cael ei dderbyn, bydd cynlluniau teithio llesol yn cael eu hadolygu a’u paratoi yn unol â'r Ddeddf ar gyfer adeilad newydd Ysgol Uwchradd Caergybi unwaith y dewisir safle.

### 4.12.2 Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

Os cytunir ar y cynnig presennol, byddai'n arwain at newid yn amgylchedd dysgu dysgwyr o Ysgol Uwchradd Caergybi. Fodd bynnag, cydnabyddir y gallai'r newid fod yn fwy heriol i rai dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Cymerir pob cam ymarferol i sicrhau cyn lleied o darfu â phosibl ac i gynorthwyo dysgwyr gydag unrhyw drosglwyddiad. Byddai'r Cyngor yn cael cyngor gan dimau penodol (y mae'r dysgwyr yn ddarostyngedig iddynt) i nodi a gweithredu strategaethau perthnasol i hwyluso'r trosglwyddiad. Gallai hyn gynnwys (er enghraifft):

- Adnodd gweledol gyda ffotograffau o bobl/lleoedd allweddol yn yr ysgol. Gellir anfon hwn yn uniongyrchol at blant ag ADY neu rai sy'n cael eu hystyried yn fregus.
- Darparu adnoddau gweledol ynglŷn â rheolau a threfn y dydd megis lluniau o'r wisg ysgol, nifer y gwersi bob dydd, amser cinio ac ati.
- Trefnu i'r athro dosbarth ffonio, ymweld, neu ysgrifennu at y dysgwyr i siarad gyda nhw ac i roi gwybod iddynt ei fod yn meddwl amdanynt cyn y trosglwyddo.
- Yr ysgol i roi taflen Holi ac Ateb i rieni a gofalwyr gyda chwestiynau ac atebion allweddol a ofynnir yn aml.
- Ysgolion i geisio cael cymaint o wybodaeth â phosibl am y dysgwr gan y rhieni a'r gofalwyr, y dysgwr, yr ysgol flaenorol, neu unrhyw asiantaethau sy'n ymwneud â'r dysgwr.

Os caiff y cynnig ei dderbyn, byddai asesiad o anghenion yn cael ei gynnal i nodi’r lefel a’r math o gymorth sydd ei angen er mwyn hwyluso’r broses o drosglwyddo dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol.

Byddai unrhyw ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol sy'n mynychu Ysgol Uwchradd Caergybi ar hyn o bryd yn parhau i gael y lefel o gymorth sydd ei angen i ddiwallu eu hanghenion addysgol unigol yn adeilad newydd yr ysgol.

Byddai'r Cyngor yn darparu cymorth a chefnogaeth briodol i ddysgwyr ADY. Os bydd gan rieni dysgwyr sydd wedi cofrestru ADY unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r gefnogaeth a gynigir, gellir trefnu cyfarfodydd unigol gyda'r Uwch Reolwr ADY a Chynhwysiad trwy ffonio 01286 679007 neu E-bost: GweinyddolADYaCH@gwynedd.llyw.cymru

### 4.12.3 Datblygiadau tai

Mae rhagamcanion yn cadarnhau bod disgwyl i nifer y dysgwyr ar gyfer Ysgol Uwchradd Caergybi ostwng.

Mae’r tabl isod yn dangos y dyraniad sy’n weddill ar gyfer datblygiadau tai yn y dalgylchoedd ysgol sydd â chaniatâd cynllunio (2018-2026).

| Gweddill y dyraniad ar gyfer datblygiadau tai yn y dalgylch gyda neu heb ganiatâd cynllunio (2018-2026) | Amcangyfrif Nifer cyfatebol y dysgwyr * |
|---|---|
| 529 | Amcangyfrif - 80 o ddysgwyr |

*Mae tystiolaeth yn awgrymu bod gan bob tŷ o fewn yr ardal gynnyrch ehangach haen ganol [MSOA*[1]] ar gyfartaledd, 0.15 o blant oed ysgol uwchradd. Mae lluosi nifer y datblygiadau tai â 0.15 yn rhoi amcangyfrif o nifer y plant ychwanegol y byddai angen eu haddysgu yn yr ysgol benodol honno.
*[1] MSOA - ardaloedd fel y'u diffinnir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, ar gyfer adrodd ar wybodaeth cyfrifiad. Mae'r MSOA fel arfer yn cynnwys rhwng 2,000 a 6,000 o aelwydydd ac mae ganddynt boblogaeth o rhwng 5,000 a 15,000 o bobl. Mae rhagor o wybodaeth am yr MSOAs ar gael ar y ddolen ganlynol - Census 2021 geographies - Office for National Statistics (ons.gov.uk)

Pe bai'r holl ddarpariaeth tai a nodir uchod yn cael ei gwireddu, byddai digon o leoedd o hyd yn adeilad newydd Ysgol Uwchradd Caergybi.

Mae'n bwysig nodi bod rhagamcanion yn anodd gan fod rhai dysgwyr yn mynychu'r ysgolion o ddalgylchoedd eraill.

**4.12.4 Porthladd Rhydd**

Mae gan Borthladd Rhydd Ynys Môn y potensial i fod yn gyfle gwych i wella economi Gogledd Cymru drwy ddenu mewnfuddsoddiad sylweddol i gyrru gweithgarwch economaidd, gan ddarparu swyddi sgiliau uchel, â chyflogau uchel i'r gweithlu lleol. Mae Porthladd Rhydd yn ardal ddynodedig, sy'n cynnig manteision treth, tollau a rheoleiddio arbennig i annog gweithgarwch economaidd a grëir gan lywodraethau'r DU a Chymru i roi hwb i fuddsoddiad mewn rhannau o'r wlad gyda chymhellion hael. Bydd y cyfleoedd y bydd y Porthladd Rhydd yn eu creu yn ganolog i sicrhau ffyniant hirdymor cymunedau ar draws Ynys Môn ac yn helpu gwarchod hunaniaeth falch a threftadaeth yr ardal leol. Bydd hyn yn ei dro yn creu cyfleoedd i ddysgwyr Ysgol Uwchradd Caergybi ac yn creu swyddi iddynt ac yn lleihau allfudiad o bobl ifanc. Mae Gyrfaoedd ac Addysg sy'n gysylltiedig â Gwaith yn thema drawsbynciol newydd yng Nghwricwlwm Cymru lle mae'n rhaid i ysgolion gynllunio gyrfaoedd o safon a phrofiadau sy'n gysylltiedig â gwaith. Gallai'r cyfleoedd o amgylch y Porthladd Rhydd Ynys Môn helpu pobl ifanc i gael profiadau a fydd yn agor eu llygaid i gyfleoedd cyflogaeth posibl yn yr ardal.

**Isod mae'r casgliadau y daethpwyd iddynt ar sail y gyrwyr newid allweddol ar gyfer Ysgol Uwchradd Caergybi.**

- Roedd safonau fel y'u hamlinellwyd yn adroddiad diweddaraf Estyn dyddiedig Chwefror 2025.
- Gallai fod newidiadau i'r strwythur arweinyddiaeth a rheolaeth bresennol os bydd nifer y dysgwyr yn newid yn y dyfodol.
- Mae gwariant cynnal a chadw cyfredol a rhagamcannol (Medi 2024) o bron i £29 miliwn ar adeilad presennol yr ysgol.
- Mae adeilad presennol yr ysgol wedi'i raddio fel gradd C (Gweithredol ond angen gwaith atgyweirio neu amnewid mawr yn y tymor byr i'r tymor canolig). Yn dilyn newidiadau yng nghanllawiau Llywodraeth y DU mewn perthynas â Choncrit Awyredig Awtoclafiedig Cyfnerth (RAAC) cynhaliwyd gwaith adfer ar raddfa eang a ddiogelodd strwythur yr ysgol yn y tymor canolig, ond nid yw hwn yn ateb hirdymor.
- Dim ond yn rhannol y mae adeilad presennol yr ysgol yn cwrdd â gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae gan yr adeilad presennol broblemau mynediad sylweddol.
- Fis Medi 2024, roedd 29% o leoedd gweigion yn Ysgol Uwchradd Caergybi
- Mae 33.5% o ddysgwyr sy'n byw yn y dalgylch yn mynychu ysgolion eraill ar yr ynys ac yng Ngwynedd.
- Mae'r gost fesul dysgwr yn Ysgol Uwchradd Caergybi yn is na'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion uwchradd ar Ynys Môn. Roedd balansau'r ysgol hefyd yr uchaf o'r 5 ysgol uwchradd yn Ynys Môn ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2023/24 ar 15% o gyllideb yr ysgol.
- Mae diffyg caeau chwarae ar safle presennol yr ysgol gyda dysgwyr ysgol yn defnyddio caeau chwarae Millbank.
- Mae Ysgol Uwchradd Caergybi ar hyn o bryd wedi'i chategoreiddio fel T3 sy'n addysgu trwy gyfrwng y Saesneg gydag addysgu sylweddol trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r newid categori yn annibynnol ar y cynnig hwn.
- Yn ogystal â dysgwyr yn defnyddio cyfleusterau'r ysgol ar gyfer gweithgareddau allgyrsiol, mae grwpiau cymunedol yn defnyddio cyfleusterau Ysgol Uwchradd Caergybi yn ystod y tymor ac yn ystod gwyliau'r ysgol.
- Mae Ysgol Uwchradd Caergybi yn y deg uchaf o holl asedau'r Cyngor o ran allyriadau carbon uchel.
- Mae cludiant i'r ysgol i ddysgwyr yn unol â Pholisi Cludiant Ysgol y Cyngor.
- Mae safle arfaethedig ar gyfer yr ysgol uwchradd arfaethedig ar dir ger Canolfan Hamdden Caergybi, yn amodol ar gaffael tir yn llwyddiannus. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd costau cludiant yn cael eu lleihau oherwydd efallai na fydd angen i'r dysgwyr hynny sy'n dymuno cael darpariaeth cyfrwng Cymraeg, gwbl ddwyieithog gael eu cludo allan o ddalgylch eu hysgol i'r ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg agosaf.
- Os gwireddir y datblygiadau tai yn nalgylch yr ysgol, byddai digon o le yn yr ysgol ar gyfer darpar ddysgwyr ychwanegol blwyddyn 12 a 13.

Felly, gellir casglu o'r adran hon bod angen rhoi sylw i adeilad ysgol Ysgol Uwchradd Caergybi er mwyn darparu model cynaliadwy ar gyfer y blynyddoedd i ddod

Trafodir yr heriau allweddol y mae Ysgol Uwchradd Caergybi yn eu hwynebu a sut y gall y cynnig fynd i'r afael â hwy yn Adran 5.

## 5. HERIAU ALLWEDDOL A WYNEBIR GAN YSGOL UWCHRADD CAERGYBI

Mae'r adran hon yn trafod yr heriau allweddol y mae Ysgol Uwchradd Caergybi yn eu hwynebu a sut y gallai'r cynnig fynd i'r afael â nhw. Yn ogystal, rhoddir ystyriaeth i ffactorau penodol wrth benderfynu ar gynigion trefniadaeth ysgolion ar gyfer ysgolion uwchradd.

### 5.1 Sut gallai'r cynnig fynd i'r afael â'r heriau allweddol?

Mae'r tabl isod yn dangos sut y gellid mynd i'r afael â'r heriau allweddol a wynebir gan Ysgol Uwchradd Caergybi o ganlyniad i'r cynnig i:

"Adleoli dysgwyr Ysgol Uwchradd Caergybi i adeilad ysgol newydd ar gyfer dysgwyr 11-18 oed".

| | Heriau allweddol | Sut y byddai'r cynnig yn mynd i'r afael â nhw |
|---|---|---|
| **Adeiladau ac adnoddau** | Mae archwiliad o adeilad yr ysgol yn dynodi bod diffygion difrifol. Mae adeilad yr ysgol wedi'i gategoreiddio fel "Gweithredol ond angen gwaith atgyweirio neu amnewid mawr yn y tymor byr i'r tymor canolig". Mesurau dros dro oedd y gwaith adfer Concrit Awyredig Awtoclafiedig Cyfnerth (RAAC) diweddar yn 30% o adeilad yr ysgol. | Trwy fuddsoddi mewn adeiladau ysgolion, mae'r Cyngor am greu gwell cyfleusterau y gall dysgwyr a'r gymuned ehangach eu defnyddio. Mae hyn yn cynnwys mynediad at addysg barhaus i oedolion, gofal plant, chwaraeon, hamdden, gweithgareddau cymdeithasol eraill, a gweithgareddau diwylliannol.<br>Mae buddsoddi mewn adeilad ysgol newydd ar gyfer Ysgol Uwchradd Caergybi hefyd yn lleihau'r baich cynnal a chadw ar y Cyngor. |
| **Niferoedd dysgwyr** | Ar hyn o bryd mae 29% o leoedd gweigion yn Ysgol Uwchradd Caergybi. | Trwy weithredu'r cynnig hwn, byddai'r Cyngor yn gwneud defnydd mwy effeithlon o adnoddau ac yn lleihau'r lleoedd dros ben yn yr ysgol. |
| **Lles, Gofal ac Iechyd** | Nid oes cae chwarae gwyrdd addas sy'n hygyrch i ddysgwyr ar y safle presennol.<br><br>Lleolir caeau'r ysgol oddi ar safle'r ysgol, ar draws dwy ffordd a thu ôl i ysgol gynradd gyfagos.<br><br>Dim ond yn rhannol y mae'r ysgol yn cwrdd â gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 ac nid yw'n gallu cynnig mynediad eang ar draws safle'r ysgol.<br><br>Mae peth defnydd o gyfleusterau'r ysgol gan y gymuned. | Gall amgylchedd ysgol sydd wedi'i ddylunio'n dda wella iechyd corfforol a meddyliol plant, yn ogystal â gwella lles staff a gwneud iddynt deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi.<br>Mae tiroedd ysgol sydd wedi'u cynllunio'n dda ac wedi'u datblygu'n feddylgar yn cyfoethogi'r cyfleoedd i ddysgu a chwarae. Mae cysylltiad a chyswllt â natur yn creu emosiynau mwy cadarnhaol a theimladau o fywiogrwydd, a llai o emosiynau negyddol; mae hefyd yn cynnig rhyddhad rhag blinder meddwl, a'r gallu i ganolbwyntio am gyfnod hirach.<br>Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i fuddsoddi mewn amgylchedd dysgu Ysgolion Bro, drwy gydleoli gwasanaethau allweddol, a sicrhau ymgysylltiad cryfach â rhieni a |

| | Heriau allweddol | Sut y byddai'r cynnig yn mynd i'r afael â nhw |
|---|---|---|
| | | gofalwyr y tu allan i oriau traddodiadol. Mae rhaglen Ysgolion Bro y Cyngor yn mynd i'r afael â thlodi plant ac yn lliniaru ei effeithiau, gan gynnwys yr anghydraddoldebau addysgol y mae plant yn eu profi oherwydd byw mewn tlodi. |
| **Cwricwlwm i Gymru** | Nid oes neuadd chwaraeon ddynodedig ar gael. Mae'r Ganolfan Hamdden yn rhy bell o safle'r ysgol. Mae campfa a gofod allanol yr ysgol yn cyfyngu ar yr hyn y gellir ei gynnig i ddysgwyr mewn perthynas â'r Maes Dysgu Iechyd a Lles | Gallai adeilad ysgol newydd ar gyfer Ysgol Uwchradd Caergybi sicrhau bod gan yr ysgol yr adnoddau i yrru'r cwricwlwm newydd yn ei flaen yn llwyddiannus, i fodloni'r pedwar prif ddiben o ddatblygu:<br>•Dysgwyr uchelgeisiol, galluog<br>•Cyfranwyr mentrus, creadigol<br>•Dinasyddion egwyddorol, gwybodus,<br>•Unigolion iach, hyderus |
| **Yr Iaith Gymraeg** | Ysgol Uwchradd Caergybi yw'r unig ysgol uwchradd ar Ynys Môn sydd ddim yn un cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd. Mae bellach wedi'i chategoreiddio fel T3 ac felly mewn cyfnod trosiannol tuag at fod yn gyfrwng Cymraeg erbyn Medi 2029. | Mae'r trawsnewid i fod yn ysgol cyfrwng Cymraeg wedi dechrau a bydd yn parhau, dros y 5 mlynedd nesaf, i ddatblygu a chryfhau'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn y dosbarth ac mewn cyd-destunau anffurfiol. Drwy fod yn ysgol fro, gall y lleoliad newydd hefyd wasanaethu fel canolbwynt cymunedol i helpu i gefnogi ac annog y Gymraeg yn y gymuned ehangach. Ymhellach, gallai'r cynnig newydd sicrhau mynediad ehangach a mwy effeithlon at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn ardal Caergybi, gan ganiatáu i ddysgwyr aros o fewn eu dalgylch daearyddol ar gyfer darpariaeth ysgol uwchradd tra hefyd yn sicrhau eu bod yn symud ymlaen ar hyd y continwwm iaith. Gall hyn yn ei dro gael effaith gadarnhaol ar y defnydd o'r Gymraeg yn yr ardal. |
| **Datgarboneiddio** | Mae adeilad presennol yr ysgol yn 10 uchaf y Cyngor o ran allyriadau carbon uchel. Yn 2023/24, yr allyriadau oedd 207t $CO_2e$. (Gweler rhan 4.10 uchod am fwy a fanylion)<br>Mae'r Cyngor o'r farn na ellir gwneud dim pellach i leihau datgarboneiddio'r adeilad yn ei gyflwr presennol. | Byddai'r adeilad newydd yn ysgol ddi-garbon net unwaith y byddai yn weithredol.<br>Byddai'r cynnig yn galluogi'r Cyngor i wella bioamrywiaeth ar y safle posib ac i wrthbwyso allyriadau carbon. |

| | Heriau allweddol | Sut y byddai'r cynnig yn mynd i'r afael â nhw |
|---|---|---|
| **Darpariaeth ôl-16** | Mae nifer y cyrsiau dwyieithog mewn addysg ôl-16 a gynigir gan yr ysgol yn gyfyngedig oherwydd ei chategori iaith. | Os gwireddir y cynnig hwn, byddai'r Ysgol Uwchradd Caergybi newydd yn ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg Categori 3 pan fydd yn agor. Disgwylir wedyn y byddai cynnydd yn nifer y cyrsiau sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg i ddysgwyr ôl-16. |
| **Deddf Cydraddoldeb 2010** | Mae gan adeilad presennol Ysgol Uwchradd Caergybi broblemau mynediad sylweddol. | Os bydd y cynnig yn dwyn ffrwyth, bydd Ysgol Uwchradd Caergybi yn cwrdd yn llawn â gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010. |

**5.2 Ystyriaeth i ffactorau penodol**

Mae'r cod trefniadaeth ysgolion yn nodi bod angen ystyried y ffactorau penodol a ganlyn, a amlinellir yn y tabl isod, wrth benderfynu ar gynigion trefniadaeth ysgolion ar gyfer ysgolion uwchradd.

| Ffactorau penodol | Sut mae'r cynnig yn mynd i'r afael â nhw |
|---|---|
| A fydd y cynnig yn arwain at welliant yng nghyflawniadau addysgol neu hyfforddiant pobl sydd dros oedran ysgol gorfodol ond o dan 19 oed. | Mae'r cynnig yn buddsoddi mewn amgylchedd dysgu Ysgol Fro sy'n gwasanaethu ardal o amddifadedd uchel (ym Medi 2024, roedd gan 33.4% o ddysgwyr hawl i brydau ysgol am ddim), cydleoli gwasanaethau allweddol, a sicrhau ymgysylltiad cryfach â rhieni a gofalwyr y tu allan i oriau traddodiadol. Bydd hyn yn helpu i fynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol er mwyn sicrhau safonau a dyheadau uchel i bawb. |
| A fydd y cynnig yn cyfrannu at amrywiaeth briodol o gyrsiau a chymwysterau perthnasol a llwybrau dysgu galwedigaethol o ansawdd uchel, sy'n seiliedig ar anghenion cyflogwyr, ac sydd wedi'u hanelu at ddysgwyr o bob gallu, a hefyd yn cynnal TGAU, UG/Safon Uwch a chyrsiau sefydledig eraill, fel sy'n ofynnol o dan Fesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 ar gyfer dysgwyr 14–19 oed. | Mae ysgolion Ynys Môn yn rhan o Gonsortiwm Addysg ôl-16 Ynys Môn-Gwynedd. Bydd y cynnig yn gweld dysgwyr yn parhau i gael mynediad at yr un ystod briodol o gyrsiau a chymwysterau perthnasol a llwybrau dysgu galwedigaethol o ansawdd uchel, sy'n seiliedig ar anghenion cyflogwyr, ac sydd wedi'u hanelu at ddysgwyr o bob gallu. Bydd y rhain ar gael naill ai yn yr ysgol, ar safle ysgol arall neu Coleg Menai (y coleg AB). |
| A yw'r cynnig yn debygol o arwain at fwy o gyfranogiad mewn dysgu gan ddysgwyr y tu hwnt i oedran ysgol gorfodol, gan ystyried materion trafnidiaeth a chostau i'r dysgwr ac eraill, fforddiadwyedd costau o'r fath, a'r tebygolrwydd y bydd dysgwyr yn fodlon teithio. | Ni fydd dysgwyr o dan unrhyw anfantais gan nad yw dysgwyr sy'n hŷn nag oed ysgol gorfodol yn gymwys i gael cludiant ysgol am ddim. Fodd bynnag, fel rhan o'r cynnig, bydd llwybrau teithio llesol newydd yn cael eu cynllunio i annog dysgwyr a'r gymuned sydd angen mynediad i'r safle i ddefnyddio dulliau teithio mwy cynaliadwy. |

| Ffactorau penodol | Sut mae'r cynnig yn mynd i'r afael â nhw |
|---|---|
| I ba raddau y mae'r cynnig yn cyfrannu at yr agenda 14-19 gan ystyried barn rhwydweithiau 14-19 rhanbarthol. | Bydd y cynnig yn cynnal y gwaith partneriaeth llwyddiannus presennol o fewn fframwaith consortiwm, lle mae ysgolion ar draws Ynys Môn a Gwynedd, ochr yn ochr â'r coleg AB, yn sicrhau cydgynllunio a darparu gwasanaethau ar gyfer Llwybrau Dysgu ac addysg a hyfforddiant ôl-16 yn gost effeithiol ac effeithlon. Gall y cynnig hefyd gynnig y cyfle i ehangu'r ystod o bynciau a gynigir gyda mynediad ar y safle at adnoddau arbenigol. Bydd y cynnig yn ategu'r system drydyddol bresennol ar gyfer ôl-16.<br>Gweler yr adroddiad ar yr ymgysylltiad ar addysg ôl-16 am fwy o wybodaeth. |
| Effaith cynigion ar ddarpariaeth 11-16 mewn ysgolion. | Cwricwlwm 14-19 gweler uchod. |
| Sut y byddai cynigion yn effeithio ar hyfywedd sefydliadau sydd eisoes yn darparu darpariaeth ôl-16 o ansawdd da, gan gynnwys chweched dosbarth mewn ysgolion, Sefydliadau Addysg Bellach a sefydliadau hyfforddi preifat. | Bydd addysg a hyfforddiant ôl-16 yn parhau i gael eu cynllunio'n strategol a'u darparu yn (gost) effeithiol ar draws y ddwy sir er budd dysgwyr ôl-16. Yn unol â thelerau'r cytundeb, bydd cyd-gynllunio a darparu gwasanaethau ar gyfer addysg a hyfforddiant ôl-16 yn parhau i sicrhau nad oes unrhyw ddyblygu darpariaeth. Bydd y cynnig yn cyfrannu at adolygiad ehangach o ddarpariaeth addysg ôl-16 ar yr ynys. |
| Sut y gallai'r cynigion effeithio ar gynaliadwyedd neu wella darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y rhwydwaith 14-19 rhanbarthol a'r ardal ehangach a hyrwyddo mynediad at argaeledd cyrsiau cyfrwng Cymraeg mewn addysg ôl-16. | Yn unol â Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg a statws trosiannol yr ysgol newydd, rhagwelir y bydd y cynnig newydd yn sicrhau mynediad ehangach at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ac yn cynyddu argaeledd cyrsiau cyfrwng Cymraeg mewn addysg ôl-16 erbyn y dyddiad cwblhau. |
| Y graddau y bydd cynigion yn rhoi manteision ychwanegol i ddysgwyr o gymharu â chadw'r sefyllfa bresennol a dewisiadau posibl eraill ar gyfer trefniadaeth ôl-16. | Byddai'r cynnig yn rhan allweddol o'r gymuned leol, gan gynnig cyfleoedd i ddefnyddio cyfleusterau modern yr ysgol ar gyfer gweithgareddau llesiant, chwarae, chwaraeon, diwylliannol a chymunedol eraill. Byddai gwasanaethau cymorth neu gynghori eraill hefyd yn cael eu gwneud yn hysbys. |
| Sut y gall cynigion effeithio ar y ddarpariaeth cludiant dewisol y gall y Cyngor ei darparu i ddysgwyr sy'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol. | Rhoddir sylw i'r ddarpariaeth cludiant dewisol unwaith y bydd lleoliad yr adeilad ysgol newydd wedi'i gadarnhau. Byddai'r Cyngor yn ceisio lleihau'r gost cludiant dewisol. |

### 5.3 Crynodeb o'r heriau allweddol a wynebir gan Ysgol Uwchradd Caergybi

Mae'r heriau allweddol sy'n wynebu Ysgol Uwchradd Caergybi a sut y gellid mynd i'r afael â nhw trwy weithredu'r cynnig, wedi'u rhestru isod:

- Mae archwiliad o adeilad yr ysgol yn dynodi bod diffygion difrifol. Mae adeilad yr ysgol wedi'i gategoreiddio fel "Gweithredol ond angen gwaith atgyweirio neu amnewid mawr yn y tymor byr i'r tymor canolig". Mesurau dros dro oedd y gwaith adfer brys ar gyfer Concrit Awyredig Awtoclafiedig Cyfnerth (RAAC) a gynhaliwyd yn ystod 2023/24 mewn 30% o adeilad yr ysgol. Roedd hyn o ganlyniad i newidiadau yng nghanllawiau llywodraeth y DU.
- Mae gwariant cynnal a chadw cyfredol a rhagamcannol (Medi 2024) o bron i £29 miliwn ar adeilad presennol yr ysgol.
- Mae adeilad presennol yr ysgol wedi'i raddio fel gradd C (Gweithredol ond angen gwaith atgyweirio neu amnewid mawr yn y tymor byr i'r tymor canolig).
- Dim ond yn rhannol y mae adeilad presennol yr ysgol yn cwrdd â gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae gan yr adeilad presennol broblemau mynediad sylweddol.
- Fis Medi 2024, roedd 29% o leoedd gweigion yn Ysgol Uwchradd Caergybi.
- Mae 33.5% o ddysgwyr sy'n byw yn y dalgylch yn mynychu ysgolion eraill ar yr ynys ac yng Ngwynedd.
- Mae diffyg caeau chwarae ar safle presennol yr ysgol gyda dysgwyr ysgol yn defnyddio caeau chwarae Millbank.
- Mae'r ysgol bresennol yn cynnwys nifer o adeiladau, ac mae hyn yn achosi rhai heriau wrth gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru ar y safle rhanedig presennol.
- Mae Ysgol Uwchradd Caergybi ar hyn o bryd wedi'i chategoreiddio fel T3 sy'n addysgu trwy gyfrwng y Saesneg gydag addysgu sylweddol trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r newid categori yn annibynnol ar y cynnig hwn.
- Yn ogystal â dysgwyr yn defnyddio cyfleusterau'r ysgol ar gyfer gweithgareddau allgyrsiol, mae grwpiau cymunedol yn defnyddio cyfleusterau Ysgol Uwchradd Caergybi yn ystod y tymor ac yn ystod gwyliau'r ysgol.
- Mae Ysgol Uwchradd Caergybi yn y deg uchaf o holl asedau'r Cyngor o ran allyriadau carbon uchel. (trydydd yn nhermau defnydd trydan a pumed yn nhermau defnydd nwy pibell).
- Ar gyfer addysg ôl-16, mae'n ymddangos bod problem gyda chynaliadwyedd y ddarpariaeth bresennol o ran costau teithio a dosbarthiadau bach. Yn ogystal, gan fod ysgolion eisoes wedi rhesymoli nifer y cyrsiau nad ydynt yn hyfyw, mae dysgwyr yn treulio amser yn teithio o un ysgol i'r llall.

Felly, gellir casglu o'r adran hon bod angen adeilad ysgol newydd ar gyfer Ysgol Uwchradd Caergybi er mwyn darparu model cynaliadwy ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

## 6. OPSIYNAU AMGEN RHESYMOL I'R CYNNIG

Mae'r adran hon yn nodi opsiynau amgen rhesymol i'r cynnig i:
"**Adleoli dysgwyr Ysgol Uwchradd Caergybi i adeilad ysgol newydd ar gyfer dysgwyr 11-18 oed".**
Mae'r cynnig (rhan 6.1 isod) a'r opsiynau amgen rhesymol wedi'u hasesu yn erbyn y gyrwyr ar gyfer newid fel y nodir yn adrannau 3 a 4.

### 6.1 Adleoli dysgwyr Ysgol Uwchradd Caergybi i adeilad ysgol newydd ar gyfer <u>dysgwyr 11-18 oed</u>

| **Amcangyfrif o'r gost: rhagwelir £66 miliwn o gostau cyfalaf cyfatebol – yn seiliedig ar y rhagdybiaeth byddai'r cynnig yn cael ei ariannu drwy'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol (MBC). Capasiti 900** | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Cyfleoedd | Heriau |
| 1.Safonau | ▪ Byddai disgwyl i safonau gael eu cynnal o leiaf yn yr adeilad ysgol newydd. | ▪ Sicrhau fod ddim dirywiad mewn safonau wrth i dysgwyr a staff newydd safle.<br>▪ Gyda capasiti llai, bydd angen llai o staff. Gall hyn cael effaith ar safonau |
| 2.Arweinyddiaeth a Rheolaeth | ▪ Gellid adeiladu ar y strwythur arweinyddiaeth a rheolaeth a welwyd eisoes yn adeilad presennol yr ysgol. | ▪ Effaith rheolaethol dros cyfnod trosiannol megis agor adeilad ysgol newydd h.y. arweinyddiaeth yn ffocysu ar faterion fwy gweithredol wrth symud. Angen cyllido rhyddhau arweinydd ysgol. Os bydd ar lleoliad fwy, bydd angen fwy o rheoli safle. |
| 3.Adeiladau ac Adnoddau | ▪ Mae'n mynd i'r afael â'r gost cynnal a chadw gyfredol a rhagamcannol o bron i £29 miliwn.<br>▪ Mae'n mynd i'r afael â'r ffaith mai mesurau dros dro yw'r mesurau lliniaru presennol o ganlyniad i Goncrit Awyredig Awtoclafiedig Cyfnerth (RAAC) yn 30% o adeilad yr ysgol.<br>▪ Mwy o fannau gwyrdd yn ar awyr agored nag ar y safle presennol, yn unol â chanllawiau'r Bwletin Adeiladu. | ▪ Cadw rheolaeth o ran gwariant ar adeilad newydd (gorwariant) a sicrhau ei bod yn cyrraedd safon ansawdd<br>▪ Gyda fwy o systemau rheoli safle diogel, bydd fwy o gofyn ar rheolwyr safle yn ogystal ag oblygiadau megis cynnal a chadw (e.e. tiroedd). |
| 4.Niferoedd Dysgwyr / Lleoedd dros ben | ▪ Tebygolrwydd cynyddol y bydd dysgwyr yn aros o fewn eu dalgylch oherwydd bod ganddynt fynediad i adeilad ysgol newydd ac adnoddau modern ac o bosibl cyfleuster ar safle arddull campws. | ▪ Bydd gan rhieni dal yr un hawl i wneud cais i'w plant trosglwyddo i ysgol all-dalgylch, fodd bynnag adeilad newydd neu beidio.<br>▪ Os bydd nifer o geisiadau yn uwch na capasiti'r ysgol, mae'n bosib bydd mwy o apeliadau mynediad. |
| 5.Ariannol | ▪ Dim Cost Cludiant ychwanegol<br>▪ Byddai'n arwain at arbediad o tua £45,798 yn erbyn y gyllideb ganolog | ▪ Cost ychwanegol o tua £26,000 trwy gyllideb ddirprwyedig yr ysgol. |

| Amcangyfrif o'r gost: rhagwelir £66 miliwn o gostau cyfalaf cyfatebol – yn seiliedig ar y rhagdybiaeth byddai'r cynnig yn cael ei ariannu drwy'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol (MBC). Capasiti 900 | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Cyfleoedd | Heriau |
| | Atgyweirio a Chynnal a Chadw am y 25 mlynedd nesaf (os cyflawnir y cynllun drwy'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol (MBC))<br>▪ Gostyngiad o £29 miliwn (2024) yn y costau cynnal a chadw cyfredol a rhagamcannol. (2024). | ▪ Pe bai'r cynllun yn cael ei gyflawni drwy'r MBC, byddai cyfraniad y Cyngor (amcangyfrif o 17%) tuag at y Tâl Gwasanaeth Blynyddol yn arwain at gost refeniw ychwanegol o tua £1.3 miliwn y flwyddyn i'r Cyngor ei ariannu yn blynyddoedd 1-25, a thua. £94,000 - £141,000 ar gyfer blynyddoedd 26-60. |
| 6.Lles, Gofal ac Iechyd | ▪ Gallai amgylchedd ysgol wedi'i ddylunio'n dda ynghyd â mannau gwyrdd yn yr awyr agored wella iechyd corfforol a meddyliol plant, yn ogystal â gwella lles staff a gwneud iddynt deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi.<br>▪ Byddai defnyddio cyfleuster newydd posibl hefyd o fudd i'r gymuned ehangach. | ▪ Gall fod y plant sydd yn barod wedi arfer gyda adeilad presennol yr ysgol gweld hi'n heriol o ran anwytho i ysgol newydd. Hefyd, os bydd y pellter yn fwy na'r pellter presennol i rhai dysgwyr, gall cael effaith ar presenoldeb.<br>▪ Materion gweithredol i ystyried gyda y cyhoedd hefyd yn cael mynediad i adeilad yr ysgol. |
| 7.Cwricwlwm i Gymru | ▪ Gallai adeilad ysgol newydd ddarparu adnoddau modern arbenigol ychwanegol a mannau gwyrdd yn yr awyr agored i yrru'r cwricwlwm newydd yn ei flaen. | ▪ Dim heriau amlwg |
| 8.Yr Iaith Gymraeg | ▪ Byddai trosglwyddo i ysgol cyfrwng Cymraeg erbyn 2029 yn parhau.<br>▪ Arbediad yn y costau cludiant gan y byddai'r ysgol yn un cyfrwng Cymraeg, ni fyddai angen cludo dysgwyr i ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg gyfagos. | ▪ Dim heriau amlwg. Ond yn dibynnol ar yr ysgol yn cyrraedd categori iaith 3 |
| 9.Defnydd Cymunedol | ▪ Disgwylir y byddai cael adnoddau cymunedol pwrpasol yn yr adeilad ysgol newydd a mynediad at gyfleusterau modern yn denu mwy o ddefnydd gan y gymuned ac ymgysylltiad / cyfranogiad gan deuluoedd. | ▪ Posibilrwydd adleoli ased cymunedol. |
| 10.Datgarboneiddio | ▪ Byddai'r adeilad ysgol newydd yn ddi-garbon net – ynni gweithredol a fyddai'n lleihau allyriadau carbon Ysgol Uwchradd Caergybi. | ▪ Fodd bynnag, cydnabyddir y gallai'r arbediad allyriadau carbon gael ei leihau ychydig oherwydd y teithio ychwanegol posibl i rai dysgwyr. |
| 11.Darpariaeth ôl-16 | ▪ Byddai addysg ôl-16 yn parhau ar safle newydd arfaethedig. | ▪ Dim heriau amlwg |

**6.2 Ffedereiddio Ysgol Uwchradd Caergybi gydag Ysgol Cybi**

**Mae ffedereiddio yn disgrifio cytundeb ffurfiol a chyfreithiol lle mae'r ysgolion dan sylw yn cydweithio mewn partneriaeth ffurfiol o dan un corff llywodraethu**

**Yn seiliedig ar ddim costau cyfalaf.**

| Gyrrwr | Cyfleoedd | Heriau |
|---|---|---|
| 1.Safonau | ▪ Byddai disgwyl i safonau gael eu cynnal o leiaf yn adeilad yr ysgol newydd.<br>▪ Gwell profiadau cwricwlaidd a dilyniant i ddysgwyr<br>▪ Cyfleoedd i rannu arbenigedd staff, adnoddau ac arfer da ond byddai angen eu rheoli'n ofalus.<br>▪ Posibilrwydd o sicrhau cysondeb o ran methodoleg addysgu a dysgu.<br>▪ Effeithlonrwydd o ran cyfleoedd hyfforddi i athrawon yn y ddwy ysgol. | ▪ Gall mynediad i amgylchedd /deunyddiau dysgu newid yn sylweddol wrth i ddysgwyr symud o Bl.6 i 7. Efallai bydd effaith ar safonau |
| 2.Arweinyddiaeth a Rheolaeth | ▪ Cyfle i ddatblygu uwch dîm rheoli newydd | ▪ Effaith posib ar y tîm arwain drwy golli staff a llywodraethwyr profiadol o ganlyniad i ailstrwythuro posibl.<br>▪ Byddai angen rhoi sylw i statws yr ysgol gan fod Ysgol Cybi yn Ysgol dan Reolaeth Wirfoddol yr Eglwys yng Nghymru ac Ysgol Uwchradd Caergybi yn ysgol gymunedol. |
| 3.Adeiladau ac Adnoddau | ▪ Dim amharu ar addysg oherwydd fod yr adeiladau yn barod wedi ei sefydlu | ▪ Ni fyddai'n mynd i'r afael â'r ffaith bod angen sylw sylweddol ar adeilad ysgol Ysgol Uwchradd Caergybi a'i fod wedi'i gategoreiddio fel: “Gweithredol ond angen gwaith atgyweirio neu amnewid mawr yn y tymor byr i'r tymor canolig”.<br>▪ Yn ogystal, nid yw'n mynd i'r afael â'r ffaith mai mesurau dros dro oedd y mesurau lliniaru presennol oherwydd Concrit Awyredig Awtoclafiedig Cyfnerth (RAAC) yn 30% o adeilad yr ysgol.<br>▪ Yr ysgolion wedi'u gwahanu gan brif ffordd. |
| 4.Niferoedd Dysgwyr / Lleoedd dros ben | ▪ Tebygolrwydd y gallai dysgwyr Ysgol Cybi drosglwyddo i Ysgol Uwchradd Caergybi a allai gadw dysgwyr o fewn eu dalgylch. | ▪ Bydd gan rhieni dal yr un hawl i wneud cais i'w plant trosglwyddo i ysgol all-dalgylch.. |

| Mae ffedereiddio yn disgrifio cytundeb ffurfiol a chyfreithiol lle mae'r ysgolion dan sylw yn cydweithio mewn partneriaeth ffurfiol o dan un corff llywodraethu<br><br>Yn seiliedig ar ddim costau cyfalaf. | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Cyfleoedd | Heriau |
| | | ▪ Os bydd nifer o geisiadau yn uwch na capasiti'r ysgol, mae'n bosib bydd apeliadau mynediad. |
| 5.Ariannol | ▪ Mae'n anodd amcangyfrif effaith y cynnig ar gostau staffio, gan mai'r corff llywodraethu fyddai'n penderfynu ar y strwythur staffio. Yn seiliedig ar ragdybiaethau a wnaed gan swyddogion y Cyngor, rydym yn amcangyfrif y gallai'r cynnig arwain at arbediad costau staffio o tua £135,000 pe bai Ysgol Uwchradd Caergybi ac Ysgol Cybi yn ffedereiddio.<br>▪ Pob ysgol yn cadw ei chyllideb ei hun.<br>▪ Dim cost cludiant ychwanegol. | ▪ Er bod arbedion costau staffio i ffedereiddio wedi'u nodi fel cyfle, gan fod ysgolion yn derbyn eu cyllidebau trwy fformiwla ysgol ddirprwyedig benodedig, ni fydd yn arwain at unrhyw arbedion cyllideb corfforaethol i'r Cyngor.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â chost cynnal a chadw cyfredol a rhagamcannol yr ysgolion unigol – anhyfyw yn ariannol yn y dyfodol<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r amrywiad yn y gost fesul dysgwr a chydraddoldeb darpariaeth gan fod ysgolion llai yn derbyn canran uwch o gyllid fesul dysgwr. |
| 6.Lles, Gofal ac Iechyd | ▪ Posibilrwydd o gyfuno gweithgareddau dysgwyr trwy gyfleoedd dysgu cydlynol. | ▪ Sicrhau cyfleusterau llesiant o'r un ansawdd. Ddim yn datrys diffyg gofod ardal gwyrdd tu allan ar gyfer plant hŷn. |
| 7.Cwricwlwm i Gymru | ▪ Cyfleoedd i'r sector cynradd gyfoethogi'r cwricwlwm trwy rannu adnoddau ac arbenigedd.<br>▪ Gallai fod yn haws trosglwyddo dysgwyr o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. | ▪ Adnoddau a profiadau mewn un safle yn unig wedi ei deilwra a'i chreu yn barod ar gyfer ysgolion 21 Ganrif. |
| 8.Yr Iaith Gymraeg | ▪ Byddai trosglwyddo Ysgol Uwchradd Caergybi i ysgol cyfrwng Cymraeg erbyn 2029 yn parhau. | ▪ Dim yn amlwg |
| 9.Defnydd Cymunedol | ▪ Byddai defnydd presennol yr ysgol gan y gymuned yn parhau.<br>▪ Mwy o gyfleoedd o bosibl i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol yn ardal Caergybi - rhwng rhieni dysgwyr Cynradd ac Uwchradd. | ▪ Cyfleusterau bosib ddim o'r un safon ar y ddwy safle. |
| 10.Datgarboneiddio | • Dim yn amlwg | ▪ Ni fyddai unrhyw ostyngiad yn yr ôl troed carbon o adeiladau ysgol. |

| Mae ffedereiddio yn disgrifio cytundeb ffurfiol a chyfreithiol lle mae'r ysgolion dan sylw yn cydweithio mewn partneriaeth ffurfiol o dan un corff llywodraethu<br><br>Yn seiliedig ar ddim costau cyfalaf. | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Cyfleoedd | Heriau |
| | | ▪ Os bydd dysgwyr ôl-16 yn teithio i lleoliad, bydd ôl-troed carbon yn cynyddu. |
| 11.Darpariaeth ôl-16 | ▪ Gall plant ysgol gynradd gael mynediad at ddysgwyr ôl-16 fel cymheiriaid.<br>▪ Llwybr dysgu ar gyfer dysgwyr 4-19 yn y ffederasiwn. | ▪ Bydd rhaid i ddysgwyr gael mynediad i addysg ôl-16 ar safle wahanol – golyga hyn oblygiadau costau. Efallai bydd rhai dysgwyr ddim yn dilyn addysg bellach. |
| 12.Materion Cyffredinol | ▪ Amhariad lleiaf ar ddysgwyr, rhieni a staff gan y byddai'r ysgolion yn parhau i weithredu o'u safleoedd presennol<br>▪ Un Corff Llywodraethu ac o bosibl un Pennaeth. | ▪ Prif ffordd drwy'r safle. |

## 6.3 Ffedereiddio Ysgol Uwchradd Caergybi gydag Ysgol Uwchradd Bodedern

**Mae ffedereiddio yn disgrifio cytundeb ffurfiol a chyfreithiol lle mae'r ysgolion dan sylw yn cydweithio mewn partneriaeth ffurfiol o dan un corff llywodraethu**
**Yn seiliedig ar ddim costau cyfalaf.**

| Gyrrwr | Cyfleoedd | Heriau |
|---|---|---|
| 1.Safonau | ▪ Gallai gynnal y safonau presennol a welir yn yr ysgolion. | ▪ Drwy ffedereiddio dwy ysgol, mae risg o amrywiaeth mewn safonau yn y tymor byr. |
| 2.Arweinyddiaeth a Rheolaeth | ▪ Cyfle i ddatblygu uwch dîm arweinyddiaeth newydd.<br>▪ Posibilrwydd o gyfuno gweithgareddau dysgwyr trwy gyfleoedd cydlynol sy'n cynnwys dysgwyr o oedran tebyg o wahanol ysgolion.<br>▪ Cyfleoedd i rannu arbenigedd staff, adnoddau ac arfer da ond byddai angen eu rheoli'n ofalus.<br>▪ Posibilrwydd o sicrhau cysondeb o ran methodoleg addysgu a dysgu.<br>▪ Effeithlonrwydd o ran cyfleoedd hyfforddi i athrawon yn y ddwy ysgol. | ▪ Effaith posib ar y tîm arwain drwy golli staff a llywodraethwyr profiadol o ganlyniad i ailstrwythuro posibl.<br>▪ Mae safleoedd yr ysgol 7.7 milltir oddi wrth ei gilydd. |
| 3.Adeiladau ac Adnoddau | ▪ Dim costau cyfalaf | ▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r gost cynnal a chadw gyfredol a rhagamcannol o bron i £29 miliwn yn Ysgol Uwchradd Caergybi a £1.36 miliwn yn Ysgol Uwchradd Bodedern.<br>▪ Ni fyddai'n mynd i'r afael â'r ffaith bod angen sylw sylweddol ar adeilad ysgol Ysgol Uwchradd Caergybi a'i fod wedi'i gategoreiddio fel: “Gweithredol ond angen gwaith atgyweirio neu amnewid mawr yn y tymor byr i'r tymor canolig”.<br>▪ Yn ogystal, nid yw'n mynd i'r afael â'r ffaith mai mesurau dros dro oedd y mesurau lliniaru presennol oherwydd Concrit Awyredig Awtoclafiedig Cyfnerth (RAAC) yn 30% o adeilad Ysgol Uwchradd Caergybi. |
| 4.Niferoedd Dysgwyr / Lleoedd dros ben | ▪ Gwell sicrwydd o ran bodlonrwydd rhieni/gwarchodwyr o gwmpas ceisiadau mynediad i'r ysgol | • Ni fyddai'n lleihau lleoedd dros ben. |

| Mae ffedereiddio yn disgrifio cytundeb ffurfiol a chyfreithiol lle mae'r ysgolion dan sylw yn cydweithio mewn partneriaeth ffurfiol o dan un corff llywodraethu<br>Yn seiliedig ar ddim costau cyfalaf. | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Cyfleoedd | Heriau |
| 5.Ariannol | ▪ Pob ysgol yn cadw ei chyllideb ei hun.<br>▪ Dim cost cludiant ychwanegol. | ▪ Mae'n anodd amcangyfrif effaith y cynnig ar gostau staffio, gan mai'r corff llywodraethu fyddai'n penderfynu ar y strwythur staffio. Yn seiliedig ar ragdybiaethau a wnaed gan swyddogion y Cyngor, rydym yn amcangyfrif y gallai'r cynnig arwain at gostau staffio ychwanegol o tua £71,000 y flwyddyn.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â chost cynnal a chadw gyfredol a rhagamcannol yr ysgolion – anhyfyw yn ariannol yn y dyfodol.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r amrywiad yn y gost fesul dysgwr a chydraddoldeb darpariaeth gan fod ysgolion llai yn derbyn canran uwch o gyllid fesul dysgwr. |
| 6.Lles, Gofal ac Iechyd | ▪ Posibilrwydd o gyfuno gweithgareddau dysgwyr trwy gyfleoedd dysgu cydlynol. | ▪ Ni fyddai safleoedd presennol Ysgol Uwchradd Caergybi ac Ysgol Uwchradd Bodedern yn newid a byddent yn annhebygol o arwain at newidiadau o ran lles dysgwyr. |
| 7.Cwricwlwm i Gymru | ▪ Cyfleoedd i gyfoethogi'r cwricwlwm, trwy rannu adnoddau ac arbenigedd. | ▪ Gall profiadau yn y ddwy ysgol fod yn amrywiol i dysgwyr |
| 8.Yr Iaith Gymraeg | ▪ Byddai trosglwyddo Ysgol Uwchradd Caergybi i ysgol cyfrwng Cymraeg erbyn 2029 yn parhau. | ▪ Gall profiadau yn y Gymraeg yn ddwy ysgol fod yn amrywiol hyd nes bod y categori iaith yn newid |
| 9.Defnydd Cymunedol | ▪ Byddai'r ddarpariaeth ysgol yn parhau yn y ddwy gymuned.<br>▪ Byddai'r defnydd presennol o'r ysgol gan y gymuned yn parhau.<br>▪ Gallai fod mwy o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol ar draws Caergybi a Bodedern. | ▪ Gwell adnoddau cymunedol mewn un ysgol yn hytrach na'r llall – methu cyfle i greu incwm |
| 10.Datgarboneiddio | ▪ Dim cynnydd mewn allyriadau carbon, oherwydd pellteroedd teithio pellach i ac o'r ysgol. | ▪ Ni fyddai unrhyw ostyngiad yn yr ôl troed carbon o adeiladau ysgol. |
| 11.Darpariaeth ôl-16 | Posibilrwydd o sicrhau cysondeb o ran methodoleg addysgu a dysgu ar | ▪ Bosib creu costau ychwanegol oherwydd yr angen i cludo dysgwyr rhwng y ddau safle |

| Mae ffedereiddio yn disgrifio cytundeb ffurfiol a chyfreithiol lle mae'r ysgolion dan sylw yn cydweithio mewn partneriaeth ffurfiol o dan un corff llywodraethu<br>Yn seiliedig ar ddim costau cyfalaf. | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Cyfleoedd | Heriau |
| | draws y ddarpariaeth ôl-16 mewn dwy ysgol uwchradd. | |
| 12.Materion Cyffredinol | ▪ Gallai darpariaeth addysg barhau ar safleoedd yr ysgolion.<br>▪ Amhariad lleiaf ar ddysgwyr, rhieni a staff gan y byddai'r ysgolion yn parhau i weithredu o'u safleoedd presennol.<br>▪ Un Corff Llywodraethol ac o bosibl un Pennaeth. | ▪ Y ddwy ysgol yn gwasanaethu dalgylchoedd penodedig wahanol |

### 6.4 Adnewyddu adeilad presennol Ysgol Uwchradd Caergybi

| **Yn seiliedig ar gostau cyfalaf o (tua) £50 miliwn.** | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Cyfleoedd | Heriau |
| 1.Safonau | ▪ Byddai disgwyl i'r safonau presennol gael eu cynnal. | ▪ Gall cyfnod trosiannol o adnewyddu'r ysgol darfu ar y gallu i'r ysgol i gynnal safonau |
| 2.Arweinyddiaeth a Rheolaeth | ▪ Gellid adeiladu ar y strwythur arweinyddiaeth a rheolaeth a welwyd eisoes yn adeilad presennol yr ysgol | ▪ Gallai adeiladu ar y strwythur arweinyddiaeth a rheoli a welwyd yn barod yn adeilad presennol yr ysgol. |
| 3.Adeiladau ac Adnoddau | ▪ Byddai'n mynd i'r afael â'r gost cynnal a chadw gyfredol a rhagamcannol o bron i £29 miliwn (2024).<br>▪ Mae'n mynd i'r afael â'r ffaith mai mesurau dros dro yw'r mesurau lliniaru presennol o ganlyniad i Goncrit Awyredig Awtoclafiedig Cyfnerth (RAAC) yn 30% o adeilad yr ysgol. | ▪ Byddai unrhyw waith adnewyddu yn debygol o olygu bod angen i ddysgwyr gael eu haddysgu oddi ar y safle.<br>▪ Nifer cyfyngedig o fannau gwyrdd yn yr awyr agored ar y safle presennol.<br>▪ Adnewyddu yn gyfyngedig i hyd oes o 30 mlynedd o gymharu â 60 mlynedd ar gyfer adeilad newydd. |
| 4.Niferoedd Dysgwyr / Lleoedd dros ben | ▪ Cyfle i gadw dysgwyr o fewn eu dalgylch trwy sicrhau bod dysgwyr yn cael mynediad i adeilad ysgol wedi'i adnewyddu. | ▪ Mae'n bosibl y bydd tarfu yn lleihau nifer y dysgwyr yn y tymor byr oherwydd adnewyddu adeiladau ar y safle. Mae dysgwyr eisoes wedi gweld tarfu sylweddol oherwydd Covid a RAAC. |
| 5.Ariannol | ▪ Dim Cost Cludiant ychwanegol.<br>▪ Gostyngiad o bron i £29 miliwn yn y costau cynnal a chadw presennol rhagamcannol (2024). | ▪ Cost ychwanegol o tua £111,000 drwy gyllideb ddirprwyedig yr ysgol.<br>▪ Byddai angen i'r Cyngor ariannu cyfran o'r gost cyfalaf drwy fenthyca digymorth, yr amcangyfrifir y bydd yn costio £1.4 miliwn - £2.3 miliwn y flwyddyn am 20 mlynedd. |
| 6.Lles, Gofal ac Iechyd | ▪ Gallai fod cyfleoedd i wella Lles, Iechyd a Gofal yn yr adeilad ar ei newydd wedd. | ▪ Gallai tarfu effeithio ar les ac iechyd y dysgwr yn y tymor byr oherwydd adnewyddu adeiladau ar y safle. Mae dysgwyr eisoes wedi gweld tarfu sylweddol oherwydd Covid a RAAC. |
| 7.Cwricwlwm i Gymru | ▪ Gallai'r gwaith adnewyddu ddarparu adnoddau ychwanegol i yrru'r cwricwlwm newydd yn ei flaen. | ▪ Lle cyfyngedig ar gyfer adnoddau ychwanegol ar y safle presennol<br>▪ Nid oes cyfleusterau awyr agored ar safle'r ysgol. |
| 8.Yr Iaith Gymraeg | ▪ Byddai'r trosglwyddo i ysgol cyfrwng Cymraeg erbyn 2029 yn parhau. | ▪ Gall effaith unrhyw adeiladu parhaus ar y safle olygu fod mwy o rieni yn y dalgylch (gyda'u plant yn mynychu ysgol Gymraeg) yn gyrru eu plant i ysgol uwchradd cyfagos. |

| **Yn seiliedig ar gostau cyfalaf o (tua) £50 miliwn.** | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Cyfleoedd | Heriau |
| 9.Defnydd Cymunedol | ▪ Byddai'r defnydd presennol o'r ysgol gan y gymuned yn parhau. | ▪Yn ystod y gwaith adeiladu, bydd mynediad cyfyngedig i'r safle i'r gymuned. |
| 10.Datgarboneiddio | ▪ Byddai'r gwaith adnewyddu yn cyfrannu at yr agenda datgarboneiddio. | ▪Lleihad bychan fyddai yn ôl-troed carbon yr adeilad. |
| 11.Darpariaeth ôl-16 | ▪ Adnoddau newydd ar ôl i'r ysgol newydd gael ei hadnewyddu | ▪Hyd nes bod yr adeilad wedi ei adeiladu, mae'n bosib bydd angen adleoli dysgwyr ôl-16. Bydd hyn yn cael effaith ar cludiant, a'u llesiant. |
| 12.Materion Cyffredinol | | ▪ Amharu ar ddysgwyr a staff wrth i adeilad yr ysgol gael ei adnewyddu. |

**6.5 Un ysgol aml-safle newydd (2 safle - safle presennol Ysgol Uwchradd Caergybi ar ôl ei hadnewyddu ac Ysgol Cybi).**

| **Mae ysgol aml-safle yn un sy'n gweithredu o fwy nag un safle, ond o dan hunaniaeth un ysgol.**<br><br>**Yn seiliedig ar (tua) £50 miliwn o gostau cyfalaf i adnewyddu Ysgol Uwchradd Caergybi.** | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Cyfleoedd | Heriau |
| 1.Safonau | ▪ Posibilrwydd o ddatblygu cysondeb o ran methodoleg addysgu a dysgu.<br>▪ Cyfleoedd i rannu arbenigedd staff ac arfer da ar draws Cyfnodau Allweddol mewn gwahanol safleoedd.<br>▪ Gellid adeiladu ar y safonau presennol a welir yn yr ysgolion.<br>▪ Gwell trosglwyddo rhwng cynradd ac uwchradd a llai o ostyngiad ym mherfformiad Bl 7. | ▪ Drwy greu ysgol aml-safle, mae risg o amrywiaeth mewn safonau yn y tymor byr. |
| 2.Arweinyddiaeth a Rheolaeth | ▪ Cyfle i'r Pennaeth ddatblygu uwch dîm rheoli i rannu'r rôl Arweinyddiaeth.<br>▪ Gallai fod yn haws recriwtio athrawon a llywodraethwyr. | ▪ Effaith posib ar y tîm arwain drwy golli staff a llywodraethwyr profiadol o ganlyniad i ailstrwythuro posibl.<br>▪ Byddai angen rhoi sylw i statws yr ysgol gan fod Ysgol Cybi yn Ysgol dan Reolaeth Wirfoddol yr Eglwys yng Nghymru ac Ysgol Uwchradd Caergybi yn ysgol gymunedol.<br>▪ Gallai fod yn anodd arwain a rheoli ysgol yn effeithiol ar adegau pan nad yw'r Pennaeth yn bresennol ar y safle. |
| 3.Adeiladau ac Adnoddau | ▪ Mae'n mynd i'r afael â'r gost cynnal a chadw gyfredol a rhagamcannol, sef £29 miliwn (2024).<br>▪ Mae'n mynd i'r afael â'r ffaith mai mesurau dros dro yw'r mesurau lliniaru presennol o ganlyniad i Goncrit Awyredig Awtoclafiedig Cyfnerth (RAAC) yn 30% o adeilad yr ysgol. | ▪ Yr ysgolion wedi'u gwahanu gan brif ffordd.<br>▪ Ychydig iawn o fannau gwyrdd yn yr awyr agored ar y safle Uwchradd.<br>▪ Amhariad sylweddol ar ddysgu yn ystod y gwaith o adnewyddu Ysgol Uwchradd Caergybi.<br>▪ Mae oes adnewyddu yn 30 mlynedd o gymharu â 60 mlynedd mewn adeilad newydd. |
| 4.Niferoedd Dysgwyr / Lleoedd dros ben | ▪ Cyfle i gadw dysgwyr o fewn y dalgylch. | ▪ Wrth i ysgol uwchradd cael ei hadnewyddu, mae yna risg gall rieni benderfynu i yrru eu plant i ysgol uwchradd arall. O ganlyniad, gall bod yn anodd i gynnal niferoedd. |

| Mae ysgol aml-safle yn un sy'n gweithredu o fwy nag un safle, ond o dan hunaniaeth un ysgol.<br><br>Yn seiliedig ar (tua) £50 miliwn o gostau cyfalaf i adnewyddu Ysgol Uwchradd Caergybi. | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Cyfleoedd | Heriau |
| 5.Ariannol | ▪ Byddai costau cynnal a chadw cyfredol a rhagamcannol yr ysgol yn gostwng £29 miliwn (2024).<br>▪ Dim costau cludiant ychwanegol. | ▪ Byddai'n arwain at gost refeniw ychwanegol trwy'r fformiwla ysgolion ddirprwyedig, o tua £267,000 y flwyddyn (amcangyfrif).<br>▪ Byddai angen i'r Cyngor ariannu cyfran o'r gost cyfalaf drwy fenthyca digymorth, yr amcangyfrifir y bydd yn costio £1.4 miliwn-£2.3 miliwn y flwyddyn am 20 mlynedd. |
| 6.Lles, Gofal ac Iechyd | ▪ Gallai fod cyfleoedd i wella Lles, Iechyd a Gofal o dan un hunaniaeth trwy gyfuno gweithgareddau dysgwyr a chyfleoedd dysgu cydlynol | ▪ Sicrhau cyfleusterau llesiant o'r un ansawdd. Ddim yn datrys diffyg gofod ardal gwyrdd tu allan ar gyfer dysgwyr hŷn. |
| 7.Cwricwlwm i Gymru | ▪ Mwy o gyfleoedd ar gyfer cyd-gynllunio ymhlith staff yr ysgol.<br>▪ Cyfleoedd i gyfoethogi'r cwricwlwm, trwy rannu adnoddau ac arbenigedd.<br>▪ Dilyniant yn y dysgu | ▪ Gall fod cyfnod adnewyddu'r ysgol fod yn heriol i rai dysgwyr.<br>▪ Lle cyfyngedig ar gyfer adnoddau ychwanegol ar y safle presennol<br>▪ Nid oes cyfleusterau awyr agored ar safle'r ysgol. |
| 8.Yr Iaith Gymraeg | ▪ Byddai trosglwyddo Ysgol Uwchradd Caergybi i ysgol cyfrwng Cymraeg erbyn 2029 yn parhau. | ▪ Gall profiadau yn y Gymraeg yn ddwy ysgol fod yn amrywiol hyd nes bod y categori iaith yn newid |
| 9.Defnydd Cymunedol | ▪ Byddai'r defnydd presennol o'r ysgol gan y gymuned yn parhau.<br>▪ Trwy uno ysgolion a chymunedau, gallai fod mwy o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol. | ▪ Risg bydd llai o ymdeimlad yn YUC oherwydd llai o digwyddiadau ymgysylltu gyda teuluoedd ayyb.<br>▪ Gwell adnoddau cymunedol mewn un ysgol yn hytrach na'r llall – methu cyfle i greu incwm |
| 10.Datgarboneiddio | ▪ Dim cynnydd mewn allyriadau carbon, oherwydd pellteroedd teithio pellach i ac o'r ysgol.<br>▪ Byddai adnewyddu Ysgol Uwchradd Caergybi yn cyfrannu at yr agenda datgarboneiddio. | ▪ Anodd a drud i ddatgarboneiddio'r adeilad presennol / cyrraedd sero net ar gyfer yr adeilad presennol |
| 11.Darpariaeth ôl-16 | ▪ Gallai plant ysgol gynradd gael mynediad at ddysgwyr ôl-16 fel cymheiriaid.<br>▪ Llwybr dysgu i ddysgwyr 4-19 oed yn yr ysgol aml-safle. | ▪ Dim heriau amlwg |
| 12.Materion Cyffredinol | | ▪ Ni fyddai'r ysgolion yn cadw eu hunaniaeth wreiddiol. |

**6.6 Adeiladu un ysgol uwchradd newydd yn lle Ysgol Uwchradd Caergybi ac Ysgol Uwchradd Bodedern (YUB) ar gyfer dysgwyr 11-18 oed**

| **Amcangyfrif o'r gost: rhagwelir £111 miliwn o gostau cyfalaf cyfatebol – yn seiliedig ar y rhagdybiaeth y byddai'r opsiwn yn cael ei ariannu drwy'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol (MBC). Capasiti 1750 (1500 + 250)** | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Cyfleoedd | Heriau |
| 1.Safonau | ▪ Byddai disgwyl i safonau gael eu cynnal o leiaf yn adeilad yr ysgol newydd. | ▪ Dim heriau amlwg |
| 2.Arweinyddiaeth a Rheolaeth | ▪ Gellid adeiladu ar y strwythur arweinyddiaeth a rheolaeth a welwyd eisoes yn yr ysgolion presennol. | ▪ Byddai angen corff llywodraethu a strwythur staffio newydd cyn agor yr ysgol. |
| 3.Adeiladau ac Adnoddau | ▪ Byddai'n lleihau'r gost cynnal a chadw gyfredol a rhagamcannol o bron i £30.35 miliwn yn YUB ac YUC.<br>▪ Byddai'n mynd i'r afael ag unrhyw waith y bydd ei angen yn y dyfodol oherwydd Concrit Awyredig Awtoclafiedig Cyfnerth (RAAC) yn yr adeilad.<br>▪ Mwy o fannau gwyrdd yn yr awyr agored nag ar y safle presennol, yn unol â chanllawiau'r Bwletin Adeiladu. | ▪ Efallai na fydd y gost adeiladu bosibl o dros £100 miliwn yn fforddiadwy i'r Cyngor.<br>▪ Byddai angen safle 26-30 erw yn ôl Bwletin Adeiladu 98. |
| 4.Niferoedd Dysgwyr / Lleoedd dros ben | ▪ Tebygolrwydd cynyddol y bydd dysgwyr yn aros o fewn eu dalgylch oherwydd bod ganddynt fynediad i adeilad ysgol newydd ac adnoddau modern ac o bosibl cyfleuster ar safle arddull campws.<br>▪ Byddai lleoedd dros ben yn yr ysgol uwchradd newydd bosibl yn llawer llai na'r lleoedd dros ben presennol yn YUB a'r YUC. | ▪ Efallai dymunir rhai rhieni i'w plant fynychu ysgol uwchradd llai.<br>▪ Llai o ddewis i rhieni |
| 5.Ariannol | ▪ Byddai'n arwain at arbediad o tua £70,162 yn erbyn y gyllideb ganolog Atgyweirio a Chynnal a Chadw am y 25 mlynedd nesaf (os cyflawnir y cynllun drwy'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol (MBC))<br>▪ Byddai'n lleihau'r gost cynnal a chadw gyfredol a rhagamcannol o £30.35 miliwn (2024).<br>▪ Byddai'n arwain at arbediad o tua £550,000 y flwyddyn drwy'r gyllideb ysgolion ddirprwyedig. | ▪ Pe bai'r cynllun yn cael ei gyflawni drwy'r MBC, byddai cyfraniad y Cyngor (amcangyfrif o 17%) tuag at y Tâl Gwasanaeth Blynyddol yn arwain at gost refeniw ychwanegol o tua £2.3 miliwn y flwyddyn i'r Cyngor ei ariannu yn blynyddoedd 1-25, a thua. £207,000 - £352,000 ar gyfer blynyddoedd 26-60<br>▪ Gallai arwain at gostau cludiant ychwanegol o tua. £130,000. |

| **Amcangyfrif o'r gost: rhagwelir £111 miliwn o gostau cyfalaf cyfatebol – yn seiliedig ar y rhagdybiaeth y byddai’r opsiwn yn cael ei ariannu drwy'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol (MBC). Capasiti 1750 (1500 + 250)** | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Cyfleoedd | Heriau |
| 6.Lles, Gofal ac Iechyd | ▪ Gallai amgylchedd ysgol wedi'i ddylunio'n dda ynghyd â mannau gwyrdd yn yr awyr agored wella iechyd corfforol a meddyliol dysgwyr, yn ogystal â gwella lles staff a gwneud iddynt deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi.<br>▪ Byddai’r adeilad ysgol newydd yn bodloni gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010.<br>▪ Byddai defnyddio cyfleuster newydd posibl hefyd o fudd i'r gymuned ehangach | ▪ Gallai rhai dysgwyr yn ei chael hi'n anodd ymdopi mewn adeilad mwy. |
| 7.Cwricwlwm i Gymru | ▪ Byddai adeilad ysgol newydd yn darparu adnoddau modern arbenigol ychwanegol a mannau gwyrdd y tu allan i yrru'r cwricwlwm newydd yn ei flaen. | ▪ Dim heriau amlwg. |
| 8.Yr Iaith Gymraeg | ▪ Byddai'r ysgol newydd bosibl yn ysgol cyfrwng Cymraeg o'r cychwyn cyntaf. Gallai hyn arwain at rai arbedion costau cludiant gan na fyddai angen bellach i gludo dysgwyr i ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg gyfagos. | ▪ Gall gael ei wrthbwyso gan gostau cludiant ychwanegol. |
| 9.Defnydd Cymunedol | ▪ Disgwylir y byddai cael adnoddau cymunedol pwrpasol yn yr adeilad ysgol newydd a mynediad at gyfleusterau modern yn denu mwy o ddefnydd gan y gymuned ac ymgysylltiad / cyfranogiad gan deuluoedd. | ▪ Posibilrwydd adleoli ased cymunedol. |
| 10.Datgarboneiddio | ▪ Byddai adeilad ysgol newydd yn ddi-garbon net - ynni gweithredol. Byddai gan yr ysgol newydd bosibl lai o allyriadau na'r ddwy ysgol uwchradd gyda'i gilydd. | ▪ Cydnabyddir fodd bynnag y gallai'r arbediad allyriadau carbon gael ei leihau ychydig oherwydd y teithio ychwanegol posibl i rai dysgwyr. |
| 11.Darpariaeth ôl-16 | ▪ Byddai addysg ôl-16 yn parhau ar safle newydd arfaethedig a byddai ganddo le ar gyfer tua 250 o ddysgwyr blwyddyn 12 a blwyddyn 13. | ▪ Dim heriau amlwg |

Gweler grynodeb o'r opsiynau rhesymol amgen yn y tabl isod ynghyd â'r prif resymau am beidio eu dewis:

| Rhif. | Opsiwn | Cwrdd a'r gyrwyr am newid? Prif resymau am beidio dewis yr opsiwn |
|---|---|---|
| 6.2 | Ffedereiddio Ysgol Uwchradd Caergybi gydag Ysgol Cybi | Na – nid yw'n mynd i'r afael â chyflwr yr ysgol yn enwedig RAAC |
| 6.3 | Ffedereiddio Ysgol Uwchradd Caergybi gydag Ysgol Uwchradd Bodedern | Na – nid yw'n mynd i'r afael â chyflwr yr ysgol yn enwedig RAAC |
| 6.4 | Adnewyddu adeilad presennol Ysgol Uwchradd Caergybi | Na – mwy o darfu ar addysg dysgwyr. Byddai'n mynd I'r afael â chyflwr yr adeilad am 30 mlynedd o'i gymharu â 60 mlynedd am y cynnig. |
| 6.5 | Un ysgol aml-safle newydd (2 safle - safle presennol Ysgol Uwchradd Caergybi ar ôl ei hadnewyddu ac Ysgol Cybi). | Na – mwy o darfu ar addysg dysgwyr. Byddai'n mynd I'r afael â chyflwr yr adeilad am 30 mlynedd o'i gymharu â 60 mlynedd am y cynnig. |
| 6.6 | Adeiladu un ysgol uwchradd newydd yn lle Ysgol Uwchradd Caergybi ac Ysgol Uwchradd Bodedern ar gyfer dysgwyr 11-18 oed | Na – rhy gostus i'r Cyngor |

Ar ôl ystyried yr holl opsiynau amgen rhesymol, dim ond y cynnig dan sylw sy'n cwrdd â'r gyrwyr dros newid ac felly, hwn yw'r cynnig sy'n cael ei ddewis:

**"Adleoli dysgwyr Ysgol Uwchradd Caergybi i adeilad ysgol newydd ar gyfer dysgwyr 11-18 oed"**

### 6.7 Opsiynau eraill a ystyriwyd ond na chawsant eu hystyried yn opsiynau amgen rhesymol i'r cynnig.

Yn ogystal â'r uchod, ystyriwyd yr opsiynau canlynol hefyd, ond ni chawsant eu hystyried yn opsiynau amgen rhesymol am y rhesymau a grynhoir isod:

| Cyf | Disgrifiad | Y prif resymau dros wrthod |
|---|---|---|
| **6.7.1** | Cadw'r sefyllfa bresennol – Gadael Ysgol Uwchradd Caergybi fel y mae. | ▪ Ni fyddai'n mynd i'r afael â'r ffaith bod angen sylw sylweddol ar adeilad ysgol Ysgol Uwchradd Caergybi a'i fod wedi'i gategoreiddio fel: "Gweithredol ond angen gwaith atgyweirio neu amnewid mawr yn y tymor byr i'r tymor canolig".<br>▪ Yn ogystal, nid yw'n mynd i'r afael â'r ffaith mai mesurau dros dro oedd y mesurau lliniaru presennol oherwydd Concrit Awyredig Awtoclafiedig Cyfnerth (RAAC) yn 30% o adeilad yr ysgol.<br>▪ Ni fyddai'n cyfrannu at yr agenda i weithio tuag at ddod yn Sero Net.<br>▪ Nid oes gan yr ysgol gaeau gwyrdd hygyrch ar safle'r ysgol. |

| | | |
|---|---|---|
| | | ▪ Ni fyddai'r opsiwn hwn yn mynd i'r afael â llefydd gweigion yn yr ysgol.<br>▪ Ni fyddai'r opsiwn hwn yn mynd i'r afael â'r problemau mynediad sylweddol sydd gan yr adeilad presennol. |
| **6.7.2** | Cau Ysgol Uwchradd Caergybi a throsglwyddo dysgwyr i ysgolion uwchradd eraill Ynys Môn. | ▪ Dim ysgol uwchradd yn nhref fwyaf yr ynys.<br>▪ Dim digon o lefydd gweigion mewn ysgolion uwchradd eraill |
| **6.7.3** | Adolygu'r ddarpariaeth ysgol a gwasanaeth yn Ysgol Uwchradd Caergybi gan edrych ar enghreifftiau fel:<br>▪ Clystyru, cydweithio h.y., dod ag ysgolion ynghyd i archwilio ffyrdd o wneud pethau'n fwy effeithiol ac effeithlon.<br>▪ Defnyddio'r ysgolion fel canolbwyntiau cymunedol i gynnwys/cefnogi gwasanaethau cymunedol e.e., iechyd, cyfleusterau gofal plant, dysgu i deuluoedd ac oedolion, addysg gymunedol, chwaraeon, hamdden, gweithgaredd cymdeithasol.<br>▪ Cydleoli gwasanaethau lleol o fewn ysgolion i wrthbwyso costau cynnal a chadw'r ysgol | ▪ Ni fyddai'n mynd i'r afael â'r ffaith bod angen sylw sylweddol ar adeilad ysgol Ysgol Uwchradd Caergybi a'i fod wedi'i gategoreiddio fel: "Gweithredol ond angen gwaith atgyweirio neu amnewid mawr yn y tymor byr i'r tymor canolig".<br>▪ Yn ogystal, ni fyddai'n mynd i'r afael â'r angen i adnewyddu'r Concrit Awyredig Awtoclafiedig Cyfnerth (RAAC) yn 30% o adeilad yr ysgol.<br>▪ Ni fyddai'n cyfrannu at yr agenda o weithio tuag at ddod yn Sero Net.<br>▪ Mae cytundebau clwstwr / cydweithio ffurfiol yn araf i ddatblygu yng Nghymru.<br>▪ Posibilrwydd o faterion diogelu plant ychwanegol, gyda gwasanaethau eraill yn rhannu safle'r ysgol.<br>▪ Anodd denu gwasanaethau addas oherwydd bod y Cyngor yn tynnu gwasanaethau'n ôl i'r Pencadlys yn Llangefni i gynorthwyo'r agenda effeithlonrwydd. |

Fel yr amlygwyd uchod, mae'r Cyngor wedi ystyried nifer o opsiynau amgen rhesymol i'r cynnig. Er bod cyfleoedd a heriau wedi'u priodoli i bob opsiwn amgen rhesymol, mae'n dod i'r casgliad mai'r cynnig i:

**"Adleoli dysgwyr Ysgol Uwchradd Caergybi i adeilad ysgol newydd ar gyfer dysgwyr 11-18 oed"**

yw'r cynnig sy'n cynnig yr ateb gorau i fynd i'r afael â'r gyrwyr allweddol ar gyfer newid a'r heriau allweddol (a nodir yn adrannau 4 a 5) ar gyfer Ysgol Uwchradd Caergybi.

Os gweithredir y cynnig, rhagwelir y bydd adeilad newydd Ysgol Uwchradd Caergybi yn cael ei gwblhau erbyn 2030 pan fyddai'r dysgwyr yn adleoli iddo. Byddai hyn yn tarfu cyn lleied â phosibl ar ddysgwyr. Byddai adeilad presennol Ysgol Uwchradd Caergybi wedyn yn cau.

## 7. YR EFFAITH ARIANNOL OS GWEITHREDIR Y CYNNIG

Mae’r adran hon yn trafod effaith ariannol y cynnig os caiff ei gymeradwyo.

Dewis y Cyngor fyddai cyflawni'r prosiect hwn drwy Fodel Buddsoddi Cydfuddiannol Llywodraeth Cymru (MBC neu MIM – gweler rhan 7.2 isod). Byddai hyn yn amodol ar gadarnhad gan Lywodraeth Cymru bod cyllid MIM ar gael.

### 7.1 Opsiynau cost ac ariannu bras ar gyfer adeilad newydd yr ysgol

Mae'r Cyngor wedi gwneud penderfyniad y bydd yr holl dderbyniadau cyfalaf sy'n deillio o gau adeiladau ysgol yn cael eu neilltuo ar gyfer prosiectau ad-drefnu ysgolion. Os caiff y cynnig ei gymeradwyo, a bod adeilad newydd yn cael ei godi ar gyfer Ysgol Uwchradd Caergybi, ni fyddai angen adeilad presennol yr ysgol.

Ar gyfer y ddogfen hon, rhagdybir y bydd gwerthu Ysgol Uwchradd Caergybi yn rhyddhau derbyniadau cyfalaf tuag at gost adeiladu adeilad ysgol newydd.

Amcangyfrifir mai cost y cynnig ar hyn o bryd ac yn dibynnu ar y canlyniad yw £65.9m os bydd yn gynllun MIM; caiff hwn ei ariannu'n rhannol gan y rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu.

Cyfradd ymyrraeth Llywodraeth Cymru ar gyfer ariannu prosiectau cyfalaf yw 65%, gyda'r 35% sy'n weddill yn cael ei ariannu gan y Cyngor.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn gwahodd Cynghorau i ddefnyddio’r Model Buddsoddi Cydfuddiannol (MBC) [gweler rhan 7.2 isod] i ariannu prosiectau adeiladu newydd o werth sylweddol. Cyfradd ymyrraeth Llywodraeth Cymru ar gyfer ariannu prosiectau MBC Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu yw 81%, gyda'r 19% sy'n weddill yn cael ei ariannu gan y Cyngor. Mae'r rhan fwyaf o'r gwariant sy'n gysylltiedig â'r adeilad newydd yn debygol o fod yn gymwys i gael ei gyflawni a'i ariannu gan ddefnyddio'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol, pe bai'r Pwyllgor Gwaith yn dymuno dilyn yr opsiwn hwn.

### 7.2 Y Model Buddsoddi Cydfuddiannol (MBC)

Mae’r Model Buddsoddi Cydfuddiannol (MBC) yn ffordd arloesol o fuddsoddi mewn seilwaith cyhoeddus a ddatblygwyd yng Nghymru. Mae’r MBC wedi'i gynllunio gan Lywodraeth Cymru i ariannu prosiectau cyfalaf mawr oherwydd prinder arian cyfalaf.

Mae’r Model Buddsoddi Cydfuddiannol (MBC) yn cefnogi buddsoddiad ychwanegol mewn prosiectau seilwaith cymdeithasol ac economaidd ac yn helpu i wella gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Bydd cynlluniau’r MBC yn gweld partneriaid preifat yn adeiladu ac yn cynnal asedau cyhoeddus. Yn gyfnewid am hyn, bydd Llywodraeth Cymru yn talu ffi i’r partner preifat, a fydd yn talu am gost adeiladu, cynnal a chadw ac ariannu’r prosiect. Ar ddiwedd y contract bydd yr ased yn cael ei drosglwyddo i berchnogaeth gyhoeddus. (Ffynhonnell: Y Model Buddsoddi Cydfuddiannol)

### 7.3 Costau Blynyddol i'r Cyngor

**Costau Cludiant**

Nid oes disgwyl i'r cynnig gael newid sylweddol i gostau cludiant ysgol. Fodd bynnag, daw'n gliriach unwaith y bydd lleoliad yr adeilad newydd wedi'i gadarnhau.

**Cyllidebau Ysgol Dirprwyedig**
Bydd gofyniad cyllideb ysgol ddirprwyedig (a ariennir drwy'r fformiwla ariannu ysgolion dirprwyedig) yn debygol o gynyddu tua £26,000 y flwyddyn os caiff y cynnig ei weithredu.

**Costau Atgyweirio a Chynnal a Chadw**
Os yw'r prosiect yn cael ei ariannu drwy'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol (MBC), y Cwmni Prosiect (y cwmni sy'n gyfrifol am yr adeiladu) fydd yn gyfrifol am gynnal a chadw'r ysgol am hyd y contract (25 mlynedd). Byddai hyn yn creu arbediad i'r Cyngor o tua £46,000 y flwyddyn o ddyddiad agor yr ysgol am y 25 mlynedd nesaf.

**7.4 Crynodeb o'r Gost Flynyddol i'r Cyngor – Model Buddsoddi Cydfuddiannol.**
Mae'r tabl isod yn crynhoi costau refeniw blynyddol y Cyngor <u>os caiff y cynnig ei gyflawni drwy'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol (MBC):</u>

| | |
|---|---|
| Cyfanswm Costau Prosiect Cyfwerth â Chyfalaf | £65,860,267 |
| | |
| Costau'r Prosiect a Ariennir gan y MBC | £60,697,000 |
| **Cyfraniad y Cyngor (amcangyfrif) tuag at gost gwasanaeth blynyddol - am 25 mlynedd** | **£1,238,218** |
| | |
| Costau'r Prosiect a ariennir gan Grant Cyfalaf (Ffioedd Datblygu, Dodrefn, Adnoddau Addysgu, TGCh, a Phrynu Tir) | £5,163,267 |
| Grant y Llywodraeth | (£3,356,124) |
| Cyfraniad ALl | £1,807,143 |
| Derbyniadau Cyfalaf | (£715,000) |
| Gofyniad Benthyca | £1,092,143 |
| | |
| **Ad-daliadau Blynyddol dros 60 mlynedd*** | £60,324 i £114,860 |
| Cost Cludiant Ychwanegol - Parhaol (Bydd hyn ddod yn fwy eglur unwaith bydd safle wedi ei ddewis) | £0 |
| Cost Ychwanegol - Cyllideb Ysgol Ddirprwyedig - Parhaol | £26,000 |
| Arbedion Atgyweirio a Chynnal a Chadw – blwyddyn 1-25 | (£46,000) |
| | |
| ***Cost ychwanegol net / (Arbediad) y flwyddyn – O ddyddiad agor yr ysgol- Blwyddyn 25**** | *£1,278,542 i £1,285,269* |
| *Cost ychwanegol net / (Arbed) y flwyddyn – O Flwyddyn 26 – Blwyddyn 60** | *£93,552 i £140,860* |
| *Gostyngiad yn y costau cynnal a chadw cyfredol a rhagamcannol* | *£28,985,743* |
| *Gostyngiad yn y costau cynnal a chadw cyfredol a rhagamcannol – Cyfwerth blynyddol (arbediad) ** | ***(£2.4 miliwn i £3.8 miliwn)*** |

*Wrth i ad-daliadau gael eu cyfrifo ar sail y 'dull blwydd-dal' byddai'r swm a fyddai'n cael ei ad-dalu yn is yn ystod cyfnod y benthyciad cychwynnol, a bydd yn uwch yn ystod camau olaf cyfnod y benthyciad.

** Wedi'i gyfrifo ar y dybiaeth bod y gost cynnal a chadw gyfredol a rhagamcannol yn cael ei hariannu drwy fenthyca digymorth dros gyfnod o 20 mlynedd.

**7.5 Crynodeb o'r Gost Flynyddol i'r Cyngor – Wedi'i Gyflawni trwy Arian Cyfalaf**
Os na fydd cyllid MIM ar gael i gefnogi'r prosiect hwn, gallai'r Cyngor ystyried cyflawni'r prosiect arfaethedig hwn fel cynllun Cyfalaf. Mae'r tabl isod yn crynhoi costau refeniw blynyddol y Cyngor os caiff y cynnig ei gyflawni drwy arian Cyfalaf:

| | |
|---|---|
| Cyfanswm Costau Prosiect Cyfwerth â Chyfalaf | £56,859,500 |
| Amcangyfrif o Grant y Llywodraeth | (£38,348,636) |
| Cyfraniad ALl | £18,510,864 |
| Derbyniadau Cyfalaf | (£715,000) |
| Gofyniad Benthyca | £17,795,864 |
| | |
| **Ad-daliadau Blynyddol dros 60 mlynedd*** | £982,950 i £1,871,583 |
| Cost Cludiant Ychwanegol - Parhaol | £0 |
| Cost Ychwanegol - Cyllideb Ysgol Ddirprwyedig - Parhaol | £26,000 |
| ***Cost ychwanegol net / (Arbediad) y flwyddyn – o agor yr ysgol hyd at blwyddyn 60*** | *£1,008,950 to £1,897,583* |
| | |
| ***Gostyngiad yn y costau cynnal a chadw cyfredol a rhagamcannol*** | *£28,985,743* |
| ***Gostyngiad yn y costau cynnal a chadw cyfredol a rhagamcannol – Cyfwerth blynyddol (arbediad) **** | *(£2.4 miliwn i £3.8 miliwn)* |

**7.6 Costau Tymor Byr**
Bydd rhai costau trosiannol tymor byr y bydd angen eu hariannu.

Mae'r rhain yn cynnwys:
- Cost untro ychwanegol i ryddhau aelod o uwch dîm arwain yr ysgol cyn agor adeilad newydd yr ysgol.
- Costau eiddo ar gyfer yr adeilad caeedig nes iddo gael ei waredu.

Amcangyfrifir y bydd y gost drosiannol oddeutu £8,000 y flwyddyn o 2025/26 – 2027/28, tua £19,000 yn 2028/29, tua £177,000 yn 2029/2030 (pan fydd yr adeilad ysgol newydd yn agor) ac oddeutu £115,000 y flwyddyn o 2030/31, hyd nes y trosglwyddir yr eiddo ysgol presennol o berchnogaeth y Cyngor.

**8. CASGLIAD**

Ar ôl ystyried yn ofalus yr heriau allweddol (**Adran 5**) a'r opsiynau amgen rhesymol ar gyfer Ysgol Uwchradd Caergybi (Adran 6**),** y cynnig a ffafrir gan y Cyngor ar gyfer ymgynghoriad yw:

**"Adleoli dysgwyr Ysgol Uwchradd Caergybi i adeilad ysgol newydd ar gyfer dysgwyr 11-18 oed".**

Mae'r Cyngor o'r farn mai'r cynnig hwn yw'r ateb gorau posibl sy'n mynd i'r afael â'r prif yrwyr newid a'r heriau allweddol a wynebir gan Ysgol Uwchradd Caergybi **(Adran 5).**

**Buddion posibl y cynnig**

Byddai disgwyl i'r cynnig, o'i wireddu, wireddu'r manteision a ganlyn (Adran 5):

- Byddai'r Cyngor yn osgoi gorfod talu'r gost cynnal a chadw gyfredol a rhagamcannol o bron i £29 miliwn (2024) ar yr adeilad presennol.
- Byddai'n mynd i'r afael â'r mesurau lliniaru brys presennol hynny a gymerwyd yn 2023/24 oherwydd Concrit Awyredig Awtoclafiedig Cyfnerth (RAAC) mewn 30% o adeilad yr ysgol o ganlyniad i newidiadau i arweiniad Llywodraeth y DU yn Awst 2023.
- Byddai gan safle'r ysgol newydd arfaethedig ei gaeau chwarae ei hun.
- Byddai lleoedd dros ben yn Ysgol Uwchradd Caergybi yn cael eu lleihau.
- Tebygolrwydd cynyddol y bydd dysgwyr yn aros o fewn eu dalgylch oherwydd bod ganddynt fynediad i adeilad ysgol newydd ac adnoddau modern.
- Nid oes cost cludiant ychwanegol yn gysylltiedig â'r cynnig.
- Byddai'r cynnig yn arwain at arbediad yn y gyllideb atgyweirio a chynnal a chadw ganolog am y 25 mlynedd nesaf (os cyflawnir y cynllun drwy'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol (MBC))
- Gallai amgylchedd ysgol wedi'i ddylunio'n dda ynghyd â mannau awyr agored gwyrdd wella iechyd corfforol a meddyliol plant, yn ogystal â gwella lles staff a gwneud iddynt deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi.
- Gallai'r adeilad ysgol newydd ddarparu adnoddau modern arbenigol ychwanegol a mannau awyr agored gwyrdd i yrru'r cwricwlwm newydd yn ei flaen.
- Disgwylir y byddai cael adnoddau cymunedol pwrpasol yn yr adeilad ysgol newydd a mynediad i gyfleusterau modern yn denu mwy o ddefnydd gan y gymuned ac ymgysylltiad / cyfranogiad gan deuluoedd.
- Bydd adeilad yr ysgol newydd yn ddi-garbon net.

Byddai hefyd yn arwain at y buddion canlynol:

- Helpu i gadw dysgwyr sy'n mynychu ysgolion cynradd sydd yn nalgylch Ysgol Uwchradd Caergybi
- Gan efallai byddai adeilad ysgol uwchradd newydd, efallai bydd dysgwyr sy'n byw yn nalgylch Ysgol Uwchradd Caergybi yn dewis mynychu'r ysgol newydd arfaethedig yn hytrach nag ysgolion uwchradd eraill.
- Bod yn adeilad ysgol newydd gyda'r dechnoleg a'r adnoddau diweddaraf, yn addas ar gyfer y dulliau dysgu ac addysgu diweddaraf gydag effaith gadarnhaol ar lesiant y dysgwyr ac ar allbynnau addysgol
- Creu gwell cyfleusterau y gall dysgwyr a'r gymuned ehangach eu defnyddio, gan gynnwys defnydd aml-asiantaethol.
- Lleihau'r baich cynnal a chadw adeiladau ar y Cyngor

Gallai amgylchedd ysgol wedi'i gynllunio'n dda ynghyd â mannau awyr agored gwyrdd wella iechyd corfforol a meddyliol plant, yn ogystal â gwella lles staff a gwneud iddynt deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi.

Mae tiroedd ysgol sydd wedi'u cynllunio'n dda ac wedi'u datblygu'n feddylgar yn cyfoethogi'r cyfleoedd i ddysgu a chwarae. Mae cysylltiad a chyswllt â natur yn creu emosiynau mwy cadarnhaol a theimladau o fywiogrwydd, a llai o emosiynau negyddol; mae hefyd yn cynnig rhyddhad rhag blinder meddwl, a'r gallu i ganolbwyntio am gyfnod hirach.

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i fuddsoddi mewn amgylchedd dysgu Ysgolion Bro, drwy gydleoli gwasanaethau allweddol, a sicrhau ymgysylltiad cryfach â rhieni a gofalwyr y tu allan i oriau traddodiadol. Mae arweiniad Ysgolion Bro Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael â thlodi plant ac yn lliniaru ei effeithiau, gan gynnwys yr anghydraddoldebau addysgol y mae plant yn eu profi oherwydd byw mewn tlodi.

Byddai'r cynnig yn galluogi'r Cyngor a'r ysgol newydd bosibl i fod yn Ysgol Fro, gan adeiladu partneriaethau cryf gyda theuluoedd, ymgysylltu â'r gymuned ehangach a chydweithio'n effeithiol â sectorau a gwasanaethau eraill. Byddai hyn yn unol â chanllawiau diweddaraf Llywodraeth Cymru.

Byddai gan yr adeilad ysgol newydd yr adnoddau i yrru'r cwricwlwm newydd yn ei flaen yn llwyddiannus, er mwyn bodloni'r pedwar prif ddiben o ddatblygu:

- Dysgwyr uchelgeisiol, galluog
- Cyfranwyr mentrus, creadigol
- Dinasyddion egwyddorol, gwybodus
- Unigolion iach, hyderus

Gallai'r cynnig sicrhau mynediad ehangach at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a chynyddu argaeledd cyrsiau cyfrwng Cymraeg mewn addysg ôl-16 erbyn y dyddiad cwblhau.

Bydd adeilad yr ysgol newydd yn ddi-garbon net.

Os gweithredir y cynnig, rhagwelir y bydd adeilad newydd Ysgol Uwchradd Caergybi yn cael ei gwblhau erbyn 2030 pan fyddai'r dysgwyr yn adleoli iddo. Byddai hyn yn tarfu cyn lleied â phosibl ar ddysgwyr. Byddai adeilad presennol Ysgol Uwchradd Caergybi wedyn yn cau.

ATODIAD 1

# ASESIAD EFFAITH

**TREFNIADAETH YSGOLION**

**PAPUR CYNNIG**

**Ysgol Uwchradd Caergybi**

**Cynnig i:**
**"Adleoli dysgwyr Ysgol Uwchradd Caergybi i adeilad ysgol newydd ar gyfer dysgwyr 11–18 oed"**

**Dyddiad: Mai 2025**

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

| | |
|---|---|
| **Dyddiad cychwyn yr asesiad** | 15 Mai 2025 |
| **Y swyddog sy'n gyfrifol am yr asesiad** | Aaron C. Evans, Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc |
| **Dyddiad adolygu** | Mae hon yn ddogfen waith a chaiff ei hadolygu'n rheolaidd. Bydd unrhyw effeithiau ychwanegol tebygol neu wirioneddol a nodir yn cael eu hadlewyrchu mewn fersiwn ddiwygiedig a gyhoeddir fel rhan o'r Adroddiad Ymgynghori maes o law. |

ATODIAD 1

**CYNNWYS**


1. CYFLWYNIAD ... 3
2. ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB ... 4
    2.1 Cefndir - Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ... 5
    2.2 Casglu gwybodaeth – Safonau'r Gymraeg a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ... 7
    2.3 Casglu gwybodaeth – Deddf Hawliau Dynol 1998 (Rhestrir yr 16 hawl sylfaenol yn Adran 7). ... 7
    2.4 Casglu Gwybodaeth – Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 – gweler adran 8 .. 7
    2.5 Casglu Gwybodaeth – Ymgysylltu / Ymgynghori ... 7
    2.6 Asesu'r effaith debygol ac adnabod camau lliniaru ... 8
    2.7 Canlyniad yr asesiad ... 15
    2.8 Cynllun Gweithredu ... 18
3. ASESIAD O'R EFFAITH AR YR IAITH GYMRAEG ... 19
    3.1 Cydymffurfiaeth â'r Polisi Iaith Gymraeg ... 20
    3.2 Yr effaith ar ddefnyddwyr yr iaith Gymraeg ... 21
    3.3 Yr effaith ar gymunedau Cymraeg ... 22
    3.4 Cyfraniad tuag at safonau'r Gymraeg, polisïau iaith, strategaethau a chanllawiau eraill perthnasol ynglŷn â'r iaith Gymraeg ... 23
    3.5 Yr effeithiau sydd wedi eu nodi a'u hasesu ... 24
    3.6 Ymgynghori ... 24
    3.7 Ar ôl yr ymgynghoriad, y cynigion terfynol, a monitro parhaus ... 25
4 ASESIAD O'R EFFAITH AR Y GYMUNED ... 26
    4.1 Niferoedd Dysgwyr a Rhagolygon Pum Mlynedd ... 26
    4.2 Dysgwyr sy'n teithio rhwng dalgylchoedd ... 27
    4.3 Rhagamcanion dysgwyr os bydd y cynnig yn mynd yn ei flaen. ... 27
    4.4 Gwybodaeth am yr ysgol ... 29
    4.5 Pellter ac amser teithio. ... 31
    4.6 Yr Effaith ar y Gymuned a Chasgliad ... 32
5 CASGLIAD ... 34
6 Gwybodaeth bellach - Cymru Fwy Cyfartal – y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol: Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyddiad cychwyn yng Nghymru: 31 Mawrth 2021) ... 35
7 Gwybodaeth bellach - Hawliau Dynol ... 36
8 Gwybodaeth bellach - Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol) ... 37

ATODIAD 1

## 1. CYFLWYNIAD

Mae Cod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru (011/2018) yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol gynnal asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb, y Gymraeg a'r gymuned wrth gynnig newidiadau i drefniadaeth ysgolion.

Y cynnig dan sylw yw:

**"Adleoli dysgwyr Ysgol Uwchradd Caergybi i adeilad ysgol newydd ar gyfer dysgwyr 11–18 oed"**

Gwahoddwyd y Pennaeth i gwblhau holiadur i asesu defnydd presennol y gymuned o adeiladau'r ysgol (y tu allan i oriau agor arferol yr ysgol) a'r defnydd o gyfleusterau eraill yn y gymuned gan ddysgwyr ysgol. Yn ogystal, roedd y data a'r dystiolaeth a gasglwyd at ddibenion yr asesiadau yn seiliedig ar y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) Ionawr 2024 a'r rhagamcanion dysgwyr ar gyfer y dyfodol hyd at 2029 yn seiliedig ar nifer y dysgwyr oedd yn yr ysgol ym mis Medi 2024.

Mae'r ddogfen yn cynnwys:
Adran 2 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb
Adran 3 – Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg
Adran 4 – Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned
Adran 5 – Casgliad

**Mae hon yn ddogfen waith a bydd yn cael ei hadolygu'n rheolaidd. Bydd cyfle i randdeiliaid gyfrannu at yr asesiadau effaith.**

| **Hanes adolygu:** | | |
|---|---|---|
| **Fersiwn** | **Dyddiad** | **Crynodeb o'r newidiadau** |
| 0.1 | 15 Mai 2025 | Drafft cyntaf |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |

ATODIAD 1

**2. ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB**

Mae’r asesiad hwn o’r effaith ar gydraddoldeb wedi’i gynnal i fodloni gofynion Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 a Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru (011/2018).

**Deddf Cydraddoldeb 2010**

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 (y Ddeddf) yn gosod dyletswydd gyffredinol ar gyrff cyhoeddus wrth gyflawni eu swyddogaethau i roi sylw dyledus i’r canlynol

- Dileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth ac ymddygiad arall a waherddir gan y Ddeddf.
- Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt.
- Meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt.

Mae’r Ddeddf yn ymwneud â sicrhau tegwch ac mae’n diogelu’r naw nodwedd ganlynol (a elwir hefyd yn ‘grwpiau gwarchodedig’):

- Oedran
- Anabledd
- Rhyw
- Ailbennu rhywedd
- Priodas a phartneriaeth sifil
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Hil
- Crefydd neu gred, gan gynnwys diffyg cred.
- Cyfeiriadedd rhywiol

Mae'n berthnasol i briodas a phartneriaeth sifil, ond dim ond mewn perthynas â'r gofyniad i ddileu gwahaniaethu mewn cyflogaeth.

Weithiau defnyddir yr ymadrodd ‘grŵp gwarchodedig’ i gyfeirio at bobl sy’n rhannu nodwedd warchodedig.

**Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011**

Cyflwynodd Llywodraeth Cymru y Rheoliadau uchod sy’n cynnwys dyletswyddau penodol ychwanegol i helpu cyrff cyhoeddus datganoledig yng Nghymru i gyflawni’r ddyletswydd gyffredinol ac i gynorthwyo tryloywder. Mae dyletswyddau penodol yn cynnwys gofyniad i asesu effaith polisïau ac arferion ar grwpiau gwarchodedig gan y Ddeddf ac ystyried sut y bydd hyn yn effeithio ar berfformiad y Cyngor o’r ddyletswydd gyffredinol. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i Gyngor Sir Ynys Môn (y Cyngor) ystyried tystiolaeth berthnasol er mwyn deall effaith debygol neu wirioneddol ei bolisïau ac arferion arfaethedig ar grwpiau gwarchodedig a rhoi ‘sylw dyledus’ (h.y., rhoi pwysau priodol) i ganlyniadau asesiadau o’r fath.

Caiff ystyriaethau cydraddoldeb eu hystyried wrth lunio’r cynigion ar gyfer trefniadaeth ysgolion yn ystod y broses o ddatblygu’r prosiect ac, os cânt eu gweithredu, caiff yr effaith wirioneddol ei monitro er mwyn ystyried cymryd camau i fynd i’r afael ag unrhyw faterion a nodwyd, megis mynd i’r afael ag effeithiau negyddol, lle bo modd.

Bydd y ddogfen asesiad effaith cydraddoldeb yn cael ei diweddaru'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod unrhyw faterion a nodir yn cael ystyriaeth deg.

| 2.1 Cefndir - Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb | |
|---|---|
| **Beth sy'n cael ei asesu?** | Y cynnig sy'n cael ei asesu yw "Adleoli dysgwyr Ysgol Uwchradd Caergybi i adeilad ysgol newydd ar gyfer dysgwyr 11-18 oed" |
| **Ydy'r cynnig hwn yn un newydd neu'n un sy'n bodoli eisoes?** | Mae hwn yn gynnig newydd. |
| **Beth yw nodau a diben y cynnig hwn?** | Mae'r Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Gymraeg, a fabwysiadwyd gan y Pwyllgor Gwaith ar 18 Gorffennaf 2023, yn nodi y dylai'r Cyngor ymrwymo i sicrhau bod pob adeilad ysgol, yn addas i'r diben, yn y lleoliad cywir, yn diwallu anghenion dysgwyr ac yn adnodd i'r gymuned.<br><br>Mae angen sylw sylweddol ar adeilad ysgol Ysgol Uwchradd Caergybi ac mae wedi'i gategoreiddio fel:<br>Gweithredol ond angen gwaith atgyweirio neu amnewid mawr yn y tymor byr i ganolig.<br>Yn hyn o beth y cynnig yw "adleoli dysgwyr Ysgol Uwchradd Caergybi i adeilad ysgol newydd ar gyfer dysgwyr 11-18 oed". |
| **Pwy sydd yn gyfrifol am y cynnig sy'n cael ei asesu?** | Aaron C. Evans, Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc |
| **Pwy yw'r swyddog arweiniol ar gyfer cynnal yr asesiad yma?** | Emrys Bebb, Rheolwr Rhaglen (Corfforaethol) |
| **Pwy arall sy'n cymryd rhan yn yr asesiad yma?** | Alun Roberts – Rheolwr Rhaglen (Corfforaethol)<br>Arwyn Hughes - Rheolwr Rhaglen (Corfforaethol)<br>Carol Sorahan - Rheolwr Rhaglen (Corfforaethol) |
| **Oes yna gyswllt rhwng y cynnig hwn a meysydd gwaith eraill?** | Oes - Mae'r cynnig hwn yn gyson ag amcanion y Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Gymraeg a fabwysiadwyd gan Bwyllgor Gwaith Cyngor Sir Ynys Môn ar 18 Gorffennaf 2023. Fodd bynnag, asesir pob cynnig yn ôl ei rinweddau ei hun. |

| 2.1 Cefndir - Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb | | |
|---|---|---|
| Ydy'r cynnig yn berthnasol i sut mae'r Awdurdod yn cydymffurfio â dyletswydd gyffredinol y sector gyhoeddus mewn perthynas â phobl a warchodir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010?<br><br>Fel rheol, mae unrhyw gynnig sy'n cael effaith ar bobl yn debygol o fod yn berthnasol ar draws pob grŵp gwarchodedig.<br><br>A yw'r cynnig yn berthnasol i sut mae'r Cyngor yn cydymffurfio â Deddf Hawliau Dynol 1998? | Dileu camwahaniaethu ac aflonyddu | ✓ |
| | Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal | ✓ |
| | Meithrin perthynas dda | ✓ |
| | Diogelu a hyrwyddo hawliau dynol | ✓ |
| Ydy'r cynnig yn benderfyniad strategol? Os felly, mae'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol yn berthnasol. (Beth yw'r ddylestwydd? Ceir eglurhad yn Adran 6) | Nid yw'r cynnig yn benderfyniad strategol ond mae'n rhan o'r Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Iaith Gymraeg.<br>Mae Ysgol Uwchradd Caergybi wedi'i lleoli yn nhref Caergybi, sef tref fwyaf Ynys Môn gyda phoblogaeth o 11,760 (ffigurau Cyfrifiad 2021). Mae gan Gaergybi 7 Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is (*LSOA*) gyda chyfraddau amddifadedd uchel. Mae lefelau amddifadedd incwm yng Nghaergybi yn uwch na chyfartaledd Cymru. Ym mis Medi 2024, roedd gan 33.4% o ddysgwyr Ysgol Uwchradd Caergybi hawl i brydau ysgol am ddim.<br>Y cynnig yw ysgol uwchradd newydd yn lle adeilad presennol Ysgol Uwchradd Caergybi. Felly, mae'r cynnig yn debygol o gael effaith niwtral (dim effaith) ar lefelau amddifadedd yng Nghaergybi.<br><br>Bydd y Cyngor yn ceisio lliniaru unrhyw risgiau perthnasol sy'n codi o'r bwriad drwy weithio gyda'r gymuned yng Nghaergybi. | |
| **Pwy fyddai'n cael ei effeithio gan y cynnig/ion (yn negyddol neu'n gadarnhaol, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol)?** | Ar gyfer Ysgol Uwchradd Caergybi, gall y canlynol gael eu heffeithio:<br>Staff, dysgwyr, llywodraethwyr, rhieni a gofalwyr dysgwyr yr ysgolion, aelodau o'r gymuned sy'n defnyddio adeilad yr ysgol. | |

| 2.2 Casglu gwybodaeth – Safonau'r Gymraeg a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 | |
|---|---|
| A yw'r cynnig hwn yn sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yn unol â Pholisi Iaith Gymraeg y Cyngor Sir? | Ydy – asesir hyn ar wahân yn adran Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg o'r ddogfen hon (Adran 3). |
| Oes cyfle yma i gynnig mwy o gyfleoedd i bobl ddysgu a / neu ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd? | Oes – trafodir hyn yn fyr yn adran 2.6 y ddogfen hon a chaiff ei asesu ar wahân yn adran Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg o'r ddogfen hon (Adran 3). |
| A fydd y maes gwaith hwn yn gwneud cynnig rhagweithiol i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg i ddefnyddwyr? | Bydd – asesir hyn ar wahân yn adran Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg o'r ddogfen hon (Adran 3). |
| A fydd y cynnig hwn yn debygol o warchod a hyrwyddo'r Gymraeg o fewn y gymuned? | Byddai gwireddu'r cynnig yn gwarchod ac yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg o fewn Ysgol Uwchradd Caergybi a'i dalgylch.<br>**Cynhelir asesiad effaith mwy cynhwysfawr ar y Gymraeg yn Adran 3.** |

| 2.3 Casglu gwybodaeth – Deddf Hawliau Dynol 1998 (Rhestrir yr 16 hawl sylfaenol yn Adran 7). | |
|---|---|
| Oes yna unrhyw faterion sydd angen ystyriaeth o ran Hawliau Dynol? Os oes, beth yw'r materion hyn? | Nid oes unrhyw faterion Hawliau Dynol wedi'u nodi. |

| 2.4 Casglu Gwybodaeth – Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 – gweler adran 8 | | |
|---|---|---|
| Ydy'r cynnig yn cyflawni unrhyw rai o'r saith nod llesiant cenedlaethol a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015?<br><br>(Mae disgrifiadau o'r nodau llesiant wedi'u rhestru yn Adran 8) | Cymru lewyrchus | Ydy |
| | Cymru gydnerth | Ydy |
| | Cymru iachach | Ydy |
| | Cymru sy'n fwy cyfartal | Ydy |
| | Cymru o gymunedau cydlynus | Ydy |
| | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | Ydy |
| | Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang | Ydy |

| 2.5 Casglu Gwybodaeth – Ymgysylltu / Ymgynghori | |
|---|---|
| Beth sydd wedi ei wneud hyd yn hyn o ran ymgysylltu ac ymgynghori mewn perthynas â'r cynnig hwn? | Ymgynghorodd y Cyngor ar y strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Gymraeg (y Strategaeth) ar ffurf drafft o 31 Mawrth 2023 tan 18 Mai 2023. Ymgynghorodd y Cyngor ag ysgolion a rhanddeiliaid (gan gynnwys Penaethiaid, Llywodraethwyr, Cynghorau Tref a Chymuned, Menter Môn, GwE, Estyn, Undebau Llafur, yr Aelod Seneddol lleol, Aelodau lleol a rhanbarthol Senedd Cymru, ac eraill) i roi gwybod iddynt am y cyfnod ymgynghori.<br><br>Gofynnwyd hefyd i Benaethiaid ysgolion y Cyngor rannu'r neges gyda rhieni a gofalwyr eu hysgol, drwy eu dull arferol o gyfathrebu. Hysbysebwyd yr ymgynghoriad hefyd drwy gyfryngau |

| | |
|---|---|
| | cymdeithasol y Cyngor ac ar wefan y Cyngor. Cynhaliwyd sesiynau briffio gyda'r holl Aelodau Etholedig, Penaethiaid, a Llywodraethwyr, a chynhaliwyd cyfres o sesiynau ymgysylltu gyda phlant a phobl ifanc.<br><br>Daeth bron i 300 o ymatebion i'r ymgynghoriad i law. Ystyriwyd yr holl ymatebion cyn cyflwyno a mabwysiadu'r Strategaeth.<br><br>Yn gyffredinol, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion yn cytuno â'r rhesymau 'pam fod angen newid parhaus', y 'Weledigaeth a'r Egwyddorion Arweiniol' a'r Gyrwyr Newid / Amcanion Strategol'.<br><br>Cyflwynir papur cynnig i Bwyllgor Gwaith y Cyngor i geisio penderfyniad i gynnal ymgynghoriad statudol llawn ar y cynnig newydd hwn, yn unol â'r broses a amlinellir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion (11/2018). |
| Pa wybodaeth arall ydych chi wedi ei defnyddio fel rhan o'ch asesiad? Rhowch fanylion: | Mae'r wybodaeth ganlynol am yr ysgolion wedi'i chynnwys:<br>Cydbwysedd rhyw, data Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), ethnigrwydd, iaith a chinio ysgol am ddim.<br>Anfonwyd holiadur at y Pennaeth i ofyn am fanylion unrhyw weithgareddau ar ôl ysgol a gynhelir yn yr ysgol ac unrhyw ddefnydd cymunedol o adeilad yr ysgol. |
| Oes yna unrhyw fylchau yn y wybodaeth a gasglwyd hyd yma? Os oes, sut fydd y rhain yn cael sylw? | Ni nodwyd unrhyw fylchau ar hyn o bryd. |

Tudalen 168

## 2.6 Asesu'r effaith debygol ac adnabod camau lliniaru

| **A yw'r cynnig yn berthnasol i sut mae'r Cyngor yn cydymffurfio â dyletswydd gyffredinol y sector cyhoeddus mewn perthynas â phobl a warchodir gan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a gofynion y Ddeddf Hawliau Dynol 1998?** | **Ydy** | **Nac ydy** |
|---|---|---|
| Dileu camwahaniaethu ac aflonyddu | √ | |
| Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal | √ | |
| Meithrin perthynas dda | √ | |
| Diogelu a hyrwyddo hawliau dynol | √ | |

Nodwch isod unrhyw effaith debygol o safbwynt cydraddoldeb ar y grwpiau unigol, ynghyd ag adnabod pa gamau y gellir eu cymryd i leihau neu wella'r effeithiau hyn. *Er mwyn penderfynu ar natur yr effaith debygol, dewiswch un o'r canlynol – **Negyddol / Cadarnhaol / Dim effaith**

| **Y grŵp gwarchodedig** | ***Yr effaith debygol** | **Manylion am yr effaith (gan gynnwys tystiolaeth i gefnogi'r canfyddiadau)** | **Camau i liniaru effaith negyddol** |
|---|---|---|---|
| **Oedran** | **Dim effaith** | Mae gan yr Awdurdod Lleol ddyletswydd statudol i ddarparu addysg amser llawn i blant a phobl ifanc 4-16 oed. Mae Ysgol Uwchradd Caergybi ar hyn o bryd yn derbyn dysgwyr o 11 oed hyd at 18 oed. Pe bai'r cynnig yn cael ei wireddu, bydd Ysgol Uwchradd Caergybi yn parhau i dderbyn dysgwyr o 11-18 oed. | Pe bai'r cynnig yn cael ei gymeradwyo, bydd Ysgol Uwchradd Caergybi yn parhau i dderbyn dysgwyr rhwng 11 a 18 oed. |
| **Anabledd** | **Cadarnhaol** | Os gwireddir y cynnig:<br>• Gan fod Ysgol Uwchradd Caergybi wedi'i hadeiladu yn y 1960au, dim ond yn rhannol y mae'n bodloni gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010. Byddai adeilad newydd posibl Ysgol Uwchradd Caergybi yn bodloni gofynion y Ddeddf yn llawn.<br>• Bydd dysgwyr ag ADY yn parhau i dderbyn cefnogaeth i ymateb i'w hanghenion addysgol unigol.<br>• Effaith ar staff ADY | Pe bai'r cynnig yn cael ei gymeradwyo, byddai'r Cyngor yn sicrhau bod dyluniad yr adeilad newydd yn unol â chanllawiau naill ai Llywodraeth EF ar gyfer dylunio ysgolion uwchradd sef Bwletin Adeiladu 98 neu canllawiau Llywodraeth Cymru sef Canllawiau Arwynebedd ar gyfer Ysgolion yng Nghymru. Mae'n nodi: "Rhaid caniatáu mynediad a chynhwysiant yn y dyluniad, gan adlewyrchu ymrwymiad y Llywodraeth i hyrwyddo cynhwysiant dysgwyr ag anghenion addysgol arbennig (AAA) ac anableddau mewn ysgolion prif ffrwd. Mae hyn yn golygu y dylai dysgwyr o'r fath allu cael mynediad i'r cwricwlwm ysgol cyfan." Felly, byddai dysgwyr a staff anabl yn gallu cael mynediad llawn i'r holl adeilad ysgol newydd arfaethedig.<br>Bydd y Cyngor yn darparu cymorth a chefnogaeth briodol i ddysgwyr ag ADY ac anabledd. Bydd anghenion unigol dysgwyr ag ADY a dysgwyr anabl yn cael eu hasesu ar adeg trosglwyddo i unrhyw ysgol. |

<table>
<tr><th>Y grŵp gwarchodedig</th><th>*Yr effaith debygol</th><th>Manylion am yr effaith (gan gynnwys tystiolaeth i gefnogi’r canfyddiadau)</th><th>Camau i liniaru effaith negyddol</th></tr>
<tr><td></td><td></td><td></td><td>Bydd y Cyngor hefyd yn darparu cymorth a chefnogaeth briodol ar gyfer anghenion aelodau staff ADY.</td></tr>
<tr><td>Rhyw</td><td>Dim effaith</td><td>Mae'r tabl isod yn dangos y rhaniad rhyw presennol a'r rhaniad os caiff y cynnig ei wireddu.<br><br>Rhaniad rhyw presennol (Ionawr 2024):<table><tr><th>Rhyw</th><th>Ysgol Uwchradd Caergybi</th></tr><tr><td>Gwrywaidd</td><td>50%</td></tr><tr><td>Benywaidd</td><td>50%</td></tr></table><br>Rhagamcan o'r rhaniad rhyw os gwireddir y cynnig:<table><tr><th>Rhyw</th><th>Ysgol Uwchradd Caergybi</th></tr><tr><td>Gwrywaidd</td><td>50%</td></tr><tr><td>Benywaidd</td><td>50%</td></tr></table><br>Byddai'r rhaniad rhyw a ragwelir o dan y cynnig yn gymharol gyfartal ac ni fyddai'n destun pryder.</td><td>Mae perfformiad pob dysgwr yn cael ei asesu a’i fonitro i gynnwys grwpiau penodol fel gwrywod a benywod, prydau ysgol am ddim, dysgwyr ADY, lleiafrifoedd ethnig, Saesneg fel iaith ychwanegol (SIY), plant mewn gofal a’r rhai mwy galluog a thalentog. Mae perfformiad addysgol gwrywod a benywod yn cael ei fonitro'n gyson i sicrhau nad oes gwahaniaethau mawr rhwng gwrywod a benywod.</td></tr>
<tr><td>Ailbennu Rhywedd</td><td>Dim effaith</td><td>Ddim yn berthnasol i ddysgwyr yr ysgol. Nid oes tystiolaeth i ddangos y bydd gwahaniaethu ar sail ailbennu rhywedd yn digwydd ac nid yw'n debygol.</td><td>Ni fyddai unrhyw aelod o staff sydd wedi ailbennu eu rhywedd yn cael eu trin yn wahanol.</td></tr>
<tr><td>Beichiogrwydd a Mamolaeth</td><td>Dim effaith</td><td>Ddim yn berthnasol i ddysgwyr yr ysgol.<br>Nid oes tystiolaeth bod gwahaniaethu ar sail beichiogrwydd neu famolaeth yn digwydd gyda staff yr ysgol.</td><td>Mae staff benywaidd a gyflogir yn Ysgol Uwchradd Caergybi sy’n beichiogi yn gymwys am gyfnod mamolaeth yn unol â Chynllun Absenoldeb Mamolaeth y Cyngor. Mae staff gwrywaidd yn gymwys ar gyfer absenoldeb tadolaeth yn unol â’r Polisi Absenoldeb Tadolaeth, neu gall rhieni ofyn am absenoldeb rhieni a rennir.</td></tr>
</table>

<table>
<tr><th>Y grŵp gwarchodedig</th><th>*Yr effaith debygol</th><th>Manylion am yr effaith (gan gynnwys tystiolaeth i gefnogi'r canfyddiadau)</th><th>Camau i liniaru effaith negyddol</th></tr>
<tr><td>Hil / Ethnigrwydd / Cenedligrwydd</td><td>Dim effaith</td><td>Data CYBLD Ionawr 2024:<br><table><tr><th colspan="5">Ysgol Uwchradd Caergybi</th></tr><tr><td>Gwyn</td><td>Asiaidd</td><td>Du</td><td>Cymysg</td><td>Arall</td></tr><tr><td>95.8%</td><td>0.7%</td><td>0.2%</td><td>2.9%</td><td>0.4%</td></tr></table><br>Mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn dangos na fydd effeithiau niweidiol yn seiliedig ar hil / ethnigrwydd / cenedligrwydd yn digwydd a'u bod yn annhebygol.</td><td>Os caiff y cynnig ei wireddu a bod dysgwyr o gefndiroedd ethnig neu hiliol eraill yn mynychu adeilad newydd yr ysgol, ni fyddant yn cael eu trin yn wahanol ar sail eu tarddiad ethnig. Ni fyddai unrhyw aelod o staff o gefndiroedd ethnig eraill yn cael eu trin yn wahanol ar sail eu tarddiad ethnig.</td></tr>
<tr><td>Crefydd neu Gred</td><td>Dim effaith</td><td>Nid yw CYBLD Ionawr 2024 yn cadw data ar yr agwedd hon.<br>Mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn dangos na fydd effeithiau niweidiol yn seiliedig ar grefydd neu gred yn digwydd a'u bod yn annhebygol.</td><td>Mae'n ddewis gan y rhai sydd â chyfrifoldeb rhiant neu gan blentyn cymwys i rannu gwybodaeth am grefydd neu gred y plentyn hwnnw gyda'r ysgol. Ni fydd staff na dysgwyr yn cael eu trin yn wahanol oherwydd eu crefydd neu gred.</td></tr>
<tr><td>Cyfeiriadedd Rhywiol</td><td>Dim effaith</td><td>Nid yw CYBLD Ionawr 2024 yn cadw data ar yr agwedd hon.<br><br>Mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn dangos na fydd effeithiau niweidiol yn seiliedig ar gyfeiriadedd rhywiol yn digwydd a'u bod yn annhebygol.</td><td>Mae'n ddewis gan y rhai sydd â chyfrifoldeb rhiant neu gan blentyn cymwys i rannu gwybodaeth am gyfeiriadedd rhywiol y plentyn hwnnw gyda'r ysgol. Ni fydd staff na dysgwyr yn cael eu trin yn wahanol oherwydd eu cyfeiriadedd rhywiol.</td></tr>
<tr><td>Priodas neu bartneriaeth sifil</td><td>Dim effaith</td><td>Ddim yn berthnasol i ddysgwyr yr ysgol.<br><br>Mae'r Cyngor wedi ystyried effaith y cynnig ar staff Ysgol Uwchradd Caergybi o ran y gofyniad i ddileu gwahaniaethu mewn cyflogaeth.<br>Mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn dangos na fydd gwahaniaethu ar sail priodas/neu bartneriaeth sifil yn digwydd ac nid yw'n debygol.</td><td>Ni fydd aelodau staff yn cael eu trin yn wahanol ar sail eu statws priodasol neu bartneriaeth sifil.</td></tr>
</table>

| Y grŵp gwarchodedig | *Yr effaith debygol | Manylion am yr effaith (gan gynnwys tystiolaeth i gefnogi'r canfyddiadau) | Camau i liniaru effaith negyddol |
|---|---|---|---|
| **Yr iaith Gymraeg** | **Dim effaith** | Mae data CYBLD – Ionawr 2024 yn dangos bod 20% o ddysgwyr Ysgol Uwchradd Caergybi yn siarad Cymraeg gartref. Ni fyddai gweithredu'r cynnig, ynddo'i hun, yn arwain at gynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn yr ysgol.<br><br>Ar hyn o bryd mae gan Ynys Môn 4 ysgol uwchradd yng nghategori 3 ac 1 mewn categori trosiannol (T3). Mae Ysgol Uwchradd Caergybi yn y categori trosiannol hwn. Mae wedi dechrau ar y broses o drosglwyddo i gategori 3 o fewn cynllun pum mlynedd, gan gyrraedd categori 3 erbyn Medi 2029. Diffiniad ysgol uwchradd Categori 3 yw:<br>Categori 3 – Bydd ysgol cyfrwng Cymraeg yn cynnig ystod eang o'i Meysydd Dysgu a Phrofiad (MDaPh) drwy gyfrwng y Gymraeg. O leiaf 60% % o ddysgwyr yn ymgymryd ag o leiaf 70% o weithgareddau eu hysgol (cwricwlaidd ac allgyrsiol) yn Gymraeg. Disgwylir i ysgolion Categori 3 barhau i adlewyrchu cyd-destun ieithyddol yr ardal wrth weithio tuag at gynyddu eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg dros amser. | Er bod y broses drosiannol hon yn annibynnol ar y cynnig hwn, os cytunir ar y cynnig, bydd darparu addysg cyfrwng Cymraeg mewn adeilad newydd yn Ysgol Uwchradd Caergybi yn bodloni'r galw gan fod wyth o'r naw ysgol gynradd yn nalgylch yr ysgol wedi'u dynodi'n rhai cyfrwng Cymraeg. Byddai hyn hefyd yn golygu y byddai dysgwyr yn aros o fewn eu dalgylch i gael addysg gwbl ddwyieithog yn lle mynd i ysgol uwchradd gyfagos.<br><br>Byddai'r cynnig yn rhan o raglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu Llywodraeth Cymru a'r Cyngor. |
| **Hawliau Dynol** | **Dim effaith** | Nid yw CYBLD Ionawr 2024 yn cadw data ar yr agwedd hon.<br><br>Nid oes unrhyw dystiolaeth i ddangos y bydd gwahaniaethu ar sail hawliau dynol a ddiogelir yn digwydd nac yn debygol o ddigwydd gyda staff ysgol neu ddysgwyr. | Ni fydd dysgwyr na staff yn cael eu trin yn wahanol ar sail eu gofynion hawliau dynol. |
| **Economaidd-Gymdeithasol - arall.** | **Dim effaith** | Ym mis Medi 2024, roedd gan 33.4% o ddysgwyr Ysgol Uwchradd Caergybi hawl i brydau ysgol am ddim. | Nid oes unrhyw safle ar gyfer yr adeilad newydd posibl wedi'i nodi ond bydd rhai dysgwyr yn teithio ymhellach, a gallai eraill deithio llai o bellter i'r |

| Y grŵp gwarchodedig | *Yr effaith debygol | Manylion am yr effaith (gan gynnwys tystiolaeth i gefnogi'r canfyddiadau) | Camau i liniaru effaith negyddol |
|---|---|---|---|
| | | Mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn dangos na fydd gwahaniaethu ar sail statws economaidd-gymdeithasol yn digwydd ac nad yw'n debygol. | ysgol newydd bosibl. Felly, mae'r cynnig yn debygol o gael effaith niwtral ar lefelau amddifadedd yng Nghaergybi.<br>Ni fydd dysgwyr yn cael eu trin yn wahanol ar sail eu statws economaidd-gymdeithasol ac ni fydd aelodau staff ychwaith. |
| **Economaidd-Gymdeithasol - arall. Cyfranogiad plant llai breintiedig mewn gweithgareddau ar ôl ysgol.** | **Cadarnhaol** | Nid yw lleoliad yr ysgol uwchradd newydd arfaethedig yn hysbys eto. Fodd bynnag, bydd gan yr adeilad ysgol newydd y potensial i ddarparu mwy o gyfleoedd i ddysgwyr fanteisio ar weithgareddau ar ôl ysgol yn yr Ysgol Uwchradd Caergybi newydd arfaethedig.<br>Efallai y bydd yn rhaid i rai dysgwyr o rai rhannau o'r dalgylch deithio ymhellach i gymryd rhan mewn gweithgareddau ar ôl ysgol ond byddai'n rhaid i eraill deithio llai.<br>Os gwireddir y cynnig, gallai'r Ysgol Uwchradd Caergybi newydd arfaethedig wneud darpariaeth addas a fydd o leiaf yn cyfateb i'r ddarpariaeth bresennol mewn perthynas â gweithgareddau ar ôl ysgol. Yng nghyd-destun gweithgareddau ar ôl ysgol anogir pob dysgwr, beth bynnag fo'u cefndir, i gyfranogi gyda'r disgwyliad ar yr ysgol i wneud trefniadau addas i ddysgwyr llai breintiedig allu cymryd rhan. Byddai'r trefniadau hyn yn cynnwys ond ni fyddent yn gyfyngedig i glybiau a gynhelir yn ystod yr awr ginio, trefniadau gyda rhieni neu ofalwyr ar gyfer casglu a darparu cludiant ar ôl ysgol. | Ni chanfuwyd unrhyw effaith negyddol ond bydd CSYM yn asesu eto unwaith y bydd lleoliad yr adeilad ysgol newydd arfaethedig yn hysbys. |
| Mae cysylltiadau clir rhwng materion cydraddoldeb a materion economaidd-gymdeithasol. Gall camwahaniaethu achosi anfantais economaidd-gymdeithasol yn uniongyrchol. Os daw unrhyw faterion o'r fath yn amlwg wrth asesu materion sydd ddim yn rai strategol, dylid rhoi ystyriaeth ddyledus iddynt a'u cofnodi o dan y grŵp gwarchodedig perthnasol, neu o dan 'unrhyw fater perthnasol arall' isod. | | | |

| Cwblhewch y rhan yma os yw'r cynnig yn fater strategol | | | |
|---|---|---|---|
| **Y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol** | ***Yr effaith debygol** | **Manylion am yr effaith (gan gynnwys tystiolaeth i gefnogi'r canfyddiadau)** | **Camau i liniaru effaith negyddol** |
| **A yw'r cynnig yn debygol o achosi anghydraddoldebau o ran canlyniadau o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol?** | Wedi'i gynnwys uchod | Gweler uchod | Gweler uchod |
| **Unrhyw fater perthnasol arall** | Pe bai effeithiau'n cael eu nodi, bydd y rhain yn cael eu hystyried a'u hadlewyrchu mewn fersiwn (fersiynau) diwygiedig o'r asesiad effaith hwn | | |

**Canlyniad yr asesiad:**

Mae'r asesiad yn dangos bod y cynnig yn gadarn; **nid oes unrhyw botensial hysbys ar gyfer gwahaniaethu nac effaith niweidiol ar hyn o bryd. Mewn gwirionedd, pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai'n gwella mynediad i adeilad yr ysgol ar gyfer pobl anabl gan y byddai'r adeilad ysgol newydd posibl yn cael ei ddylunio yn unol â'r canllawiau ym Mwletin Adeiladu 98 neu canllawiau Llywodraeth Cymru sef Canllawiau Arwynebedd ar gyfer Ysgolion yng Nghymru.** Manteisiwyd ar bob cyfle i hyrwyddo cydraddoldeb.

| **2.7 Canlyniad yr asesiad** | |
|---|---|
| Nodwch y prif effeithiau sydd wedi cael eu hadnabod a sut y bwriedir lliniaru'r effeithiau negyddol o ran cydraddoldeb, yr iaith Gymraeg ac, os yn berthnasol, anfantais economaidd-gymdeithasol | Yn gyffredinol, disgwylir i'r cynnig gael effaith gadarnhaol o ran cydraddoldeb, hawliau dynol, yr Iaith Gymraeg ac anfantais economaidd-gymdeithasol. |
| Disgrifiwch unrhyw weithredu a wnaed, neu a fwriedir, i wneud y mwyaf o hyrwyddo cydraddoldeb a'r iaith Gymraeg, nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac, os yn berthnasol, i sicrhau gwell canlyniadau i'r rhai sy'n wynebu anfantais economaidd. | Os cytunir ar y cynnig gan Bwyllgor Gwaith y Cyngor, byddai'r ysgol newydd bosibl yn cael ei dylunio i ganiatáu mynediad ar gyfer dysgwyr a staff anabl i adeilad newydd Ysgol Uwchradd Caergybi.<br>Os cytunir ar y cynnig, erbyn i'r adeilad ysgol newydd gael ei agor, bydd Ysgol Uwchradd Caergybi yn ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg.<br>Y cynnig yw ysgol uwchradd newydd yn lle adeilad presennol Ysgol Uwchradd Caergybi. Felly, mae'r cynnig yn debygol o gael effaith niwtral (dim effaith) ar lefelau amddifadedd yng Nghaergybi.<br>Bydd disgwyl i'r Ysgol Uwchradd Caergybi newydd arfaethedig wneud darpariaeth addas a fydd o leiaf yn cyfateb i'r ddarpariaeth bresennol mewn perthynas â chlybiau. Yng nghyd-destun gweithgareddau ar ôl ysgol anogir pob dysgwr, beth bynnag fo'u cefndir, i gyfranogi gyda'r disgwyliad ar yr ysgol i wneud trefniadau addas i ddysgwyr llai breintiedig allu cymryd rhan. Byddai'r trefniadau hyn yn cynnwys, ond ni fyddent yn gyfyngedig i, glybiau a gynhelir yn ystod yr awr ginio, trefniadau gyda rhieni neu ofalwyr ar gyfer casglu a darparu cludiant ar ôl ysgol. Gallai dysgwyr yr Ysgol Uwchradd Caergybi newydd arfaethedig gael mwy o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau ar ôl ysgol.<br><br>Ymhlith manteision eraill, gallai'r cynnig, o'i wireddu, arwain at y manteision a ganlyn (fel yr amlinellir yn y papur cynnig):<br>• Byddai gan safle'r ysgol newydd bosibl ei gaeau chwarae ei hun.<br>• Tebygolrwydd cynyddol y bydd dysgwyr yn aros o fewn eu dalgylch oherwydd bod ganddynt fynediad i adeilad ysgol newydd ac adnoddau modern.<br>• Mae'n annhebygol y bydd cost cludiant ychwanegol yn gysylltiedig â'r bwriad<br>• Gallai amgylchedd ysgol wedi'i ddylunio'n dda ynghyd â mannau gwyrdd awyr agored wella iechyd corfforol a meddyliol plant, yn ogystal â gwella lles staff a gwneud iddynt deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. |

| 2.7 Canlyniad yr asesiad | |
|---|---|
| | • Gallai adeilad ysgol newydd ddarparu adnoddau modern arbenigol ychwanegol a mannau gwyrdd awyr agored i yrru'r cwricwlwm newydd yn ei flaen.<br>• Disgwylir y byddai cael adnoddau cymunedol pwrpasol yn yr adeilad ysgol newydd a mynediad at gyfleusterau modern yn denu mwy o ddefnydd gan y gymuned ac ymgysylltiad / cyfranogiad gan deuluoedd.<br>• Byddai allyriadau carbon yn cael eu lleihau.<br>• Byddai'r cynnig yn helpu i gadw dysgwyr sy'n mynychu Ysgol Uwchradd Caergybi - mae mwy o debygolrwydd y bydd dysgwyr yn aros o fewn dalgylch Ysgol Uwchradd Caergybi oherwydd bod y dyddiad cwblhau a fwriedir ar gyfer adeilad yr ysgol yn cyd-fynd â'r diffiniad iaith newydd arfaethedig ar gyfer yr ysgol h.y., cyfrwng Cymraeg. Byddai mwy o ddysgwyr dalgylch felly yn mynychu eu hysgol ddalgylch yn lle Ysgol Uwchradd Bodedern (sef yr ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg agosaf i'r dalgylch ar hyn o bryd), gan arwain at ddefnydd cynyddol o'r iaith yng Nghaergybi.<br>• Mae'n bosibl y bydd cludo plant i Ysgol Uwchradd Bodedern o ddalgylch Ysgol Uwchradd Caergybi i gael addysg ddwyieithog yn dod i ben pan fydd adeilad newydd Ysgol Uwchradd Caergybi yn agor.<br>• Bod yn adeilad ysgol newydd gyda'r dechnoleg a'r adnoddau diweddaraf.<br>• Creu gwell cyfleusterau y gall dysgwyr a'r gymuned ehangach eu defnyddio<br>• Gwella iechyd corfforol a meddyliol plant o bosibl, yn ogystal â gwella lles staff a gwneud iddynt deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi.<br>• Mae tiroedd ysgol sydd wedi'u cynllunio'n dda ac wedi'u datblygu'n feddylgar yn cyfoethogi'r cyfleoedd i ddysgu a chwarae. Mae cysylltiad a chyswllt â natur yn creu emosiynau mwy cadarnhaol a theimladau o fywiogrwydd, a llai o emosiynau negyddol; mae hefyd yn cynnig rhyddhad rhag blinder meddwl, a'r gallu i ganolbwyntio am gyfnod hirach.<br><br>Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i fuddsoddi mewn amgylchedd dysgu Ysgolion Bro, drwy gydleoli gwasanaethau allweddol lle bo'n briodol, a sicrhau ymgysylltiad cryfach â rhieni a gofalwyr y tu allan i oriau traddodiadol. Mae rhaglen Ysgolion Bro y Cyngor yn mynd i'r afael â thlodi plant ac yn lliniaru ei effeithiau, gan gynnwys yr anghydraddoldebau addysgol y mae plant yn eu profi oherwydd byw mewn tlodi. |

| **2.7 Canlyniad yr asesiad** | |
|---|---|
| | O ran y nodau llesiant yn **Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**, rhagwelir y deilliannau canlynol:<br><br>**Cymru lewyrchus** – Os caiff y cynnig ei wireddu, gallai arwain at ostyngiad yn y defnydd o ynni a gostyngiad mewn allyriadau carbon deuocsid. Bydd yr addysg a gaiff y dysgwyr yn helpu i ddatblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig i'r dyfodol.<br>**Cymru fwy cyfartal** – Bydd y cynnig yn sicrhau bod yr adeilad ysgol newydd posibl yn addas i'r diben ac yn sicrhau bod gallu a photensial pob dysgwr i lwyddo yn cael eu gwireddu<br>**Cymru o gymunedau cydlynus** – Mae gan y cynnig y potensial i ffurfio cymuned newydd yn seiliedig ar adeilad yr ysgol newydd a'i dalgylch.<br>**Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang** – Bydd yr adeilad ysgol newydd arfaethedig yn cael ei adeiladu i safonau BREAAM a bydd yn cynnwys nifer o fentrau arbed ynni. Bydd hwn, a rhannau penodol eraill o'r cwricwlwm, yn cael eu defnyddio i ddatblygu dealltwriaeth dysgwyr o fyw a thyfu i fyny mewn Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.<br>**Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu** - Mae'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg i'w weld yn Adran 3. Erbyn i'r ysgol newydd bosibl agor yn 2030, bydd yr adeilad ysgol uwchradd newydd arfaethedig yn ysgol cyfrwng Cymraeg, a bydd o leiaf yn cynnal darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn yr ardal.<br>Bydd y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion yn cydweithio gyda Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned a chyfrannu at darged Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.<br>Mae'r Gwasanaeth Addysg yn adrodd yn chwarterol i Fforwm Iaith y Cyngor ar y defnydd o'r Gymraeg yn ysgolion y Cyngor ac mae Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA) y Cyngor yn cael ei fonitro'n chwarterol gan Fforwm Iaith y Cyngor.<br>Bydd gan yr ysgol uwchradd newydd arfaethedig Ardal Chwaraeon Amlddefnydd (*MUGA*) a fydd yn annog cyfranogiad mewn chwaraeon a hamdden. |
| A fyddai unrhyw elfen o'r cynnig yn mynd yn groes i nodau llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015? | Na fyddai |

| 2.7 Canlyniad yr asesiad | |
|---|---|
| A oes angen edrych ar beth y gellid ei wneud yn wahanol, neu ail-ystyried y cynnig yn gyfan gwbl, o ganlyniad i gynnal yr asesiad hwn? | Nag oes |
| Oes yna strategaeth ar gyfer delio gydag unrhyw effeithiau negyddol, sydd ddim yn anghyfreithlon ond na ellir eu hosgoi na'u lliniaru? | Cymerir camau lliniaru i wrthbwyso unrhyw effeithiau negyddol posibl a ragwelwyd – fel y nodir uchod. |
| A fydd y cynnig yn cael ei fabwysiadu / anfon ymlaen i'w gymeradwyo? Pwy fydd yn gwneud y penderfyniad? | Bydd – Bydd Pwyllgor Gwaith y Cyngor yn penderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'r cynnig, drwy gynnal ymgynghoriad statudol.<br>Os bydd y Pwyllgor Gwaith yn penderfynu symud ymlaen, bydd swyddogion yn dilyn proses ymgynghori statudol fel yr amlinellir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion (11/2018). |
| Oes yna drefniadau monitro mewn lle?<br>Beth yw'r trefniadau hynny? | Mae trefniadau llywodraethu yn cynnwys gweithdrefnau sy'n cyfrannu at herio; yn sicrhau cydymffurfiaeth â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion; yn monitro cynnydd ac yn rheoli risgiau.<br><br>Mae'r Asesiad Effaith hwn yn ddogfen fyw, a fydd yn parhau i gael ei diweddaru wrth i'r cynnig fynd rhagddo. |

**Casgliad -** Mae'r asesiad yn dangos bod y cynnig yn gadarn; **nid oes unrhyw botensial hysbys ar gyfer gwahaniaethu nac effaith niweidiol.** Manteisiwyd ar bob cyfle i hyrwyddo cydraddoldeb.

Mae effaith bosibl y cynnig ar yr iaith Gymraeg yn cael ei hasesu ar wahân yn yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg (Adran 3).

## 2.8 Cynllun Gweithredu

| Cyf | Gweithredu arfaethedig | Swyddog arweiniol | Amserlen |
|---|---|---|---|
| 1 | Pwyllgor Gwaith y Cyngor i benderfynu a ddylid awdurdodi swyddogion i gynnal ymgynghoriad statudol ar y cynnig. | Aaron C. Evans | I'w gadarnhau. |

## 3. ASESIAD O'R EFFAITH AR YR IAITH GYMRAEG

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu'r egwyddor na ddylai'r Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac y dylai trigolion yr ynys allu byw eu bywydau trwy gyfrwng y Gymraeg os dymunant. Mae'r un disgwyliad yn berthnasol o ran y Gymraeg ym mhob un o'r ysgolion, sy'n rhoi cyfle i bob dysgwr yn y Sir ennill y sgiliau priodol i fod yn hyderus ddwyieithog.

Gan fod y cynnig hwn yn edrych ar sut y byddai gweithredu polisïau, strategaethau neu ganllawiau allweddol y Cyngor yn effeithio ar y Gymraeg; a sut y byddai'r cynnig yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg neu'n cael effaith niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg; **cynhelir asesiad effaith mwy cynhwysfawr ar y Gymraeg yma.**

| 3.1 Cydymffurfiaeth â'r Polisi Iaith Gymraeg | |
|---|---|
| A yw'r cynnig arfaethedig yn ddylanwadol o ran delio â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg?<br><br>• A fydd gweithgareddau megis gohebu drwy lythyr, cyfathrebu dros y ffôn, cyfarfodydd cyhoeddus a chyfarfodydd eraill yn cydymffurfio â'r polisi iaith?<br>• A fydd unrhyw ddatblygiad TG newydd yn cydymffurfio â'r polisi? | Ydy, effaith gadarnhaol - gweler isod.<br><br>Bydd – bydd pob gohebiaeth a chyfathrebu yn parhau i gydymffurfio â'r Polisi Iaith Gymraeg.<br><br>Bydd – bydd unrhyw ddatblygiadau TG newydd yn parhau i gydymffurfio â'r Polisi Iaith Gymraeg. |
| A yw'r cynnig yn debygol o effeithio ar wyneb cyhoeddus y sefydliad?<br><br>• A fydd unrhyw arwyddion yn cydymffurfio â'r polisi iaith?<br>• A fydd unrhyw gyhoeddiadau a ffurflenni yn cydymffurfio?<br>• A fydd unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd neu ymgyrchoedd marchnata yn cydymffurfio?<br><br>• A fydd hysbysebion recriwtio staff yn cydymffurfio? | Ydy<br><br>Bydd – bydd pob arwydd yn cydymffurfio â'r polisi iaith.<br>Bydd – bydd cyhoeddiadau a ffurflenni yn cydymffurfio.<br>Bydd – bydd unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd neu ymgyrchoedd marchnata yn cydymffurfio.<br><br>Bydd – bydd hysbysebion recriwtio staff yn cydymffurfio. |
| A yw'r cynnig yn debygol o gael effaith ar weithrediad y polisi iaith?<br><br>• A fydd y cynnig yn creu swyddi newydd?<br><br>• A fydd y trefniadau staffio yn hwyluso gweithrediad y polisi iaith?<br><br>• A fydd unrhyw hyfforddiant yn cael ei gynnig drwy gyfrwng y Gymraeg?<br><br>• A fydd unrhyw drefniadau gyda thrydydd parti yn cydymffurfio â'r polisi iaith?<br><br>• A fydd y cynnig yn cynnwys unrhyw dargedau neu ddangosyddion ynglŷn â'r Gymraeg? | Bydd unrhyw swyddi addysgu newydd yn cael eu creu yn unol â'r strwythur staffio a ddatblygwyd gan gorff llywodraethu Ysgol Uwchradd Caergybi. Mae'r effaith y gallai'r cynnig ei chael ar strwythur staffio presennol Ysgol Uwchradd Caergybi yn dibynnu ar benderfyniad y Pwyllgor Gwaith:<br>• ynghylch a ddylid symud ymlaen i ymgynghoriad statudol ar y cynnig hwn a phenderfyniadau dilynol.<br>• ynghylch a ddylid symud ymlaen i ymgynghoriad statudol gyda'r ddarpariaeth addysg ôl-16 ar Ynys Môn ac unrhyw benderfyniadau dilynol.<br><br>Bydd – fel ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg, bydd unrhyw staff newydd gaiff eu recriwtio yn siaradwyr Cymraeg yn unol â'r polisi iaith a byddant yn parhau i weithredu'r polisi.<br><br>Bydd – bydd staff newydd yn cael eu hyfforddi drwy gyfrwng y Gymraeg<br><br>Bydd – bydd trefniadau gyda thrydydd parti yn cydymffurfio â'r polisi iaith.<br><br>Bydd – canran y dysgwyr sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig yn y Gymraeg ar ddiwedd cyfnodau |

| 3.1 Cydymffurfiaeth â'r Polisi Iaith Gymraeg | |
|---|---|
| • Sut caiff perfformiad ei fonitro a'i fesur? | allweddol a chanran y dysgwyr sy'n siarad Cymraeg gartref. Deilliannau yn y CSGA.<br><br>Yn ôl data a gasglwyd gan y Gwasanaeth Dysgu, megis canran y dysgwyr sy'n cyflawni sgôr pwyntiau Llythrennedd ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4. Cesglir data arall megis canran y dysgwyr sy'n siarad Cymraeg gartref fel rhan o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) a gynhelir ym mis Ionawr bob blwyddyn. |

| 3.2 Yr effaith ar ddefnyddwyr yr iaith Gymraeg | |
|---|---|
| • A fydd y cynnig hwn yn cynnig dewis iaith i ddefnyddwyr?<br><br>• A fydd modd i ddefnyddwyr ddewis unrhyw elfen o'r gwasanaeth yn Gymraeg? | Mae Ysgol Uwchradd Caergybi wedi'i chategoreiddio fel T3 h.y., mae'r ysgol yn trosglwyddo i fod yn ysgol cyfrwng Cymraeg (erbyn 3 Medi 2029). Mae gan yr ysgol ethos Cymreig cryf, a bydd pob dysgwr yn cael ei gefnogi i ddefnyddio'r Gymraeg y tu fewn a thu allan i'r ystafell ddosbarth. Ar gyfer trochi iaith, bydd pob dysgwr yn cael ei addysgu'n llawn trwy gyfrwng y Gymraeg, gyda'r Saesneg yn cael ei defnyddio ar adegau i sicrhau dealltwriaeth. |
| • Oes perygl i'r cynnig gam wahaniaethu yn erbyn defnyddwyr Cymraeg?<br><br>• A yw anghenion siaradwyr Cymraeg wedi'u hystyried yn y cynnig?<br><br>• A yw siaradwyr Cymraeg yn debygol o dderbyn yr un safon o wasanaeth a'r hyn a dderbynnir yn Saesneg?<br><br>• A yw trefniadau iaith Gymraeg yn debygol o arwain at oedi yn y gwasanaeth? | Na – Bydd yr ysgol yn cydymffurfio â Pholisi Iaith Gymraeg y Cyngor.<br><br>Ydynt – anghenion dysgwyr sy'n siarad Cymraeg yw un o'r prif yrwyr ar gyfer y cynnig hwn.<br><br>Ydynt – bydd yr un safon o wasanaeth yn cael ei ddarparu i bob dysgwr.<br><br>Na – ni fydd trefniadau Cymraeg yn arwain at oedi yn y gwasanaeth. |
| • A fydd y cynnig yn debygol o wneud y Gymraeg yn fwy gweledol?<br>• A yw'n debygol o gynyddu defnydd drwy gynhyrchu deunyddiau ac arwyddion Cymraeg?<br><br>• A yw'n debygol o ddylanwadu ar eraill i wneud mwy o ddefnydd gweledol o'r Gymraeg e.e., busnesau? | Ni ragwelir unrhyw newid sylweddol.<br><br>Byddai arwyddion yn adeilad newydd yr ysgol yn cydymffurfio â'r polisi iaith Gymraeg. Byddai Ysgol Uwchradd Caergybi yn parhau i hyrwyddo ac annog y defnydd o'r Gymraeg a gallai ddefnyddio deunyddiau Cymraeg.<br><br>Byddai arwyddion dwyieithog i'w gweld gan lawer yn yr ardal yn adeilad newydd yr ysgol. |
| • A fydd y gwasanaeth Cymraeg ynghlwm â'r cynnig yn hygyrch? | Bydd - yn parhau i gydymffurfio â'r Polisi Iaith Gymraeg. |

| 3.2 Yr effaith ar ddefnyddwyr yr iaith Gymraeg | |
|---|---|
| • A fydd gwasanaeth yr un mor hawdd i'w gael yn Gymraeg a Saesneg?<br>• A fydd gwasanaethau ar gael yr un pryd? | Bydd - yn parhau i gydymffurfio â'r Polisi Iaith Gymraeg.<br>Bydd - yn parhau i gydymffurfio â'r Polisi Iaith Gymraeg. |

| 3.3 Yr effaith ar gymunedau Cymraeg | |
|---|---|
| • A yw'r cynnig yn debygol o gyfrannu at ddiogelu'r Gymraeg mewn cymunedau? | Ydy - os caiff y cynnig ei weithredu, bydd Ysgol Uwchradd Caergybi yn ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg. Pan fydd dysgwyr yn gadael yr ysgol, byddant yn gwbl ddwyieithog. Bydd hyn yn ei dro yn cyfrannu at warchod y Gymraeg yn eu cymunedau. |
| • A yw'n debygol o gyfrannu tuag at ymdrechion i ddelio gyda heriau newid demograffeg a mudo - fel cynnig cyfleoedd i bobl ifanc aros yn eu cymunedau? | Mae'r cynnig yn debygol o gael effaith niwtral ar ymdrechion i fynd i'r afael â heriau newid demograffig a mudo. |
| • A yw'n debygol o gyfrannu tuag at yr economi leol mewn cymunedau Cymraeg? | Mae'r cynnig yn debygol o gael effaith niwtral ar yr economi leol mewn ardaloedd Cymraeg eu hiaith. |
| • A fydd yn darparu gwasanaethau cyfrwng Cymraeg – megis gwarchod plant? | Mae'r cynnig yn annhebygol o ddarparu gwasanaethau cyfrwng Cymraeg y tu allan i'r ysgol. |
| • A yw'r cynnig yn cymryd camau i hybu a hyrwyddo'r Gymraeg? | **Ydy – gweler isod:** |
| • A yw'r cynnig yn cyfrannu at weithgareddau cymunedol cyfrwng Cymraeg? | Ydy – os gwireddir y cynnig, efallai y bydd amryw o weithgareddau cymunedol cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Uwchradd Caergybi. |
| • A yw'n cynnig cyfleoedd i bobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg tu allan i oriau'r ysgol? | Ydy – bydd yn darparu cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg yn ystod gweithgareddau ar ôl ysgol, yn ogystal ag yn y clybiau gofal plant a brecwast cyn ysgol. |
| • A yw'n darparu gwasanaeth newydd fydd hefyd ar gael yn Gymraeg? E.e., darpariaeth neu weithgaredd hamdden neu chwaraeon. | Yn rhannol – Ni fydd gwasanaethau newydd o reidrwydd ar gael o ganlyniad uniongyrchol i'r cynnig. Fodd bynnag, gallai'r cynnig arwain at gynnydd yn nifer y dysgwyr yn Ysgol Uwchradd Caergybi, a allai arwain at weithgareddau newydd ar ôl ysgol, oherwydd cynnydd yn y galw. |
| • A yw'n cyfrannu neu'n ychwanegu gwerth at weithgareddau eraill yn y maes iaith – e.e., gwaith y Fenter Iaith Leol, yr Urdd ac ati? | Bydd yn cryfhau gwaith gweithgareddau'n ymwneud â'r Gymraeg yn y dalgylch. |

| 3.4 Cyfraniad tuag at safonau'r Gymraeg, polisïau iaith, strategaethau a chanllawiau eraill perthnasol ynglŷn â'r iaith Gymraeg | |
|---|---|
| Polisïau iaith mudiadau partner neu gyrff cyhoeddus cyfagos:<br><br>• A yw'r awdurdod yn gweithio mewn partneriaeth ar y cynnig?<br><br>• Pa sefydliadau eraill sy'n debygol o gael eu heffeithio gan y datblygiad?<br>• Oes gan y sefydliadau hynny safonau iaith neu bolisïau iaith?<br>• A yw'r cynnig yn cyfrannu at y cynlluniau hyn? | Na - Nid yw'r Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth ar y cynnig. Fodd bynnag, os bydd Pwyllgor Gwaith y Cyngor yn cymeradwyo proses ymgynghori statudol ar gyfer y cynnig, bydd y Cyngor yn ceisio barn llawer o randdeiliaid a sefydliadau allanol (megis, ond heb fod yn gyfyngedig i: rhieni, gofalwyr, staff, cyrff llywodraethu, Llywodraeth Cymru, Estyn, cynghorau cymuned a thref ac ati) drwy ymgynghoriad statudol. Byddai hyn yn cael ei wneud yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion.<br><br>Nid oes disgwyl i'r cynnig effeithio ar unrhyw sefydliad arall.<br>Os bydd y cynnig yn dwyn ffrwyth, mae mwy o debygolrwydd y bydd dysgwyr yn aros o fewn dalgylch Ysgol Uwchradd Caergybi oherwydd bod y dyddiad cwblhau a fwriedir ar gyfer adeilad yr ysgol yn cyd-fynd â'r categori iaith newydd arfaethedig ar gyfer yr ysgol h.y., cyfrwng Cymraeg. Byddai mwy o ddysgwyr y dalgylch felly yn mynychu eu hysgol ddalgylch yn lle Ysgol Uwchradd Bodedern (sef yr ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg agosaf i'r dalgylch ar hyn o bryd), gan arwain at ddefnydd cynyddol o'r iaith yng Nghaergybi. |
| Strategaethau iaith Gymraeg perthnasol:<br><br>• fydd y cynnig yn cyfrannu at Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2021 - 2026 a fabwysiadwyd gan y Cyngor hwn ar 7 Rhagfyr 2021?<br>• Sut mae'r cynnig yn cyfrannu at weledigaeth Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050? | Nod y Cyngor fydd cynnal a gwella darpariaeth ddwyieithog a chyfrwng Cymraeg. Y nod yw datblygu galluoedd dysgwyr fel dysgwyr dwyieithog erbyn diwedd addysg ffurfiol.<br><br>Ni fyddai gwireddu'r cynnig yn effeithio'n andwyol ar y duedd bresennol o welliant yn erbyn Deilliannau 3, 5 a 6 (pob amcan sy'n ymwneud â dysgwyr oed ysgol uwchradd) Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-2032 y Cyngor, sef:<br><br>Deilliant 3 - Mwy o blant yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod o'u haddysg statudol i'r llall.<br>Deilliant 4 - Mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau a asesir yn y Gymraeg (fel pwnc) a phynciau trwy gyfrwng y Gymraeg.<br>Deilliant 5 - Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau yn yr ysgol. |

| 3.4 Cyfraniad tuag at safonau'r Gymraeg, polisïau iaith, strategaethau a chanllawiau eraill perthnasol ynglŷn â'r iaith Gymraeg | |
|---|---|
| | Deilliant 6 - Cynnydd yn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) (yn unol â'r dyletswyddau a osodir gan y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.<br>Deilliant 7 - Cynyddu nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu'r Gymraeg (fel pwnc) ac addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.<br><br>Mae Fforwm Iaith Gymraeg y Cyngor yn monitro cynnydd Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA) y Cyngor bob chwarter. |

| 3.5 Yr effeithiau sydd wedi eu nodi a'u hasesu | |
|---|---|
| Yr effeithiau cadarnhaol: | Os caiff y cynnig ei weithredu'n llawn, bydd Ysgol Uwchradd Caergybi yn ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg pan fydd yr adeilad newydd yn cael ei agor. |
| Yr effeithiau niweidiol: | Dim. |
| Cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg e.e., statws, defnyddio gwasanaethau Cymraeg, defnyddio'r Gymraeg mewn bywyd bob dydd, defnyddio mwy ar y Gymraeg yn y gwaith? | Cynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg gan ddysgwyr Ysgol Uwchradd Caergybi. |
| Tystiolaeth / data a ddefnyddiwyd i gefnogi'ch asesiad: | • CYBLD 2024 – Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion<br>• Ystadegau Medi 2024 a dderbyniwyd gan y Pennaeth.<br>• Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg y Cyngor<br>• Ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Gymraeg (os yw'r Pwyllgor Gwaith yn awdurdodi swyddogion i gynnal ymgynghoriad statudol ar y cynnig) |

| 3.6 Ymgynghori<br>**I'w ddiweddaru os bydd y Pwyllgor Gwaith yn awdurdodi swyddogion i gynnal ymgynghoriad statudol** | |
|---|---|
| Yn ystod yr ymgynghoriad, pa gwestiynau ydych chi'n dymuno eu gofyn am yr effeithiau ar yr iaith Gymraeg? | Ch1<br>Pa effaith fyddai'r cynnig yn ei chael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?<br><br>Pa effeithiau ydych chi'n meddwl fyddai yna?<br><br>Sut y gellir cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu liniaru effeithiau negyddol? |

| 3.6 Ymgynghori<br>I'w ddiweddaru os bydd y Pwyllgor Gwaith yn awdurdodi swyddogion i gynnal ymgynghoriad statudol | |
|---|---|
| | Ch2<br>Eglurwch sut y credwch y gallai'r cynnig gael ei ddefnyddio neu ei newid i gael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a dim effeithiau niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. |
| Gyda phwy ydych chi'n ymgynghori?<br>Sut mae grwpiau buddiant o ran y Gymraeg yn debygol o ymateb? | Rhanddeiliaid fel y nodir yn y cod trefniadaeth ysgolion i gynnwys comisiynydd y Gymraeg a Rheolwr Polisi Iaith Gymraeg y Cyngor. |
| Yn dilyn yr ymgynghoriad, pa newidiadau ydych chi wedi'u gwneud er mwyn rhoi sylw i'r materion ieithyddol a godwyd? | Os caiff y cynnig ei gymeradwyo, bydd newidiadau'n cael eu cynnwys ar ôl y cyfnod ymgynghori statudol. |

| 3.7 Ar ôl yr ymgynghoriad, y cynigion terfynol, a monitro parhaus | |
|---|---|
| Crynhowch eich cynigion terfynol, gan restru'r effeithiau tebygol ar y Gymraeg, a sut byddwch chi'n hyrwyddo/lliniaru'r rhain. Cofnodwch eich cydymffurfiaeth â safonau'r Gymraeg.<br><br>Bydd angen cyfeirio at y crynodeb hwn yn y templed asesiad effaith ar gydraddoldeb. | Ddim yn berthnasol ar hyn o bryd. |
| Sut y byddwch yn monitro'r effeithiau parhaus yn ystod gweithredu'r polisi? | Defnyddir y cynllun gweithredu ar ddiwedd yr asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb i nodi unrhyw gamau a gynllunnir ar ôl cwblhau'r asesiad. |

**Casgliad**

**Ymddengys na fyddai'r cynnig ar hyn o bryd yn cael unrhyw effeithiau niweidiol ar yr Iaith Gymraeg.**

## 4 ASESIAD O'R EFFAITH AR Y GYMUNED

Mae'r adran hon yn ystyried effaith bosibl y cynnig i **"Adleoli dysgwyr Ysgol Uwchradd Caergybi i adeilad ysgol newydd ar gyfer dysgwyr 11–18 oed"** ar y gymuned leol.

### 4.1 Niferoedd Dysgwyr a Rhagolygon Pum Mlynedd

Mae manylion niferoedd y dysgwyr ar y gofrestr (Medi 2024), niferoedd y dysgwyr ar gyfer y pedair blynedd diwethaf (CYBLD Ionawr 2024) a rhagamcanion dysgwyr y dyfodol hyd at 2029 (fel y'u darparwyd gan yr ysgol ym mis Medi 2024) i'w gweld yn yr adran hon:

**Nifer y dysgwyr presennol (Medi 2024) ac am y pedair blynedd diwethaf (CYBLD Ionawr 2024)**

| | | Nifer y dysgwyr | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgol Uwchradd Caergybi** | **Capasiti** | **Ionawr 2020** | **Ionawr 2021** | **Ionawr 2022** | **Ionawr 2023** | **Ionawr 2024** | **Medi 2024** |
| **Blwyddyn 7-11** | | **703** | **739** | **752** | **733** | **728** | **724** |
| **Blwyddyn 12-13** | | **114** | **140** | **131** | **140** | **115** | **102** |
| **Blwyddyn 7-13** | **1,170** | **817** | **879** | **883** | **873** | **843** | **826** |
| **% Lleoedd dros ben** | | **30.2%** | **24.9%** | **24.5%** | **25.4%** | **27.9%** | **29.4%** |

**Rhagamcanion pum mlynedd**

| Ysgol Uwchradd Caergybi | Capasiti | Rhagamcan Medi 2025 | Rhagamcan Medi 2026 | Rhagamcan Medi 2027 | Rhagamcan Medi 2028 | Rhagamcan Medi 2029 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Blwyddyn 7-11** | | **696** | **699** | **695** | **648** | **626** |
| **Blwyddyn 12-13** | | **112** | **101** | **96** | **107** | **105** |
| **Blwyddyn 7-13** | **1170** | **807** | **800** | **790** | **754** | **732** |
| **% Lleoedd dros ben** | | **31.0%** | **31.6%** | **32.5%** | **35.6%** | **37.4%** |

Mae rhagamcanion yn cadarnhau bod disgwyl i nifer y dysgwyr ar gyfer Ysgol Uwchradd Caergybi ostwng.

## 4.2 Dysgwyr sy'n teithio rhwng dalgylchoedd

Disgwylir i'r Cyngor gynllunio darpariaeth ysgolion o amgylch nifer y dysgwyr yn y dalgylch.

Mae'r tabl isod yn nodi canran y dysgwyr sy'n teithio o'r tu allan i ddalgylch Ysgol Uwchradd Caergybi i fynychu'r ysgol - Medi 2024:

| Cyfanswm nifer y dysgwyr all-dalgylch | Cyfanswm Poblogaeth yr Ysgol | Dysgwyr all-dalgylch fel % boblogaeth yr ysgol |
|---|---|---|
| 37 | 826 | 4.5% |

Mae nifer y plant sy'n mynychu'r ysgol o'r tu allan i'r dalgylch yn isel yn Ysgol Uwchradd Caergybi.

Mae'r tabl isod yn dangos pa ysgol uwchradd ar Ynys Môn y mae'r dysgwyr hyn yn ei mynychu:

| | **Medi 2024** | |
|---|---|---|
| **Nifer y dysgwyr sy'n byw yn nalgylch YUC** | **1,436** | |
| **Ysgolion a fynychir** | **Nifer y dysgwyr** | **% bras** |
| **Ysgol Uwchradd Caergybi** | 826 | **57.5%** |
| **Ysgol Uwchradd Bodedern** | 406 | **28.3%** |
| **Ysgol David Hughes** | 13 | **0.9%** |
| **Ysgol Gyfun Llangefni** | 30 | **2.1%** |
| **Ysgol Syr Thomas Jones** | 2 | **0.1%** |
| **Ysgol Friars - Bangor** | 132 | **9.2%** |
| **Ysgolion eraill yng Ngwynedd** | 27 | **1.9%** |

## 4.3 Rhagamcanion dysgwyr os bydd y cynnig yn mynd yn ei flaen.

Mae'r tabl isod yn dangos y dyraniad sy'n weddill ar gyfer datblygiadau tai yn y dalgylchoedd ysgol sydd â chaniatâd cynllunio (2018-2026).

| Gweddill y dyraniad ar gyfer datblygiadau tai yn y dalgylch gyda neu heb ganiatâd cynllunio (2018-2026) | Amcangyfrif<br>Nifer cyfatebol o ddysgwyr* |
|---|---|
| 529 | Amcangyfrif<br>80 o ddysgwyr |

* Mae tystiolaeth yn awgrymu bod gan bob tŷ o fewn yr ardal gynnyrch ehangach haen ganol [MSOA*[1]] ar gyfartaledd, 0.15 o blant oed ysgol uwchradd. Mae lluosi nifer y datblygiadau tai â 0.15 yn rhoi amcangyfrif o nifer y plant ychwanegol y byddai angen eu haddysgu yn yr ysgol benodol honno.

*[1] MSOA - ardaloedd fel y'u diffinnir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, ar gyfer adrodd ar wybodaeth cyfrifiad. Mae'r MSOA fel arfer yn cynnwys rhwng 2,000 a 6,000 o aelwydydd ac mae ganddynt boblogaeth o rhwng 5,000 a 15,000 o bobl. Mae rhagor o wybodaeth am yr MSOAs ar gael ar y ddolen ganlynol - Census 2021 geographies - Office for National Statistics (ons.gov.uk)

Pe bai'r holl ddarpariaeth tai a nodir uchod yn cael ei gwireddu, byddai digon o leoedd o hyd yn adeilad newydd Ysgol Uwchradd Caergybi.

Mae'n bwysig nodi bod rhagamcanion yn anodd gan fod rhai dysgwyr yn mynychu'r ysgolion o ddalgylchoedd eraill.

## 4.4 Gwybodaeth am yr ysgol

**Ysgol Uwchradd Caergybi**

Lleolir Ysgol Uwchradd Caergybi yn nhref Caergybi

Medi 2024 - mae'r tabl isod yn nodi canran y **dysgwyr sy'n teithio o'r tu allan i ddalgylch Ysgol Uwchradd Caergybi** i fynychu'r ysgol:

| Cyfanswm nifer y dysgwyr all-dalgylch | Cyfanswm Poblogaeth yr Ysgol | Dysgwyr all-dalgylch fel % o boblogaeth yr ysgol |
|---|---|---|
| 37 | 826 | 4.5% |

Mae nifer y dysgwyr ym mhob blwyddyn yn yr ysgol fel a ganlyn (Medi 2024):

| Blwyddyn ysgol | 7 | 8 | 9 | 10 | 11 | 12 | 13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol Uwchradd Caergybi | 140 | 157 | 141 | 127 | 159 | 59 | 43 |

**Cyfleusterau a gwasanaethau a ddarperir gan yr ysgol**

Cafwyd manylion am gyfleusterau a gwasanaethau a ddarperir gan yr ysgolion o holiadur a gwblhawyd gan y Pennaeth

**Gweithgareddau ar ôl ysgol ar gael i ddysgwyr yn Ysgol Uwchradd Caergybi**

| Ysgol Uwchradd Caergybi Gweithgaredd | Yn ystod y tymor neu'r gwyliau? | Amlder |
|---|---|---|
| Pêl-droed/Rygbi/Pêl-rwyd | Tymor ysgol | Wythnosol |
| Clwb Gemau | Tymor ysgol | Wythnosol |
| Cymdeithas Ddadlau | Tymor ysgol | Wythnosol |
| Ymarfer côr | Tymor ysgol | Wythnosol |
| Gweithdy drama | Tymor ysgol | Wythnosol |
| Clwb Drama | Tymor ysgol | Wythnosol |
| Pêl-fasged | Tymor ysgol | Wythnosol |
| Clwb Celf | Tymor ysgol | Wythnosol |
| Clwb gwyddoniaeth 'Spells' | Tymor ysgol | Wythnosol |

**Cyfleusterau ysgol yn Ysgol Uwchradd Caergybi a ddefnyddir gan grwpiau lleol:**

| Ysgol Uwchradd Caergybi<br><br>Defnyddiwr a chyfleuster | Yn ystod y tymor neu'r gwyliau? | Amlder |
|---|---|---|
| Clybiau pêl-droed - Campfeydd x2 | Tymor ysgol a gwyliau | Wythnosol |

**Gofal cyn ysgol ac ar ôl ysgol ar gael yn Ysgol Uwchradd Caergybi**

| Ysgol Uwchradd Caergybi | Iaith | Yn annibynnol ar yr ysgol? | Lleoliad y Ddarpariaeth | Amlder |
|---|---|---|---|---|
| Clwb Gwaith Cartref | Cymraeg/Saesneg | Na | Ystafell ddosbarth | Wythnosol |

**Gweithgareddau cymunedol a gynhelir yn lleol ger Ysgol Uwchradd Caergybi**

| Gweithgaredd | Pa mor aml? | Ble? |
|---|---|---|
| Clwb ieuenctid | Wythnosol | Jesse Hughes |
| Clwb Dawns | Wythnosol | Stiwdio ddawns |
| Clwb Gymnasteg | Wythnosol | Canolfan Hamdden |
| Sawl clwb pêl-droed | Wythnosol | Caergybi |
| Majorettes | Wythnosol | Stiwdio ddawns |
| Drama | Misol | |

**Crynodeb**

Mae peth defnydd cymunedol o gyfleusterau Ysgol Uwchradd Caergybi.

**4.5 Pellter ac amser teithio.**
Gan nad yw lleoliad/safle adeilad newydd yr ysgol yn hysbys ar hyn o bryd, efallai y bydd amseroedd teithio ychwanegol i rai dysgwyr a llai o amser teithio i eraill.

Mae gan y Cyngor ddyletswydd i ddarparu cymorth teithio yn unol â Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008. Mae'r Cyngor yn darparu cludiant ysgol am ddim i ddysgwyr ysgol uwchradd amser llawn sy'n byw 3 milltir neu fwy o'r ysgol y maent yn byw yn ei dalgylch (ac eithrio dysgwyr 6ed dosbarth / myfyrwyr addysg bellach).

Gwybodaeth bellach ar gael yn y polisi cludiant ysgol
https://www.ynysmon.llyw.cymru/cy/Trigolion/Ysgolion-a-dysgu/Cludiant-ysgol/Polisi-Cludiant-Ysgol.aspx

**4.6 Yr Effaith ar y Gymuned a Chasgliad**

| | |
|---|---|
| Beth sy'n cael ei asesu? | Y cynnig sy'n cael ei asesu yw: "**Adleoli dysgwyr Ysgol Uwchradd Caergybi i adeilad ysgol newydd ar gyfer dysgwyr 11-18 oed"** |

Er mwyn pennu effaith bosibl y cynnig ar y gymuned, asesir y cynnig yn erbyn y meini prawf yn y tabl isod. Mae ei effaith yn cael ei nodi fel un cadarnhaol os bernir ei fod yn fuddiol, negyddol os bernir ei fod yn niweidiol ac yn niwtral os bernir nad yw'r cynnig yn cael effaith arwyddocaol.

| **Meini prawf** | **Arsylwadau** | **Effaith** Negyddol/ Niwtral/ Cadarnhaol | **Mesurau Lliniaru / Sylwadau Pellach** |
|---|---|---|---|
| Dysgwyr sy'n byw y tu allan i'r dalgylch sy'n mynychu'r ysgol | Mae'r dysgwyr all-dalgylch fel canran o'r boblogaeth ysgol yn 4.5% neu 37 o ddysgwyr o 826. | Niwtral | Disgwylir i'r Cyngor gynllunio darpariaeth ysgolion o amgylch nifer y dysgwyr yn y dalgylch. Mae'n bwysig nodi y gall fod yn anodd rhagamcanu ffigurau'n gywir gan fod rhai dysgwyr yn dewis mynychu ysgolion y tu allan i'w dalgylch.<br>Mae'r cynnig yn mynd i'r afael â'r angen i gael digon o leoedd ysgol ar gyfer dysgwyr presennol ac yn y dyfodol yn Ysgol Uwchradd Caergybi. |
| Gwasanaethau a ddarperir gan yr ysgol ar gyfer y gymuned gan gynnwys gweithgareddau ar ôl ysgol | Mae clybiau pêl-droed lleol yn defnyddio'r 2 gampfa yn yr ysgol.<br><br>Clwb Gwaith Cartref | Niwtral<br><br>Niwtral | Mae'n bosib y gallai clybiau pêl-droed lleol ddefnyddio'r cyfleusterau yn adeilad newydd yr ysgol.<br>Byddai'r Clwb Gwaith Cartref yn symud i leoliad posib yr ysgol newydd. |
| Cyfleusterau cymunedol a | Nid oes caeau chwarae ar safle presennol Ysgol Uwchradd Caergybi. | Cadarnhaol | Os cytunir ar y cynnig gan y Pwyllgor Gwaith, byddai safle'r ysgol newydd posibl yn cael ei ddylunio i gynnwys: |

| Meini prawf | Arsylwadau | Effaith<br>Negyddol/<br>Niwtral/<br>Cadarnhaol | Mesurau Lliniaru / Sylwadau Pellach |
|---|---|---|---|
| ddarperir gan yr ysgol a gweithgareddau a gynhelir ar dir yr ysgol | Mae peth defnydd cymunedol o'r ysgol ar hyn o bryd. | | • caeau chwarae y gellid eu defnyddio gan y gymuned, yn unol â Bwletin Adeiladu 98 neu canllawiau Llywodraeth Cymru sef Canllawiau Arwynebedd ar gyfer Ysgolion yng Nghymru.<br>• rhan fach o'r adeilad ysgol newydd posibl at ddefnydd cymunedol y gellid ei gloi oddi wrth weddill yr ysgol<br>• pwyntiau gwefru ar gyfer ceir trydan?<br>Byddai caeau chwarae a ddefnyddir gan yr ysgol yn Millbank yn parhau i gael eu defnyddio gan y gymuned pe bai'r cynnig yn cael ei gymeradwyo. |
| Effeithiau eraill<br>Cludiant | Gan ddibynnu a yw Pwyllgor Gwaith y Cyngor yn cymeradwyo symud i'r cam ymgynghori statudol a'r posibilrwydd o'i weithredu, efallai y bydd rhaid i rai dysgwyr deithio'n bellach i safle'r ysgol newydd ond efallai na fydd yn rhaid i eraill deithio mor bell. | Niwtral | Byddai dysgwyr yn parhau i dderbyn eu haddysg mewn ysgol o fewn pellter rhesymol i'w cartrefi ac yn derbyn cludiant yn unol â pholisi'r Cyngor ond mae hyn yn golygu peth teithio ychwanegol i rai dysgwyr.<br>Ni fydd angen i eraill deithio i ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg gyfagos mwyach. |
| Cludiant ysgol | Bysiau ysgol yn gorfod teithio trwy dref Caergybi i gyrraedd Ysgol Uwchradd Caergybi. | Cadarnhaol | Os cytunir ar y cynnig gan y Pwyllgor Gwaith, mae'n bosibl y lleolir y safle ysgol newydd posibl ar gyrion Caergybi. Byddai hyn wedyn yn golygu na fyddai'n rhaid i fysiau ysgol deithio trwy dref Caergybi i gyrraedd yr ysgol. |
| Effeithiau eraill<br>Y cyhoedd | | Niwtral | |

**Casgliad – Ar hyn o bryd, cyn i swyddogion gael eu hawdurdodi i gynnal proses ymgynghori statudol ar y cynnig, mae'n ymddangos na fyddai'r cynnig yn cael fawr ddim effaith, os o gwbl, ar y gymuned.**

## 5 CASGLIAD

Aseswyd y cynnig i ddechrau o ran ei effaith bosibl ar:

- Cydraddoldeb a hawliau dynol
- Yr iaith Gymraeg
- Y gymuned.

Mae effaith y cynnig ar bob rhan wedi ei hasesu i ddechrau fel a ganlyn:

| **Effaith gyfunol ar:** | **Effaith debygol ar y cam cynnig:** |
|---|---|
| Cydraddoldeb a hawliau dynol | Nid oes unrhyw botensial hysbys am effaith niweidiol ar hyn o bryd. Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai'n gwella mynediad i adeilad yr ysgol ar gyfer pobl anabl gan y byddai'r adeilad ysgol newydd posibl yn cael ei ddylunio yn unol â'r canllawiau ym Mwletin Adeiladu 98 neu canllawiau Llywodraeth Cymru sef Canllawiau Arwynebedd ar gyfer Ysgolion yng Nghymru. |
| Yr iaith Gymraeg | Ymddengys na fyddai'r cynnig ar hyn o bryd yn cael unrhyw effeithiau niweidiol ar yr Iaith Gymraeg. Os caiff y cynnig ei weithredu'n llawn, bydd Ysgol Uwchradd Caergybi yn ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg pan agorir yr adeilad newydd. |
| Y gymuned | Ar hyn o bryd, cyn i swyddogion gael eu hawdurdodi i gynnal proses ymgynghori statudol ar y cynnig, mae'n ymddangos y byddai'r cynnig yn cael effaith niwtral ar y gymuned. |

**Mae hon yn ddogfen waith a bydd yn cael ei hadolygu'n rheolaidd. Bydd unrhyw effeithiau ychwanegol sy'n deillio o unrhyw ymgynghoriad dilynol y gellir ei gymeradwyo yn cael eu hadlewyrchu mewn fersiwn ddiwygiedig a gyhoeddir fel rhan o'r Adroddiad Ymgynghori maes o law.**

## 6 Gwybodaeth bellach - Cymru Fwy Cyfartal – y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol: Deddf Cydraddoldeb 2010[1] (Dyddiad cychwyn yng Nghymru: 31 Mawrth 2021)

**Beth yw'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol (y Ddyletswydd)?**

Nod cyffredinol y ddyletswydd yw sicrhau gwell canlyniadau i'r rheini sy'n dioddef anfantais economaidd-gymdeithasol. Wrth wneud penderfyniadau strategol megis penderfynu ar flaenoriaethau a gosod amcanion, rhaid rhoi sylw dyledus i'r angen i leihau anghydraddoldebau o ran canlyniadau sy'n gysylltiedig ag anfantais economaidd-gymdeithasol.

**Pwy sydd yn debygol o brofi anfanteision economaidd-gymdeithasol?**

Mae anfantais economaidd-gymdeithasol yn gallu bod yn anghymesur mewn 'cymunedau buddiant' a 'chymunedau lle', gan arwain at ragor o anghydraddoldeb canlyniadau, sy'n gallu bod yn waeth wrth ystyried 'rhyngblethedd':

**Cymunedau buddiant** – grwpiau sydd â phrofiad cyffredin, e.e., bod yn ddigartref; neu bobl sydd â'r un hunaniaeth, e.e., unig rieni, gofalwyr. Hefyd pobl sy'n rhannu un neu fwy o'r nodweddion gwarchodedig a restrir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

**Cymunedau lle** – pobl sy'n gysylltiedig â'i gilydd oherwydd lle maent yn byw, yn gweithio, yn ymweld ag ef neu'n treulio cryn dipyn o'u hamser yno.

**Rhyngblethedd** - yn ei hanfod, mae rhyngblethedd yn ymwneud â deall sut y mae nodweddion fel rhyw, hil neu ddosbarth yn gallu rhyngweithio ac arwain at brofiad ac anfantais unigryw mewn sefyllfa benodol. Ni ellir, ac ni ddylid deall mathau penodol o wahaniaethu ar wahân i'w gilydd. Mae mabwysiadu agwedd wirioneddol ryngblethol yn sicrhau nad yw hynny'n digwydd.

**Pryd fydd y Ddyletswydd yn berthnasol?**

Wrth wneud **penderfyniadau strategol**, mae Canllawiau Statudol Llywodraeth Cymru[2] wedi darparu rhai enghreifftiau o benderfyniadau strategol (nid yw'r rhestr yn gynhwysfawr):

- Cyfeiriad a bwriad strategol
- Strategaethau a ddatblygwyd mewn Byrddau Partneriaethau Rhanbarthol a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus sy'n effeithio ar swyddogaethau cyrff cyhoeddus.
- Cynlluniau tymor canolig i dymor hir (er enghraifft, cynlluniau corfforaethol, cynlluniau darparu a gwella gwasanaethau)
- Pennu amcanion (er enghraifft, amcanion llesiant, amcanion cydraddoldeb, strategaeth y Gymraeg)
- Newid a datblygu gwasanaethau cyhoeddus
- Cynllunio ariannol strategol
- Penderfyniadau ynghylch caffael a chomisiynu
    - Datblygu polisïau strategol.

[1] Wedi'i nodi yn Adrannau 1 i 3 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010
[2] Gweler https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-03/cymru-sy%E2%80%99n-fwy-cyfartal.pdf

## 7 Gwybodaeth bellach - Hawliau Dynol

Hawliau a rhyddid i bob unigolyn yw hawliau dynol, waeth beth yw eu cenedligrwydd na'u dinasyddiaeth. Mae yna 16 o hawliau sylfaenol yn y Ddeddf Hawliau Dynol - i gyd wedi'u cymryd o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. At bwrpas y Ddeddf, fe gyfeirir atynt fel 'Hawliau'r Confensiwn'. Fe'u rhestrir isod:

(Cyflwyniad yw Erthygl 1 – nid yw wedi'i ymgorffori yn y Ddeddf Hawliau Dynol)

Erthygl 2: Yr hawl i fywyd
Erthygl 3: Gwahardd artaith
Erthygl 4: Gwahardd caethwasiaeth a llafur gorfodol
Erthygl 5: Yr hawl i ryddid a diogelwch
Erthygl 6: Yr hawl i dreial teg
Erthygl 7: Dim cosb heb gyfraith
Erthygl 8: Hawl i barch at fywyd preifat a theuluol
Erthygl 9: Rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd
Erthygl 10: Rhyddid mynegiant
Erthygl 11: Rhyddid cymdeithasiad ac ymgynnull
Erthygl 12: Yr hawl i briodi
Erthygl 14: Gwahardd gwahaniaethu
Erthygl 1 o Brotocol 1: Diogelu eiddo
Erthygl 2 o Brotocol 1: Hawl i gael addysg
Erthygl 3 o Brotocol 1: Hawl i etholiadau rhydd
Erthygl 1 o Brotocol 13: Diddymu'r gosb eithaf.

## 8 Gwybodaeth bellach - Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol)

Mae'r Ddeddf hon yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae angen i gyrff cyhoeddus wneud yn siŵr eu bod yn ystyried yr effaith a gaiff eu penderfyniadau ar bobl sy'n byw eu bywydau yng Nghymru yn y dyfodol.

Mae Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol yn diffinio Datblygu Cynaliadwy yng Nghymru fel: *"Y broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy gymryd camau, yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, gyda'r nod o gyflawni'r nodau llesiant."*

Mae'r ddeddf yn pennu saith o nodau llesiant:

**Cymru lewyrchus:**
Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas.

**Cymru gydnerth:**
Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd).

**Cymru iachach:**
Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol.

**Cymru sy'n fwy cyfartal:**
Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd).

**Cymru o gymunedau cydlynus:**
Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da.

**Cymru â diwylliant bywiog le mae'r Gymraeg yn ffynnu:**
Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden.

**Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang:**
Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang.

This page is intentionally left blank